

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

O'r sect i'r enwad datblygiad enwadau ymneilltuol Cymru, 1840-1870.

Tudur, Alan

Award date:
1992

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

O' R SECT I' R ENWAD:
DATBLYGIAD ENWADAU YMNEILLTUOL
CYMRU, 1840 - 1870.

ALUN TUDUR.

Traethawd Ph. D., Prifysgol Cymru, 1992.



Cyflwynedig i Vikki.

Diolch.

Diolchiadau.

Hoffwn ddiolch i'm tad R. Tudur Jones am ei arweiniad a'i gyngor parod wrth baratoi'r traethawd hwn ac i'm mam, Gwenllïan, am ei harnogaeth. Yn yr un modd dymunaf fynegi fy ngwerthfawrogiad i swyddogion ac aelodau Ebeneser, Wreccsam, am ganiatáu i mi dreulio cymaint o amser wrth y gwaith. Ac fe roddaf ddiolch i'm gwraig Vikki am ei hamynedd mawr a'i chefnogaeth brwd dros yr holl flynyddoedd.

O'r Sect I'r Enwad:
Datblygiad Enwadau Ymneilltuol,
Cymru, 1840 - 1870.

Crynodeb.

Yn y traethawd hwn trafodir y newidiadau a ddigwyddodd ym mywyd mewnol ac yn ethos y pedwar corff Ymneilltuol yng Nghymru rhwng 1840 a 1870. Y thesis y ceisir ei ddatblygu yw fod y newidiadau hyn o dipyn i beth wedi eu gweddnewid. Yng nhorff y traethawd fe wneir defnydd o dermau a theorïau'r cymdeithasegwyr sydd wedi astudio crefydd ond nid heb geisio ystyried yn feirniadol i ba raddau y gellir gwneud defnydd dilys ohonynt yng nghyd-destun hanes crefydd yng Nghymru. Ymddengys fod eu diffiniadau o 'sect' ac 'enwad' yn gynorthwyol.

Felly canolbwyntir ar fywyd mewnol y Cyrff crefyddol. Dadansoddir eu hymarweddiad a'u hegwyddorion fel cymdeithasau Cristnogol yn hytrach na'u gweithgareddau allanol, cymdeithasol a gwleidyddol. Gan hynny, yn ystod y drafodaeth, astudir yn ofalus eu hagwedd at eu harwahanrwydd, at y ddisgyblaeth eglwysig, at y 'ddyletswydd deuluaidd', at ymddygiad wrth addoli, at anffurfioldeb, at bregethu, at y Fugeiliaeth, at addysg, at berthynas gyda' chyrff crefyddol eraill, at ddiwygiadau, at gynllun a phensaernïaeth capeli ac at gyfundrefnu.

Wrth dafoli arwyddocâd y cyfnewidiadau, daw'n eglur sut yr oedd y cyrff Ymneilltuol yn eu haddasu eu hunain i gyfarfod her cyfnod cynhyrfus yn hanes Cymru. Daethant o dipyn i beth yn enwadau a deimlai gyfrifoldeb tuag at y byd seciwlar a thuag at y genedl. Bu i'r newid o sectyddiaeth i enwadyddiaeth esgor ar ganlyniadau yr oedd eu dylawad i'w gweld ymhell i'r ugeinfed ganrif. Proses graddol a chymleth oedd hwn yn dylanwadu ar bob agwedd ar fywyd mewnol y Cyrff ond y ddadl yw fod y newid mwyaf arwyddocaol wedi digwydd rhwng 1840 a 1870.

CYNNWYS.

Rhagymadrodd:	1 - 26.
ADRAN 1: <u>Disgyblaeth.</u>	
A. Y Cefndir a'r Cynseilliau.	
Pennod 1. Dwyfol Ysbrydoliaeth.	35 - 42.
Pennod 2. Arwahanrwydd.	43 - 49.
B. Ymddygiad Personol a Moesol.	
Pennod 3. Derbyn Aelodau.	50 - 58.
Pennod 4. Ieuo Anghymarus.	59 - 74.
Pennod 5. Balchder a Pharchusrwydd.	75 - 91.
Pennod 6. Sabathyddiaeth.	92 - 106.
Pennod 7. Manylrwydd.	107 - 119.
ADRAN 2: <u>Y Cartref a'r Capel.</u>	
Pennod 8. Gwerin.	148 - 153.
Pennod 9. Ar yr Aelwyd.	154 - 163.
Pennod 10. Cadw Dyletswydd.	164 - 176.
Pennod 11. Cartrefi ac Addoldai.	177 - 182.
Pennod 12. Anffurfioldeb.	183 - 197.
Pennod 13. Cyfarfodydd a Seiadau.	198 - 214.
Pennod 14. Addoli.	215 - 235.
Pennod 15. Pregethu.	236 - 269.
Pennod 16. Canu Cynulleidfaol.	270 - 283.
ADRAN 3: <u>Addysg a'r Weinidogaeth.</u>	
Pennod 17. Hyfforddi Gweinidogion.	322 - 335.
Pennod 18. Y Fugeiliaeth.	336 - 347.
Pennod 19. Addysg.	348 - 372.
Pennod 20. Perthynas Gyda'r Pabyddion.	373 - 381.
Pennod 21. Perthynas Gydag Eglwys Loegr.	382 - 391.

ADRAN 4: Y Cyfnod Allweddol.

Pennod 22. Safon Derbyn.	409 - 415.
Pennod 23. Anfodlonrwydd ac Amheuan.	416 - 424.
Pennod 24. Dirywiad Disgyblaeth.	425 - 444.
Pennod 25. Cyfarfodydd Atodol.	445 - 455.
Pennod 26. Yr Ysfa Adeiladu.	456 - 464.
Pennod 27. Cyfundrefnu.	465 - 474.
Diwedd glo.	491 - 496.
Llyfryddiaeth	497 - 508.

BYRFODDAU.

- Bywg. Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1840 (1953).
- Cyf. Cyfieithydd.
- DNE. Dictionary of National Biography.
- Gol. Golygydd.
- Gw. Gweler.
- Ibid. Ibidem, yr un un.
- RSI J. Milton Yinger, Religion Society and the Individual, (Efrog Newydd, Macmillan, 1957).
- RSV Elizabeth K. Nottingham, Religion - A Social View, (Efrog Newydd, Random House, 1971).
- SP R. Mehl, The Sociology of Protestantism, (Llundain, SCM Press, 1970).
- PS Bryan R. Wilson, Patterns of Sectarianism, (Llundain, Heinmann, 1967).

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg fe ddatblygodd y Cyrff Ymneilltuol yng Nghymru, yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Methodistiaid Calfinaidd a'r Methodistiaid Wesleyaidd o fod yn gyrff bychain gyda'u diddordeb yn bennaf - os nad yn gyfan gwbl - mewn materion crefyddol ac eglwysig, i fod yn gyrff mawr niferus¹, allblyg a dylanwadol, gyda diddordebau llawer ehangach a gorpwlion lletach. Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oeddent yn canolbwyntio ar bynciau Cristnogol yn unig; erbyn diwedd y ganrif yr oeddent wedi ehangu eu gorpwlion ac yn ymwneud â phob math o bynciau cymdeithasol a gwleidyddol. Bwriad y traethawd hwn fydd olrhain rhai o'r prif ddatblygiadau ymhlith yr Ymneilltuwyr Cymraeg rhwng 1840 a 1870 er mwyn gweld pa fath gyrff crefyddol oeddent. Dewiswyd y blynyddoedd hyn, oherwydd mai yn y cyfnod hwn y gwelwyd y newid mwyaf yn ffurf, ansawdd a threfniadaeth yr Ymneilltuwyr yng Nghymru. Ai yr un math o gyrff oeddent trwy gydol y cyfnod hwn? Ynteu a oedd datblygiad - o fod yn un math o gyrff ar ddechrau'r cyfnod - i fod yn gyrff o nodweddion gwahanol erbyn diwedd y cyfnod? Er hwylustod byddwn yn defnyddio'r geiriau "Cyrff Ymneilltuol" yn y traethawd wrth gyfeirio at y pedwar "enwad", rhag peri dryswch.

Gan fod y defnyddiau a'r ffynonellau sydd ar gael mor doreithiog yn ystod canol y ganrif ddiwethaf, ni ellir edrych ar bob gwedd o fywyd y Cyrff Ymneilltuol. Felly, bydd rhaid dewis a dethol y pynciau sydd fwyaf perthnasol i'r testun dan sylw. Yng nghorff y traethawd byddwn yn ymdrin â bywyd y Cyrff Ymneilltuol, ac yn fwyaf arbennig bywyd mewnol yr eglwysi, beth oedd naws ac ansawdd y bywyd hwnnw, beth oedd y prif nodweddion, eu blaenoriaethau, eu dyheadau, eu trefniadaeth a'u hymarweddiad. Bydd hyn yn ein harwain i nifer o feysydd gwahanol, disgyblaeth eglwysig a moesoldeb, arwahanrwydd, ffurf addoliad, diwinyddiaeth, y weinidogaeth a phregethu, diwygiadau, sefydliadau ategol, datblygiadau o fewn y Cyrff Ymneilltuol a

hefyd y berthynas rhwng y Cyrff Ymneilltuol a'i gilydd. Wrth astudio'r pynciau hyn ceisir olrhain y datblygiadau a'r newidiadau dros y cyfnod gan ddadansoddi pa fath gyrff oeddent. Ni fyddwn yn astudio'n fanwl addysg wladol, yr Ysgol Sul, dirwest, gwleidyddiaeth, ymfudo, llenyddiaeth na datblygiadau diwydiannol y cyfnod, nac ychwaith yr economi na'r Eglwys Anglicanaidd, er hynny byddwn o bryd i'w gilydd yn gwneud cyfeiriadau cyffredinol tuag atynt; ein diddordeb pennaf fydd y bywyd eglwysig.

Er mwyn cael canllawiau pendant i'r traethawd, byddwn yn diffinio datblygiad y Cyrff Ymneilltuol drwy gyfrwng y termau, Sect ac Enwad. Defnyddir y termau hyn mewn dull cwbl neilltuol a diffiniadol. Mae'n bwysig felly cyn mynd gam ymhellach fod gennym syniad clir am ystyron y geiriau hyn fel termau, er mwyn i ni maes o law, eu cymhwyso at y Cyrff Ymneilltuol.

Dros y ganrif ddiwethaf mae nifer o ysgolheigion wedi ymdrin â phwnc diffinio a chategoreiddio carfanau crefyddol, nid yn gymaint o safbwynt crefyddol ond o safbwynt cymdeithasegol. Wrth iddynt ddsrannu'r cyrff crefyddol gwelir eu bod yn rhannu'r mudiadau Cristnogol yn fras yn bum carfan, sef yr Eglwys Gyffredinol, yr Ecclesia, yr Enwad, y Sect a'r Cwlt. Yn fynych yr anhawster gyda'u diffiniadau o'r termau uchod yw eu bod yn benagored ac amrywiol. O ganlyniad anodd yw cael darlun clir o'r hyn a olygant wrth eu defnyddio. Rhaid cofio hefyd wrth ystyried eu damcaniaethau mai cyfeirio y maent ran amlaf at yr ugeinfed ganrif, ac yn fynych iawn at y sefyllfa yn yr Unol Daleithiau. Er mwyn cael darlun cyflawn o'r dosbarthiadau a ddefnyddir ganddynt, fe roddwn yn gyntaf ddiffiniad bras o'r Eglwys Gyffredinol, yr Ecclesia a'r Cwlt.

1. Yr Eglwys Gyffredinol.

Y dosbarth cyntaf ar linyr mesur y cymdeithasegwyr yw'r Eglwys Gyffredinol. Mae'r Eglwys Gyffredinol yn gorff o faintioli mawr, gall fod yn fydeang neu'n genedlaethol, gydag un gyfundrefn ganolog.⁽²⁾ Mae'n llwyddo i ryw raddau i uno'r gymdeithas, ac ar yr un pryd mae'n llwyddo - drwy ei chred a'i gofal - i ddigoni llawer o ofynion personol unigolion ymhob dosbarth o'r gymdeithas yn wrang a bonedd. Ynddi fe gyfunir tueddiadau sectyddol ac eglwysig yn gyfundrefnol ac effeithiol. Pwysleisir cyffredinolrwydd yr Eglwys o fewn i ardal arbennig - h.y. rhan o dir, boed hynny yn genedlaethol neu ryngwladol.⁽³⁾ Ystyrir pob un a enir o fewn yr ardal arbennig honno yn aelodau o'r Eglwys Gyffredinol. Patrwm ffurfiol a thraddodiadol sydd i'w hawdurdod, ac mae'r awdurdod hwnnw yn offeiriadol a chanolog. Trosglwyddir yr awdurdod o'r brig i'r bôn drwy gadwyn o orchmynion a hynny mewn dull hierarchaidd. Fe geir nifer o wahanol arweinwyr ynddi, yr arweinydd fel arfer yn offeiriad yn hytrach na phroffwyd. Mae'r offeiriaid hyn yn swyddogion sydd wedi eu hethol gan yr offeiriadaeth i gyflawni gwaith arbennig. Mae eu prif waith - sef gweinyddu moddion gras sacramentaidd i'w haelodau - yn gyfyngedig a hanfodol.

Nid yw'r eglwys ddelfrydol - yr Eglwys Gyffredinol fydeang - erioed wedi bodoli mewn gwirionedd.⁽⁴⁾ Fe ddaeth yr Eglwys Babyddol yn y drydedd ganrif ar ddeg yn eithaf agos i'r ddelfryd, ond nid oedd hi hyd yn oed yn cynnwys y cyfan o wledydd cred y Gorllewin. Heddiw y mae'r Eglwys Babyddol yn parhau i'w hystyried ei hun fel Eglwys Gyffredinol.

2. Yr Ecclesia.

Yr ail ddosbarth yw'r Ecclesia. ⁽⁵⁾ Howard Becker oedd y cyntaf i ddefnyddio'r term hwn. ⁽⁶⁾ Gosodir yr Ecclesia fel corff sydd rhwng yr Eglwys Gyffredinol a'r Enwad. Fel yr Eglwys Gyffredinol mae'r Ecclesia yn

ymestyn i bob rhan o'r gymdeithas, ac fe geir aelodau ynnddi o bob dosbarth mewn cymdeithas. Ond nid yw'r Ecclesia mor llwyddiannus â'r Eglwys Gyffredinol wrth gynnwys tueddiadau sectyddol. Mae hyn oherwydd ei bod yn gor-bwysleisio rhai prif elfennau gan esgeuluso anghenion rhai aelodau. Fâr hyn i aelodau - yn enwedig yn nosbarth isaf y gymdeithas - deimlo yn anfeddog ac anniddig. Disgrifia Becker yr Ecclesia fel a ganlyn,

"The social structure known as the ecclesia is a predominantly conservative body, not in open conflict with the secular aspects of social life, and professedly universal in its aims.....Members are born into the ecclesia; they do not join it."⁽⁷⁾

Gellir dweud mai ystyr Ecclesia yn ôl Yinger yw Eglwys Gyffredinol sydd yn y broses o ystwytho⁽⁸⁾. Dywed fod rhai eglwysi cenedlaethol yn y garfan hon fel yr Anglicaniaid yn Lloegr, a'r Eglwys Lutheraidd yn yr Almaen.

Corff crefyddol sy'n cydnabod nerth y byd seciwlar yw'r Ecclesia; ac yn hytrach na gwrthod y cyfle i ddylanwadu arno, neu golli ei safle drwy wrthwynebu'r nerthoedd seciwlar, mae yn derbyn prif elfennau'r adeiladwaith cymdeithasol fel rhai da. ⁽⁹⁾ Oherwydd hyn mae wedi ei sylfaenu ar gyfaddawd, mae'n barod i gael ei newid. Nid yw'n gwrthwynebu'r byd nac ychwaith yn encilio oddi wrth y byd. ⁽¹⁰⁾ Cefnogir y pwerau seciwlar sy'n llywodraethu gan yr Ecclesia drwy heddwch a rhyfel. Dywed Ernst Troeltsch⁽¹¹⁾ mai math o gorff crefyddol sydd wedi cyrraedd aeddfedrwydd a sefydlogrwydd yw'r Ecclesia. ⁽¹²⁾

3. Y Cwlt.

Yn drydydd fe gawn y Cwlt. ⁽¹³⁾ Defnyddir y gair Cwlt i olygu'r pethau canlynol; o faintioli bychan, chwilio am brofiad goruwchnaturiol,

diffyg adeiladwaith trefnus a chydag arweinydd charismataidd. Wrth ddefnyddio'r term Cwlt golygir y garfan honno sydd bellaf oddi wrth yr Eglwys Gyffredinol. Mae'r cwlt yn tueddu i fod yn fychan o ran nifer, i ymwahanu yn hawdd, ac yn bur annhebygol o ddatblygu i fod yn Sect Sefydledig⁽¹⁴⁾ neu'n Enwad.⁽¹⁵⁾

Yn y traethawd hwn mae'n diddordeb ni yn bennaf gyda'r ddau ddosbarth sydd yn weddill sef y Sect a'r Enwad, gan y credwn mai yn y dosbarthiadau hyn y gellir gosod Cyrff Ymneilltuol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Awn ymlaen felly i ganolbwyntio ar y dosbarthiadau hyn.

4. Yr Enwad.

Y pedwerydd dosbarth gan y cymdeithasegwyr yw'r Eglwys Ddosbarth⁽¹⁶⁾ neu'r Enwad.⁽¹⁷⁾ Nid yw'r garfan hon mor llwyddiannus â'r Ecclesia i fod yn Eglwys Gyffredinol. Digwydd hyn nid yn unig oherwydd ei fod yn bychanu'r duedd sectyddol i feirniadu ac encilio oddi wrth y drefn gymdeithasol; ond hefyd oherwydd fe'i cyfyngir gan wahaniaethau cymdeithasol, hiliol, ac weithiau derfynau rhanbarthol. Gellir galw Enwad yn Eglwys, yn yr ystyr ei fod mewn cryn gytgord â'r pwerau seciwlar. Ond ychydig o enwadau sydd yn Eglwys "bur", gan fod elfennau sectyddol ymhob un ohonynt, ac mae aelodau ynddi o bob dosbarth yn y gymdeithas. Y rheswm am hyn yw fod llawer iawn o'r enwadau ar y dechrau yn sectau, ac nid ydynt wedi gwahanu'n llwyr oddi wrth eu gwreiddiau.

Dywed Nottingham fod yr Enwad yn gorff eithaf sefydlog, o gryn faint a chymhlethdod, yn derbyn ei aelodau drwy enedigaeth.⁽¹⁸⁾ Fe geir nifer o eglwysi o fewn i ardal arbennig, neu nifer o ardaloedd arbennig. Yn yr Enwad weithiau mae'r awdurdod yn offeiriadol, a thro arall mae'n cael ei ethol gan gynulleidfaoedd lleol. Mae ei offeiriaid a'i weinidogion fel

arfer yn gymhedrol o ran sêl efengylaidd gan gredu eu bod yn bennaf cyfrifol am eu cynulleidfaoedd eu hunain. Nid yw'r Enwad yn cilio oddi wrth, nac yn ymladd yn erbyn, nac yn ceisio rheoli'r byd; yn hytrach mae'n cydweithio gyda'r byd oddi amgylch.

Cred Nottingham fod dau brif math o Enwad. ⁽¹⁹⁾ Yn gyntaf fe gawn yr Enwad a fu yn Sect, ond sydd wedi dofi ac aeddfedu. Yn ail fe gawn yr Enwadau a fu yn eglwysi neu'n rhan o eglwysi, ond sydd wedi gorfod derbyn enwadaeth er mwyn parhau mewn bodolaeth. e.e. yn yr Unol Daleithiau ni chaniateir unrhyw fath o eglwys sefydledig genedlaethol. Trodd Eglwys Anglicanaidd Lloegr ac Eglwys Lutheraidd Sweden yn Enwadau yn yr Unol Daleithiau. Fel esiampl o Sectau a drodd yn Enwadau fe gyfeiria Nottingham at y Methodistiaid a'r Bedyddwyr. Mae'r mwyafrif o Enwadau yn Sectau sydd wedi "aeddfedu", lle mae eu haelodau wedi gwella eu safle gymdeithasol drwy fanteisio ar y cyfle a ddaeth iddynt. Mae Enwad yn ddigon mawr a pharchus i ddynodi safle dosbarth canol. Ac mae'r amrywiaeth sydd o Enwadau, yn diwallu anghenion pobl am hunan-adnabyddiaeth yn ogystal â bod yn arwydd o statws cymdeithasol. Yr oedd enwadaeth i Richard Niebuhr ⁽²⁰⁾ yn

"compromise between Christianity and the world. It is the accommodation of Christianity to the cast-system of human society, along the lines of ethic and economic divisions in the social structure."⁽²¹⁾

Dywed B. Wilson fod i'r Enwad y nodweddion canlynol. Cymdeithas wirfoddol; mae'n derbyn aelodau drwy ddull ffurfiol sefydledig, pwysleisir goddefgarwch; nid oes disgyblaeth lem; mae'n fodlon bod yn un o nifer o gyrff sydd yn dderbyniol yng ngolwg Duw; mae'n derbyn safonau, gwerthoedd a moesoldeb y diwylliant cyffredinol (prevailing); mae'r weinidogaeth yn broffesiynol; cyfyngir ar y cyfraniad a wneir gan yr aelodau lleyg; mae gwasanaethau'n ffurfiol ac nid oes unrhyw fynegiant byrfyfyr ynddynt; mae

llawer o'r gweithgareddau ategol yn ddi-grefydd; nid yw ymroddiad aelodau yn llwyr i'r achos; daw aelodau o bob dosbarth o'r gymdeithas. ⁽²²⁾

5. Y Sect.

Y pumed dosbarth a ddefnyddir gan y cymdeithasegwyr yw Sect. ⁽²³⁾ Ni ddylid ystyried "Sect" fel gair bychanus a gwawdus, fel mae'r arfer ymhlith aelodau Eglwysi Sefydledig ac Enwadau. Eu rhagfarn hwy sydd wedi peri fod ystyr sarhaus i'r gair. ⁽²⁴⁾ I lawer, mae'r gair Sect yn awgrymu rhywbeth ychydig yn israddol, rhyw garfan o benboethiaid crefyddol, sy'n ymddwyn yn anarferol, fel yr awgryma R. Mehl.

"The term 'sect' and especially its related adjective 'sectarian' have a pejorative connotation in popular usage and opinion. Christendom, in its concern for universality and despite its confessional divisions, has always considered the sect to be one of the gravest dangers facing the church. Consequently, the sect is regarded as something bad." ⁽²⁵⁾

Rhaid pwysleisio hefyd nad yw'r gair 'Sect' yng nghyswllt y traethawd hwn yn golygu Sectau Gnosticaidd, term a ddefnyddir gan B. Wilson, ⁽²⁶⁾ a R. Mehl ⁽²⁷⁾ i ddisgrifio sectau sy'n ychwanegu at yr Ysgrythur, drwy honni eu bod wedi cael datguddiad pellach gan Dduw e.e. Tystion Jehofa, Mormoniaid. ⁽²⁸⁾ Oherwydd nid oedd y Cyrff Ymneilltuol yn ychwanegu unrhyw ddatguddiad pellach at yr Ysgrythur, yn hytrach 'roeddent yn derbyn y Beibl fel ag yr oedd fel gair anffaeledig Duw.

Yr hyn sydd yn gwbl amlwg yw fod y diffiniad o'r gair Sect yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau o oes i oes, o wlad i wlad ac o ardal i ardal, fel y dywed Roland Robertson.

"Sectarianism is a relative matter. What from the standpoint of, say, the Anglican Church in the seventeenth century constituted sectarianism was from the point of view of the newly emerging religious movements of Congregationalism or Baptism the correct

and the true Christian perspective. Similarly from the standpoint of the twentieth century Congregationalism or Presbyterianism, fundamentalist holiness movements are sectarian." (29)

Ategir y safbwynt hwn gan R. Mehl, pan ddywed fod cyrff Protestannaidd mewn gwledydd Pabyddol yn cael eu galw'n Sectau, ond mewn gwledydd Protestannaidd fod y sefyllfa o chwith. Gan hynny mae'r diffiniad o Sect yn dibynnu ar yr amgylchiadau." (30)

Yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg 'roedd yr Eglwys Anglicanaidd yn ystyried y Cyrff Ymneilltuol fel "sectau". Os felly, a ellir dweud mai Sect yw lleiafrif crefyddol mewn ardal neu wlad? Carfan fechan o bobl sy'n credu'n wahanol i'r mwyafrif? Gan fod yr Eglwys Anglicanaidd mewn lleiafrif erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a allwn wedyn ei galw hithau'n Sect? Mae R. Mehl yn trafod hyn.

"Could we say, then, that the only objective criterion that would permit us to qualify a religious grouping as a sect would be a purely quantitative criterion, namely, that of numbers? Custom seems to have sanctified this way of looking at the matter: the sect is small, or is it in the minority?" (31)

Mae Mehl yn parhau gyda'i sylwadau gan ddweud fod yn yr Unol Daleithiau nifer o Eglwysi Protestannaidd. Mae nifer eu haelodau'n amrywio'n fawr, o rai degau o filoedd i rai miliynau. Pa le mae'r gwahaniaeth rhwng Eglwys fechan a Sect? Yn ogystal â hyn mae'n rhaid ystyried y cwestiwn o raddau: yn Ewrop mae'r Methodistiaid a'r Bedyddwyr yn aml iawn yn cael eu galw'n Sectau. Ond yn yr Unol Daleithiau lle mae'r carfanau hyn yn cynnwys rhai miliynau o aelodau, ni fuasai neb yn meiddio eu galw'n Sectau. Eto mae'r Methodistiaid a'r Bedyddwyr hyn yn debyg iawn o ran athrawiaeth a threfniadaeth i Fethodistiaid a Bedyddwyr Lloegr. Fe berthynant i'r un garfan fyd-eang. (32)

O'R SECT I'R ENWAD: RHAGYMDRODD.

Fe ymddengys yn amhosibl felly sylfaenu diffiniad o Eglwys a Sect ar ystadegau. Ond oni allwn ystyried y syniad fod Sect yn cael ei rheoli a'i diffinio mewn perthynas â chrefydd y mwyafrif, fod y mwyafrif yn gorfodi'r enw Sect ar y garfan leiafrifol a hefyd yn ei gorfodi i ymddwyn yn sectyddol? Rhaid deall fod y tra awdurdodi hwn (dominyddu) - gan eglwys y mwyafrif - yn digwydd nid yn unig yn grefyddol ond hefyd yn gymdeithasol. Fel y dywed Henri Desroche,

"The classification of a religious group as sect tends to reflect the points of view of a socially dominant religious perspective. Every church recognized as such has been, more or less a sect; and every sect designated as such tends to designate itself as church. Thus the vocabulary tends to develop in relation to historical and social forces." (23)

Term felly yw Sect sy'n cael ei ddefnyddio'n bennaf oll gan Eglwysi Sefydledig i ddisgrifio carfanau sydd wedi ymneilltuo. Ond ar gyfer y traethawd hwn bydd rhaid cael diffiniad mwy pendant o'r gair Sect.

Cyn y gallwn wneud hynny'n effeithiol, mae'n rhaid yn gyntaf edrych ar brif nodweddion y Sect. Y mae nifer o awgrymiadau gwerthfawr gan ysgolheigion cymdeithasegol a all fod o gymorth mawr i ni maes o law ac fe ganolbwyntiwn ar y prif ddamcaniaethau sydd ganddynt wrth ddiffinio Sect.

a. Tarddiad.

Pwynt y dylem ei ystyried gyntaf yw, pa fodd y ffurfir Sect, beth yw tarddiad y corff hwn? Fe rydd y cymdeithasegwyr nifer o resymau ac angylchiadau amrywiol sydd yn cyfrannu at greu Sect. Mae B. Wilson yn sôn am bum rheswm gwahanol.

"1. They may arise when a charismatic figure presents a new teaching, and recruits from any or all other religious movements, and from the population generally.

2. Sects may also begin as a consequence of internal schism within existing sects.
3. They may arise more or less spontaneously by the coming together of a group of 'seekers' who evolve, as a group-experience, new patterns of worship and new statements of belief.
4. They may arise from the attempts to revitalise the beliefs and practices within a major religious movement...
5. Non-denominational revivalism may, as an unintended consequence, bring new sects into being....."⁽³⁴⁾

Ond mae damcaniaeth W. Stark yn wahanol gan ei fod ef yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar ffactorau cymdeithasol allanol. Ei ddamcaniaeth ef yw mai anfodlonrwydd a thensiwn cymdeithasol sy'n esgor ar Sectau.

"The basic tension," meddai, "may lie between national and racial groups; it may lie between geographical regions or towns and country; it may lie between sexes or generations; and it may lie outside the area of sociality properly so called, in purely individual character traits, some personal property or problem which induces a man to shun the altars where his socially and emotionally integrated neighbours worship. Often these factors cut across and complement each other in a complex pattern."⁽³⁵⁾

Yn ôl Stark y tensiwn cymdeithasol hwn sy'n esgor ar sectyddiaeth, yn wir rhesymau cymdeithasol fel tlodi, anghyfiawnder a gormes yw'r prif achosion pam fod sectau'n bodoli.⁽³⁶⁾ (Tuedd Stark yw gorbwysleisio'r cymdeithasegol gan anghoffio'n llwyr fod grymoedd eraill ar waith sy'n dylanwadu ar ymddygiad dyn.) Ond fe ddywed R. Robertson rywbeth ychydig bach yn wahanol.

"Sectarianism within Christianity has been typically directed at a diagnosed failure of existing religions within the immediate social context."⁽³⁷⁾

Pan yw corff crefyddol yn methu â digoni anghenion nifer o'i aelodau, a hynny drwy iddo gyfaddawdu â phwerau seciwlar, drwy ystwythder y drefniadaeth grefyddol, neu drwy anhyblygrwydd athrawiaeth a defodau, pan

yw tueddiadau personol yn newid; yna, pan ddigwydd hyn fe hybir datblygiad sectyddol.⁽³⁸⁾ Mae safbwynt Robertson yma yr un â Wilson yn y pedwerydd pwynt uchod, sef fod Sect yn cael ei ffurfio oherwydd anallu crefydd sefydledig i ddiwallu anghenion ei haelodau. Diffinir Sect gan Yinger fel,

"....a movement in which the primary emphasis is the attempt to satisfy, by religious means, various basic individual needs."⁽³⁹⁾

Yn y fan hon fe ddeuwn yn nes at y gwir, - yn nghyd-destun yr astudiaeth hon - sef nad ymatebiad uniongyrchol i amgylchiadau cymdeithasol yw Sect ond ymatebiad i anghenion unigolion. Fod pobl yn gweld fod yr Eglwys Sefydledig yn gŵyro oddi wrth wirionedd yr Ysgrythur, neu yn cyfaddawdu'n ormodol â'r byd, ac felly'n ymateb drwy geisio dychwelyd at y gwirioneddau dechreuol.

Pan fo'r Eglwys sefydledig yn gŵyro oddi wrth y "gwirionedd" yng ngolwg nifer o'i haelodau, dim ond dau beth y gall yr aelodau hynny ei wneud, un ai ceisio diwygio'r Eglwys sefydledig gan aros o dan ei hadain, neu ymwahanu'n llwyr gan greu cyrff crefyddol newydd.⁽⁴⁰⁾ Fe ddengys Mehl yn glir y gall carfan sectyddol fodoli y tu mewn i Eglwys Sefydledig.

"Inside the churches themselves there are individuals and groups which have a sectarian comportment and sectarian aspirations. All sorts of means are tried in order to realize these aspirations within the church, even at the risk of leaving the church if they do not succeed in their aims."⁽⁴¹⁾

Nid un tarddiad felly sydd i'r Sect ond nifer o darddiadau amrywiol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Gallant darddu o Eglwysi neu Enwadau Sefydledig neu o Sectau sydd eisoes yn bodoli. Mae hyn yn aml yn gwneud y Sect yn gorff sydd yn gwrthwynebu'r grefydd sefydledig.

b. Derbyn Aelodau.

Un gosodiad y mae mwyafrif y cymdeithasegwyr yn gytûn arno, yw hwn gan E. Troeltsch.

"An individual is not born into a sect, he enters it on the basis of conscious conversion." (42)

Ac fe atega Stark hyn gan ddweud,

"A sect, is not a social institution into which one is born, like a State Church or a State, but an association which one must join, to which one must commit oneself...." (43)

Gallwn ddweud yn sicr fod pobl yn cael eu derbyn i rengoedd y Sect yn y modd a awgrymir uchod. Nid ydynt - yn wahanol i'r Eglwys Gyffredinol a'r Ecclesia - yn cael eu geni'n aelodau, rhaid iddynt ymuno yn wirfoddol, wedi iddynt roi prawf digonol i'r arweinyddion eu bod wedi eu hachub, trwy roi tystiolaeth o'u ffydd. A oedd hyn yn nodwedd o'r Cyrff Ymneilltuol ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ynteu a oeddent hwy yn derbyn aelodau trwy ddulliau gwahanol? A newidiodd eu dull o dderbyn aelodau mewn unrhyw fodd, ynteu a oedd eu dulliau yn ddigyfnewid trwy gydol y cyfnod?

c. Safle Cymdeithasol Aelodau.

Nodwedd arall a gysylltir gyda'r Sect yw fod mwyafrif ei haelodaeth yn dyfod o'r dosbarth gweithiol ac mai peth anarferol yw cael aelodau o'r dosbarthiadau uwch mewn cymdeithas. Dywedodd E. Troeltsch,

"Sects thus tend to be connected with the lower classes or at least with those groups in society which are opposed to the state, they work 'upwards from below not downwards from above.'" (44)

Fe gytuna R. Mehl i raddau gan ddweud,

"It is in certain circles of the common people, primarily, that the sects recruit their members. But these circles are only rarely the working-classes properly speaking. Rather, it is a case either of the sub-proletariat or of the middle classes."⁽⁴⁵⁾

Fe ategir y safbwynt hwn eto gan nifer o gymdeithasegwyr, sef mai pobl gyffredin sydd gan fwyaf yn ymaelodi â Sect.⁽⁴⁶⁾ A oedd hyn y wir am y Cyrff Ymneilltuol? Pa ddosbarth o'r gymdeithas oedd yn perthyn iddynt? Uchelwyr, bonedd, dosbarth canol, ynteu'r werin? A oedd cyfuniad o'r dosbarthiadau hyn yn perthyn iddynt? A oedd newid yn y math person oedd yn ymaelodi? Bwriadwn ystyried hyn yn nes ymlaen.

ch. Agosatrwydd.

Cymdeithas glós, agos at ei gilydd yw'r Sect, lle mae pawb yn adnabod ei gilydd. Mae'r aelodau'n ymroi'n llwyr i'w ffydd ac i'r gymuned grefyddol gan ei rhoi o flaen popeth arall. Fel y dywed Stark,

"The sect, in other words, absorbs those who enter it: well-nigh their whole existence is merged with, submerged in, this community. And therefore sects have a tendency to be local face-to-face groupings."⁽⁴⁷⁾

Fe ddywed B. Wilson rywbeth tebyg i Stark,

"At some level the individual member's commitment to the sect must be total..... certain types of behaviour are expected....Fellowship is an important value for all members: fellow-members are 'Brethren'; relationships as far as possible are primary; the local meeting is a face-to-face group."⁽⁴⁸⁾

Yn sgîl hyn byddwn yn gofyn pa mor fawr oedd ymroddiad aelodau'r Cyrff Ymneilltuol i'r bywyd crefyddol ac i'w cymuned Gristnogol? Hefyd beth oedd nodweddion cymdeithas fewnol y Cyrff? A oedd agosatrwydd yn rhan o'u hymarweddiad?

d. Disgyblaeth.

Yn gysylltiedig â'r agosatrwydd hwn sydd yn nodweddu'r Sect mae disgyblaeth. O fewn i'r Sect disgwylir i'r aelodau ufuddhau'n llwyr i'r rheolau gosodedig, boed y rheolau hynny'n athrawiaethol neu'n foesol gan ymddwyn yn unol â gofynion y corff. Fe ddywed Mehl fod y Sect yn llawer mwy parod i ddiarddel aelodau nag ydyw'r Eglwys. (49)

"Not only does the sect discipline or expel members who entertain heretical opinions, or commit a moral misdemeanour, but it regards such defection as betrayal of the cause, unless confession of fault and appeal for forgiveness is forthcoming." (50)

Pwnc diddorol yw disgyblaeth eglwysig, ac fe fyddwn yn ystyried hwn yng nghorff y traethawd. Pa fath ddisgyblaeth oedd yn perthyn i'r Cyrff Ymneilltuol? A newidiodd y ddisgyblaeth yn ystod y cyfnod dan sylw? A oedd y ddisgyblaeth a weinyddid ganddynt yn nodweddiadol o Sect?

dd. Moesoldeb ac Ymarweddiad.

Yn gysylltiedig â'r ddisgyblaeth mae moesoldeb, oherwydd ar sail safon foesol osodedig y mae'r Sect yn disgyblu eu haelodau. Pe na bai safon foesol, ni fuasai'n rhaid disgyblu. Fe rydd y Sect bwyslais mawr ar foesoldeb, gan wrthod safonau moesol "y byd". I'r Sect mae ystyr arbennig i'r gair "byd", sef y bobl a'r gymdeithas sydd y tu allan heb eu hachub. (51) Dywed Stark fod y Sectariad yn ceisio bod yn wahanol i'r "byd", drwy wrthod y moesoldeb sy'n dderbyniol gan eraill. (52) Hefyd fe ddywed fod dau ymateb yn perthyn i'r sectau wrth wrthod moesoldeb "y byd". Un ai fe "alwant am fwy o ddisgyblaeth foesol," neu fe "bwysleisiant ryddid moesol gan anghofio'n llwyr fod moesoldeb yn bodoli." (53) Fe gysyllta Mehl y pwyslais yma ar foesoldeb gyda gwrthwynebiad y Sect tuag at "y byd".

"But the sect is also an anti-world. The moral strictness, the asceticism of the sects, the absolute value given to certain interdictions, (refusal of alcohol, tobacco, dancing etc.) are all quite clear signs of this refusal of the world. The world is evil - thus it is necessary to flee from it." (54)

Dywed B. Wilson fod rhai sectau'n encilio'n llwyr oddi wrth y "byd", gan eu hynysu eu hunain; hynny weithau drwy ymfudo, fel y Mormoniaid yn yr America a dro arall drwy gau eu hunain yn llwyr oddi wrth weddill cymdeithas fel mynaich. (55) Yn ôl Stark mae sectariaid yn ceisio bod yn wahanol i'r "byd" drwy wisgo a siarad a thorri eu gwalltiau mewn ffyrdd arbennig. A oedd gan y Cyrff Ymneilltuol unrhyw nodweddion tebyg i hyn? (56) Fe ddywed Yinger fod tri ymateb yn nodweddu'r Sect wrth ymwneud â'r "byd", fel arfer mae un ohonynt yn fwy blaenllaw na'r lleill.

"A. Acceptance. Middle class sects are likely to accept the social pattern without much challenge....The key difficulties they believe, are lack of faith, selfishness and isolation, not an evil society.

B. Aggression. As we have seen, some lower-class sects express most strongly the problems of poverty and powerlessness. In Christianity, they interpret the teachings of Jesus in radical-ethical terms: His was a program of social reform.

C. Avoidance. If one cannot accept society with type A or have hope of reforming it with type B, one can devalue the significance of this life, project one's hope into the supernatural world, and meanwhile reduce one's problems by forming into a communion of like minded fellows." (57)

Nodwedd arall i'r Sect yn ôl Mehl yw ei bod "yn aml yn genhadol iawn. Ac nad ydynt bob amser yn gwahaniaethu rhwng paganiaid ac aelodau o'r Eglwysi Sefydledig." (58) Felly, nid yn unig mae'r Sect yn gwrthwynebu'r "byd", ond hefyd mae'n gwrthwynebu'r grefydd sefydledig. Hoffwn bwysleisio nad gwrthwynebiad gwleidyddol yw hwn yn bennaf oll fel y dywed W. Stark, ond gwrthwynebiad athrawiaethol. (59) Gall y gwrthwynebiad hwn amrywio o fod yn

chwyrn a chas i fod yn ddim mwy nag anwybyddu'r grefydd sefydledig yn llwyr. Dyma ddywed Mehl,

"Whether or not it is born of a rupture with a church, the sect is qualified first and foremost as an 'anti-church', to use the apt expression of Henri Desroche. Thus we see the sects waging a particularly lively battle against the churches, lumping them all under the same censure and rediscovering over the centuries the same expressions to qualify every church, the great church, the great Babylon, the great prostitute. This anti-ecclesiastical attitude of the sects is manifested in two ways: either they assert the general apostasy of all the churches, or they assert that the churches have long completely disappeared. Thus the sect represents the rebirth of the church, or even its true birth...."«60»

Uchod fe ystyriwyd moesoldeb a gwrthwynebiad y Sect tuag at y "byd" a'r grefydd sefydledig. Yn sgil hyn bydd rhaid trafod a oedd moesoldeb uwch a gwrthwynebiad i'r "byd" yn nodwedd o'r Cyrff Ymneilltuol. Beth oedd eu safonau moesol? Pa fodd yr oedd eu gwrthwynebiad i'r "byd" yn cael ei amlygu? A oedd iddynt ffyrdd neilltuol o ymddwyn, o wisgo neu o siarad? A oedd gwaharddiadau caeth ar yr aelodau? Neu a oeddent yn tueddu i ddianc o'r byd hwn gan bwysleisio'r "byd a ddaw"? Hefyd, byddwn yn ystyried eu hagwedd tuag at y Grefydd Sefydledig?

e. Yr Ysgrythur.

Nodwedd arall llawer o Sectau Cristnogol yw rhoi pwys mawr ar y Beibl, ac ar y datguddiad o Dduw sydd ynddo.

"Yet many sects, far from putting the Bible aside, are characterized by a very marked fundamentalism....Direct contact with God is guaranteed by the fact that each word of the Scripture is the word of God without human intermediary and that each letter and each mark is traced by the very hand of God."«61»

Dyma beth ddywed R. Mehl wrth gyfeirio at rai Sectau. Wrth sôn am Sect Tröedigaeth (Conversionist Sect) fe ddywed B. Wilson rywbeth digon tebyg.

"It is typified by extreme bibliolatry: the Bible is taken as the only guide to salvation, and is accepted as literally true." (62)

Beth oedd agwedd y Cyrff Ymneilltuol tuag at y Beibl? A oeddent yn credu fod pob gair o'r Ysgrythur yn llythrennol wir ac yn ei weld fel yr unig arweiniad tuag at iachawdwriaeth? A oedd eu hagwedd at y Beibl yn gyson neu a fu newid?

f. Addoliad a Threfniadaeth.

O ran addoliad a threfniadaeth nodweddir y Sect gan ryddid ac anffurfioldeb mawr. Tuedda'r aelodau i wrthwynebu defodaeth a ffurfioldeb sych mewn oedfaon gan ymroi i addoli'n rhydd ac anffurfiol.

"...the sectarian attempt at renewal," medd Mehl, "will bear on the structure of worship. It will manifest itself in an anti-liturgicalism, to the degree at least that the liturgy claims to give a fixed, objective aspect to worship, and to the degree that personal feelings of the present moment are unceasingly controlled and limited in their expression. The sectarian worship, on the contrary, is characterized by a very great freedom of form and by the large place given to subjectivity. Sectarial worship is particularly remarkable for the warm atmosphere of emotion and fellowship in which it unfolds, and for the enthusiasm that it engenders. Moreover, all barriers between clergy and laity are abolished...." (63)

Mae'r diffyg trefniadaeth hwn yn nodwedd amlwg o Sect. Os felly a oedd hyn yn wir am y Cyrff Ymneilltuol? Bydd hwn yn bwnc pwysig yn y traethawd wrth i ni edrych ar fywyd mewnol y Cyrff. Beth oedd nodweddion eu haddoliad a'u cyfarfodydd? Ym mha fodd yr oeddent yn ymddwyn yn y

cyfarfodydd eglwysig a'r seiadau ac yn eu cartrefi? Pa drefniadaeth oedd ganddynt, ac a ddatblygodd hyn yn ystod y ganrif?

ff. Parhad a Datblygiad.

Pwynt fydd yn bwysig i ni yn ein trafodaeth yw am ba hyd y mae Sect yn parhau, a sut mae'n datblygu dros dreigl amser? Fe ddywed E. Troeltsch mai dim ond am un genhedlaeth y mae Sect yn parhau, a chyda dyfodiad yr ail genhedlaeth fod y Sect yn peidio â bod. ⁽⁶⁴⁾ Tuedda W. Stark i gytuno ag ef i raddau, gan ddweud,

"Sectarian attitudes do not, as a rule, fade and fail until years, perhaps decades of live sectarianism have come and gone; the germ of death lies in the very act of birth." ⁽⁶⁵⁾

Ar yr un pryd fe gytuna W. Stark gyda B. Wilson ⁽⁶⁶⁾ a R. Mehl ⁽⁶⁷⁾ gan ddweud,

"A sect... 'can sometimes preserve the distinctive features of its protest, and transmit them from one generation to another.' There is no need to speak of denomination. If a group continues to support rigid barriers of membership and remains exclusive and typically radical or reactionary, it appears useful to continue to designate it a sect. e.g. Elim Foursquare Gospel Church." ⁽⁶⁸⁾

Ategir hyn gan R. Mehl a B. Wilson, ond fôd eu pwyslais hwy'n wahanol. Dywed Mehl fod "y sect sy'n aros yn fewnblyg gan fodloni ar fod yn ynysig, yn parhau i fod yn sect." ⁽⁶⁹⁾ Ond barn B. Wilson, yw fôd rhai Sectau'n troi'n Enwadau neu'n Eglwysi erbyn yr ail genhedlaeth, ond na ddylid ar unrhyw gyfrif gymryd y duedd hon fel rheol. Y rheswm am hyn yn ei dyb ef yw fod nifer o gyrff crefyddol sy'n bodoli 'nawr wedi llwyddo i gadw nodweddion y Sect dros nifer o genedlaethau. ⁽⁷⁰⁾

Yn gyffredinol mae'r cymdeithasegwyr yn gytŷn fod yn rhaid i gorff sectaraidd er mwyn parhau'n Sect am fwy nag un genhedlaeth, ei ynysu ei hun rhag "y byd" a'i safonau gan gadw prif nodweddion ei brotest a'i ddisgyblaeth gan osgoi materoliaeth, trefniadaeth a gweinidogaeth broffesiynol. Fel y dywed R. Mehl,

"When a sect opens itself to a worldly task, it destroys itself as a sect." '71'

A dyma farn B. Wilson.

"The relationship which a sect permits itself and its members to the external world is of vital importance to the nature of its continuance.....the sect is committed to keeping itself 'unspotted from the world'.....to this end there are two principal types of mechanism, isolation and insulation." '72'

Ambell dro fe gyfyd rhyw fath o dyndra rhwng y syniad y dylid cadw oddi wrth y byd, a'r gorchymyn i fynd allan a phregethu'r Efengyl. Oherwydd mae efengylu o reidrwydd yn golygu dyfod i gysylltiad a'r byd. Dywed B. Wilson,

"The recruitment of the second generation is also an aspect of evangelism....It is oversimplification to say, however, that the second generation makes the sect into a denomination.....such developments depends on the standards of admission imposed by the sect, the previous rigour with which children have been kept separate from the world, and on the point at which a balance is struck between the natural desire of parents to have their children included in salvation and their awareness of the community view that any sort of salvation depends on the maintenance of doctrinal and moral standards." '73'

Ac nid yn unig mae'n rhaid i'r Sect gadw oddi wrth "y byd", mae'n rhaid iddi hefyd wrthod safonau'r byd. Dadleua B. Wilson y pwynt hwn gan ddweud fod rhaid i'r Sect os am barhau felly gadw'r gwahaniaeth sydd rhwng ei gwerthoedd hi a gwerthoedd y "byd" a chadw arwahanrwydd rhwng ei haelodau ac anghredinwyr. Ni ddylai ei haelodau ar unrhyw gyfrif dderbyn

safonau na gwerthoedd y "status quo".⁽⁷⁴⁾ Un o'r pethau sydd yn gwanychu ffurf y Sect gan beri datblygiad tuag at enwadaeth yw materoliaeth a derbyn safonau'r "byd". Mae Stark yn ysgrifennu'n gryf ar y pwnc hwn gan ddweud fod,

"the upward movement of sectarians in the scale of prosperity, and their correlated downward movement in the scale of rebelliousness, is so general that it may justly be called a mass phenomenon.....There is something in sectarianism itself which leads - via wordly success - to the decay of sectarianism." ⁽⁷⁵⁾

Ac fe â yn ei flaen gan ddyfynnu'r geiriau hyn gan John Wesley.

"Wherever riches have increased the essence of religion, the mind that was in Christ, has decreased in the same proportion.....religion must necessarily produce both industry and frugality; and these cannot but produce riches. But as these riches increase, so will pride, anger, and love of the world in all its branches." ⁽⁷⁶⁾

Awgrymodd R. Niebuhr yr un peth, drwy fod bywyd disgybledig y Sect a'r pwyslais ar ddarbodaeth o reidrwydd yn peri cynnydd mewn cyfoeth. O ganlyniad mae'n anos atal yr aelodau rhag cyfaddawdu fwy fwy gyda'r "byd".⁽⁷⁷⁾ Mae'n amlwg fod materoliaeth yn broblem i Sectau, yn yr ystyr ei bod yn peri iddynt ddatblygu tuag at enwadaeth. Oherwydd eu bod yn frwdfrydig, onest a gweithgar ni allant lai na chynyddu mewn cyfoeth. A chan fod ganddynt arian wrth gefn gallant fforddio dillad ac addoldai rhagorach ynghyd â chyflogi arweinwyr. Mae Stark wedi sylwi'n fanwl ar y datblygiad hwn..

"As poverty recedes and well-being progresses, there arises a very understandable desire to exchange the dank and dark cellar or the dingy store in which the group has at first worshipped for some more dignified, or at any rate more suitable premises. And when these premises are acquired, there follows the no less understandable desire to beautify them. The same onset of a more

aesthetic attitude can be observed in the services themselves: with a better shell comes a hunger for a better kernel. The simple, often all too simple style of the lay-preacher is no longer satisfactory or acceptable: there springs up a taste for more sophisticated sermons, and this presupposes a trained predicant and, ultimately, as a secondary development, the formation of training institutions. Thus bureaucratization of the group.....destroys yet another feature of the sect, its hostility to learning, its belief in supremacy of the innocent, child-like mind. A sectarian with a B.Theol. is no less of a contradiction in terms than a sectarian with a large bank account: both will regularly be denominational in out-look, or have a tendency to drift, and to drive their fellows, into denominationalism. Nor can the sectarian spirit be expected to flourish or to survive in a grand palace. "(78)"

Unwaith eto bydd rhaid gofyn y cwestiwn a welir unrhyw ddatblygiadau tebyg i hyn ymhlith y Cyrff Ymneilltuol? A welir cyfoeth yn cynyddu a symudiad graddol o symlrwydd cyffredin tuag at fateroliaeth, addysg, balchder a pharchusrwydd?

g. Y Fugeiliaeth.

Yn ôl B.Wilson un o'r pethau nodweddiadol yn y datblygiad i fod yn Enwad yw ymddangosiad dosbarth proffesiynol o weinidogion, meddai,

"Once the concept of special training of such leaders is admitted, then a step to denominationalism has been taken. Training implies lack of parity between leaders and members, it compromises the radical democracy of the sect and the ideal of the priesthood of believers. Spontaneity disappears, and leaders employ the status symbols of their profession, seeking equal esteem with the pastors of other movements." (79)

Cŵyn W.Stark yw fod y dosbarth hwn o weinidogion yn rhoi trefn ar yr hyn a fu yn anhrefnus. Wrth i ysgolheigion fod wrth y llyw collir llawer o'r nodweddion byrfyfyr ac fe ddaw trefnusrwydd, biwrocratiaeth a ffurfioldeb i mewn a all arwain maes o law at enwadaeth. (80) Ond a yw'r ddamcaniaeth hon yn wir yng nghyswllt Cymry'r bedwaredd ganrif ar bymtheg?

A newidiodd y fugeiliaeth lawn amser ansawdd a chyfeiriad y Cyrff Ymneilltuol? Ynteu ai datblygiad y Cyrff Ymneilltuol newidiodd ansawdd y fugeiliaeth? A ddilewyd naturioldeb cyffredin y Cyrff gyda dyfodiad gweinidogaeth lawn amser? A roddwyd trefn ar weithgareddau'r Cyrff drwy ddylanwad y weinidogaeth?

ng. Rhwng y Sect a'r Enwad.

Yn gyffredinol mae'r cymdeithasegwyr yn cytuno fod y mwyafrif o Sectau'n datblygu dros gyfnod o amser i fod yn Enwadau. Ond fe ymddengys fod gris arall yn y datblygiad o fod yn Sect i fod yn Enwad. Hynny yw, fod math o gorff yn bodoli rhwng y ddau. Wrth ddiffinio'r math yma o gorff mae R. Mehl yn defnyddio'r term "Eglwys Leiafrifol". ^(e1)

Yn ôl Mehl mae'r Eglwys Leiafrifol yn tarddu'n uniongyrchol o Eglwys Sefydledig, gan ddatblygu tuag at fod yn Sect - gall mewn rhai achosion droi'n Sect - ond nid yw'r datblygiad hwn yn anochel, i'r graddau fod y garfan yn cadw cysylltiad gyda'r gymuned fwy. Gall Eglwys leiafrifol fodoli fel carfan fechan o fewn i Eglwys Sefydledig. Mae'r Eglwys Leiafrifol yn ystyried y gymuned fyd-eang - y mae'n ysbrydol gysylltiedig â hi - fel grwp cyfeiriol (reference group), lle mae ei nerth a'i hollgyffredinolrwydd yn cynorthwyo'r Eglwys Leiafrifol rhag troi'n Sect, rhag teimlo fel Sect a rhag ymddwyn fel Sect. ^(e2)

Yn aml fe gondemnrir yr Eglwys Sefydledig gan yr Eglwys Leiafrifol gan ddweud ei bod yn rhy hierarchaidd, yn fydol, sefydledig ac yn gaeth i'w chysylltiadau gyda'r gymdeithas o'i hamgylch. Mewn gair fe'i hystyrir fel eglwys sydd wedi ei seciwlareiddio. Yn fynych nid oes fawr o wahaniaeth athrawiaethol rhyngddynt, ambell dro maent yn cadw at yr un gyffes ffydd.

Ymddengys yr Eglwys Sefydledig i'r Eglwys Lelafrifol fel eglwys lugoer a marwaidd. Pan nad oes fawr o wahaniaeth athrawiaethol rhyngddynt, condemnir yr Eglwys Sefydledig fel ffug eglwys, fel y Butain Fawr.

Mae natur gymunedol a theuluol y lleiafrifoedd crefyddol, pan nad ydynt yn rhy wasgaredig yn bur ryfeddol. Mae'r aelodau i gyd yn adnabod ei gilydd, yn cynorthwyo ei gilydd ac yn croesawu newydd ddyfodiaid gan geisio eu gwneud yn gartrefol. Eto nid yw pob un yn cael ei dderbyn i'r gymdeithas oherwydd mae'n rhaid dangos arwyddion o dröedigaeth. Un o nodweddion arall yr Eglwys Lelafrifol - oherwydd ei bod yn dilorni'r gymdeithas seciwlar, ac yn credu fod yr Eglwys Sefydledig wedi ei seciwlareiddio - yw ei bod yn ceisio bod yn hunangynhaliol drwy greu ei hysgolion, ysbytai a'i gwasanaethau cymdeithasol ei hun.

Term arall a all fod yn ddefnyddiol yn yr astudiaeth hon yw'r term a ddefnyddir gan J. Milton Yinger sef Sect Sefydledig. Dywed Yinger,

"The small, uncompromising religious groups that we have described as sects are, by their very nature, unstable. Either the group disintegrates when the members die, or it has been molded into a more formal structure with techniques for admitting new members and preserving their common interest. Methodism has evolved into a denomination, as we have defined it, while Quakerism has developed into an established sect." (e3)

Yn ôl damcaniaeth Yinger, y Sectau hynny sy'n tueddu i droi'n Enwadau, yw'r Sectau a oedd ar y cychwyn yn pwysleisio problemau pechod a gofid personol, gan geisio lleddfu dryswch ac euogrwydd unigolion. Ar y llaw arall mae'r Sectau hynny sy'n troi'n Sectau Sefydledig ar y dechrau'n pwysleisio pechod cymdeithasol. Mae Sectau fel hyn yn ceisio cyfiawnder a diwygiad cymdeithasol. (e4)

Mae'n amlwg felly fod rhai o'r ysgolheigion hyn yn gweld fod corff crefyddol - mewn rhai amgylchiadau neilltuol - yn bodoli rhwng y Sect a'r enwad. Tybed a welir datblygiad tebyg i hyn wrth edrych ar fywyd Cyrff Ymneilltuol Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg? Ai Sectau Sefydledig oeddent hwy ynteu a oeddent yn y broses o droi'n enwadau?

Gall y termau a'r damcaniaethau uchod fod o gymorth i ni wrth fwrw golwg ar ddatblygiad yr Ymneilltuwyr. Rhan amlaf byddwn yn edrych ar yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Methodistiaid Calfinaidd a'r Methodistiaid Wesleyaidd fel un Corff. Er fod gwahaniaethau amlwg i'w gweld rhyngddynt, yn enwedig o ran cyfundrefnau a tharddiad, ni fydd gofod yn caniatáu dadansoddi'n fanwl y gwahaniaethau rhwng y Cyrff Ymneilltuol a'i gilydd.

h. Diffiniad.

Cwestiwn y bydd rhaid i ni ei ofyn fydd, a ydyw y damcaniaethau hyn yn dal dŵr yn wyneb y dystiolaeth yng Nghymru? Wedi bwrw golwg fras fel hyn ar yr holl ddamcaniaethau a'r ffeithiau ynglŷn â Sectau, da o beth fyddai i ni yn awr roi diffiniad o beth yw Sect yng nghyd-destun y traethawd hwn. Cyn gwneud hynny, fe roddwn ddau ddiffiniad o Sect, y cyntaf gan B. Wilson a'r ail gan E. Troeltsch.

"Typically a sect may be identified by the following characteristics: it is a voluntary association; membership is by proof to the sect authorities of some claim to personal merit - such as knowledge of doctrine, affirmation of a conversion experience, or recommendation of members in good standing; exclusiveness is emphasised and expulsion exercised against those who contravene doctrinal, moral or organisational precepts; its self-conception is of an elect, a gathered remnant, possessing special enlightenment; personal perfection is the expected standard of aspiration, in whatever terms this is judged; it accepts at least as an ideal, the priesthood of all believers; there is a high level of lay participation; there is opportunity for the member spontaneously to express his commitment; the sect

is hostile or indifferent to the secular society and to the state. (85)

"Lay Christianity, personal achievement in ethics and religion, the radical fellowship of love, religious equality and brotherly love, indifference towards the authority of the state and the ruling classes, dislike of technical law and of the oath, separation of the religious life from the economic struggle by means of the ideal of poverty and frugality, or occasionally in a charity which becomes communism, the directness of the personal religious relationship, criticism of official spiritual guides and theologians, the appeal to the New Testament and to the 'Primitive church'" (86)

Wrth ystyried y gosodiadau uchod, fe ddiffiniwn Sect fel a ganlyn:- Cymdeithas wirfoddol, lle mae pobl yn dyfod yn aelodau ar sail prawf o dröedigaeth i'r bobl sydd eisoes yn aelodau. Craidd y Sect yw'r werin. Derbyniant yr Ysgrythur yn gwbl llythrennol, fel Gair anffaeledig Duw. Mae'n gymdeithas o gydraddoldeb crefyddol lle mae pob unigolyn ar yr un gwastad yng ngolwg ei gilydd ac yn ngolwg Duw, ac mewn perthynas uniongyrchol bersonol ag Ef. Cylch clôs ac "agos atoch" ydyw, lle mae pawb yn adnabod ei gilydd. Mae'r aelodau'n ymroi'n llwyr i Dduw, gan ei osod Ef a bywyd mewnol y gymuned Gristnogol o flaen pawb a phopeth arall. Gweithredant ddisgyblaeth lem ar sail yr Ysgrythur, gan ddiarddel aelodau cyfeilliornus. Eu nod yw ufuddhau i Dduw, yng ngoleuni'r Ysgrythur a than arweiniad y Ysbryd Glân. Nodweddir eu haddoliad gan ryddid, lle mae cyfle i bob unigolyn fynegi'n ddigymell ei brofiadau personol. Gwrthwynebant yr Eglwys Sefydledig ar sail athrawiaeth a'r "byd" ar sail yr Ysgrythur. Mae hefyd yn gymdeithas genhadol, sy'n codi ei harweinwyr a'i gweinidogion o'i rhengoedd ei hunan.

Fe gadwn mewn cof yr holl ddamcaniaethau uchod gan y cymdeithasegwyr am y Sect a'r Enwad, ac wrth fwrw ati i astudio datblygiad y Cyrff Ymneilltuol fe welwn y byddant o gymorth.

1. Isod fe geir ystadegau bras yn dangos twf y Cyrff Ymailltuol yn ystod y ganrif, Annibynwyr: Ym 1800 nid oedd nifer yr eglwys Annibynnol yng Nghymru yn llawn 200. Gw., J.M.Jones (gol.), Trem ar y Ganrif, (Dolgellau, 1902), Erbyn y cyfrifiad 1851 'roedd 710 o addoldai gan yr Annibynwyr, a 96,546 o addolwyr yn oedfa'r hwyr, (Gw., Ieuan Gwynedd Jones, Cyfrifiad Cyffredinol 1851.) Erbyn 1861 'roedd ganddynt 761 o addoldai, 390 o weinidogion, 431 o bregethwyr cynorthwyol, 97,647 o aelodau eglwysig, 88,765 o aelodau yn yr ysgolion Sul a 104,351 o wrandawyr, Gw., Thomas Rees, History of Protestant Nonconformity in Wales, (dau argraffiad, 1861 a Llundain, 1883), 450. Erbyn 1882 'roedd ychwanegiadau eto, 1,083 o addoldai, 580 o weinidogion, 298 o bregethwyr cynorthwyol, 120,653 o aelodau eglwysig, 118,737 o aelodau yn yr ysgolion Sul a 276,201 o aelodau a gwrandawyr, Gw., Thomas Rees, History of Protestant Nonconformity in Wales, 461. Erbyn 1890 'roedd nifer yr eglwys yn 997 gyda 176 o ganghennau, nifer yr aelodau yn 130,112, nifer aelodau'r ysgolion Sul yn 131,418 a nifer y gwrandawyr yn 156,049, Gw., Thomas Rees & John Thomas, Hanas Eglwys Annibynnol Cymru, (Lerpwl, 1891), 529. R.Tudur Jones, Ffydd ac Argyfwng Cenedl, (Abertawe, 1981), cyfrol 1, 48.

Bedyddwyr: Ym 1800 'roedd oddeutu 9,000 o aelodau gan y Bedyddwyr, Ym 1810 'roedd 14,660; ym 1820 'roedd 21,499; ym 1830 'roedd 33,184, Gw., T.M.Bassett, Bedyddwyr Cymru, (Abertawe, Tŷ Ilston, 1977), 199. Yn ôl Cyfrifiad 1851 'roedd gan y Bedyddwyr 511 o addoldai a 83,322 yn addoli yn oedfa'r hwyr, Yn ail hanner y ganrif fe barhaodd yr aelodaeth i dyfu, 57,411 ym 1860; 61,998 ym 1870; 80,850 ym 1880 a 93,652 ym 1890, Gw., T.M.Bassett, Bedyddwyr Cymru, (Abertawe, Tŷ Ilston, 1977), 220. R.Tudur Jones, Ffydd ac Argyfwng Cenedl, (Abertawe, 1981), cyfrol 1, 48.

Methodistiaid Calfinaidd: Ym 1823 'roedd gan y Methodistiaid Calfinaidd 437 o addoldai, 56 o weinidogion, 221 o bregethwyr a 1,151 o hanuriaid, Gw., J.M.Jones (gol.), Trem ar y Ganrif, (Dolgellau, 1902), 125. Yn ôl cyfrifiad 1851, 'roedd ganddynt 807 o addoldai a 120,736 o addolwyr yn oedfa'r hwyr, Gw., Ieuan Gwynedd Jones, Cyfrifiad Cyffredinol 1851. Ym 1861 'roedd 937 o addoldai, 296 o weinidogion, 254 o bregethwyr lleyg, 90,560 o aelodau a 174,668 o wrandawyr, Gw., Thomas Rees, History of Protestant Nonconformity in Wales, 451. Erbyn 1882 'roedd ganddynt 1343 o addoldai, 610 o weinidogion, 371 o bregethwyr lleyg, 119,355 o aelodau a 274,605 o wrandawyr, Ibid., 462. R.Tudur Jones, Ffydd ac Argyfwng Cenedl, (Abertawe, 1981), cyfrol 1, 49.

Methodistiaid Wesleyaidd: Ym 1800 'roedd gan y Wesleyaidd 45 o aelodau yng Nghymru, un gylchdaith a dau bregethwr, Ym 1810 'roedd 5,645 o aelodau; 1820 'roedd 5,368; ym 1830 'roedd 8,515; ym 1840 'roedd 11,926 ym 1850 'roedd 12,305 ac ym 1858 'roedd 11,839, Gw., A.H.Williams, Welsh Wesleyan Methodism, 1800-58, (Llyfrfa'r Methodistiaid, Bangor, 1935), 166. Yn ôl cyfrifiad 1851 'roedd ganddynt 499 o addoldai a 53,730 o addolwyr yn oedfa'r hwyr, Gw., Ieuan Gwynedd Jones, Cyfrifiad Cyffredinol 1851. R.Tudur Jones, Ffydd ac Argyfwng Cenedl, (Abertawe, 1981), cyfrol 1, 49.

Yr Eglwys Gyffredinol, (t. 3).

2. RSL 148.
3. RSV 230.
4. Ibid., 231.

Yr Ecclesia, (t. 3-4).

5. O'r Groeg Ekklesia, (Ystyr lythrennol - galw allan) golyga cynulliad, cynulleidfa, cynulliad o Gristnogion mewn dinas neu ardal Lexicon to The Greek New Testament.
Am Eglwys/Ecclesia gw., RSL, 144,148, RSV, 230, RSL, 416. International Encyclopaedia of the Social Sciences, 130-35, SP, 41. Andrew Walker Restoring the Kingdom, (Hodder and Stoughton 1995), 204. E.Aeron Jones, Enwadaeth Gristnogol, Adroddiad Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 1893, 351-366.
6. RSL, 148.
7. Ibid., 149.
8. Ibid., 149.
9. Ibid., 144, SP, 231.
10. RSV, 230.
11. Ernst Troeltsch, (1865 - 1923), Almaenwr o ran cenedl, yr oedd yn athronydd a hanesydd crefyddol, Ysgrifennodd nifer o lyfrau gan gynnwys, The Absoluteness of Christianity. Ceir llyfr am ei syniadaeth gan Benjamin A. Reist sef Towards a Theology of Involvement: The Thought of Ernst Troeltsch, 1966. Dictionary of Christian Theology, 351.
12. RSV, 228.

Y Cwlt, (t. 4-5).

13. Dictionary of Christian Theology, 83.
14. RSL, 150. International Encyclopedia of The Social Sciences, 130-35.
15. RSL, 153, RSV, 232.
Am Cwlt gw., Maurice C.Burrell, The Challenge of the Cults, (Llundain, 1983). J.Oswald Sanders, Cults and Isms, (Basingstoke, 1986). Atkins, Gaius Glenn, Modern Religious Cults and Movements, (Efrog Newydd, 1923), Anthony Hoekema, The Four Major Cults, (Michigan, 1963), Richard Mathison, Faiths, Cults and Sects of America, From Atheism to Zen, (Efrog Newydd, 1960), Horton Davies, Christian Deviations, (Gateshead, 1954), Maurice C.Burrell a J.Stafford Wright, Some Modern Faiths (Leicester, 1983), J.K.Van Baalen, The Chaos of the Cults, (Michigan, 1938), George E. Simpson, 'Jamaican Revivalist Cults', Social and Economic Studies, Rhagfyr, 1956.

Yr Enwad, (t. 5-7).

16. RSL, 148.
Am Eglwys Ddosbarth gw., sylwadau gan R.Mehl ar yr Eglwys Leiafrifol yn SP, 257.
17. RSL, 148.
18. RSV, 231.
19. Ibid., 232-234.

- 20, H. Richard Niebuhr, (1894 - 1962), Diwinydd Americanaidd a anwyd yn Missouri. Yr oedd yn frawd i'r enwog Reinhold Niebuhr. Bu'n Athro Diwinyddiaeth a Moes yng Ngholeg Sterling. Ysgrifennodd nifer o lyfrau gan gynnwys, The Social Sources of Denominationalism, (1929), Christ and Culture, (1951), The Meaning of Revelation (1941). Gw., Dictionary of Christian Theology, 230.
- 21, Roland Robertson, The Social Interpretation of Religion, (Oxford, Blackwell 1970), 118.
- 22, PS, 25, yma ceir diffiniad gan B. Wilson o brif nodweddion Enwad. Am Enwad gw., Roland Robertson, The Social Interpretation of Religion, (Oxford, Blackwell 1970), 79, 118. RSV, 228-235, 237, 242-244. RSL, 128, 131, 142, 274-5, 289-92, 436-7, 444-5, 469-70, 483. Richard Niebuhr, The Social Sources of Denominationalism, (Meridian, Efrog Newydd, 1957), Werner Stark, The Sociology of Religion, (Llundain, 1966), cyfrol 2, 301. SP, 247. B.G. Webb (gol.), Christians in Society, (Homebush West, Awstralia, 1988), David Broughton Knox, 'Denomination and Society', 97-112.
- Y Sect, (t. 7-26).
- 23, Am Sect gw., Roland Robertson, The Social Interpretation of Religion, (Oxford, Blackwell 1970), 119. RSV, 231. RSL, 150-53, 416-80. PS, 14-18, 22-44. SP, Rhagarweiniad xii, 221-256. International Encyclopaedia of the Social Sciences, 130-35. Werner Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), (Cyfrol 2), 1-300. Andrew Walker, Restoring the Kingdom, (Hodder and Stoughton, 1985), 204-210. Bryan Wilson, Religious Sects, (Widenfeld + Nicolson, 1970). Michael Hill, A Sociology of Religion, (Heinemann Educational Book, 1973). H. Richard Niebuhr, The Social Sources of Denominationalism, (Meridian, Efrog Newydd, 1957). American Sociological Review, 1963, B. Johnson, 'On Church and Sect', 542. Social Forces, Mai 30, 1952, E.D.C. Brewer, 'Sect and Church in Methodism', 400-8.
- 24, Andrew Walker, Restoring the Kingdom, (Hodder and Stoughton, 1985), 204.
- 25, SP, 221.
- 26, PS, 26, "The Gnostic sects accept in large measure the world's goals but seek esoteric means to achieve these ends - a wishful mysticism."
- 27, SP, 236.
- 28, Am Tystion Jehofa gw., Maurice C. Burrrell & J. Stafford Wright, Some Modern Faiths, (IVP, 1983), 18-40. J. Oswald Sanders, Cults and Isms, (Lakeland, 1948), 65-78. Horton Davies Christian Deviations, (SCM, 1954), 58-66. George D. McKinney, The Theology of Jehovah's Witnesses, (London, 1963). Werner Cohn, 'Jehovah's Witnesses as a Proletarian Movement', The American Scholar, haf 1955, cyfrol 24. Royston Pyke, Jehovah's Witnesses, (Efrog Newydd, Philosophical Library, 1954). Am Mormoniaid gw., Maurice C. Burrrell & J. Stafford Wright, Some Modern Faiths, (IVP, 1983), 41-64. J. Oswald Sanders, Cults and Isms, (Lakeland, 1948), 97-112. Horton Davies, Christian Deviations, (SCM, 1954), 46-57. H.R. Martin, The Maze of Mormonism, (London, 1963). A.A. Hoekema, The Four Major Cults, (Exeter, 1972).
- 29, Roland Robertson, The Social Interpretation of Religion, (Oxford, Blackwell 1970), 78-9.
- 30, SP, 224.

31. Ibid., 223, Hyn yn rhywbeth yr oedd Cromwel o Went wedi ei nodi ym 1848 wrth drafod y gair Sect. "Y mae y gair wedi ei ddefnyddio yn ei gysylltiad a chrefydd gan ddsbarthiadau lluosog mewn modd dirmyglyd am bleidiau mân a gwanach, megys gan Eglwys Rufain, ac Eglwys Loegr, am y rhai a ymneillduant oddiwrthynt hwy. Ond, y mae y gair mor briodol i'r rhai mwyaf, ag yw i'r rhai lleiaf, cyhyd ag y byddo mwy nag un dosparth yn y byd. Pwy bynag fyddo yn cydgofleidio rhyw ddaliadau gwahanol i eraill, llawer, neu ychydig, a elwir yn Sect; megys Sect Luther, Sect Calfin. Y mae y gair Eglwys yn cael ei ddefnyddio am gyfundeb yn cynnwys ynddo fwy nag un Sect, megys yn awr yn Eglwys Loegr y mae dau Sect, sef y Puseyaeth a Phrotestaniaeth." H. Jones, (Cromwel o Went), Eglwys Crist, sef Darluniad o'r Eglwys, neu yr Eglwysi Cristnogol yn ôl y Testament Newydd, (1848), 30-31. Am H. Jones, ('Cromwel o Went'; 1800-72), gw., Sywg., 439.
32. SP, 223.
33. Ibid, 223.
- (a. Tarddiad, t. 9-11.)
34. PS, 17-8. Mae Yinger hefyd yn cyfeirio at nifer o resymau sy'n achosi rhywgiadau o fewn i eglwysi a all esgor ar sectau, gw., RSL, 137
35. Werner Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), Cyfrol 2, 6. Dywed Burton Johnson, "A Church is a religious group that accepts the social environment in which it exists. A sect is a religious group which rejects the social environment in which it exists." 'On Church and Sect', American Sociological Review, 1963, 542.
36. "When all is said and done, the fact remains that the chief reason for men getting together in order to form sectarian groupings has been their unhappiness in, and revolt against, a social system within their position - the position of their class - was, in Veblen's terminology, humilific, for instance because their livelihood was insecure or their wages low, or their status unsatisfactory." Werner Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), cyfrol 2, 6.
37. Roland Robertson, The Social Interpretation of Religion, (Oxford, Blackwell 1970), 88.
38. RSL, 145. "We shall broaden the meaning of the term sect somewhat to refer to any religious protest against a system in which attention to the various individual functions of religion has been obscured and made ineffective by the extreme emphasis on social and ecclesiastical order..." RSL, 145. "The Sectarian turns away from the official establishment, not so much because he is unable to accept this or that abstruse doctrine, but rather because he is appalled at the fact that the mantle of religion should have been thrown over the sores of society, that a supposedly godly church should have allied herself with an unmistakably devilish world and thereby lost the claim to be acknowledged as the proper abode of the pure and poor." Werner Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), Cyfrol 2, 68. "Even when the sect is not born of a schism in the precise sense as a datable event, it always represents a kind of protest against the instituted and established church, against that institutionalism and establishment, which appears to it as the very symbol of treason and of compromise with the world." SP, 224-5.
39. RSL, 146.

40. Gw., RSV, 231, RSL, 152, SP, 236.

41. SP, 224-5.

(b, Darbyn aelodau, t. 12.)

42. Ernst Troeltsch, The Social Teaching of The Christian Churches, (Llundain, George Allen & Unwin Ltd, and New York; The Macmillan Company, 1931.), 339.

"The sect, in contrast, is typically a small exclusive group whose members join voluntarily usually as adults," RSV, 231. Typically a sect may be identified by the following characteristics; it is a voluntary association; membership is by proof to sect authorities of some claim to personal merit - such as knowledge of doctrine, affirmation of a conversion experience, or recommendation of members in good standing," PS, 23-4. "In certain sects, whoever wishes to become a member must make a personal confession of faith, which is examined by the community or by the elders of th community," SP, 226. "The sect stresses a voluntary confessional basis for membership and its primary concern is for adults," RSL, 472.

43. Werner Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), Cyfrol 2, 158.

(c, Safle cyndaithasol, t. 12-13.)

44. Roland Robertson, The Social Interpretation of Religion, (Oxford, Blackwell 1970), 116.

45. SP, 233.

46. "Liston Pope has put his finger on the decisive point when he maintains that the sects substitute religious status for social status. In a slight improvement on this formulation we would say that the sects substitute high religious status for a low social status; for this is precisely what happens. One day, the impending and intending sectarian, belongs to the lowest of the lows; he is poor and despised, a pariah, the next day, he is the highest of the high, one of God's Saints." W. Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), Cyfrol 2, 12, 158. Roland Robertson, The Social Interpretation of Religion, (Oxford, Blackwell 1970), 115-6. "If the churches become middle-class in values, doctrine, and rituals, lower-class members tend to drop out and to look for some other religious expression more in keeping with their desires." RSL, 133.

(ch, Agosatrwydd a disgyblaeth, t. 13-14.)

47. Werner Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), Cyfrol 2, 122.

48. PS, 43, RSL, 416.

49. "But this exclusivism is also expressed in the exclusion of all those members who are deviationists on one point or other. Generally speaking, the sect wields the weapon of excommunication much more promptly and severely than the churches," SP, 242. "The sect maintains a moral community, excluding unworthy members, and depreciates membership in other religious institutions," RSL, 472. Werner Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), Cyfrol 2, 174.

50. PS, 24, 43.

50. PS, 24, 43.
(d, Moesoldeb ac ymarweddiad, t, 14-16.)
51. "The term 'world' has an uniquely pejorative meaning in sectarian language," SP, 241.
52. Werner Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), Cyfrol 2, 138-51.
53. Ibid., 184.
54. SP, 227-8. "Generally sects are characterized by religious and ethical fervour. Their beliefs stress primitive gospel teachings, and their practices emphasize the way of life of early Christians. Sectarians are usually hostile to members of all other churches and often to those of rival sects." RSV, 231.
55. "The relationship which a sect permits itself and its members to the external world is of vital importance to the nature of its continuance...the sect is committed to keeping itself 'unspotted from the world'.....to this end there are two principal types of mechanism, isolation and insulation," PS, 36, RSV, 231.
56. Werner Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), Cyfrol 2, 139-45.
57. RSL, 152-53.
58. SP, 241-42.
59. Ibid., 224-25. Werner Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), cyfrol 2, 68.
60. SP, 225. Wrth sôn am yr "Adventists", dywed B. Wilson, "The established Church is regarded as fulfilling the role of the anti-Christ;" PS, 27.
(e, Yr Ysgrythur, t, 16-17.)
61. SP, 239. "The sect emphasizes a literal Biblical interpretation of life and rejects worldly success," RSL, 472, 146, 417.
62. PS, 27.
(f, Addoliad a threfniadaeth, t, 17-18.)
63. SP, 237-38, PS, 14-15. "The sect is a lay religion, free from worldly authority, able therefore on the one hand to forget the world in asceticism or on the other to fight it with radicalism," RSL, 146.
(ff, Parhad a datblygiad, t, 18-21.)
64. SP, 251.
65. Werner Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), Cyfrol 2, 263.
66. Ibid., 264.

68. Werner Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), Cyfrol 2, 264.
69. SP, 251.
70. "The tendency for sects to become denominations has frequently been noted, and on the basis of this tendency the generalisation has sometimes been made that a sect-type organisation can exist for only one generation, that in the second generation the sect becomes a church or denomination. Yet, if one surveys existing religious organisations, it is evident that, in both the sociological and the everyday use of the term, some sects persist as such over several generations." PS, 22.
71. SP, 246.
72. PS, 36.
73. Ibid., 38-41. "A sect progresses towards the status of church when it becomes missionary. Obviously, every sect seeks to recruit new members by means of a certain propaganda. But this recruiting action should be distinguished from mission properly called. Mission addresses itself to non-Christians, and from this fact it does not consider its essential task to be one of entering into competition with other churches. It considers its common task with other churches is to make the gospel known, however much it be under a slight particular form. The sect which becomes missionary recognizes that the propagation of the gospel constitutes a more fundamental task than polemic and competition with other Christian churches. Thus it complies with the understanding of the church, if it is true that the essence of the church is to be missionary." SP, 251.
74. "If the sect is to persist as an organisation it must not only separate its members from the world, but must also maintain the dissimilarity of its own values from those of the secular society. Its members must not normally be allowed to accept the values of the status system of the external world." PS, 41.
75. Werner Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), Cyfrol 2, 264, 267.
76. Ibid., 267.
77. Ibid., 271.
78. Ibid., 308-9.
- (g. Y Fugeilliaeth, t. 21-22.)
79. PS, 34. "Elites emerge in sects both at the local level and, once centralised agencies have arisen, also at the centre. They may be elected by the generality, but they tend to become self-recruiting locally and at the centre...The existence of such elites has no specific implication for the development of the sect into a denomination for the crucial matter is whether the elite is specially trained and whether its function becomes that of a professional ministry." Ibid, 35.
80. "Once an intellectual *elita* is in existence, it will do what is natural for intellectuals to do; formulate what so far has been unformulated. But this means: transmute what has been fluid into something that is fixed. This alone is a great step towards routinization; it adds another element making for stability and working against further forward development, further onward flow...Deep thought

will go into the now crystallizing creed, and so rationalization will join bureaucratization and hierarchial structuring as one more concomitant of denominationalization." Werner Stark, The Sociology of Religion, (London, Routledge & Kegan Paul, 1966), Cyfrol 2, 309, PS, 42.

(ng, Rhwng y Sect a'r Enwad, t, 22-24,)

81. SP, 257-264.

82. Ibid., RSL 150-55.

83. RSL 150-55. "We can briefly illustrate this mode of analysis with reference to the history of the Salvation Army in Britain. The Army has been regarded by some as being a denomination and by others as a sect. However it seems much more appropriate to regard the Army as an established or institutionalized sect. It has retained a sufficient number of its key pristine sectarian characteristics still to qualify in one sense as a sect, but has yet achieved a firm *modus vivendi* with the wider society." Roland Robertson, The Social Interpretation of Religion, (Oxford, Blackwell 1970), 127, International Encyclopedia of the Social Sciences, "Established Sects," 130-135.

84. RSL 150-55.

(h, Diffiniad, t, 24-26,)

85. PS, 23-4.

86. SP, 247. RSL 137.

ADRAN 1: Disgyblaeth.

A. Y Cefndir a'r Cynseiliau.

Pennod 1. Dwyfol Ysbrydoliaeth.

Wrth geisio dadansoddi natur y Cyrff Ymneilltuol yn y cyfnod hwn, y peth cyntaf sydd rhaid ei wneud yw edrych ar eu bywyd mewnol eglwysig, oherwydd yma'n bennaf y gwelir eu cymeriad a'u natur gliriaf. Yn wir hwn yw'r pwnc pwysicaf yn y traethawd, gan mai yma canfyddwn beth oedd eu blaenoriaethau, eu safonau, eu meddylfryd, nodweddion eu cymdeithas a'r hyn oedd yn eu hysgogi i fyw mewn modd neilltuol. Fe fydd y drafodaeth ar y bywyd mewnol yn cael ei rhannu'n ddwy adran; yr adran gyntaf gyda phwyslais ar ddisgyblaeth a'r ail adran yn ymdrin ag ymddygiad ac addoliad yn y cartref ac yn y capel.

Yn yr adran hon felly byddwn yn edrych ar natur y Cyrff ac ansawdd y gymdeithas yn eu plith, gan ganolbwyntio ar natur glós a disgybledig eu cymdeithas fewnol. Bydd hyn yn ein harwain i nifer o feysydd, ond i ddau yn fwyaf arbennig sef, disgyblaeth a moesoldeb.

Un o'r pethau trawiadol ymhlith aelodau'r Cyrff Ymneilltuol ar gychwyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd fod eu ffydd a'u Cristnogaeth yn treiddio i bob rhan o'u bywydau, o'r bywyd mewnol personol i'r bywyd teuluol, o'r seiat a'r cyfarfod eglwys i'r gwaith a'r gymdeithas, ac nid oedd unrhyw ran o'u bywydau heb ddod o dan ddylanwad eu ffydd. Nid oedd modd gwahaniaethu rhwng ochr grefyddol ac ochr seciwlar eu bywydau; 'roedd y ddwy wedi eu hasio'n un.

Un o'r prif resymau am hyn, oedd fod rheolau caeth wedi eu gosod ynglŷn â dyfod yn aelod o'r eglwys, ac nid ar chwarae bach y derbynid

unigolion i'r cylch mewnol. Ystyria i'r Cyrff Ymneilltuol mai prif waith yr efengyl Gristnogol oedd achub eneidiau colledig o grafangau Satan a distryw, i Deyrnas Dduw a bywyd tragwyddol trwy yr Arglwydd Iesu Grist. ⁽¹⁾ Felly, er mwyn cael mynediad 'roedd yn rhaid i ymgeiswyr ddangos arwyddion o'u haddasrwydd. 'Roedd yn rhaid iddynt gyffesu Iesu Grist yn Arglwydd a dangos arwyddion clir o edifeirwch am eu pechodau. Wedi iddynt gael mynediad, disgwylid iddynt roi eu bywydau'n llwyr ac yn gyfan gwbl i Dduw gan fyw yn unol â threfn, rheolau, disgyblaeth ac athrawiaeth y Corff hwnnw gan osod eu Cristnogaeth o flaen popeth arall. Cyn y gallwn fwrw ati i drin a thrafod y ddisgyblaeth a'r bywyd mewnol, mae'n angenrheidiol i ni yn gyntaf ystyried dwy gysail bwysig i fywyd y Cyrff Ymneilltuol, sef eu hagwedd tuag at y Beibl a'r pwyslais mawr ar arwahanrwydd.

Sail popeth o fewn y bywyd eglwysig oedd y Beibl; hwn oedd gair y bywyd, datguddiad Duw o'i feddwl a'i ewyllys i'w bobl, hwn oedd y canllaw i iachawdwriaeth a bywyd tragwyddol, hwn oedd ffynhonnell eu rheolau a'u disgyblaeth eglwysig a phersonol, a hwn oedd y llinyn mesur ar fywyd yn ei gyfanrwydd. ⁽²⁾

Oherwydd hyn buddiol fyddai edrych yn fanylach ar eu hagwedd tuag at y Beibl, gan ganolbwyntio ar ddwy wedd sef, dwyfol ysbrydoliaeth yr ysgrythurau a'r defnydd wnawd ganddynt o'r Beibl.

I'r Cyrff Ymneilltuol 'roedd dwyfol ysbrydoliaeth yn bwnc pwysig a sylfaenol i'w ffydd. Yn ôl Ap Vychan 'roedd eu cysur a'u dedwyddwch yn "ymddibynu ar fod yr holl Ysgrythyr yn Air Duw mewn gwirionedd," ac yn fwy na hynny 'roedd "bywyd tragwyddol miliynau y ddaear yn ymddibynu ar, ac yn gynwysedig yn y mater hwn." ⁽³⁾ "Ysbeillir y Beibl o'i fywyd a'i nerth,"

meddai J. Davies, "wrth wadu ei ddwyfoldeb, a dygir ef yn gydwastad â chynnyrch meddwl dyn..."⁽⁴⁾ Iddynt hwy yr oedd ysgrythurau wedi eu rhoi'n uniongyrchol gan Dduw drwy ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glân.

"Nid o ewyllys dyn y daethant; ond yr Ysbryd Glân a gynhyrfodd y rhai a ysgrifennodd, i hyny. Efe oedd yn gweini y defnydd iddynt, sef y mater am ba un yr oeddynt i lefaru ac ysgrifenu; efe oedd yn eu cyfarwyddo a'u cynorthwyo pa fodd i'w osod allan; pa ddull, a pha eiriau i'w defnyddio....Yr oedd yr athrawiaethau yn cael eu cyflwyno i'w meddyliau, wedi eu gwisgo â'i priodol amod. Mae y geiriau a'r ymadroddion yn ddwyfol, yn gystal a'r athrawiaethau. Er bod gan pob ysgrifenydd ei ddull priodol ei hun o ymadroddi, etto, yn yr holl amrywiaeth hyn, yr Ysbryd Glân oedd yn dysgu pob un o honynt, yn y dull hwnw. Dylem, gan hyny, wylled rhag cyfnewid, na gwyrddroi iaith yr ysgrythyrau, nac arfer dull o ymadroddi anysgrhythrol am wirioneddau dwyfol, neu na arferir yn yr ysgrythyrau."⁽⁵⁾

Yn ôl Lewis Edwards 'roedd dwy farn ynglŷn ag ysbrydoliaeth yr ysgrythurau. Credai un blaidd fod "y meddyliau yn ysbrydoledig, ond a wadant ysbrydoliaeth y geiriau." Yn ôl y blaidd hon rhoddai'r Ysbryd Glân y meddyliau, "a hyd yn oed y geiriau, i'r ysgrifennwyr sanctaidd, pan y byddent yn llefaru am bethau uwchlaw eu gwybodaeth."⁽⁶⁾ Ond nad oedd mewn amgylchiadau eraill yn gwneud dim mwy nag arolygu'r gwaith gan ddiogelu'r ysgrifennwyr rhag cyfeiliorni. 'Roedd y blaidd arall o'r farn "fod cyfarwyddyd yr Ysbryd Glân yn cyrhaedd nid yn unig at y meddyliau, ond hefyd y geiriau; ac felly fod pob gair o'r Ysgrythyr yn ysbrydoledig."⁽⁷⁾ Dymunai Lewis Edwards ei gyfrif ei hun yn yr ail garfan. Gellir dweud yn sicr fod mwyafrif aelodau Cyrff Ymneilltuol Cymru yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg o'r un farn. Nid fod gair Duw i'w ganfod yn y Beibl ond mai'r Beibl oedd gair Duw. Fel y dywedodd Hugh Roberts, "Nid yn unig mae yr Ysgrythyrau yn cynnwys gwirioneddau dwyfol ond y mae y Bibl ei hunan yn llyfr dwyfol."⁽⁸⁾ Yr un oedd barn Ap Vychan⁽⁹⁾ pan ddywedodd fod "yr Ysgrythyrau wedi eu rhoddi i ni drwy 'Ysbrydoliaeth Duw,' ac felly, fod

y Beibl yn llyfr Dwyfol.....ymadroddion Duw yw ei ymadroddion.....Fel y mae hi rhwng dynion a'r Bibl y mae hi rhwng dynion a Duw. Os cyfiawnha y Bibl hwy, y mae Duw yn eu cyfiawnhau. Os yw y Bibl yn eu condemnio, mae Duw ar ei orsedd yn eu condemnio...."⁽¹⁰⁾

O ganlyniad i hyn ystyrid y Beibl fel gair anffaeledig. Yn ei esboniad ar 2 Timotheus 3:16, dywed James Hughes,⁽¹¹⁾ fod "pob rhan o'r ysgrythyr yn wirionedd perffaith anffaeledig."⁽¹²⁾ Dyma'r farn oedd yn gyffredin ymhlith y Cyrff Ymneilltuol am y rhan helaethaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, fod y Beibl yn air anffaeledig Duw, yn air i'w gredu'n llwyr a di-gwestiwn, yn air i blygu iddo ac i ufuddhau i'w holl orchmynion. Nid llyfr ydoedd lle 'roedd dyn yn gosod ei hun uwchlaw iddo gan ei amau a'i ddarnio ond llyfr i ddyn osod ei hun o dan ei arweiniad a'i oleuni. Llythrenolwyr oeddent yn credu'n angerddol yn nwyfol ysbrydoliaeth yr holl ysgrythurau. A'r gwir yw na fu nemor ddim newid yn y farn hon tuag at y Beibl drwy gydol y cyfnod yr ydym yn ei astudio yma. Os oedd unrhyw beth yn unol â'r Ysgrythur 'roedd yn dderbyniol ganddynt, ac os oedd yn groes i'r ysgrythur fe'i gwrthodwyd yn llwyr. 'Roedd popeth yn cael ei bwysu a'i fesur drwy eiriau'r Beibl. Bywyd, gwaith, priodas, moes ac ymddygiad; holl gwmpas bywyd. 'Roedd yr athrawiaeth hon yn bwysig, oherwydd cyhyd ag yr oeddent yn ei choleddu, gellid defnyddio'r Beibl fel yr awdurdod terfynol ar bob pwnc. Hwylusai hyn y gwaith o wybod pwy oedd gadwedig a phwy oedd yn golledig. Nid oedd yn bosibl amau awdurdod y Beibl a bod yn gadwedig. Fel hyn y disgrifiai William Mitchill y Beibl, yn ei draethawd a gyfieithiwyd i'r Gymraeg ym 1828,

"Holl gyngor Duw, ynghylch pob peth angenrheidiol er ei ogoniant ei hun, iechydwrriaeth dyn, ffydd a bywyd, sydd naill ai wedi ei osod i lawr yn eglur yn yr ysgrythurau neu a ellir ei gasglu oddi yno trwy ganlyniadau da ac angenrheidiol; at yr hwn nid oes dim i'w ychwanegu un amser, na thrwy ddatguddiad newydd o eiddo'r

Ysbryd, na thraddodiadau dynion; yr ysgrythyrau sydd gyflawn, sefydlog, perffaith reol ffydd ac ymarweddiad i eglwys Dduw; eithr y mae yn hollol angenrheidiol cael o oleuni yr Ysbryd, er cael gwybodaeth iawn ac achubol o'r pethau sydd wedi eu datguddio yn y gair."⁽¹³⁾

Cymhwyswyd cynnwys y Beibl at fywyd yn ei gyfanrwydd; bywyd teuluol, bywyd personol a bywyd eglwysig. Dywedai Thomas Richards, Abergwaun mai, "unig reol iawn farn am bob peth" oedd "Gair Duw."⁽¹⁴⁾ "Y mae y Bibl," meddai Samuel Roberts, yn gyfaill "i ieuenctyd, er eu cyfarwyddo pa fodd i ochelyd rhwydau, a maglau, a phydewau a chroeslwybrau yr anialwch: y mae yn gyfaill gwerthfawr i'r canol oed, er eu denu i ymneillduo weithiau o swm dwndwr y byd, ac o ganol ei ofalon a'i drafferthion, i ddal cymundeb â gwaith ac â golygfeydd y wlad sydd well; ac y mae yn gyfaill gwerthfawr iawn i hen bobl, i'w goleuo a'u gwroli, eu cynnal a'u lloni wrth ddisgyn i lawr tua phyrth y bedd, wrth rodio ar hyd glyn cysgod angau, ac wrth rydio dyfroedd oerion yr Iorddonen...."⁽¹⁵⁾ Nid yn unig 'roedd yn addas i bob oedran 'roedd hefyd yn addas i bob amgylchiad. "Mae y Bibl yn lamp i'n harwain at Iesu Grist, ac at Dduw trwyddo....Mae yn llusern yn ngwyneb gwahanol gyfyngderau....Llusern yn ngwyneb profedigaethau....Llusern yn ngwyneb angau."⁽¹⁶⁾ 'Roedd yn llyfr a oedd yn "tra-rhagori ar bob llyfr arall"⁽¹⁷⁾ ac yn "frenin ac ymerawdwr holl lyfrau y byd".⁽¹⁸⁾ 'Roeddent yn ei ddefnyddio ar eu haelwyddydd, ac fe roddwyd cyngorion mynych iddynt wneud hynny. "Y Bibl," meddai Rhys Gwesyn Jones, "yw rheol fawr y teulu....Mae y Bibl yn gosod y teulu ar unwaith ac am byth yn eu lle priodol....Pe caffai Y Bibl ei ddylanwad priodol, byddai pob teulu trwy y byd yn berffaith ddedwydd."⁽¹⁹⁾ (Byddwn yn cyfeirio yn fanylach at hyn eto yn y traethawd.) Cloriannwyd hefyd ddigwyddiadau personol dyddiol yn ôl geiriau'r Beibl. Fel enghraifft o hyn, 'roedd y

llwrymwrthodwyr, am gyfnod, yn peri blinder i'r Dr. William Morgan, Caergybi, ac ysgrifennai fel hyn yn ei ddyddiadur.

"Mai 1837. ...Ond wedi pob peth, nid wyf yn gallu gweld fod Llwrymwrthodiad wrth adduned ac ymrwymiad cymdeithasol yn ysgrythurol....."

Awst 29 1837..."Teetotaliaeth sydd yn rhoddi gradd mawr o flinder i fy meddwl. Yr wyf yn methu a chael yn argyhoeddiedig fod y drefn o dynnu dynion i addunedu llwyr ymwrthod a diodydd meddwol yn ôl yr ysgrythur. Ac o herwydd nad wyf yn cael fy hun yn rhydd i gydfyned gyda y blaidd deetotalaidd....."«20»

Y Beibl hefyd oedd sail y ddisgyblaeth a weinyddid o fewn i'r eglwysi. Wrth drafod Annibyniaeth fe ddengys Cromwel o Went pa mor bwysig oedd y Beibl yn y bywyd eglwysig.

"Nid annibyniaeth ar air Duw ydyw, ond ymddibyniaeth hollol ar y Bibl Santaidd, yn fwy neillduol felly na'r un gyfundraeth arall o grefydd yn mhlith yr holl enwadau Cristnogol gwahanol eu golygiadau.....Ymddibyniaeth ar air Duw yn unig ydyw un o'r pethau sydd yn gwahaniaethu yr Annibynwyr oddiwrth enwadau eraill: Oherwydd fod y lleill yn barnu dynion yn rheol iddynt heblaw y Bibl; a'r Annibynwyr yn hollol ymwrthod â barnau rhyngddynt a'r Bibl nac yn rheolau gwellhaol, neu gynorthwyol i'r Bibl....Nid Annibyniaeth ydyw Eglwys o flaen nac yn lle y Bibl; ond gwir Annibyniaeth ydyw fod y Bibl o flaen barn yr Eglwys, a'r Eglwys i ymostwng i eiriau ffurf, a rheol y Bibl....."«21»

Yn ôl R. P., Brynsiencyn, "Yr unig reol i ddysgyblu ydyw gair yr Arglwydd. 'Yr holl Ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac sydd yn fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder....' I fod yn gywir ein golygiadau, am ddysgyblaeth eglwys Dduw, rhaid bod yn hyddysg a goleuni y Bibl; oblegid y Bibl yw deddflyfr yr eglwys, a rhaid i ni dderbyn ein holl ddysgeidiaeth ohono. Yno y ceir cynllun, rheolau, a deddfau tŷ Dduw; ac nid oes gan neb hawl i ychwanegu atynt na thynu oddiwrthynt..."«22»

O'r Beibl y tarddai rheolau ymddygiad, safonau moesol a'r dull o weinyddu'r ddisgyblaeth. Gwelir yn y paragraff dilynol pa fodd yr oedd y ddisgyblaeth yn deillio o'r Beibl, yn uniongyrchol o eiriau Iesu Grist.

"Y mae ychydig anhawster wedi cael ei deimlo gyda golwg ar hyn, mewn cysylltiad â throseddau ac â'r dull i ymddwyn at y troseddwr, ond credwn fod y Testament Newydd yn ddigon amlwg ar y pen yma pe gwneid pob peth yn ei ôl. Os na ddilynr ei reol yn mhob peth, y mae yn anhawdd ei ddilyn mewn unrhyw beth gyda phriodoldeb.

Rhaid yn gyntaf ddeall natur y trosedd. Pan fyddo y trosedd yn erbyn person, hwn yw y cyfarwyddyd - "Os pecha dy frawd i'th erbyn, dos ac argyhoedda ef rhyngot ti ag ef ei hun." Anaml y cedwir at y rheol hon: yn hytrach, dyg y tramgwyddiedig ei achos ger bron yr eglwys, ac yn y cyffredin achosa hyn ail dramgwydd. Gofaled y swyddogion eglwys, pan ddelo y cyfryw un atynt, i'w ddanfôn at y sawl a bechodd yn gyntaf, fel y gallo ddwyn hwnnw i weld a theimlo ei bechod: "Os efe a wrendy arnat, ti a ennillaist dy frawd." Luc 17:3. Dichon na wrendy - na fydd yn gweld ei fod wedi troseddu, yna cyfarwydder ef i gymeryd gydag ef un neu ddau eraill, fel yn ngenau dau neu dri o dystion y byddo pob gair yn safadwy. "Ac os efe ni wrendy arnynt hwy, dywed i'r eglwys; ac os efe ni wrendy ar yr eglwys ychwaith, bydded ef i ti megys yr ethnig ar publican." Mathew 18:15-17.

Diarddeler ef - ymwrthoder a'i gyfeillach. Y mae diarddeliad yn cael ei alw yn "hysbysu y cyfryw un," 2 Thesalonïaid, 3:14.

Os bydd ymddygiad aelod o eglwys yn anheilwng o'i broffes, ac i frawd arall ei weled, dyledswydd hwnnw ydyw rhoi cyngor iddo, a dwyn ei achos ger bron yr eglwys, fel y byddo y trosedd yn galw. Y mae gwahaniaeth rhwng y trosedd hwn a'r un blaenorol, gan hynny, dyledswydd yr eglwys ydyw ymdrin ag ef. Dylai y neb sydd yn barnu mewn achos felly fod yn bwyllog, gonest a chydwybodol, heb wro barn. Gan mai trosedd gyhoeddus ydyw, rhaid i edifeirwch fod yn gyhoeddus hefyd. Galatïaid 2:14. Rhaid peidio arfer tiriondeb cyn y gwelir arwyddion o edifeirwch ac wedi hyn rhaid peidio iachau y briw yn ysgafn. Iago 2:16. "«23»"

Gwelwn felly pa mor allweddol oedd dylanwad y Beibl ar eu bywydau eu hymddygiad a'u buchedd. Effeithiai'r Beibl ar bob gwedd o'u bodolaeth, gan liwio eu barn am bawb a phopeth arall. Y Beibl oedd y gair terfynol ar bob dadl oherwydd mai gair anffaeledig a dwyfol ysbrydoledig Duw ydoedd. Bydd sylweddoli hyn o'r dechrau o gymorth mawr i ni ddeall paham a pha fodd yr oedd y Cyrff Ymneilltuol yn mynnu ymddwyn a byw mewn ffordd arbennig. Yn

O'R SECT I'R ENWAD: DISGYBLAETH.

aml iawn ymateb yr oeddent nid i bwysau nac anghenion cymdeithasol ond i'r datguddiad a gawsant yn yr ysgrythur.

Pennod 2. Arwahanrwydd.

Mae'r ail gynsail, y cyfeiriwn ati, hefyd yn elfen aruthrol bwysig wrth geisio deall bywydau'r Cyrff Ymneilltuol yn y ganrif ddiwethaf ac yn annatod glwm gyda'r ddisgyblaeth, sef arwahanrwydd. Un o brif nodweddion y sect yw arwahanrwydd a'r ymdeimlad eu bod yn wahanol i eraill oherwydd y gwirionedd sydd yn eu meddiant. Gwelir y wedd hon yn glir ym mywydau'r Ymneilltuwyr. 'Roedd y cadwedigion neu aelodau o'r Cyrff yn eu hystyried eu hunain drwy ddysgeidiaeth yr ysgrythurau, yn bobl wedi eu gwahanu oddi wrth y byd anghrediniol. 'Roedd y ffin rhwng y cadwedig arcolledig yn gwbl glir a diamwys; dyfodol y cadwedig oedd bywyd tragwyddol yn y nefoedd, dyfodol y colledig anedifeiriol oedd cosbedigaeth dragwyddol yn uffern. Eiddo Duw oedd y dychweledig, eiddo Satan oedd yr annycheledig.⁽²⁴⁾ Oherwydd hyn disgwyliid i'r aelod fyw, meddwl ac ymddwyn yn wahanol i'r anghredadun gan roi heibio ei feddylfryd a'i egwyddorion bydol ar ôl tröedigaeth gan dderbyn safonau ac egwyddorion Iesu Grist fel y cyflwynwyd hwy gan y Corff y deuent yn aelod ohono, gan roi blaenoriaeth i bethau ysbrydol. Ni chaniateid unrhyw gyfaddawdu na chyfathrachu â'r byd, 'roedd gwahaniaeth eglur i fod rhwng yr eglwys a'r byd. Mae'r geiriau canlynol gan Thomas Phillips, yn cyfleu'r ymdeimlad dwys hwn o arwahanrwydd.

"Y mae arnynt rwymanu neillduol i beidio cydymffurfio â'r byd hwn: ac ymddidoli a dyfod allan o'u canol hwynt....Y mae Duw yn galw yn uchel ar ei bobl, gan ddywedyd, "Deuwch allan o honi hi, fy mhobl i, fel na byddoch gyd-gyfrannogion o'i phechodau hi, ac na dderbynioch o'i phlâu hi." (Dat. 18:4.) Y mae gan y saint anian wahanol oddiwrth y byd; - maent mewn gwahanol a rhagorach perthynas; - maent gwedi ymneillduo oddiwrth y byd, ac wedi ymrwymo mewn proffes o bethau gwahanol iawn oddi wrth y byd: - nid ydynt yn derbyn parch, nac /yn dysgwyl eu gwobr oddiwrth y byd; gan hyny, paham y cydymffurfiant â'r byd hwn? Y mae cyfeillach y byd yn gwneuthur niwed mawr i'r saint; y mae cydymffurfiad proffeswyr â'r byd, yn caledu y byd yn eu pechod ac yn eu gyru yn fwy cyflym tua'r tân....."⁽²⁵⁾

Trewir yr un tant gan eiriau Caradoc yn y dyfyniad canlynol, gan bwysleisio neilltuolrwydd y credadun a'r eglwys.

"Ni bu ein byd ni erioed, er mor druenus, yn amddifad o rai yn galw ar enw yr Arglwydd. Gofalodd Duw am dystion dros ei enw ymhob oes, pa mor ddirywiedig bynag fyddai y mwyafrif o hil Adda. Adwaenir y dosbarth hwn dan yr enw "yr eglwys". Edrychir arnynt ymhob oes fel rhai neillduedig oddiwrth eraill - gwahanol yn ansawdd eu meddyliau - yn rhai wedi ei cyfnewid trwy ras, "eu geni drachefn, nid o hâd llygredig, eithr anllygredig" - yn ymgadw yn ddilwgr oddiwrth y byd, heb roddi achos i elynion crefydd gablu. Nid ydyw deddfau na golygiadau gwleidyddwyr, nac hyd yn nod erledigaethau mwyaf llymdost, yn gallu cyfnewid ansawdd ysbrydol y cyfundeb hwn. Y maent yn ddeiliaid teyrnas nad yw o'r byd hwn, wrth gyfreithiau yr hon yr ewyllysiant fyw, ac yn ôl arferion yr hon y dymunant ymddwyn. Dyeithriaid a phererinion ydynt ar y ddaear - rhai yn ymofyn am wlad well; yn y nefoedd y mae eu cartref; yno y mae eu serch; yno yr ehedant ar adenydd ffydd; ac yno er bob rhwystr, yr ymdrechant gyrhaeddyd. Eu dymuniad yw cartrefu gyda yr Arglwydd a bod byth gyda Christ. Y fath yw cyfundeb y saint! y fath yw cynulleidfa y ffyddloniaid! ie, y fath yw pob un sydd yn caru ac yn ufuddhau i'r gwirionedd....."⁽²⁶⁾

Fe ddiffiniais Thomas Rees,⁽²⁷⁾ yr eglwys gan ddweud, "mai wrth eglwys i Grist y golygir cymdeithas o ddynion yn proffesu duwioldeb, yn cydnabod yr Arglwydd Iesu fel eu hunig Frenin mewn pethau ysbrydol, ei air fel unig reol eu ffydd a'u hymarweddiad, yn ymgynull i'r un lle i gynnal addoliad cyhoeddus, ac ordinadau yr efengyl yn cael eu gweinyddu yn eu mysg."⁽²⁸⁾ Yn y Gwyddoniadur dywedir "mai rhai yn credu yn Iesu Grist am iachawdwriaeth ac yn ymgysegru yn gwbl i fywyd duwiol, sydd yn unig i fod yn aelodau ohoni....A ni a debygwn nas gall fod yng ngwyneb y Testament Newydd, unrhyw ammheuaeth nad y fath rai ag y cyfeiriwyd atynt sydd yn unig i'w hystyried yn aelodau cymhwys yn eglwys Crist. Y mae y gair eglwys ei hunan yn penderfynu hyn, yn ôl y defnydd Beiblaidd ohono. Y mae yn amlwg yn arwyddo rhai wedi eu neillduo - o blith ereill, yn bobl briodol i ryw amcan neillduol ac arbenig, ar wahan oddi wrth y byd yn gyffredinol."⁽²⁹⁾ Yn y dyfyniadau uchod fe gyflwynir i ni ddwy elfen arbennig yn yr arwahanrwydd

hwn sef, eu bod yn bobl neilltuedig i Dduw yn y byd, ac mai dieithriaid oeddent yma yn eu paratoi eu hunain ar gyfer bywyd tragwyddol.

Pwysleisid neilltuolrwydd y credinwyr trwy bregethau, cyfarfodydd a disgyblaeth y Cyrff, pamffledi a chylchgronau. Defnyddid termau ysgrythurol i fynegi'r ffaith eu bod yn bobl i Dduw. "Eglwys yw yr enw a roddir arni, sef cynulleidfa wedi eu galw allan oddiwrth y byd sydd yn gorwedd mewn drygioni. 'Teyrnas Dduw' y gelwir hi, 'Praidid' yw - praidid bychan Iesu; o dan ofal y Bugail da, yr hwn a roddes ei einioes tros ei ddefaid. Teulu Duw Tad ein Harglwydd Iesu Grist yw. Teml sanctaidd ydyw, yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd; a Iesu Grist ei hun yn ben congl-faen. Dinas yw, wedi ei chyd-gysylltu ynnddi ei hun. Priodas-ferch, gwraig yr Oen yw "yr hwn a'i carodd, ac a'i rhoddes ei hun drosti." Ië, ei gorff ydyw, yn mha un y mae aelodau lawer, ond eto un corff, a Iesu ei hun yn Ben....."⁽³⁰⁾ Ac yn ôl Moses Ellis fe "brofir y gwahaniaeth rhwng yr eglwys a'r byd annychweledig oddiwrth yr ysgrythyrol ddarluniad a roddir o'r eglwys yn y Gair Sanctaidd, sef dinas a dinas ar fryn, gwinllan, canwyllbren a chanwyllbren aur, teml, gwraig yr Oen, corff Crist a chyflawnder Crist."⁽³¹⁾

O'i hanfod felly, 'roedd yr eglwys a'i haelodau wedi eu gwahanu oddi wrth y byd, ac er mwyn parhau i fod yn bobl i Dduw 'roedd yn rhaid iddynt ymatal rhag cydymffurfio â'r byd. Dywedai Moses Ellis y byddai "Eglwys Dduw a'r byd anychweledig ar wahan am byth, ac mae o'r pwys mwyaf bod y gwahaniaeth mawr a hanfoda rhyngddynt yn dyfod fwy-fwy amlwg o ddydd i ddydd."⁽³²⁾ 'Roedd y byd yn aflan a'i ddylanwad yn beryglus ac andwyol i'r dychweledig. "Y mae y byd yn ein casâu," meddai Thomas Phillips, "ac yn ein herlid, hyd y nod, pan y byddo yn ein cymhell i'w gyfeillach. Y mae

cyfeillach y byd yn elyniaeth yn erbyn Duw... Nid oes i ni achos cywilyddio byw yn wahanol i'r byd; ein gogoniant yw gwneuthur hyny."³³ Nid oeddent i gydymffurfio â'r byd, "yn eu hagwedd ysgafn, lawen, ac ynfyd; ac mewn gwisgiadau beilchion a choegedd; ond byw yn sobr, fel y gweddai i rai fyddo yn proffesu duwioldeb."³⁴ Nid oeddent i gydymffurfio â'r byd "yn eu iaith gellweirus, gnawdol, ac anllad,"³⁵ ond 'roedd eu hymadrodd i fod bob amser, "wedi ei dymheru â halen, ac yn gyfryw a baro ras i'r gwrandaw-wyr."³⁶ Nid oeddent i gydymffurfio â'r byd "yn eu hysbryd a'u hymgeisiadau daearol," ond yn hytrach, "i lafurio am y bwyd a bery i fywyd tragwyddol."³⁷ Mewn geiriau eraill 'roeddent i fod yn wahanol i'r byd ym mhob ffordd bosibl ac 'roedd y gwahaniaeth i fod yn amlwg. Pwysleisid hyn yn y Crynodeb o Egwyddorion Ysgrythyrol; dywedir yn y fan honno fod,

"neillduaeth oddi wrth y byd yn ddyledswydd angenrheidiol ac anhebgorol i holl eglwysi Crist; (2 Cor. 6:14-17, Act. 2:40, 19:9.) canys y mae'n anhosibl cadw purdeb cymmundeb, ac arferyd dysgyblaeth y Testament Newydd, heb neilltuo oddi wrth y byd halogedig a chrefyddol. (Tim. 3:1-5.)"³⁸

Gŵr a dreuliodd ei oes yn gwrthod cydymffurfio â'r byd oedd J. R. Jones, Ramoth.³⁹ Yr oedd ef yn enghraifft nodedig o sectariad. Dywed D. Davies, ei gofiannydd, y "ceisiai J. R. Jones roddi esboniad ar y peth a alwasai yr Iesu a'i apostolion yn fyd, a galwai ar yr holl saint i anghydfurfio â hwnnw. 'Os yw y byd yn eich cashau chwi.' Credai J. R. Ramoth nad oedd yn bosibl i Gristion gael ei gashau gan y byd, os byddai iddo gydymffurfio â'r byd yn ei wleddoedd, ei ddawnsfâoedd, ei chwareudai, a'i helwriaethau. Yr oedd yn derfynnol yn y pwnc nad oedd neb oedd yn proffesu bod yn Gristion i chwareu cardiau gyda'r byd... Y canlyniad oedd, iddo dreulio ei oes dan wg a gwawd y byd... ond derbyniai ef hyn fel un o nodau teyrngarwch i egwyddorion teyrnas nefoedd."⁴⁰

Gwedd arall ar yr arwahanrwydd hwn oedd eu bod yn eu hystyried eu hunain fel pererinion yn teithio trwy'r byd ar y ffordd i'r nefoedd. "Ceisiwn," meddai Thomas Phillips, "y pethau sydd uchod, lle mae Crist yn eistedd ar ddëau-law Duw: gan fyw fel dyeithriaid a phererinion ar y ddaear, a chan ddangos yn eglur ein bod yn ceisio gwlad well, a hono yn un nefol, lle mae cyfiawnder yn cartrefu, a gwir olud yn parâu yn dragwyddol."⁽⁴¹⁾ Gwelai S.R.,⁽⁴²⁾ mai un o'r rhesymau am fodolaeth cymdeithas y saint oedd "perygion a rhwystrau eu taith drwy'r anial." Yna fe ychwanega, "pe buasai eu ffordd yn amlwg a diogel, heb na phydew, na rhwyd, na magl, na chw m dwfn, na glyn tywyll ynddi, ac heb na llew na gelyn yn y goedwig o'u deutu...ni buasai o gymaint pwys i'r pererinion deithio yn finteioedd neu gymdeithasau. Ond nid ffordd hawdd a diogel ydyw...Y mae hyn yn galw am i'r pererinion fod yn swm ac yn ngolwg eu gilydd, fel y gallont fod yn barod i gyfarwyddo eu gilydd mewn dyrswch, ac i amddiffyn eu gilydd mewn perygion."⁽⁴³⁾ Wrth gwrs nid ymdeimlad newydd oedd hwn o fod yn ddiethriaid yn y byd. Yr oedd Ann Griffiths,⁽⁴⁴⁾ yr emynyddes, wrth gloi rhai o'i llythyrau i John Hughes, Pontrobert,⁽⁴⁵⁾ yn dweud, "A hyn oddiwrth un sydd yn teithio yn gyflym trwy fyd o amser i'r byd a bery byth."⁽⁴⁶⁾ Ac fel diethriaid a phererinion, yr hyn oedd flaenaf yn eu golwg oedd materion ysbrydol, cyflwr yr enaid a'u perthynas gyda Duw trwy'r Iesu. Meddai S.R., yn un o'i bregethau, "Y cymhelliad sydd yn y testun - 'Eithr trysorwch i chwi drysorau yn y nef.' Y mae y cyngor yn un anfeidrol deilwng o'n hystyriaeth. Y mae ufuddhau iddo, a gwneud yn ei ol, yn hanfodol er ein dedwyddwch."⁽⁴⁷⁾

Ystyrid pobl a goleddai grefyddau eraill ganddynt yn aelodau o deulu'r diafol, fel y dywedai John Jones, Talysarn,⁽⁴⁸⁾ heb flewyn ar ei dafod. "Y mae rhai sydd fwyaf amlwg 'o'u tad y diafol,' yn honi eu bod yn

deulu Duw. Y mae y Mohometaniaid yn honi mai teulu Duw ydynt hwy; a'r Pabyddion yn gwneyd proffes uchel iawn eu bod hwy yn unig deulu Duw; ac y mae y genedl Iuddewig yn parhau i honi mai hwy yw plant Duw. Felly, chwi a welwch fod y rhai sydd yn cael eu gosod allan yn yr Ysgrythyrau yn 'elynon croes Crist,' yn wrthwynebwr y gwirionedd, a'r rhai ydynt yn parhau i erlid y gwir saint, yn honi eu bod yn deulu Duw."⁽⁴⁹⁾ Nid yn unig 'roedd rhaid bod yn wyliadwrus o grefyddau eraill, ond 'roedd rhaid bod yn wyliadwrus hefyd o Gyrrff Ymneilltuol eraill. "Nid cydnabod pob cynulleidfa yn chwaer eglwys ar bob tir. Diau os ceir fod eglwys wedi gwyro oddiwrth y gwirionedd, ac yn coleddu rhyw opiniynau afiach a drwg.....gadawer i'r cyfryw gael mwynhau ei hannibyniaeth; cilier oddiwrthi....ac na estyner iddi un cymhorth hyd nes yr ymostyngo, a chydabod ei bai....."⁽⁵⁰⁾ Mae'r elfen hon gan Gorff o gredu mai hwy yn unig oedd yn feddiannol ar y gwirionedd a neb arall, yn nodweddiadol o sectau. Yn fynych credant mai hwy yn unig sydd yn iawn a fod pawb sydd y tu allan i'w cymdeithas hwy yn golledig.

Yn awr fe ddeuwn at y cysylltiad rhwng yr arwahanrwydd a ddisgrifiwyd uchod a'r ddisgyblaeth ei hun. Y prif arf a ddefnyddid i atal cydymffurfio a'r byd oedd disgyblaeth eglwysig, disgyblaeth oedd - fel y gwelwn yn nes ymlaen - yn cyffwrdd pob rhan o fywyd yr aelodau. Canlyniad disgyblu effeithiol oedd cadarnhau'r gwahaniaeth rhwng y byd a'r eglwys. Ar y llaw arall canlyniad "llacrwydd mewn dysgyblaeth," oedd, "achosi llawer i leihau y gwahaniaeth rhwng yr eglwys a'r byd.....Os gadael pechod a wneir yn yr eglwys heb ei ddysgyblu, bydd yn sicr o adael bwlch yn y muriau; ac o ychydig i ychydig, gwneir mur y gwahaniaeth yn gydwastad a'r llawr."⁽⁵¹⁾ Pwrpas disgyblaeth eglwysig yn ôl Thomas Rees oedd i "ddiogelu purdeb yr eglwys, - Tra byddo eglwys Dduw yn y byd llygredig hwn bydd o hyd

mewn perygl o gael ei llygru trwy ymwithiad cymeriadau annheilwng i mewn iddi. Pa faint bynag o ofal a gymerir wrth dderbyn aelodau i'r eglwys i'w profi, ac i'w mesur a'u pwysu wrth y gair, mae yn lled debygol y gweithia rhai anaddas eu ffordd i mewn iddi er pob peth."⁽⁵²⁾ Felly mae y ddisgyblaeth a'i datblygiad yn elfen bwysig yn ein trafodaeth, oherwydd y mae unrhyw amrywiaeth ynddi, tynhau neu lacio, yn newid natur aelodaeth y Cyrff, ac mae unrhyw newid yn natur aelodaeth yn rhwym o newid y Cyrff.

B. Ymddygiad Personol a Moesol.

Pennod 3. Derbyn Aelodau.

Yng ngweddill yr adran hon byddwn yn trafod gwahanol arweddau o'r ddisgyblaeth eglwysig gan sylwi'n arbennig ar y ffaith fod disgyblaeth yn codi clawdd rhwng credinwyr ac anghredinwyr, gan bwysleisio arwahanrwydd a'u hannog i fod yn wahanol i'r byd oddi allan.

Yn ddigon naturiol, y rhan gyntaf o'r ddisgyblaeth a weinyddid, oedd derbyn aelodau newydd o'r byd i gymdeithas y saint. Fel y mynegwyd eisoes, gosodwyd safonau uchel i ymgeiswyr ymgyrraedd tuag atynt, cyn y caent ddyfod yn aelodau cyflawn o'r Cyrff. 'Roedd hyn wrth gwrs yn diogelu'r Cyrff rhag i bobl anaddas ddyfod yn aelodau atynt, ⁽⁵³⁾ a'r ddisgyblaeth oedd y cyfrwng pwysicaf i hyrwyddo'r arwahanrwydd. ⁽⁵⁴⁾ Rhybuddid eglwysi'n gyson i fod yn hynod ofalus wrth dderbyn aelodau newydd. Dyma gyngor Dr. Payne ym 1847,

"Dylai eglwys arfer yn ofalus a chydwybodol ddysgyblaeth tŷ yr Arglwydd yn nerbyniad aelodau; hyny ydyw, dylai roddi cyfraith Crist mewn grym o barth y pwnc pwysig ymarferol hwn." ⁽⁵⁵⁾

Yr un oedd rhybudd T. Davies ym 1861,

"Dylai eglwysi fod yn wylidwrus iawn rhag derbyn i'w cymuned bersonau annheillwng. Y mae gair Duw yn ddigon pendant ar y pen hwn. Rhaid cael arwyddion ynddynt eu bod yn edifeiriol am bechod, canys ar y truan a'r cystuddiedig o ysbryd yn unig y mae Duw yn edrych. Rhaid i'w hymddygiad hefyd fod yn deillwng o'r efengyl - yn ddiargyhoedd, yn onest, yn sobr, yn haelionus, yn myfyrio gair Duw, ac yn rhydd oddiwrth bob pechod cyhoeddus yr oeddynt yn ddarostyngedig iddo o'r blaen. Math. 7:21-23, 13:1-43; Act.2:41.47; 1 Thes. 5." ⁽⁵⁶⁾

'Roedd yn ddisgwyliedig fod yr ymgeiswyr am aelodaeth eisoes wedi edifarhau am eu pechodau ac wedi eu hail-eni cyn iddynt ddod yn gyflawn aelodau, fel y dywed Joshua Lewis. (57)

"Priodol ydyw ymofyn yn fwy manol i sefyllfa ysbrydol y rhai a dderbynir yn aelodau i'r eglwys. Mae drws yr eglwys yn llawer rhy lydan yn yr oes hon; mae eisiau ei gyfyngu. Dylid gwneuthur drws yr eglwys, mor bell ag y gellir ei fesur wrth y Gair, o'r un lled ac o'r un uchder a drws y nefoedd. Ni ddylai neb ond credinwyr gael eu derbyn yn aelod o'r eglwys. Nid lle i wneuthur y drwg yn dda, ond lle i wneuthur y da yn well ydyw." (58)

Ategir hyn gan Moses Ellis a llawer o ysgrifenyddion eraill,

"Rhaid i'r eglwys gymeryd gofal mawr pwy mae yn ei dderbyn idd ei chymundeb.....Mae yn gofyn chwilio a chwilio yn fanol y rhai sydd yn curu wrth y pyrth: nid medru ohonynt acenu yn dda shibbolaeth y sect, a ddylai fod yn drwydded i agoriad y pyrth: dylid edrych a chwilio llawer am nodau gwir droedigaeth a gwir ddychweliad; ac nid digon ydyw cael ymgeiswyr y cyfryw nas gellir cael dim yn eu herbyn - mae yn ofynol fod rhyw air i'w ddywedyd drostynt." (59)

Ond beth oedd nodau gwir droedigaeth? Beth oedd y nodweddion yr oedd yn angenrheidiol i'w gweld mewn ymgeisydd? Dyma gyngor William Mitchill i'r Cyrff pan y byddent yn ystyried aelodau newydd. Sylwer hefyd ar y cyfeiriadau mynych a wneir ganddo at yr ysgrythur i gadarnhau ei sylwadau.

1. "Gofynir yn 26ed i'r sawl a ewyllysiant ymuno â'r eglwys, fod yn gyntaf yn ddiargyhoedd ac yn ddi-dramgwydd yn y byd, Phil. 1: 10, 11, 27, a 2: 15. 1 Cor. 10: 32. 1 Thes. 2: 11, 12. Tit. 2: 10, 11, 12, 14.
2. Eu bod wedi eu haddysgu yn ngwirioneddau a dirgeledigaethau achubol yr efengyl, o ran ffydd a sancteiddrwydd, Ioan 6: 35-45. Act. 26: 18. 1 Pedr 2: 9, 10, 11. 2 Cor. 4: 3, 4, 6,
3. Eu bod yn iach yn y ffydd, o ran pethau sylfaenol yr efengyl, 1 Tim. 1: 13. Judas 3.
4. Eu bod hwy, wedi i'r Arglwydd eu galw i ffydd, edifeirwch a newydd-deb buchedd, trwy Iesu Grist, eu rhoddi eu hunain i gael eu hachub ganddo, ac i ufuddhau iddo ymhob peth, Eph. 4: 20-24. A chan hyny,
5. eu bod yn ewyllysgar ac yn barod, trwy ei ras ef, i rodio mewn

ymostyngiad i'w holl orchmynion, ac mewn ufudd-dod i'w holl ddeddfau a'i osodedigaethau (yn ôl y goleuni sydd ganddynt) er heb ryw wrthwynebiadau, anhawsderau neu erledigaethau, a ddichon eu cyfarfod o achos hyny, 2 Cor. 8:5. "«60»

Ar ddiwedd ei draethawd Yr Aelod Cyflawn, y mae gan T. Davies "Holwyddoreg yr Ymgeisydd am Aelodaeth Eglwysig." Meddai yn ei gyflwyniad i'r holwyddoreg. "Yn y tudalenau canlynol, ni a ymdrechwn ddilyn camrau y dyn duwiol o'i sefyllfa golledig wrth natur i'w sefyllfa wynfydedig. Yr ydym yn credu fod yr hyn a ddywedir genym am dano yn wir angenrheidiol i'w wybod gan bob un sydd yn meddwl am fod yn aelod cymhwys o eglwys Crist."«61» Mae'r holwyddoreg yn gynhwysfawr iawn ac yn cyflwyno sylfeini'r ffydd Gristnogol, o'r cwmp i gyfiawnhad a sancteiddhad pechadur, o dröedigaeth i ddyletswydd y Cristion yn ei gartref. Mae'n amlwg fod disgwyliadau mawr a safonau uchel yn cael eu gosod i'r darpar aelodau cyn y caent ymaelodi. 'Roedd y safonau hyn yn driphlyg; yn ymwneud â phrofiad o dröedigaeth, gwybodaeth ysgrythurol a buchedd lân.

Er mwyn canfod y nodau hyn o wir dröedigaeth yn yr ymgeiswyr, 'roedd yn angenrheidiol i swyddogion ac aelodau'r Cyrff holi ac ymddiddan gyda hwy. Dyma'r cyngor a roddai W. Mitchill i'r eglwysi yng nghyd-destun asesu ymgeiswyr.

"Dyledswydd yr eglwys, ac yn fwy neillduol ei henuriaid tu ag at y sawl a'u cynnigiant eu hunain i gymundeb yw,

1. Mewn doethineb a phwyll ysbrydol, cyn belled ag y dichon iddynt, gwahaniaethu a barnu wrth reol y gwirionedd wedi ei chymhwyso mewn cariad, rhwng proffeswyr cywir a thwyllwyr rhagrithiol, Act. 8:20-23. Tit. 1:10, 11, 16. Dat. 2:2. Jer. 15:19.
2. Addysgu, cyfarwyddo, diddanu, meithrin, ymgeleddu, ac anog yn y ffordd, y cyfryw rai ag a farnont eu bod yn caru yr Arglwydd Iesu mewn purdeb, Act. 18:26-28. 1 Thes. 2:6, 7, 8, 11.
3. Eu cyflwyno a'u cynnyg trwy law yr henuriaid i'r holl eglwysi gyda gweddïau ac erfyniadau ar Dduw drostynt, Act. 9:26, 27.
4. Eu derbyn, ar ôl eu profi, i drefn a chymdeithas yr efengyl yn yr eglwys, Rhuf. 14:1 a 15:2, 5, 6, 7. "«62»

Mae'n amlwg fod llawer o'r eglwysi yn dilyn patrwm digon tebyg i'r hyn a nodwyd uchod. Pan oedd Cadwaladr Jones, Dolgellau, yn derbyn aelodau newydd, "byddai yn hynod o fanwl. Ni osodai ryw nifer penodol o erthyglau cred yn ammod eu derbyniad; ond ymofynai yn bwyllus a manwl hyd y byddai bosibl am arwyddion fod y cyfryw ymgeiswyr am aelodaeth eglwysig wedi eu dwyn i weled ac i deimlo eu cyflwr fel pechaduriaid, a'u bod yn ymddiried yn yr Arglwydd Iesu Grist fel yr unig a'r digonol Waredwr."⁶³

Yn yr un modd yr oedd Williams o'r Wern⁶⁴ "wrth dderbyn aelodau newyddion," yn arfer, "manyldra anghyffredin, pan yn egluro iddynt amodau y 'Cyfammod Eglwysig,' Gwasgai arnynt yr angenrheidrwydd am gydymffurfiad manwl â'i holl fanylion...Llywodraethid Mr. Williams yn hyn hefyd i ryw fesur gan yr ystyriaethau o oedran, gwybodaeth, sefyllfa, a chymeriad blaenorol ymgeisydd."⁶⁵ Rhwng 1827 a 1843 arferai blaenor o'r enw John Davies gadw dosbarth i ymgeiswyr ym mhlwyf Llanbedr Dyffryn Clwyd. "Arferai...gymeryd ymgeiswyr am aelodaeth ato i'w dŷ i'w dysgu yn fanylach, - i'w dysgu pa fodd i ddarllen yn gyhoeddus, a pha fodd i weddio; oblegid mor ofalus ydoedd am drefn a gweddusrwydd yn y gwasanaeth cyhoeddus..."⁶⁶

Dywedir yn y Crynodeb o Egwyddorion Ysgrythyrol y dylid bod yn barod i dderbyn "pob math o ddynion yn aelodau eglwysig, os byddant yn rhoddi proffes ysgrythyrol o'r gwirionedd achubol." Nid yn unig hynny, ond disgwylid i'r broffes "gael ei rhoddi ger bron yr eglwys," lle byddai'r henuriaid a'r aelodau'n gallu cwestiynu'r ymgeisydd, "hyd nes y byddo'r holl eglwys yn cael ei boddioni."⁶⁷

Holid yr ymgeiswyr mewn cyfeillach bersonol, hefyd yn y seiat a'r cyfarfod Eglwys,⁶⁸ hyd nes iddynt fodloni'r holwyr ynglŷn â'u haddasrwydd i fod yn aelodau. Yna fe'i derbynnid yn aelodau drwy i'r gynulleidfa godi deheulaw fel arwydd o'u cydsyniad.⁶⁹ Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar

bymtheg, nid rhywbeth a ddigwyddai'n sydyn oedd hyn, ond fe gymerid pwyll, gofal ac amser. Mewn rhai eglwysi rhoddid ymgeiswyr ar brawf am gyfnod nes y byddont wedi profi eu hunain yn rhai addas am aelodaeth eglwysig. Dyna oedd hanes James Hughes, cafodd "ddrws yr eglwys yn agored," ac fe'i derbyniwyd i'r seiat, ond dim ond fel aelod ar brawf. '70' Nid yw'n ymddangos fod unrhyw amser penodol o brawf cyn derbyn ymgeisydd yn gyflawn aelod, gyda rhai fe gymerai nifer o wythnosau, gydag eraill fisoedd ac mewn rhai achosion blynyddoedd. 'Roedd hyn yn amrywio o gynulleidfa i gynulleidfa, gyda rhai cylchoedd yn fwy manwl na'i gilydd.

"Yn araf iawn y symudai y Tadau gyda derbyn pobl i'r seiat, ac arferent wyliadwriaeth fanwl rhag taflu drws yr eglwys yn rhy agored. Rhaid oedd i ymgeiswyr am aelodaeth fyned trwy brawf ar ol prawf. Dŷiau mai mawr ofal calon am lês eneidiau oedd y rheswm, er, fe ddichon, eu bod yn colli weithiau trwy arfer llymder gormodol mewn rhai achosion." '71'

Nid safle, statws, gwybodaeth na'r ffaith eich bod yn blentyn i aelod oedd yn eich gwneud yn gymwys i aelodaeth, yr unig safon oedd arwyddion pendant o ail-enedigaeth. Wrth nodi rhesymau pam fod yr achosion Annibynnol mor wan ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, fe ddywed R. Thomas (Ap Vychan), golygydd cofiant Cadwaladr Jones, Dolgellau, '72' fel a ganlyn,

"Prin yr ydym yn credu ddarfod i'n tadau roddi y sylw ar feithriniaeth a ddylasant i blant proffeswyr crefydd. Credent hwy, yn eithaf priodol feddyliem ni, mai proffeswyr ffydd yn Mab Duw, a'r rhai hyny yn byw yn addas i'r efengyl, sydd i fod yn aelodau eglwysig dan y Testament Newydd, ac nad oes neb wedi ei eni yn aelod yn yr eglwys, trwy rinwedd ei gysylltiad a rhieni crediniol; ond ni allwn gydweled a hwy fod plant aelodau, oblegid hyny, i gael eu cau allan o'r cyfeillachau crefyddol, ac i gael eu hamddifadu o'r addysgiadau a geir ynddynt, fel gwnai llawer o'r eglwysi annibynol gynt." '73'

Felly, o fewn rhai cynulleidfaoedd ystyrid plant credinwyr yn anghredinwyr colledig nad oedd iddynt unrhyw ran ym mywyd yr eglwys hyd nes y byddent wedi eu hail-eni. Eto rhaid pwysleisio na roddid pwys mawr ar oedran ymgeisydd am aelodaeth, ystyrid yn hytrach brofiadau a thystiolaeth unigolion, beth bynnag oedd eu hoed. 'Roedd llawer o blant ifanc yn cael eu derbyn yn gyflawn aelodau dim ond iddynt ddangos y nodau angenrheidiol. Derbyniwyd Michael Roberts, Pwllheli, yn gyflawn aelod pan oedd yn dair ar ddeg oed ac fe dderbyniodd ei chwaer ei chymun cyntaf pan nad oedd ond naw oed. '74' Sylwn felly fod safon derbyn ymgeiswyr yn gyflawn aelodau yn uchel a haearnaidd ac 'roedd rhaid profi addasrwydd cyn y gellid cael mynediad.

Wedi i unigolion gael eu derbyn yn gyflawn aelodau, fe ddisgwylid iddynt ymostwng ac ufuddhau yn ddigwestiwn i'r ddisgyblaeth eglwysig a weinyddid o fewn y Corff hwnnw. '75' 'Roeddent i ymroi yn llwyr i fywyd y Corff gan osod eu ffydd o flaen pob peth arall, gan fyw yn amlwg wahanol i'r anghredinwyr yn ôl trefn y Corff. 'Roedd hwn yn bwyslais mawr ganddynt, fod yr hwn oedd yn derbyn yr Iesu fel Arglwydd hefyd yn derbyn bywyd, blaenoriaethau ac egwyddorion newydd. 'Roedd y ddisgyblaeth yn gynhwysfawr iawn ac yn cyffwrdd pob rhan o fywyd y crediniwr; ymarweddiad personol a chymdeithasol, bywyd eglwysig a chartrefol, cred ac athrawiaeth. Unwaith eto fe ddyfynnwn o draethawd T. Davies,

"Pan mae dyn yn gwneud ei hun yn aelod o unrhyw gymdeithas, y mae yn angenrheidiol iddo wybod rheolau y gymdeithas hono, ac ymdrechu eu cadw hyd eithaf ei allu...Y mae yn ddyledswydd ar ddyn ymddarostwng i drefn y Beibl fel y deallir hi gan y gymdeithas y perthyna iddi." '76'

Wrth gredu yn yr Iesu, 'roeddent yn dod yn aelodau o gorff, "yn gymdeithas neillduol o dduwiolion mewn cymundeb â'u gilydd, ac â'u Duw i

ddwyn yn mlaen ei deyrnas yn y byd,"^{<77>} i fyw yn sanctaidd a duwiol gan ofalu am ei gilydd mewn cariad. Ymhlyg yn hyn 'roedd yn ofynnol iddynt ofalu am eneidiau ei gilydd drwy i'r naill gynghori a cheryddu y llall.

"Y mae cynghorion a rhybuddion brawdol yn rhan bwysig o ddysgyblaeth eglwysig.....Mae perthynas aelodau eglwysig, yn rhwymo y naill i ofalu am leshad y llall; ie, y mae pob gwir Gristion yn wastad yn teimlo ei fod ef mewn rhyw ystyr yn cael ei ystyried gan ei Arglwydd dan rwymau i fod yn 'geidwad i'w frodyr,' ac nis gall lai na theimlo yn euog pan glywo am frawd neu chwaer wedi syrthio i brofedigaeth, os na fydd ei gydwybod yn tystio ei fod ef wedi gwneud pob peth a allasai i ragflaenu ei gwmp."^{<78>}

Crëai hyn gymdeithas glôs o bobl a oedd yn adnabod ei gilydd yn dda ac yn cymryd diddordeb angerddol ym mywydau ei gilydd. Gwyddent beth oedd hynt a helynt, ofnau, pryderon, rhinweddau a gwendidau ei gilydd. Cymdeithas ydoedd lle yr oedd ymdeimlad byw eu bod wedi eu gwahanu oddi wrth y byd; cymdeithas lle 'roedd yr holl aelodau'n ddibynol ar ei gilydd am gynhaliath ysbrydol ac arweiniad moesol. Cymuned lle 'roedd undeb arbennig yn bodoli; teulu lle 'roedd pawb yn perthyn i'w gilydd trwy'r Iesu; pererinion a oedd yn cyd-deithio.

Ond beth oedd diben pennaf disgyblaeth eglwysig? Dyma gwestiwn a ofynnwyd yng Nghymdeithasfa Dinbych 1794, a dyma'r ateb a roddwyd.

"Yr un diben sydd i Ddisgyblaeth Eglwysig, ag sydd i Athrawiaeth Efengylaidd, sef, 1. Gogoniant Crist, Pen yr Eglwys. 2. Lleshad eneidiau. 3. Dinistr pechod."^{<79>}

Diffiniodd J.R.,^{<80>} yn gryno beth oedd amcan disgyblaeth eglwysig, pan ddywedodd,

"Dylai disgyblaeth amcanu at ogoniant Duw, lles yr achos, ac adgyweiriad y troseddwr."^(e1)

'Roedd pwrpas y ddisgyblaeth felly yn driphlyg, gogoneddu Duw, cadw cymdeithas y saint yn bur a dihalog, a chywiro credinwyr a oedd yn mynd ar gyfeiliorn. Os oedd aelod yn troseddu'n erbyn rheolau'r Corff mewn unrhyw ffordd 'roedd yn rhaid ei ddisgyblu. Tair rhan oedd i'r disgyblu hwn, yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y drosedd. Yn gyntaf ceryddid troseddwr yn gyfrinachol. Yn ail, os nad oedd yn dychwelyd o'i ffyrdd cyfeiliornus fe'i ceryddid yn gyhoeddus ger bron yr eglwys, cynhwysai hyn weithiau amddifadu'r troseddwr o rai breintiau, fel ei wahardd rhag cyfranogi o Swper yr Arglwydd. Gelwid hyn gan rai yn "fwrw i'r byd bach."^(e2) Yn drydedd, os mai parhau gyda'i bechod yn ddi-edifar oedd hanes y troseddwr, yna fe'i diarddelid gan ei ysgymuno o gymdeithas fewnol y Corff. Trefn oedd hon a ddeilliai'n uniongyrchol o'r ysgrythur.^(e3) Pan ddeuai person yn aelod o Gorff 'roedd rheidrwydd arno i dderbyn y ddisgyblaeth. Disgyblaeth ydoedd yn deillio o'r Beibl, ac yn cyffwrdd â phob rhan o fywyd yr aelod a'i phwrpas oedd ei gadw rhag gŵyro oddi wrth wirioneddau'r efengyl.

Ond pwy oedd ag awdurdod i ddisgyblu o fewn y Cyrff? Yn ôl Cymdeithasfa Dinbych 1794, "yr eglwys fel y cyfryw," oedd â hawl i ddisgyblu.^(e4) Ond fe ymddengys fod mwy nag un farn ynglŷn â phwy oedd ag awdurdod. Yn ôl Thomas Rees, mynnai rhai mai gweinidogion oedd i weinyddu'r ddisgyblaeth, mynnai eraill mai gweinidog mewn cydweithrediad â henuriaid oedd i'w gweinyddu. Daliai eraill mai'r gweinidogion a swyddogion mewn cysylltiad â'r holl eglwys oedd â hawl i ddisgyblu. Wedi iddo bwysu a mesur y syniadau uchod yng ngoleuni'r Testament Newydd, deuai Thomas Rees i'r casgliad mai'r gweinidog a'r swyddogion mewn cysylltiad â'r holl

frawdoliaeth oedd â hawl i ddisgyblu.⁽⁸⁶⁾ "Y mae dysgyblaeth i gael ei gweinyddu, nid yn unig yn nghynulliad yr eglwys, ond trwy ei chydsyniad, neu o'r hyn lleiaf, y mwyafrif o honi."⁽⁸⁶⁾ Er mai'r eglwys yn ei chyfanrwydd oedd yn gweinyddu'r ddisgyblaeth, er hwylustod a threfn 'roedd rhaid cael rhai i flaenori ac o ganlyniad 'roedd y pen trymaf o'r gwaith yn syrthio ar y gweinidogion a'r swyddogion,⁽⁸⁷⁾ ac mewn cofiannau a hanes eglwysi'r cyfnod ceir llu o enghreifftiau.⁽⁸⁸⁾ Nid yw'n ymddangos fod nemor ddim gwahaniaeth rhwng y dull Methodistiaidd (Methodistiaid Calfinaidd a Wesleyaidd) a'r dull Cynulleidfaol (Bedyddwyr ac Annibynwyr) o weinyddu'r ddisgyblaeth. Yr unig wahaniaeth amlwg yw fod gan y Gweinidogion a'r Blaenoriaid Methodistiaidd fwy o awdurdod ar eglwysi na'r Gweinidogion a'r Diaconiaid cynulleidfaol.

Yn gyson fe anogwyd gweinidogion i gadw'r ddisgyblaeth, er mwyn atal rhai anaddas rhag aros yn yr eglwys. Yn ei bregeth ar Rwymedigaethau y Weinidogaeth, 'roedd D.Charles⁽⁸⁹⁾ yn galw ar i weinidogion fod yn fwy dyfal gyda'r ddisgyblaeth. "Haws yw dweud yn erbyn pechod yn yr areithfa," meddai, "na chynaf min dysgyblaeth i fyny gyda manylder diflino yn erbyn pob peth sydd yn anheilwng o achos Crist."⁽⁹⁰⁾ Yn ei lythyr at Gymdeithasfa'r Bala, ym 1858, cymhellai William Roberts, Amlwch,⁽⁹¹⁾ i'r cynrychiolwyr a oedd yno annog yr eglwysi i gadw disgyblaeth fanwl.⁽⁹²⁾ Gwaith anodd iawn i'w wneud yn effeithiol oedd disgyblu gan ei fod yn ymwneud â theimladau personol unigolion. Byddai'n aml yn creu tyndra ac yn peri gwrthdrawiadau o fewn i eglwysi ac fe fyddwn yn ymdrin â hyn eto yn y traethawd.

Pennod 4. Ieuo Anghymarus.

Fel y crybwyllwyd eisoes 'roedd dylanwad y Cyrff Ymneilltuol yn cyffwrdd pob rhan o fywyd eu haelodau. 'Roedd eu Cristnogaeth yn meddiannu bywyd dyn yn llwyr, fel y dylai fod wrth gwrs. Nid oes unrhyw wedd yn dangos hyn yn amlycach na'r ddisgyblaeth ei hun. Fe gadwyd trefn a rheolaeth fanwl wedi eu sylfaenu ar yr ysgrythur, ynglŷn â'r hyn oedd yn dderbyniol a'r hyn oedd yn annerbyniol yn eu hymarweddiad. Gwelwn wrth edrych yn fanylach ar y ddisgyblaeth sut yr oedd crefydd y Cyrff yn llyncu'r bobl yn llwyr ac fe fyddwn yn gofyn maes o law a oedd y llwyr ymroddiad hwn a'u nodweddiad yn parhau trwy gydol y cyfnod dan sylw? Ceir syniad eglur o'r ddisgyblaeth a'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig gan yr aelodau yn Rheolau a Dybenion y Cymdeithasau Neillduol yn mhlith y Bobl a elwir y Methodistiaid yn Nghymru, a fabwysiadwyd ganddynt yn Sasiwn y Bala ym 1801. Dyma fraslun o gynnwys y rheolau disgyblaethol, nodir rhif y rheolau yn y cromfachau.

1-10. 'Roedd yr aelodau i fod, "mewn gradd wedi eu hargyhoeddi o bechod(1)".....ac "o'u hangen o Grist...(2)" 'Roeddent i fod â "newyn a syched am Grist a'i gyfiawnder.....yn ddiwyd yn yr arferiad o foddion gras;.....(3)" Nid oeddent i "ddal un opiniwn, neu farn, yn wrthywyneb i byngciau sylfaenol Cristionogrwydd;(4)" nac ychwaith "yn ddadleuwyr ymrosyngar....(5)" 'Roeddent i "ymwrthod â phob llwybr pechadurus a gwaradwyddus, croes i air Duw.....gan ymadael â gor-wagedd byd a'i arferion llygredig - megis, cymdeithasau oferwag, gwylmabsantau, dawnsiau, chwaraeyddiaeth, gloddesta, cyfeddach a'r cyffelyb.(6)" Nid oeddent i "briodi un digred..(7)" nac yn "dorwyr ammod.....(8)" 'Roeddent i "gadw addoliad yn eu tai, o leiaf dwywaith y dydd..(9)" a "sancteiddio y Sabboth".....(10)

11-20. 'Roedd yn "ofynol gan bob aelod fod yn sobr ac yn gymhedrol mewn bwydydd a diodydd....(11)" ac i "ochelyd dulliau, neu ffasiynau, yn eu gwisgoedd a fyddo yn tueddu i feithrin balchder, anlladrwydd, neu wastraff.....(12)" Dylent "fod o wefus bur.....yn ochelgar rhag pob llwon a rhegfeydd.....(13)" ac yn eirwir a gonest.(14, 15) Nid oeddent i "gablu urddas, y rhai mewn awdurdod.." I'r gwrthwyneb 'roeddent i "ymddwyn, mewn gair a gweithred, yn ffyddlon a diffuant i'r llywodraeth.(16)" Nid oeddent i fod yn "ocrwyr, yn orthrymwyr, nac yn gybyddion; ond yn drugarogion ac yn haelionus.....(17)" Wrth werthu nwyddau nid

- oeddent i dwyllo (18), nac ychwaith i fenthyg "eiddo neb ar goel, heb ymgais yn gydwybodol am dalu yn ol modd ac amser yr addewid...." (19, 20)
- 21-26 Nid oeddent i "arfer swynion, na swyn-gyfareddion... (21)". Os yn byw ar lan y môr 'roeddent i "ymddwyn yn dosturiol tuag at y rhai a welont mewn perygl.... (22)" Condemniwyd diogi (23), a difrawder (24), ac anogwyd dangos tiriondeb tuag at deulu, a lletuwyr. (25). 'Roeddent i gyfrannu at "achos yr efengyl ac achosion y tlodion yn eu plith. (26)"
- 27-33 Mae'r rheolau canlynol yn ymwenedd â threfn disgyblaeth a chyfarfodydd o fewn y cymdeithasau. Nid oeddent i "dderbyn aelod yn fyrbwyll..... (27) " "Os rhoddir i mewn achwyniad yn erbyn rhyw aelod, bydded i'r gymdeithas holi yn fanwl.....cyn ceryddu (28)" Os oedd unrhyw un yn gweld bai mewn brawd, 'roedd yn gyntaf i geisio ei argyhoeddi "rhyngddo ef ei hun....." os nad oedd yn gwrando, 'roedd i fynd ag "un neu ddau o'i gyd-aelodau". Os nad oedd yn gwrando arnynt hwy, "dywedded i'r Eglwys.... (29)" Nid oedd neb a dorwyd allan, i "gael ei dderbyn yn ôl, heb arwyddion boddlonawl i'r Eglwys o'i edifeirwch am ei fai.... (30)" Rhoddir cyfarwyddiadau pa fodd y dylid cynnal cyfarfodydd (31); pa fodd i ddewis blaenoriaid (32); a pha fodd i ddelio ag anghydfod. (33) ⁹³

Er mai rheolau disgyblaethol y Trefnyddion Calfinaidd oedd rhain, maent yn ddrych o'r ddisgyblaeth a weinyddid o fewn yr holl Gyrff Ymneilltuol ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. ⁹⁴ O ganlyniad maent yn ganllaw hwylus i ni ei ddilyn wrth fwrw ati i edrych ar nodweddion y ddisgyblaeth. Ni fydd gofod yn caniatáu i ni edrych gyda manylrwydd ar bob gwedd o'r ddisgyblaeth. Gan hynny bydd rhaid dewis rhai pynciau i fanylu arnynt gan edrych yn fras ar y gweddill. Y pynciau y byddwn yn manylu arnynt yn awr fydd, ieuo anghymarus, balchder a sabathyddiaeth.

Y seithfed rheol yn Rheolau a Dybenion y...Methodistiaid oedd, "Na byddo iddynt briodi un digred, na dilyn arferion anllad llygredig y byd yn eu rhag-gyfeillachu..." 'Roedd trafod mawr gan y pedwar Corff Ymneilltuol ar y rheol hon drwy gydol y ganrif ac yn enwedig yn y cyfnod rhwng 1820 a 1860, ar ôl hynny mae'r erthyglau ar "Ieuo yn anghymarus" yn brin iawn yn y cyfnodolion. Y Trefnyddion Calfinaidd, yn fwy na'r un o'r

Cyrff eraill a lynai wrth y rheol hon. Seiliwyd y rheol ar eiriau'r Apostol Paul yn 2 Corinthiaid 6:14, "Na iauer chwi yn anghymharus gyd â'r rhai digred, canys pa gyfeillach sydd rhwng cyfiawnder ac anghyfiawnder?" Drychfeddwl gwreiddiol yr adnod hon yn ôl Barnes yw "eu bod i ymattal oddi wrth bob cyssylltiad âg angrhedinwyr ac anffyddwyr, a phaganïaid, ac â'r rhai nad oeddent yn Gristionogion."⁽⁹⁶⁾ Hefyd pwysleisiwyd geiriau'r Apostol yn 1 Corinthiaid 7:39, lle y dywed "Y mae hi yn rhydd i briodi y neb a fynno, yn unig yn yr Arglwydd." Wrth esbonio'r geiriau hyn dywed James Hughes "y dylai gwraig weddw gristionogol, yn gystal a phawb eraill cristionogol, ofalu am briodi 'yn yr Arglwydd;' dylai ochelyd priodi a phagan eilun-addolgar, a dyn sydd yn dal cyfeilliornadau cabledus a dinystriol," dylai yn hytrach briodi un sydd yn "wir gredadyn ac yn ofni Duw."⁽⁹⁶⁾ Cymerwyd y geiriau hyn yn llythrennol fel gorchmynion a waharddent yr aelodau rhag priodi unrhyw un na phroffesai Iesu Grist fel Arglwydd ar eu bywyd a Gwardwr i'w pechodau.

Wrth drafod y geiriau o 2 Corinthiaid, "Na iauer chwi yn anghymharus gyda'r rhai digred", yng Nghymdeithasfa'r Bala ym 1794, fe wnawd y sylwadau hyn.

"Y mae ystyr y geiriau yn amlwg i'r neb a fynno ddeall, a rhodio yn ei lwybr pur ac anrhydeddus. Gan nad yw y geiriau yn nodi allan un math o gydiauo, yn neillduol mwy nag arall, amlwg yw ei fod yn gwahardd pob math o iauo gyda'r rhai digred - megis mewn cyfrinach, fel cyfeillion mynwesol, hefyd cyd-driniaeth mewn negeswaith bydol; ond yn enwedig, ac yn fwyaf neillduol, cydiauo mewn Priodas, gan mai hynny yw yr iauo mwyaf agos a all fod rhwng neb a'i gilydd, yn ôl trefn natur...."⁽⁹⁷⁾

Ym 1828, dros ddeg mlynedd ar hugain yn ddiweddarach fe gytunai William Mitchill yn llwyr gyda'r sylwadau uchod pan ddywedai mai dyletswydd y Cristion ydyw "priodi yn yr Arglwydd, a chan hynny ni ddylai y rhai ag

sydd yn proffesu gwir grefydd ddiwygiedig, ymbriodi ag anghredinwyr, pabyddion, nac eulun-addolwyr eraill; ac ni ddylai y duwiolion ychwaith fod wedi eu hieuo yn anghydmarus trwy ymbriodi â'r sawl sydd annuwiolion yn eu bucheddau neu yn dal heresiau dinystriol."«98»

Ymddangosodd erthygl gyntaf Y Drysorfa ar y pwnc ym 1834, pryd y cyfieithwyd erthygl o The Revivalist. Yn yr erthygl honno dywedir, "na ddylai neb sydd yn proffesu eu hunain yn ddisgyblion i'r Arglwydd Iesu ymbriodi â'r rhai di-broffes." Y rheswm a roddwyd oedd fod, "canlyniadau enbydus iawn i'r cristionogion hyny a briodant rai a'nghristnogol, ie, ni ddianc un o gant o honynt braidd, heb brofi chwerwder y peth....Daliwyd llawer gan y darfodedigaeth, ac amryw o glefydau eraill....Mae llawer dyn hefyd wedi ei ennill i wrthgilio yn hollol gan i'r wraig fod gymmaint am y byd presennol....."«99» Yna fe rydd yr awdur nifer o straeon o'i brofiad personol i brofi fod yr hyn a ddywedai'n wir. 'Roedd peryglon felly i'r credadun os oedd yn priodi â pherson di-gred, a'r perygl mwyaf oedd cael ei arwain i wrthgilio. Melltith priodasau "cymysg" fel hyn i'r Cyrff oedd eu bod yn gwanychu y bywyd mewnol drwy i aelodau ddyfod o dan ddylanwad pobl ddi-broffes.

Rhoddodd John Elias gyngor i ieuenctid yr eglwysi ar y pwnc pwysfawr o Ieuo yn Anghymharus, ac mae'n sicr fod ei eiriau ef yn cario mwy o bwysau na geiriau llawer o'i gyfoeswyr. "Gochelwch," meddai "gael eich hudo gan fyd, cnawd na diafol i ddewis cymheiriaid-bywyd annuwiol. O bob ieuo, hwn ydyw yr Ieuo mwyaf anghymharus; oblegid nid oes y fath anghymhariaeth ar y ddaear ag sydd rhwng credadyn ac anghredadyn - rhwng plentyn Duw a'i elyn."«100» Er mwyn ceisio atal priodasau cymysg fe roddwyd

cynghorion i'r aelodau yn y cylchrau, fel y dyfyniad canlynol ynghylch dewis gwraig gan yr Esgob Beveridge.

"Ymdrechaf bob amser i wneuthur dewisiad o ferch i fod yn briod i mi ag sydd yn gyntaf wedi gwneuthur dewisiad o Grist yn briod iddi ei hun:....Am hynny fel y byddo hyn yn rhan ac yn ddedwyddwch i mi, yr ydwyf yn gadarn benderfynu peidio byth ag amcanu at y fath orchwyl pwysfawr, heb yn gyntaf ymostwng ger bron gorsedd gras a thaer erfyn ar fy Nhad nefol fy anrhydeddu a chyfranogaeth un o'i anwyl blant; yna byddaf mor ofalus a gochelgar ag y gallaf, i beidio byth a gosod fy serchiadau ar un ddynes i fod yn wraig i mi, nes byddaf wedi cael fy llwyr berswadio am y sail sydd genyf i'w charu hi fel gwir Gristion....." <101>

Os oedd Sarah Jones yn nodweddiadol o ferched duwiol y cyfnod, mae'n amlwg fod llawer yn dilyn y cynghorion hyn. Yr oedd W. Roberts, Amlwch, am briodi Sarah Jones, ond gomeddai ei mam iddi wneud hynny gan "fod rhagolygon y canwyllwr (W. Roberts) yn ymddangos heb fod yn rhai goleu iddi." 'Roedd ei mam fel llawer un o'i blaen am iddi briodi rhywun mwy cefnog ac edrychai ar briodas fel trefniant masnachol. Ond 'roedd Sarah wedi datgan na chymerai "neb ond dyn duwiol yn ŵr," ac wedi cyfnod "hir o ymbwyllo, gweddio, ac ymgynghori A Duw," penderfynodd briodi W. Roberts, a hynny yn groes i ewyllys ei mam. <102>

Dull arall o geisio atal priodi y tu allan i'r cylch Cristnogol, oedd rhoi moeswersi am bobl a syrthiodd i'r pechod ac a wynebodd ganlyniadau erchyll, a phrofedigaethau mawrion o ganlyniad i'w cwmp. <103>

Er mai'r Methodistiaid Calfinaidd oedd fwyaf brwd ar y pwnc hwn nid hwy oedd yr unig rai i leisio barn ar hyn yn hanner cyntaf y ganrif, oherwydd fe geir sylwadau digon tebyg yng nghyfnodolion y Cyrff eraill hefyd. <104>

Gosodwyd felly safonau uchel ynglŷn â phriodi i'r aelodau, a bwysleisiai eu arwahanrwydd. Pobl arbennig oeddent i Dduw wedi eu neilltuo i fywydau gwahanol a gwell, ac nid oedd lle yn y bywyd hwnnw i gyfeillachu â'r byd. Yr unig ffordd i ddelio gydag aelodau a wrthodent wrando ar y cyngor a roddwyd iddynt gan droseddu trwy briodi â'r di-gred oedd eu diarddel. Fel y dywed Hen Fethodist yn blwmp ac yn blaen drwy ddyfynnu Dr. Campbell,

"Ac felly yn yr holl eglwysi Cristionogol da eu trefn, mae arferiad i rybuddio y rhai y ceir eu bod yn ffurfio cyfathrach â phersonau anychweledig neu angrhedinwyr; i fynegu iddynt fod hyn yn anghyson a'u dyledswydd, ac yn beryglus i'w heneidiau; ei bod yn weithred o droseddiad yn erbyn yr Arglwydd; a chan hynny y bydd y fath ieuad yn eu gwneud yn ddarostyngedig i gael eu diarddel o'r gymdeithas eglwysig. Yr ydym yn dywedyd, mai fel yna y mae mewn eglwysi da eu trefn; felly mae mewn cylch helaeth, yn mysg Bedyddwyr ac Annibynwyr, ond mae ymhell oddiwrth fod felly yn gyffredinol....." <105>

Yn y Drysorfa, 1856, mae holiadur bychan yn ymwneud â phriodi, ac un o'r cwestiynau ynddo yw, beth "a ddylid ei wneud i'r rhai hynny a ddichon dori eu cyfamod â duwiolion er mwyn cael ymgyfammodi ag annuwiolion?" A'r ateb digamsyniol yw, "Eu diarddel o'r berthynas grefyddol, am iddynt ddirmygu a gwadu y ffydd gynta, gan nad yw eu serch at, a'u cyfeillach â gelynyion Duw, ond godineb yn ôl gair Duw. (Iago 4:4, 1 Cor. 3:4,5, 1 Tim. 5:8.)" <106> Yr un oedd ateb Caradoc i'r cwestiwn pan ddywed, "O ran ein hunain, nid ydym yn petruso ateb yn rhwydd a chroew. Diarddeliad, dywedwn ni, yw yr hyn sydd yn ymddangos yn unol â gair y gwirionedd." <107> Mae'n amlwg y gweithredid hyn o fewn i'r Cyrff. Diarddelwyd Jane Roberts, mam John Roberts, Khasia, o Eglwys Rehoboth, Corris, oherwydd iddi briodi Richard Roberts nad oedd yn aelod eglwysig ar y pryd. A dywed R.J. Williams yng nghofiant John Roberts, Khasia, fod diarddeliad yn ddi-ffael yn dod i ran aelod a briodai un dibroffes. <108>

Ond yr hyn sy'n rhyfeddol i'n hoes lac ni yw nid yn unig y rhoddid cyngor i aelodau pa fath bobl oedd yn addas i'w priodi, ond rhoddid hefyd gyngor ar ganlyn neu rag-gyfeillachu fel y'i gelwid. Yn ei hunangofiant mae gan Gweirydd ap Rhys⁽¹⁰⁹⁾ adran helaeth sy'n cyfeirio at ei garwriaeth gyda Grasi. Yn ôl yr hyn a ddywed, yr oedd gan Fethodistiaid Môn, "reol y pryd hwnnw, (1828), sef y dylai pob gŵr ieuanc a fwriadai gyfeillachu â merch ieuanc fynegi hynny, cyn dechrau, wrth un o flaenoriaid ei gapel."⁽¹¹⁰⁾ Ni wyddai Gweirydd os oedd y rheol yn y "Gyffes Ffydd". Ond pan ysgrifennodd ei atgofion flynyddoedd lawer yn ddiweddarach tybiai fod y rheol honno "wedi mynd efo'r gwynt, efo'r Seithfed Reol." Wedi i Gweirydd hel digon o blwc i ofyn caniatâd un o'r blaenoriaid, sef Siôn Jones, i ganlyn Grasi, gosodwyd amodau caeth i'r rhag-gyfeillachu. Dywedodd Gweirydd wrth Siôn Jones, "Rydym wedi penderfynu'n ddifrifol iawn i gadw cyfeillach dros ryw hyd amhenderfynol o amser..."⁽¹¹¹⁾ Ond 'roedd yr hen flaenor yn anhapus gyda hyn, a dywedodd, "Wel mi hoffwn i o'm calon, i chi fod yn siampl i ieuencyd yr ardal yn hyn o orchwyl difrifol. Gwyddoch gymaint sy'n colli eu traed yn eu rhag-gyfeillach, er gwarth i grefydd.....Un peth pur anweddus yw cadw cyfeillach dros ormod o amser cyn penderfynu priodi neu roi'r gyfeillach i fyny. Amser diffwrwyth dros ben mewn ystyr grefyddol, ydyw amser rhag-gyfeillachu. Rydw i ac Elin yn barnu bod chwe mis yn ddigon." Cytunodd Gweirydd a Grasi gyda'r trefniant hwn, eu bod yn cyfarfod am awr yr wythnos yn y capel, a'u bod erbyn y calangaeaf dilynol un ai yn torri'r gyfeillach neu yn priodi.⁽¹¹²⁾ A dyma egwyddor arall oedd ganddynt sef, mai unig bwrpas canlyn oedd priodi, fel yr eglura Rhys Gwesyn Jones.⁽¹¹³⁾ "Canlyniad naturiol caru yw priodi; ac er mwyn priodi yn unig y dylid caru. Os na bydd amcan i briodi, rhoddwch heibio ar unwaith, onide byddwch yn sicr o edifarhau."⁽¹¹⁴⁾

Ni wn pa mor gyffredin oedd y rheolau yn ymwneud â rhaggyfeillachu y cyfeiriai Gweirydd ap Rhys atynt, ond mae'n amlwg eu bod yn cael eu gweithredu mewn rhai cylchoedd. 'Roedd y rhesymau am fodolaeth y rheolau hyn yn ddeublyg; yn gyntaf, i atal priodasau cymysg rhwng credinwyr ac angrhedinwyr; ac yn ail, i geisio diwygio arferion traddodiadol y Cymry wrth ganlyn. ¹¹⁵ Pryderai Llywelyn ym 1818 am yr arfer o "garu wedi pryd cysgu", oherwydd 'roedd yr arfer hwn yn ei farn ef yn peri fod "llawer mwy na'r haner.....o'r merched ag ydynt yn priodi, yn feichiog cyn myned i'r cyflwr priodasol....." Credai mai'r rheswm am hyn "yw yr amser a'r lleoedd anweddaidd y mae dynion ieuainc yn ymggyfeillachu, neu yn caru ynddynt, sef, wedi i'r teuluoedd y perthynant iddynt fyned i gysgu, a hynny yn fynych trwy'r nos, ac ysgatfydd dwy neu dair noswaith yn yr wythnos, ac yn aml mewn ystafell wely, heb neb yn yr ystafell trwy yr holl amser hyn, ond y gwr ieuanc a'i gariad...." Er mwyn ceisio rhoi terfyn ar yr arfer hwn galwai Llywelyn ar i bennau teuluoedd, gweinidogion ac efengylwyr "gyduno i ddinystrio y bai gwaeddfawr ac erchyll." ¹¹⁶ Yr un oedd cwyn I. Penllyn yn Y Drysorfa ym 1863. ¹¹⁷ Ceisiodd rhai eglwysi arfer moddion i ddiwygio'r ymddygiad hwn. Oddeutu 1838 fe sefydlwyd Cymdeithas Ddiweirdeb yn Sir Gaernarfon, ¹¹⁸ cymdeithas ydoedd i feithrin purdeb teuluol a chymdeithasol. Yr oedd John Jones, Bryn'rodyn, yn aelod ohoni ac un o'i rheolau oedd fod rhaid i'r aelodau fod yn eu cartrefi erbyn deg o'r gloch bob nos. Cyhuddwyd John Jones o fod wedi caru trwy'r nos gyda'i ddyweddi, a bu rhaid iddo fynd ger bron y Parch. David Jones a'r Capten Owen yn y Cyfarfod Misol. ¹¹⁹ 'Roedd y Cyrff yn cadw awenau tynn ar eu haelodau ynghylch eu harferion caru. Aethpwyd â John Jones eilwaith ger bron y Cyfarfod Misol oherwydd ei gyhuddo ef o dorri amod gyda merch. Ond fe'i dyfarnwyd yn ddieuog o'r cyhuddiad gan John Jones, Tal-y-sarn. ¹²⁰ Yng nghofiant Michael Roberts, Pwllheli, ceir hanesyn anarferol am ŵr o'r enw

Humphrey Jones yn gorfod mynd ger bron Cyfarfod y Brodyr i dderbyn cerydd eglwysig oherwydd iddo groesi afon ar gefn buwch i fynd i garu. ^{<121>} Y rheswm am gynnwys y ddau hanesyn uchod yw eu bod yn dangos pa mor fanwl y gallai'r ddisgyblaeth fod. 'Roedd yr eglwysi lleol yn ddigon bychan iddynt wybod beth oedd hynt a helynt yr aelodau, ac ni ellid cuddio fawr ddim oddi wrth y cydaelodau. Ar y llaw arall, pe byddai'r eglwysi'n rhai mawrion gyda dyweder dri chant a hanner o aelodau ni fyddai'n ymarferol bosibl i weinyddu disgyblaeth mor fanwl.

Dychwelwn yn awr at y gosodiad fod yr angen am reolau wrth rag - gyfeillachu cyn priodi yn deillio i raddau o arferion a moesau'r Cymry. Yn ei draethawd Caru Priodi a Byw, mae Rhys Gwesyn Jones, yn crybwyll rhai o hen arferion y Cymry wrth garu, dywed,

"Mae un dull o garu yn bur gyffredin yn Nghymru er fod ar y rhan fwyaf gwilydd o'i herwydd. - Caru yn y gwely. Mae yr arferiad yma yn ffynnu yn fwy cyffredin nag yr addefir; mae yn rhanau o Sir Aberteifi, Sir Benfro, Sir Feirionydd..... Mae rhai yn barod i amddiffyn yr arferiad. Gofynai gwraig unwaith i ferch gall a chrefyddol iawn yn Sir Aberteifi. "Beth! Rachel, nid ydych chi yn caru yn y gwely does bosibl?" "Wrth gwrs," ebe hithau, "ni chymerwn bum can punt am garu wrth y tân," oedd yr ateb: "yr arferiad gyda ni yw caru yn y gwely, ac felly hono ydwyf finnau yn ei dilyn; pe byddai rhyw ddull arall mewn arferiad, ni byddai waeth genyf ei ddilyn; ond nid wyf am dori ar draws yr arferiad, ac felly fyned yn destun gwawd yn y gymdogaeth. Mae ereill yn amddiffyn yr arferiad trwy ddweyd na oes dim mwy o ddrwg yn dilyn y dull hwnnw na rhyw ddull arall. Nid wyf am ddadleu y cwestiwn yma, ond gallaf fentro dweyd fod yn anhawdd i neb sydd yn dilyn yr arferiad ddywedyd, "Nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg." A dweyd y lleiaf mae ambell dro pur anymunol yn dygwydd mewn cysylltiad â'r arferiad." ^{<122>}

Yr arfer a'r traddodiad ers cyn cof oedd fod pobl ifanc pan yn canlyn yn mynd i'r gwely i garu a hynny'n aml drwy gydol y nos. Arweiniai hyn i demtasiwn, anlladrwydd, godineb ac yn fynych i eni plant anghyfreithlon. ^{<123>} Testun Llythyr Cymanfa Penygroes, Penfro, Mehefin

1824, oedd godineb. Yn y llythyr hwnnw pwysleisiai'r Parch. John Evans, Hebron, bechadurusrwydd godineb gan roi nifer o gyfarwyddiadau pa fodd i ymgadw rhagddo. ⁽¹²⁴⁾ Mae'n amlwg fod J.H. a Mr. David Jones, Llangeitho, wedi gyrru llythyr at James Hughes yn gofyn am ei gyngor ynglŷn â'r broblem o garu yn y gwely. Oherwydd mewn ateb o'i eiddo, dyddiedig Ebrill 1839, mae James Hughes yn ymosod yn chwynn ar yr arfer "ffiaidd... o gyfeillachu â meibion anniwair ar hyd y nos, mewn gwelyau, ac ar hyd taflodau ac ysguboriau." Ochneidiai gyda chywilydd fod y Saeson yn Llundain yn edliw yr arfer iddo. Mae'n amlwg hefyd nad pobl o'r byd yn unig oedd yn dilyn yr arfer, ond hefyd aelodau eglwysig. Cyngor James Hughes i'r gwŷr o Langeithio oedd iddynt, "fynnu cael addewid gan bob mab a merch ieuanc," a dderbynnid "i'r eglwys yn gystal a chan y rhai sydd yn yr eglwys eisoes, na byddant hwy byth yn euog o gyfeillachu a chydorwedd yn y nos." A phe byddai un o'r aelodau'n torri'r amod, dylid ei ddi-aelodi rhag blaen. ⁽¹²⁵⁾ 'Roedd yr arfer hefyd yn fyw ar Ynys Môn. Oddeutu 1852 cychwynnodd cyfres o ohebiaethau rhwng y Parch. J.W. Trevor, Periglor Llanbeulan a Changhellor Eglwys Gadeiriol, Bangor, a W. Roberts, Amlwch. Testun y gohebiaethau hyn oedd y "ddefod warthus a thoreithiog mewn drygau ysgeler a ffynai yn mysg ieuenctyd, ac a elwid yn arfer y wlad yn nghyfeillach y rhywiau cyn myned i'r stad briodasol." Penllanw'r drafodaeth hon oedd cynnull cynhadledd o Ymneilltuwyr ac Eglwyswyr i edrych ar sefyllfa foesol Ynys Môn a cheisio diwygio'r sefyllfa honno. ⁽¹²⁶⁾

Felly 'roedd y pwyslais a roddwyd ar rag-gyfeillachu nid yn unig yn ymateb i ofynion yr ysgrythur ac i atal crediniwr rhag priodi anghrediniwr, ond hefyd i osgoi arferion anfoesol. Pwynt y dylid ei nodi hefyd yw fod aelodau'r Cyrff yn caniatáu i'r ddisgyblaeth gyffwrdd hyd yn oed rhannau mwyaf personol eu bywydau. Y dewis iddynt oedd un ai cydsynio

A'r ddisgyblaeth yn ei chyfanrwydd, neu wrthod y ddisgyblaeth a chael eu diarddel a'u cyfrif ymhlith y colledig. 'Roedd y gwahaniaeth rhwng yr eglwys a'r byd mor glir a syml â hynny. Pobl wahanol oedd pobl Iesu Grist.

Cyfeiriwn yma'n fyr at arfer arall yn gysylltiedig â phriodas a barai gryn gur pen i arweinyddion y Cyrff Ymneilltuol sef, paratoi a gwerthu diod gadarn i'r gwahoddedigion mewn priodasau. Y drefn oedd fod yr arian a gasglwyd drwy werthu'r cwrw yn mynd i'r pâr priod i'w cychwyn ar y daith. Y drwg oedd fod y ddefod yn peri anhrefn llwyr mewn ardal. Un o'r rhai a frwydrodd yn egniol yn erbyn yr arfer hwn oedd y Parch. Ebenezer Richard. ⁽¹²⁷⁾

Ond mae'n amlwg fod anghydweld ar y pwnc o ieuo'n anghymarus yn gynnar yn y ganrif, ac nad oedd pawb o bell ffordd yn unfryd unfarn. Yn Seren Gomer, ym 1821, 'roedd gan J.R., Llanbryn-mair, erthygl ar Ieuo Angymharus a oedd o naws wahanol i'r rhai a geir yn yr un cyfnod yn Y Drysorfa. ⁽¹²⁸⁾ Wrth ymdrin â'r pwnc fe ddywed y dylai'r eglwysi fod yn "fanylach, ac nid yn ddiotalach, yn eu gofal am y mater hyn." Teimlai fod "llawer o eglwysi yn caniatu i ieuenctyd garu a phriodi fel y mynont (heb fod yn euog o odineb) os na fyddant yn myned i garu a phriodi rhai heb fod yn aelod eglwysig." Geilw ar "holl eglwysi Crist i roddi pob diwydrwydd i ragflaenu pob camymddygiad yn eu haelodau wrth garu a phriodi." Ond yr hyn a wrthwynebai J.R., fwyaf oedd "fod rheol yn cael ei sefydlu mewn eglwysi i ddiarddel pob un yn ddiwahaniaeth a fyddo yn caru a phriodi rhyw un heb fod yn aelod eglwysig...." Yn ei dyb ef amcan yr eglwys wrth holi aelod a fwriadai briodi un nad oedd yn aelod ddylai fod, "a oes tebygolrwydd y gallai hi ymddwyn yn wasanaethgar i grefydd, ac er gogoniant i Dduw, mewn cyflwr priodasol gyda y cyfryw un a'i peidio? Os byddai'r eglwys yn barnu y

gallai fod yn wasanaethgar.....meddyliwn y dylid caniatáu iddi ei garu, mewn dull addas a'i phriodi." Yn union ar ôl erthygl J.R., fe ychwanega'r golygydd,

"Ymddengys fod tair barn wahanol yn cael eu coleddu ynghylch y pwnc blaenorol: rhai am ddiarddel yn ddiwahaniaeth a briodent y rhai na fyddont yn aelodau; ereill am arbed rhai, a diarddelu ereill; ac ereill, yn dadlau mai afresymoldeb o'r mwyaf yw diarddelu neb o'r cyfryw....."«129»

Erbyn 1847 'roedd yr Hen Fethodist yn uchel ei gloch ynghylch rhagoriaethau "corff" y Trefnyddion Calfinaidd yn y maes hwn. "Nid oes yr un enwad ond yr eiddynt hwy yn disgyblu am yr hyn a elwir yn ieuo yn anghymharus."«130» Ac yn wir fe ymddengys fod llawer o fewn y Cyrff Ymneilltuol mewn cyfyng gyngor gyda'r rheol hon a bod swyddogion yn canfod gwrthwynebiad yn dechrau codi ei ben wrth iddynt geisio ei gweithredu ar eu pobl. Ysgrifennodd Caradoc erthygl yn Y Drysorfa, 1857, «131» yn amddiffyn y Seithfed Rheol. Pan fo erthyglau fel hyn yn ymddangos mae'n amlwg fod yr hyn a amddiffynnir o dan ymosodiad. Ym 1860 ysgrifennodd Trefnydd Ieuanc, i'r Drysorfa, oherwydd ei fod wedi ei ofidio "yn fawr yn ddiweddar, yn yr eglwys yr wyf yn aelod ohoni, oherwydd mynychder y pechod uchod, (Ieuo anghymharus) yr hyn sydd yn ein gosod o dan angenrheidrwydd i arfer y ddysgyblaeth o ddiarddeliad am y trosedd." Pryderai mai "ychydig oedd yn cydolygu â hwy fel cyfundeb y dylid mynd mor bell a di-arddel o'i herwydd..."«132» Y flwyddyn ddilynol fe ymatebodd Trefnydd o'r De i sylwadau Trefnydd Ieuanc gan ddweud ei bod yn "llawn bryd gwneuthur rhywbeth, gan fod ein rheol ddysgyblaethol ar y pwnc yn cyfarfod â chymaint o wrthwynebiad, nid yn unig oddiwrth ieuencyd, ond mewn rhai manau oddiwrth swyddogion eglwysig, fel y mae cyfarfodydd eglwysig cyn hyn wedi eu treulio i ddadlau y rheol."«133»

Yn yr un flwyddyn (1861) fe ysgrifennodd Ann Jones, Arfon, i'r Drysorfa, yn lleisio ei barn. Dywedai hi yn ddi-flewyn ar dafod, "nas gallaf gredu y dylid diarddel neb am briodi, am fy mod yn ystyried mai cyngor yn hytrach na gorchymun yw y geiriau hyny - "Na ieuer chwi yn anghymharus gyda rhai di-gred."" Yn hytrach na derbyn rheolau yn ddigwestiwn 'roedd pobl nawr yn dechrau holi a chwestiynu. Rhesymai Ann Jones yn ei llythyr, "Un peth sydd yn peri i mi feddwl mai cyngor yw yn hytrach na gorchymyn, ydyw hyn:- Os ydyw yn anghyfraithlawn priodi un digred, nid yw yn briodas o gwbl, ac felly nis gellir derbyn neb yn ôl i'r eglwys heb iddo ymadael â'i bechod....."⁽¹³⁴⁾ Er fod Ann Jones wedi ei rhoi yn ei lle mewn rhifyn dilynol o'r Drysorfa gan un o'r "Methodistesau o'r iawn ryw," sef Margaret Evans, Meirion,⁽¹³⁵⁾ 'roedd ei llythyr yn dangos fod nifer o aelodau'n anniddig ynglŷn â'r seithfed rheol. Mewn traethodyn a ymddangosodd ym 1864 yn dwyn y teitl "Traethawd ar Ddysgyblaeth Eglwysig," mynegai Hen Ddysgybl ei anfodlonrwydd fod aelodau'n cael eu diarddel am briodi rhai di-gred. Yn ei farn ef, yn hytrach na gweithredu yn y dull hwnnw, fe ddylai'r eglwysi "anog a chynghori y rhai sydd yn ieuo fel hyn i flaenori yn eu sefyllfa newydd mewn pob ysbryd, a thymer, ac ymddygiadau da..... a thrwy bob ymarweddiad sanctaidd a duwioldeb ddangos y gwerth a'r prydfferthwch sydd mewn crefydd i'r rhai y maent wedi ymrwymo i'w caru.....nes tynu yn llwyr o'u meddyliau bob petrusder a chloffni o berthynas i lesoldeb a daioni crefydd Crist; ac felly bod yn foddion i'w dwyn i benderfynu eu rhoddi eu hunain yn gyntaf i'r Arglwydd, ac wedi hyny i'w bobl trwy ewyllys Duw."⁽¹³⁶⁾

Erbyn 1871, 'roedd hyd yn oed rhai o arweinyddion y Trefnyddion Calfinaidd yn gwegian, oherwydd yng Nghymdeithasfa Lerpwl, Mai 1871, fe basiwyd penderfyniad yn "anog ein Heglwysi trwy yr holl Gyfundeb i ofalu yn

arbenig yn ffurfiad eu cysylltiadau priodasol." Ond fe ychwanegir yn ddiweddarach, nad oeddent "yn gweled fod ein rheolau ar hyn yn galw o angenrheidrwydd fel ag y mae yn gyffredin wedi ei hesbonio, am ddiaelodaeth y rhai a briodant felly; ac am hynny ein bod yn dymuno gadael y cwestiwn ynghylch y modd i ymddwyn tuag at y cyfryw rai i ddoethineb Cristnogol pob Eglwys neillduol, gyda golwg ar bob amgylchiad arno ei hun."¹³⁷ Er fod Cymdeithasfa Bangor, ym Medi 1871, wedi datgan anghymeradwyaeth o benderfyniad Cymdeithasfa Lerpwl,¹³⁸ 'roedd y gwrthryfel yn erbyn y rhan hon o'r ddisgyblaeth yn dod yn amlycach yn yr eglwysi ac yn lledu at yr arweinwyr.

Yn ei lyfr Canrif o Hanes sef Hanes yr Achos Methodistiaidd yn Nhanygrisiau, 1809-1909, mae David O. Hughes, yn cyfeirio at Thomas Jones, Cwmorthin, (1815-1885), a wnaethpwyd yn flaenor yn yr eglwys ym 1842. Yr oedd yr hanes canlynol amdano'n fyw iawn yn y cof. "Roedd dwy wraig ieuainc yn cael eu derbyn ar ôl eu tori o Gymundeb am dori y Seithfed Rheol o'r Gyffes Ffydd, sef priodi rhai di-gred." Wrth siarad gyda hwy, gofynnai Mr. Owen a oeddynt yn teimlo'n edifeiriol? "Ond nid oeddynt yn ateb, ac wedi i Mr. Owen bwysu arnynt, dywedodd y ddwy nad oeddynt yn teimlo felly. Wedi clywed hyn dyma T.J., ar ei draed, a gweiddi, 'Wel done nethod, pe buasech chwi wedi dweyd fel arall, faswn i ddim yn gweld bai ar eich gwŷr am gymeryd y Beibl, i'ch curo chi wedi mynd adref, am ddweud fod edifar gennych eu priodi."¹³⁹ Yr un modd yn Engedi, Caernarfon, methodd y seiat yno â diarddel merch am briodi gŵr di-broffes.¹⁴⁰ Dengys yr hanesion hyn yr anniddigrwydd a amlygai ei hun ymhlith aelodau gyda golwg ar y seithfed rheol. Wrth ysgrifennu ym 1907, fe ddywedai Henry Hughes fod y "Seithfed reol yn ei grym hyd o fewn deugain mlynedd yn ôl," yn y Tabernacl,

Bangor. ¹⁴¹ Awgrymai felly fod yr eglwysi wedi rhoi heibio'n derfynol y rhan hon o'r ddisgyblaeth oddeutu chwedegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Rhwng 1853 a 1866 pan oedd Emrys¹⁴² yn gyd-olygydd Y Dysgedydd, ymddangosodd cyfres o erthyglau ganddo'n dwyn y teitl "Adgofion fy Ngweinidogaeth." Priodasau yw pennawd un o'r ysgrifau, ac yn yr ysgrif honno mae Emrys yn hel atgofion am "frwydr fawr yr "Ieuo anghymhaurs" yn Seren Gomer, ac fe ddywed na welodd "fuddigoliaeth fwy llwyr na'r hon enillodd Harries ar y rhai a elwir yn "ddiaelodwyr." A bod rhai wedi cymryd "trafferth mawr i wneud argraff ar feddwl y wlad fod rhai o'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn 'Cymhell' priodasau cymysg". Ond barn Emrys ar y pwnc oedd ei bod yn "amhosibl gwneud deddf o'r fath i wneud y tro ym mhob amgylchiad." Yna fe ychwanega, "Y mae hen gyfraith y diaelodi wedi myned yn destun dirmyg a gwawd hyd yn nod yn yr eglwysi lle y gweinyddir hi, o herwydd y triciau isel a chyfrwys a ddefnyddir i'w hysgoi. Edrychir arni yn gwbl fel mater o Form. Rhoddir ar ddeall i'r diarddeledigion y croesawir hwy yn ôl dranoeth. Bryd arall anogir yr "un o'r byd" i fyned i'r Llan i'w gymun, yna bydd yn aelod o'r Eglwys Wladol! Y mae y rhan fwyaf o eglwysi yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr wedi dileu yr hen gyfraith. Pa fodd y mae yn mysg y Methodistiaid nis gwn. Os yw yn ddeddf sefydlog yn y cyfansoddiad, efallai nas gall un eglwys wneud mwy na llai na phroffesu cadw cyfraith diarddeliad." ¹⁴³

Yn ôl pob tystiolaeth felly erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd arweinyddion y Cyrff Ymneilltuol wedi colli'r frwydr i atal aelodau rhag priodi pobl o'r "byd". Ai hon, tybed, oedd y rheol gyntaf o lawer i gael ei rhoi o'r neilltu gan y Cyrff, wrth iddynt ddatblygu? A

oedd hyn yn arwydd fod y Cyrff yn colli eu gafael haearnidd ar eu haelodau
a'u bod hwy yn mynnu mwy a mwy o ryddid?

Pennod 5. Balchder a Pharchusrwydd.

Yn y bennod hon fe edrychwn ar y rhan honno o'r ddisgyblaeth a oedd yn ymwneud â balchder. Fe ddiffinia Thomas Charles o'r Bala^{'144} balchder yn ei Eiriadur Ysgrythyrol, gan ddweud fod "dyn wrth natur, dan y cwmp, yn greadur balch. Fel y mae ei feddwl yn gyfeiliornus am bob peth, felly mae amdano ei hun.....Y mae balchder yn mhob pechod; canys ni throeddai neb orchymyn Duw, oni bai ei fod yn dyrchafu ei hun yn erbyn Duw, ac yn fwy na Duw."^{'145} Yn ôl W. Jones, Penybont, ^{'146} 'roedd balchder yn "dad anfoddlonrwydd, annylchgarwch, cybydd-dod, tylodi, rhyfyg, tymher wyllt, anghymhedroldeb, anoddefgarwch, rhyfeloedd, ac erledigaeth." Amlygai balchder ei hun ym mhob rhan o fywyd dyn, "yn eu geiriau, eu hagweddu, eu hystumiau, eu gwisgoedd, eu tai, eu danteithion, eu gerddi, eu hanifeiliaid, eu hofferynau, ie, yn eu temlau a'u haddoldai!"^{'147} Dyna hefyd oedd barn Philotheros ym 1821, pan ddywedai fod balchder yn amlygu ei hun mewn amrywiol ffyrdd, gan fod dynion yn ymfalchio yn eu cyrff, eu cyfoeth eu dawn a'u dyletswyddau.^{'148}

Er fod balchder, - fel y gwelir yn y cyfeiriadau uchod - yn amlygu ei hun mewn nifer o ffyrdd ym mywydau dynion, am ryw reswm neu'i gilydd, fe gysylltid balchder ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i raddau helaeth iawn gyda gwisgoedd a diwyg. Deuddegfed rheol, "Rheolau a Dybenion" y Trefnyddion Calfinaidd oedd,

"Rhaid iddynt ochelyd dulliau, neu ffasiynau, yn eu gwisgoedd a fyddo yn tueddu i feithrin balchder, anlladrwydd, neu wastraff;" ond eu trefnu eu hunain "mewn dillad gweddus, gyda gwylder a sobrwydd, fel y gweddai i rai yn proffesu duwioldeb."^{'149}

Disgwylid i aelodau nid yn unig gredu ac ymddwyn yn wahanol i'r byd anghrediniol, ond hefyd gwisgo ac ymddangos yn wahanol iddynt. O fewn y Cyrff nid oedd neb i wisgo mewn dull a oedd yn tynnu sylw gan awgrymu eu bod yn well nag eraill. '180' 'Roedd hon eto yn elfen a oedd yn pwysleisio a chadarnhau'r arwahanrwydd ac fe roddid pwyslais mynych ar ymwrthod a balchder mewn gwisg ac ymddangosiad. Dyma'r ail bwynt ar bymtheg ar hugain yn y Crynodeb o Egwyddorion Ysgrythyrol.

"Yr ydym yn ystyried ei bod yn ddyledswydd arnom fel Crist'nogion, i wisgo dillad gweddus, yn ol ein sefyllfaoedd; ac nid arferyd pob defod goeg-falch, anweddus ac anniwair a welir yn rhy gyffredin yn y byd. Yr ydym yn ystyried fod gwallt plethedig, aur, neu emmau, neu ddillad gwerthfawr, yn anweddus i wragedd yn proffesu duwioldeb a gweithredoedd da. (1 Tim. 2:9. 1 Pedr. 3:3.) Defod Babaidd hefyd sydd gan y rhan fwyaf o bregethwyr, yw ymwisgo mewn dillad duon. - Ond y mae naturiaeth ei hun, a gair Duw hefyd yn ein dysgu fod gwallt llaes yn amharch i wŷr, ac yn glod a harddwch i wragedd. (1 Cor. 11:14, 15.)" '181'

Ysgrifennodd "Un sydd yn Caru Gweddeidd-dra", i'r Drysorfa ym 1834, i gondemnio "pechod sydd yn ymgodi yn ein gwlad", sef "balchder gwisgiadau". Y troseddwr mwyaf yn y cyfeiriad hwn meddai "yw y benywaidd ieuaingc sydd yn ymwisgo mewn dillad anweddus iawn i'w sefyllfa..." 'Roedd eu gwedd a'u ffordd o wisgo'n dangos "nad oes ofn Duw, na threfniadaeth dda yn y teulu." Fe rydd yr awdur ddau brif reswm pam fod ymddygiad fel hyn yn annerbyniol. Yn gyntaf yr oedd yn wastraffus gan fod "gwragedd a merched i ddynion sydd yn helbulus i wneuthur eu hwythnosol daledigaethau.....yn ymddangos mewn dull mor ddillynaidd a chostus, a'u cymdogion goludog a boneddigaidd." Yn ail, yr oedd yn anghrefyddol. Yr oedd eu hymddangosiad trwsiadus wrth "ddyfod i dŷ Dduw, yn arwydd-nod o'u hasdudrwydd wrth eu bwrdd-ymdrwsio.....ac nad yw bore Sabboth yr Arglwydd ddim gwedi ei dreulio mewn ymofyniad difrifol am gael cymdeithas a Duw. Mae myfyrio am

addurniadau i'r cyrph gwael, ac nid i'r enaid anfarwol yn amhriodol iawn y dyddiau hyn...."⁽¹⁵²⁾

Drachefn deilliai eu dadl yn erbyn gwisgo a balchder o'r Ysgrythur. Yr oedd "Un sy'n Caru Gweddeidd-dra" yn cymell y darllenwyr i droi at Eseiā 16. Galwai "Cyhoeddwr" yn y Drysorfa (1841), ar y darllenwyr i droi at 1 Tim. 2:9,10, a 1 Pedr 3:3, oherwydd yn y manau hynny y gwelid cyfarwyddiadau gan yr Apostolion ynghylch gwisgoedd.⁽¹⁵³⁾ Esboniai James Hughes, 1 Tim. 2:9, gan ddweud fod yr apostol yma yn gorchymyn i wragedd crefyddol, "eu trefnu neu eu haddurno eu hunain mewn dillad gweddus, addas i'w sefyllfa yn y byd; a'r hyn a fyddai yn gweddu i'r gŵylder a'r sobrwydd hynny o ymarweddiad, a ddysgwylid ynddynt ac arnynt hwy gan fyd ac eglwys."⁽¹⁵⁴⁾ Er fod D.E.Owen ym 1826, yn rhybuddio aelodau rhag balchder mewn gwisgoedd, ychwanegai "fod hawl gan bob dyn i farnu drosto ei hun, am ddull ei wisgoedd, am nad oes genym un rheol neillduol wedi ei gosod i lawr pa fodd i ni ymddwyn yn hyn; a gweddus yw i bob dyn wisgo yn ol natur ei sefyllfa..."⁽¹⁵⁵⁾ Dengys hyn nad oedd pawb mor gaeth yn eu golygiadau tuag at wisgoedd. Yn ôl "Cyhoeddwr" yr oedd tri o "gyfeilliornadau mewn gwisgoedd." Pan y gwisgid hwy; 1. i borthi balchder; 2. i annog anlladrwydd a 3. i beri gwastraff.⁽¹⁵⁶⁾

Yn ogystal a bod yn arwydd o falchder, 'roedd gwisgoedd ffasiynol ac addurniedig yn arwydd o afradlonedd a gwastraff, gwastraff a allai arwain i dlodi. Gresynai A.O., ym 1826 fod morwynion ifanc yn gwario hanner eu cyflog ar "Hetiau Beaver," ac fe eilw arnynt i "ddwys ystyried ei (balchder) effeithiau galarus ac andwyol; gan gofio ei fod wedi dwyn anngghysur, a thlodi i lawer teulu, a beichiau trymion ar lawer plwyf...."⁽¹⁵⁷⁾ Ac fe ddywedodd W.Jones, "oferedd a balchder ydynt glust-

weinwyr yr afradlon; oferedd, yr hwn sydd yn gwaeddi â llef feunyddiol, 'moes, moes;' balchder, yr hwn ni ddywaid byth "digon." (158)

Yr oedd y Parch. T. Davies ym 1861 yn annog glanweithdra ymhlith aelodau ond y dylid osgoi balchder oherwydd ei fod "yn bechod ffiaidd gan yr Arglwydd". Yn ei farn ef yr oedd "balchder yn golygu, nid parch ac anrhydedd y dyn iddo ei hun, ond ei uchelgais i fod uwchlaw pawb, ie, ar draul mathru eraill. Dylai dyn fod yn ymwybodol o'i wendidau yn gystal a'i ragoriaethau...." (159)

Ym 1865 pan ysgrifennai R. R. Harlech i'r Drysorfa ar "Gwisgoedd yn eu Perthynas â Chrefydd," nid oedd ei safbwynt ef mor bendant fod gwisgoedd yn arwydd o falchder, i'r gwrthwyneb mae naws ymddiheurol wrth iddo ymdrin â'r pwnc. Ni welai ef fod "rhyw lawer o gyfeiriadau pendant, na dim rheolau neillduol a phenderfynol am y dull o wisgo," yn y Beibl, felly, "yr ydym yn teimlo cryn anhawster i dori i ni ein hunain gynllun boddhaol i geisio ysgrifenu ar y testun hwn." Yn ei farn ef "rhywbeth awgrymiadol yn hytrach na phenderfynol....ydyw yr hyn a ddywed y gyfrol Sanctaidd mewn perthynas i hyn...." Yr hyn a ddylid ei wneud felly, "yn hytrach na chwilio am adnodau ac Ysgrythurau pendant i'n cyfarwyddo mewn perthynas i'r pwnc...ni a edrychwn ar yr egwyddorion moesol, neu yr agweddau ar y galon a'r ysbryd, a'r ymddygiad cyferbyniol iddynt, a gymeradwyir neu a gondemmir yng ngair yr Arglwydd ac a ymdrechwn gasglu yn y maes gwirionedd yr hyn a ddywedir, neu a awgrymir mewn perthynas i'r hyn allai fod mewn gwisgoedd ac ymdrwsiad personol yn dwyn y gwahanol nodweddion o'r amrywiol egwyddorion a'r agweddau hyn..." Yng nghorff ei draethawd fe ddywed y gall gwisgoedd fod yn faen tramgwydd pe baent yn peri gwastraff ac afradlonedd; pe baent yn anweddaidd ac anllad, neu pe baent yn orwych a rhwysgfawr "yn porthi

balchder calon ac uchder ysbryd." Wrth derfynu fe ddaw i'r casgliad nad yw "crefydd yn galw am ryw neillduolrwydd arbenig mewn gwisgoedd mewn na lliw na llun.....Gan hynny yr ydym yn dod i'r penderfyniad mai nid y wisg, neu ffasiwn yn gymaint a gondemnir....ond yn hytarch rhyw orawydd am ei dilyn i bob eithafion ffol ac ynfyd, er mwyn porthi balchder y galon, a gwenud ei hun yn wrthrych sylw. Nid yn y dillad ond yn yr ysbryd y mae'r drwg." Safbwynt pur wahanol i'r hyn a gafwyd yn gynt yn y ganrif. Daw yr erthygl hon i ben gydag apêl, "Yr ydym yn dymuno yn ostynedig ddadgan ein hofn fod yr awgrymiad a rydd y ddau apostol mewn perthynas i wisgoedd yn cael rhy ychydig o sylw gan gristnogion y dyddiau hyn." Arwydd hwyrach fod safbwyntiau yn newid tuag at wisgoedd, ac na phwysleisid i'r un graddau y dylid bod yn weladwy wahanol i'r "byd." <160>

Yn ystod y ganrif fe ddisgyblid aelodau oherwydd eu hymddangosiad a'u dillad mewn llawer o eglwysi. Wrth gyfeirio at yr hen ddisgyblaeth yn y Tabernacl, Bangor, fe ddywed Henry Lewis, <161> fod eu cyndadau yn llawer mwy llym, ac y diarddelid aelodau am wisgo'n anweddaidd.

"Gosodent safon uchel o ymarweddiad diargyhoedd o'u blaen. Ni oddefid chwarae ag achlysuron pechod. A chan eu bod oll yn dlodion, a'r amseroedd yn galed, un o'r pechodau mwyaf yn eu golwg oedd gwastraff. Traethid mwy o lawer yn erbyn balchder nag a wneir yn awr. Diarddelwyd un ferch am iddi roi ruban gwyn yn mordor ei chap. Bryd arall bu cryn helynt yn yr eglwys oherwydd i rai o'r merched wisgo shawls cochion mewn priodas. Yr oeddynt yn bethau newydd ar y pryd, a chondemniwyd hwy yn ddioed gan rai o'r mamau duwiol. Diarddelwyd rhai o'r merched a'u gwisgent yn hytrach na'u bod yn achos tramgwydd. Yr oedd disgyblaeth lem yn Ebeneser, capel yr Annibynwyr, ar yr un pryd. Bu yno dipyn o wrthryfel o'r herwydd, a dechrau ymraniad." <162>

Ychwanega Henry Lewis, fod "balchder, yn enwedig arddangosiad o hono mewn gwisgoedd, yn cael sylw llawer mwy mynych yn nghyfnodau cyntaf yr eglwys nag a gâ yn awr." Ac fe ddyfynna hanesyn doniol sy'n dangos pa mor

bell y gallai'r agwedd at falchder fynd. Aeth Daniel Jones, y gwŷdd, rhyw ddydd i siop Mr. Thomas Lewis, ac yn fuan ar ei ôl ef daeth Capten Owen gan ddweud, "balchder sydd yn peri i chwi, Daniel Jones, wisgo clos penglin fel yna." "Na," meddai Daniel Jones, "dyna fy arfer i eriod, a fy nhad a fy nhaid o'm blaen, ond yn sicr balchder a wna i chwi wisgo trowsus fel hwna." "Na", meddai'r Capten. "dim o'r fath beth, yr wyf yn gwisgo hwn am reswm digonol; gallaf ei dynnu a'i roi llawer cynt nag y gellwch chi dynnu a rhoi y clos yna. Gwelwch y fath res o fotymau sydd genych i'w sicrhau. &c." Fe fu rhaid i Mr. Lewis gau drws ei siop rhag ofn i'r ddau geisio profi eu gosodiadau. Mae Henry Lewis yn cloi'r hanesyn uchod gyda'r geiriau, "gwelir oddiwrth yr ystraeon hyn mor ofalus oedd ein tadau i wneud gwahaniaeth amlwg rhwng yr eglwys a'r byd." <163>

Yn ei atgofion am y Tabernacl, Bangor, y mae Gwyneddon <164>, yn cyfeirio at wraig "Henry Roberts y pregethwr," gan ddweud ei bod "hi yn hen wraig landeg, lân ei buchedd, hynod gyson yn y moddion.....Gwisgai gap gwyn o "lace". Ond fe "gwynai yn erwin am falchter y genethod, sef y blodau a'r rubanau yn eu pennau; ond edliwid ei chap lasia iddi hithau'n ôl." <165> Pwysleisiwyd felly ddiwyg gweddus a syml gan osgoi gwisgoedd a oedd yn arwyddion o falchder a gwastraff arian.

Ond fe gymerai rhai swyddogion yn erbyn rhai pethau yn arbennig, pethau a dybient hwy oedd yn arwyddion clir o falchder calon. Un o'r arwyddion balchder hynny oedd gwallt, neu yn hytrach siap gwallt. Galwai Gwilym ym 1829 am reol rhwng y Cyrff a'i gilydd "i wahardd cefnogwyr balchder, yn neillduol gwisgad cydunau a phlethiadau gwallt." Y rheswm am y cais hwn oedd y tybiai fod y "cyfryw mor weladwy ac mor debygol o fod yn niweidiol i bobl o feddylliau gweinion, yn gystal ag i roddi lle i elynion

teyrnas Crist waradwyddo ac ysgwyd eu penau ar Grefydd." 'Roedd ganddo ddau awgrym pa fodd y gellid dileu'r pechod; un ai fod aelodau'n cael eu gyrru adref i dorri eu gwalltiau neu fod gwelleifiau'n cael eu cadw yn y capeli. ^{'166} Mae'n amlwg fod yna garfan a wrthywynebai rhai mathau o wallt. Er enghraifft fe ddywed T. Gwynn Jones, fod yn gas gan John Jones, Tremadog, ^{'167} yr arfer newydd o droi gwallt. Canwaith y dywedodd, "Hogia, gadewch lonydd i'r ducyn yna; gadewch i'r gwallt guddio y talcen fel y mae y Creawdwr wedi ei ordeinio..." ^{'168} Hefyd yn ei atgofion mae John Evans, Eglwys-bach, ^{'169} yn cyfeirio at y "croesgadwyr a ffurfiasant yn fintai yn Abergele i roi Q.P., pregethwyr i lawr. Penderfynasant na chai neb felly esgyn grisiau pwlpud Abergele." 'Roedd hyn oddeutu 1859. ^{'170} Yng nghapel Gosen, Sir Fôn, 'roedd hen flaenor yn ystod diwygiad 1859 a oedd yn "elyn anghymodlawn i'r gwallt a delw y "ciw-pi" arno." Un Sul yr oedd tri o hogiau wedi aros ar ôl am y tro cyntaf, ac awgrymodd yr hen flaenor y dylai'r hogiau feddwl am ddileu "nod y bwystfil uwchlaw eu talcennau." Ei union eiriau oedd, "Fe fase yn ffitiach i chi fynd adre i drin eich gwalltiau cyn dyfod i'r seiat." ^{'171} Buasem yn tybio mai achub eneidiau fyddai flaenaf ar feddyliau swyddogion ac nid gwisg a diwyg.

'Roedd y Parch. Robert Jones, Llanllyfni, ^{'172} yn "Ŵr blewog", a hynny oherwydd ei fod yn "gadael ei wallt yn ol dull uniongred yr hen grefyddwyr unplyg, gonest, a Phuritanaidd, a ymosodent yn enbyd yn erbyn balchder cyfundrefn y QP." Yr oedd yr heresi newydd o droi'r gwallt yn poeni "llawer mwy ar grefyddwyr Cymru Fu nag a wna heresiau llawer mwy ar grefyddwyr Cymru Fydd." ^{'173} A pharhaodd Robert Jones drwy gydol ei oes yn un o ddisgyblion ffyddlon yr hen ysgol.

Daeth Hiraethog, ¹⁷⁴ ar draws un o'r "gwrthwalltiwyr" pan oedd yn weinidog ym Mostyn, Sir y Fflint. Un prynhawn Sul daeth pregethwr cynorthwyol i bregethu i'r capel, "ac yr oedd y pregethwr hwnnw yn credu mewn troi y gwallt oddi ar y talcen, mor gydwytbodol ag y credai yr hen swyddog yn y ddyledswydd o'i gribo i lawr drosto." Pan ymddangosodd y pregethwr, aeth yn syth i fyny'r pulpud, "a gwnaeth noethder ei dalcen yn llawn amlwg o flaen y gynulleidfa." Ymateb yr hen swyddog oedd gollwng, "ochenaid drombwysig allan yn yr olwg arno; ac yr oedd yn anesmwyth drwyddo ar hyd yr oedfa." Wedi'r oedfa aeth y swyddog at y pregethwr "a'i lygaid yn tanio gan angerdd ei sel," a dywedodd, "wyddost ti beth, Joseph, pe tase gen i fwyell yn fy llaw, mi f'aswn yn tori dy ben i ffwrdd y funyd yma!" "Torri fy mhen i" meddai'r pregethwr, "pam y gwnaethech chwi hyny?" "Pam?" meddai'r swyddog, "Be ydi'r drefn ene sy' ar dy wallt di? Trin a throi dy wallt y buost ti 'nte, 'n lle gofalu am fod yma mewn amser 'nte?" ¹⁷⁵

Credai Hiraethog fod y to yma o "grefyddwyr yn perthyn i ddyddiau diweddaf goruchwyliaeth y gwallt," ac nad oedd llawer o sôn amdani wedi'r cyfnod hwnnw. Goruchwyliaeth a fu'n fyw ers dyddiau Pantycelyn a Theomemphus.

"Gwallt llaes yn bwnc arbenig,
Rhaid cael y pen yn grwn;
Gwell rhwygo mil o eglwysi,
Na cholli'r pwnc yn hwn." ¹⁷⁶

Nid yn unig 'roedd gwrth-walltwyr, ond fe geid hefyd gwrthfarfwyr ¹⁷⁷ a rhai oedd yn gwrthwynebu'r mwstas. ¹⁷⁸

Yr oedd gan Emrys ewythr o'r enw Siams oedd yn "elyn ofnadwy i falchder." Un o'i gas bethau oedd bresus, ac fe glywodd Emrys ef "ddegau o

weithiau yn treulio chwarter awr mewn society 'yn chwythu bygythion a chelanedd' yn erbyn y pechod o arfer braces, pryd y byddai yn malu ewyn, ac yn pastynu y meinciau mewn digofaint." Ond nid arfer bresus oedd unig "bechod yr oes" yr oedd Siams yn brwydro yn ei erbyn. "Yr oedd gwisgo bonnet neu fenyg - arfer ribbon i rwympo esgidiau, a llu o fan-bethau cyffelyb, yn cael eu rhan o'r mellt a'r taranau condemniol." Ond fe gredai fod modd cael maddeuant am y pechodau hynny. "Ond am wisgo veil - troi neu fodrwyo y gwallt, nid oedd maddeuant i'w gael, 'yn y byd hwn nac yn yr hwn a ddaw.'" <179>

Wedi'r disgrifiad lliwgar o'i ewythr fe ychwanega Emrys, "Bum yn dychmygu gweld Siams yn edrych ar ambell eneth wisgi, flodeuog, a welir yn ein haddoldai y dyddiau hyn. Yn wir, yn wir, buasai ei bywyd mewn perygl pe buasai o fewn hyd pastwn i'r hen frawd." <180> Mae'n amlwg felly fod yr hyn a ystyrid yn falchder ac arwyddocâd dillad hefyd yn newid yn ystod y ganrif.

Fe gyfyd y cwestiwn yn y fan hon, a oedd rhai swyddogion yn euog o hollti blew ynglŷn â phethau ymylol gan anwybyddu pethau pwysicach o lawer? Nid oes unrhyw dystiolaeth ysgrythurol fod gwisgo Q.P., mwstach na bresus yn bechadurus, pam felly glynu wrth fân reolau o'r fath? Cawn yr ateb eto yn y ffaith fod y Cristnogion hyn yn eu gweld eu hunain fel pobl gwbl wahanol i'r annychweledig, yn bobl wedi eu neilltuo i Dduw. Hefyd gwelwn yn amlwg fod safbwyntiau tuag at falchder a gwisgoedd yn newid yn ystod y cyfnod y buom yn ei drafod, a'i bod yn mynd yn anos i weinyddu disgyblaeth gaeth a manwl. Canlyniad anoche hyn oedd fod y gwahaniaeth rhwng y byd a'r eglwys yn prysur ddiflannu.

Ond yr oedd agwedd pobl hanner cyntaf y ganrif yn cael ei lliwio nid yn unig gan resymau crefyddol a moesol ond hefyd gan ystyriaethau cymdeithasol. Yn y dyfyniad uchod o ysgrif "Un sy'n Caru Gweddeidd-dra" yn y Drysorfa (1834) ceir y geiriau "ymwisgo mewn dillad anweddus iawn i'w sefyllfa." A chawn James Hughes yn dweud yr un peth pan gyfeiria at "ddillad gweddus, addas i'w sefyllfa yn y byd." Mae'r cyfeiriadau hyn yn mynegi'r argyhoeddiad fod i bawb ei briod le yn y gymdeithas. Y mae elfennau ffiwdalaidd yn aros o hyd yn ddwfn yn ymwybod pobl. Mae'r cyfeiriadau hyn hefyd yn awgrymu fod yr ysgrifenydd yn gweld eu hunain yn cyfarch, nid uchelwyr, na boneddigion, ond gwerin. Heb yn wybod iddynt eu hunain, y maent yn ceisio plannu ym meddyliau'r werin nad "gweddus" yw iddynt, trwy eu dillad a'u steil gwallt, geisio herio'r drefn gymdeithasol. Felly, y tu ôl i'r gofal manwl am bethau sydd erbyn hyn yn ymddangos yn ddibwys, yr oedd dylanwadau cymdeithasol pwerus i'w teimlo. Wrth i'r Ymneilltuwyr yn ail hanner y ganrif fagu hyder a chodi eu safon byw ac ennill awdurdod gwleidyddol, yr oedd newid yn digwydd hefyd yn eu hagwedd at symbolau safle. Ni allent gadw eu parch wrth i radicaliaeth wleidyddol ennill tir. Canlyniad hyn oedd fod nodweddion y sect yn cael eu disodli gan nodweddion yr enwad. ⁽¹⁰¹⁾

Wrth i'r ganrif gerdded yn ei blaen codai tyndra rhwng atal balchder a'r duedd gynyddol tuag at barchusrwydd. Trwy bwysleisio darbodaeth, cynildeb a dirwest, ynghyd â datblygiadau diwydiannol, 'roedd gan bobl ragor o arian wrth gefn. ⁽¹⁰²⁾ Canlyniad anochel hyn oedd fod safon byw yn codi, a phobl yn gallu fforddio rhagor o foethau. Ochr yn ochr â hyn 'roedd symudiad graddol oddi wrth grefydd gwbl werinol tuag at grefydd dosbarth canol. Dau o'r rhesymau a gyfranogai at hyn oedd fod mwy a mwy o bobl broffesiynol lwyddiannus yn dyfod yn aelodau o'r Cyrff, a nifer o'r

aelodau o fewn y Cyrff yn raddol ddringo'r ysgol gymdeithasol. Wrth i hyn ddigwydd 'roedd agweddau at wisg a balchder yn newid. Daeth yn dderbyniol i wisgo dillad dydd Sul, nid yn unig rhai glân a destlus, ond rhai crand a boneddigaidd. Disgrifiwyd Evan Evans, blaenor ym Methania, Felinheli ym 1869 fel; "gŵr cryf o gorff a charictor, yn ymwisgo mewn dillad Sul da, a cholera wen uchel, het bifar (nad oedd yr het silc ond rhyw ferch yng nghyfraith iddi) gan gludo'r ambarelo fawr a elwid yn ambarelo gig, a'r darn pres ar lun gwniadur ar ei phen. Yr oedd cludo'r ambarelo gig yn rhyw ymateb i gadw gig, sef y gerbydan ysgafn unfarch o'r enw, a'r naill a'r llall yn rhyw ymateb i'r syniad bonheddig." <183> 'Rwy'n sicr y byddai Mr. Evans - pe bai'n byw ddeugain mlynedd ynghynt - wedi cael ei ddisgyblu am fod yn ormod o ddandi. <184>

Mae'n amlwg fod gwisgo'n ddestlus a glân ar y Sul wedi dod yn bwysig. Dywedai Eta Delta <185> ym 1848, nad oedd hi'n weddus, "i Gristion fyw yn aflan a drewedig; eithr cadwed ei hun a'i dŷ yn lân." <186> Hawdd yw deall sylwadau Eta Delta oherwydd gellir dychymygu pa mor dröedig fyddai capel gorlawn o bobl ddrewllyd. Dyma paham yn ddios y dywed T. Davies yn ei Lawlyfr i'r Aelod Eglwysig, fod "glanweithdra yn beth ag y dylid talu sylw iddo: y mae yn hanfodol i iechyd corff, a diddanwch cyhoeddus." <187> Ond yr hyn a ddigwyddai oedd fod rhai yn cadw draw o'r cyfarfodydd os nad oedd ganddynt wisg ddigon destlus. Cyfeiria J.J. Morgan at wraig grefyddol o Landdewibrefi a geisiai atal ei gŵr rhag mynd i'r capel oherwydd ei fod yn rhy flâr. 'Roedd ei gŵr, John Pritchard, wedi cymryd i'w ben un bore Sul ei fod "am fynd i'r cwrdd." Dywedodd ei wraig "Paham na buaset ti yn dweyd ddoe i mi gael crynhoi ychydig arnat ti?". Fe ychwanega J.J. Morgan, "llawenychai ei fod o'r diwedd wedi meddwl am ei enaid, ond nis gallai hithau lai na meddwl am ei gorff a'i ddillad, a cheisiodd ei berswadio i

aros hyd y Sabboth nesaf."«188» Defnyddiai eraill ddiffyg gwisg addas fel esgus dros beidio â mynd i gyfarfodydd. Yn y Dysgedydd, 1848, dywedir fod "cywilydd ar y tlawd i ymddangos yn mhlith ei gymdogion sydd yn gwisgo yn wych," a bod miloedd yn defnyddio hyn fel rheswm dros beidio â mynd i addoliad cyhoeddus. Ceisiai'r awdur ddarbwylllo'r tlodion drwy ddweud, "nid yw yr Arglwydd yn edrych fel yr edrych dyn; Duw a edrych ar y galon, os wyt yn addoli mewn ysbryd a gwirionedd: ni bydd dy wasanaeth yn annerbyniol o herwydd dy wisgoedd gwael. Gall dyn fod yn lanwedd, ac yna nid oes un dyn sydd o werth sylw a'i dirmyga."«189» Ond erys y ffaith fod diffyg dillad priodol yn atal rhai rhag mynychu cyfarfodydd a gwelir y tyndra rhwng parchusrwydd a'r ffaith fod gwahoddiad agored i bawb fynd i'r cyfarfodydd.

Daeth cyfnewidiad hefyd yng ngwisg gweinidogion fel y tystia John Evans, Eglwys-bach, yn ei hunangofiant. "Rhyfedd y cyfnewidiad a ymdaenodd dros y frawdoliaeth o ran diwyg personol a gwisgiad dillad yn ystod y chwarter canrif diwethaf! Mor sedate ac unffurf oeddynt gynt! Pawb yn lanwedd, a'r rhan fwyaf yn ddifarf, ac yn ofalus am i'r got fod yn hollol ddu, heb flewyn gwyn na llwyd ynddi; gyda thop-hat silk, raenus ar y cyfan, am y pen. Gan Mr. Robert Jones, Penmachno, fel ei gelwid, y gwelais y dilledyn brith cyntaf yn y District; ac nid wyf yn sicr nad Gwylt-y-Mynydd oedd y cyntaf i feiddio ymddangos yn yr uchelwyl gyda Jim Crow ar ei ben. Ystyrid y peth gan ddynion saff yr enwad yn arwydd sicr o Radicaliaeth beryglus, os nad yn nôd y bwystfil. Ac am y moustache a barf fel barf Aaron, cawsai Aaron ei hunan beth trafferth i gadw ei le yn y frawdoliaeth gydag 'wyneb budr felly.' Ond erbyn hyn, dyn a'n helpo ni! Llodrau brithion fel barristers y llys gwladol; Jim Crows ar draws eu gilydd a bentyrir wrth ddrws y committee room; ac am farfau, ni fu Jericho yn ei hamser mwyaf cynyrchiol angen cnwd nag a welir ar yr urdd Wesleyaidd heddyw!"«190» Yn ôl

W. Nantlais Williams erbyn diwedd y ganrif yr oedd lifrai pregethwrol wedi datblygu. Dywed yn ei hunangofiant, "wedi fy ordeinio yr oedd yn rhaid i mi wrth gwrs wisgo frock coat, a box hat. Dyna arwyddion sicr eich ordeiniad y pryd hwnnw." (191) Dywed hefyd y geiriau dadlennol hyn, "gwelwn rai gweinidogion yn mynd i angladdau a phriodasau'r cyfoethog mewn hatiau silk, ac i alarus angladdau'r tlawd mewn hetiau cyffredin." (192)

Nid yn unig gwelwyd newid yn agwedd y Cyrff tuag at wisgo, ond yr oedd rhai'n gweld fod newid hefyd yn digwydd yn awyrgylch a naws rhai eglwysi unigol. Gwelir y safbwynt hwn yn glir yn un o ysgrifau Robert Ellis, Ysgoldy, (193) a ysgrifennwyd ym 1871. "Eglwys Foethus!" oedd teitl yr ysgrif hon ac ynddi y mae Robert Ellis yn mynd rhagddo i ddisgrifio'r cyfryw. "Mae yma bopeth yn cael ei gario yn mlaen yn weddol o drefnus. Mae'r brodyr sydd yn blaenori, o bosib yn ddynion busnes, ys dywedir, ac y maent yn dwyn hyny i mewn yn eu trefniadau eglwysig. Mae yma wedd barchus ar bawb a phopeth, nis gellir goddef dim o chwaeth isel mewn gwisg na moes, ac y mae y rhy syml yn wrthodedig yma. Mae pwysigrwydd y dref neu'r ardal, gwychder yr addoldy, gwedd barchus y gynulleidfa a'u safle mewn cymdeithas, yn peri iddynt dybied eu bod gryn lawer yn uwch mewn urddas nag eglwysi llai a mwy gwledig, ac felly y maent mewn tentasiwn i fesur eglwysi eraill." Effaith moethusrwydd ar eglwys, yn ôl Robert Ellis, oedd ei bod yn mynd yn ddiog a llesg, chwiliant am "weinidogaeth i'w boddhau, ac er cael honno, fe eir led-led y gwledydd i'w cheisio, a thelir hefyd yn anrhydeddus amdani." Ond mewn eglwysi o'r fath nid oedd llewyrch ar yr holl gyfarfodydd, "mae rhyw fymryn o gyfarfod eglwysig nos Saboth yn ddigon gan y lluaws; bydd yr un wythnosol yn drienus o denau. Mae dywedyd, a gwrando dywedyd profiad, a rhyw bethau cyffelyb, yn rhy hen ffasiwn a diflas, nid oes dim boddhad i'w gael mewn peth mor gyffredin a hyny. Ac oni cheir rhyw

ddull newydd o 'gadw seiat,' rhaid bwrw yr hen gyfarfod anwyl ymaith fel dodrefnyn heb hoffter ynddo." Yr un modd gyda'r Ysgol Sul, yng ngolwg llawer o'r aelodau "y mae yn gynulliad rhy lafurus a dibleser i bobl barchus, oddigerth rhyw ychydig iawn ohonynt, i ymboeni yn ei gylch, ac felly rhaid gadael iddi fyw neu farw yn nwyllaw rhyw rai mwy selog a hunanymwadol." A beth am y cyfarfod gweddi? Wel, "os oes un o gwbl, nid oes neb yn y gynulleidfa barchus yn gwybod dim amdano, oddieithr rhyw ychydig o bobl, druain, dlodion sydd yn hoffi galw ar enw yr Arglwydd. Hunan-fodddhad sydd yma yn teyrnasu, ond oni cheir hyny yn y cyfarfod crefyddol, rhaid ei geisio mewn rhyw gyfeiriad arall." Cysylltai Robert Ellis foethusrwydd gyda hunan-fodddhad oedd yn effeithio ar holl weithgareddau'r eglwysi. Gresynai yn ddirfawr fod rhai o'r eglwysi cryfaf ar y "llithrigfa arswydus hon." Pen draw'r broses yn ei dyb ef oedd "ffurfioldeb marw a difywyd." Ychwanega i derfynu, "Yr ydym yn arswydo oherwydd cynydd yr hyn a elwir Defodaeth yn yr Eglwys Wladol. Ai nid ydym i ofni fod y gelyn marwol i grefydd ysbrydol yn dyfod i mewn dan enw arall i'n gwersyll ein hunain? Nid yw hanesiaeth eglwysig yn profi dim yn gliriach nag y dichon i eglwys a gyfrifid unwaith yn enwog ar gyfrif ei sancteiddrwydd a'i sêl, ymlygru yn raddol a diarwybod iddi ei hun oddi wrth y symylrwydd sydd yng Nghrist, nes mynd yn y diwedd yn Synagog Satan...." (194)

Er fod Robert Ellis fwy na thebyg yn gorliwio ei ddarlun o'r Eglwys Foethus i raddau er mwyn cael y maen i'r wal, mae'n amlwg ei fod yn pryderu am y datblygiad. Gwelai fod parchusrwydd yn arwain at ffurfioldeb, a ffurfioldeb yn ei dro yn arwain at grefydd arwynebol, farwaidd a dieneiniad. Nid ef oedd yr unig un i sylwi ar y duedd tuag at barchusrwydd. Pan aeth Plenydd (195) i fyw am gyfnod i Fangor ym 1863, aeth ati yn ddiymdroi i chwilio am eglwys i addoli ynddi. Aeth yn gyntaf i'r Tabernacl,

"capel mawr," meddai, "a set fawr yn llawn o wŷr urddasol ac awdurdodol o'r olwg; rhai mwy tebyg i fasnachwyr yn crefyddu nag i grefyddwyr yn masnachu." Methodd â chartrefu yno oherwydd yr awyrgylch, felly aeth i gapel Tŵr-gwyn. "Gwychder welwn yno: eglwys o aristocrats y corff, fel y tybiwn, eto yn eithaf cynnes yr olwg: ond, rywfodd, nid dyma gartref a chronglwyd i fachgen cyffredin o gyrrau Llyn." Methodd â chartrefu yno ychwaith, ond yn y diwedd fe gafodd gapel wrth fodd ei galon yng Nglanadda. Yr hyn a ddaw i'r amlwg yw fod symudiad rhai eglwysi tuag at fod yn ddosbarth canol yn dieithrio rhai o'r bobl gyffredin gan eu gwthio i'r cyrion a hyd yn oed allan o'r capeli. <196>

'Roedd gan Griffiths Davies bregeth yn dwyn y teitl "Yr Efengyl yn Boblogaidd, ac eto yn syrthio yn fyr o Gynyrchu Edifeirwch." Yn y bregeth hon, a argraffwyd yn ei gofiant ym 1898, fe gyfeiria at "gynulleidfa barchus," dywed,

"Erbyn hyn mae'r *upper middle class*, fel ei gelwir, yn ddynion crefyddol trwy Gymru yn bur gyffredinol, a'r dosbarth hwnw yw asgwrn cefn masnach a chymdeithas. Gymaint o wahaniaeth sydd i'w weled yn hyn ragor yr hyn ydoedd rai degau o flynyddoedd yn ol! Yn wir, yr ydym yn gallu ymfrostio yn awr fod genym Ustusiaid Heddwch luaws mawr, ac amryw Aelodau Seneddol, yn perthyn i ni! Buom yn meddwl wrth glywed rhestr enwau cynrychiolwyr i'r Gymanfa Gyffredinol yn cael ei galw, gan mor aml oedd yr U.H. yn dyfod, pe buasai yr hen dadau yn disgyn i'n plith, heb gael hanes y cyfnewidiad mawr sydd wedi cymeryd lle, y buasant yn dychrynu gan dybied mai camsyniad a fu iddynt ddyfod i'r fath le, oblegid mai yr Ustusiaid oedd yr erlidwyr creulonaf pan oeddynt hwy ar y ddaear. Ond gall hyn i gyd fod, a'r efengyl er hyn yn syrthio yn fyr o gynyrchu edifeirwch i fywyd." <197>

Dyma'r math cyfnewidiad a ddigwyddodd o fewn y Cyrff Ymneilltuol, yn ystod y ganrif. Ac onid yw'r ffaith fod gwraig John Thomas, Lerpwl, yn hwyrfrydig i symud i eglwys yng Nglyn-nedd, oherwydd mai "syniad lled isel

oedd ganddi am eglwys nad oedd nemawr neb ond gweithwyr yn ei gwneyd i fynu," yn arwydd o'r cyfnewid hwn? <198>

Dengys yr hanes canlynol duedd debyg yn un o eglwysi Bangor. Yr oedd Mrs. Robert Evans, Tŵr-gwyn, Bangor, yn cofio iddi hi ofyn i'w thad, y Parch. J.O. Jones, rhyw dro tua 1859, a fyddai'n pregethu'r hyn a ddywedodd yn y seiat ar y Ffigysbren Ddiffrwyth yn Nhŵr-gwyn? Yr ateb a gafodd oedd "na theimlai ryddid i gymeryd y testun hwnnw yn Nhwrgwyn." "Mi ryfeddais at hynny" meddai ymhellach, "a chlywais rai yn dywedyd eu bod yn rhy sedate yn Nhwrgwyn, yn ormod o dan ddylanwad trefn oddi allan." <199>

Arwydd bychan arall o'r parchuso a'r ffurfioldeb newydd hwn oedd fod pobl wedi dechrau galw ei gilydd yn Barchedig ac yn Mr. a Mrs. Mewn ôl nodiad i lythyr anfonwyd gan J.R. Jones, Ramoth, at Joseph Harries, (Gomer), fe gawn y sylwadau hyn,

"Pan yn gadael allan y teitl offeiriadol 'Parch.' ar fy llythyr blaenorol atoch, gallaf eich sicrhau imi wneyd fel yr ewyllysiwn i chwi wneyd i minnau, a chanfyddaf 'mai hyn yw y gyfraith a'r proffwydi.' Teitlau offeiriadol a threfn y brethyn du (*clerical titles and the order of black cloth*). Ni cheir henuriaid na phregethwyr yn ein plith ni yn ymryfygu eu harfer. A fedrwch chwi ddangos i mi y gwahaniaeth rhwng 'Parch.,' 'Syr,' a'r 'Tad Sancteidd,' neu rhwng 'Gwir Barchedig,' 'Syr,' a'r 'Tad Sancteiddiaf'? Gadawn i hyn fod yn ddigon ar y mater yma yn awr." <200>

Yn rhai o'i atgofion am bedwardegau'r ganrif cofiai Robert Ellis, Ysgoldy, amdano'i hun yng Nghymdeithasfa Caernarfon. Gofynnodd i rywun yno pwy oedd gŵr oedd newydd fynd heibio? Cafodd yr ateb "mai Mr. Humphreys, y Dyffryn, ydoedd." Yna fe wna y sylw, "Yr oedd 'Mr.' yn yr atebiad yn peri i mi feddwl ei fod yn rhyw ddyn anghyffredin, o achos ni byddai braidd neb o

bregethwyr yn cael eu hanrhydeddu â'r teitl hwn y pryd yma. Yn wir, byddai raid i bregethwr enill cryn urddas i gael ei enw ei hun yn llawn." <201>

Yr un modd yn ei atgofion mae John Davies, yn cofio amdano ei hun un noson mewn seiat yng Nghapel Salford. Dywedodd un o'r blaenoriaid wrth Dafydd Rolant, y Bala, "Ewch i ymddiddan â Mrs.R." Ond atebodd Dafydd Rolant, "Wn i ddim beth i feddwl o honoch chwi yn y trefydd yma, y mae pob fflagwt yn syr neu feistr yma. Brodyr a chwiorydd ydym ni oll yn y seiat, bobl, gan hynny rhowch ei enw ei hun i bob brawd, a'i henw ei hun i bob chwaer." <202>

Yr arfer cyffredin yn ôl pob tebyg oedd fod pobl yn galw ei gilydd wrth eu henwau, heb unrhyw deitl yn gysylltiedig. Dangosai hyn i raddau yr anffurfioldeb cartrefol a oedd yn perthyn i'w cyfarfodydd, fod pawb ar yr un gwastad â'i gilydd. 'Roedd yr anffurfioldeb hwn yn nodwedd bwysig ym mywyd y Cyrff Ymneilltuol ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dros dreigl amser fodd bynnag datblygodd yr arfer o roddi teitlau ar unigolion. Drwy hyn gwelir fod ffurfioldeb a pharchusrwydd yn dechrau ymwithio i gyfarfodydd a chymdeithas y Cyrff Ymneilltuol. <203> Cawn gyfle eto i sylwi'n fanylach ar yr anffurfioldeb.

Pennod 6. Sabathyddiaeth.

Y drydedd ran o'r ddisgyblaeth yr ydym am ei hastudio gyda manylrwydd yw Sabathyddiaeth. Y sail i'r arfer o gadw'r Sabbath⁽²⁰⁴⁾ oedd y pedwerydd o'r deg gorchymyn,

"Cofia y dydd Sabbath i'w sancteiddio ef. Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnai dy holl waith. Ond y seithfed dydd yw sabbath yr Arglwydd dy Dduw: na wna ynddo ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th wasanaethwr, na'th wasanaethferch, na'th anifail, na'th ddyeithr ddyn a fyddo o fewn dy byrth."⁽²⁰⁵⁾

Fe gymerid y geiriau hyn yn llythrennol fel gorchymyn uniongyrchol gan Dduw a oedd yn gosod rheol ymarweddiad aelodau'r Cyrff. Pwysleisai'r gorchymyn dri pheth yn arbennig sef; neilltuo'r dydd i Dduw ac i faterion ysbrydol, diwydrwydd am y chwe diwrnod arall o'r wythnos a gorffwys. Ystyr sancteiddio'r Sabbath yn ôl James Hughes oedd, "ymatal oddiwrth bob gwaith ac achosion bydol, a phob mwyniant a phleserau cyfreithlawn ar ddyddiau eraill; trwy ei dreulio yn gwbl mewn ymarferiadau crefyddol, dirgelaidd, teuluaidd, a chyhoeddus."⁽²⁰⁶⁾ Wrth esbonio "chwe diwrnod y gweithi," dywed Idrisyn⁽²⁰⁷⁾, "fod yr hwn sydd yn ofera ei amser ar un o'r chwe diwrnod gwaith, yn euog yr un modd, os nid i'r un graddau, a'r hwn sydd yn gweithio ar y Sabbath."⁽²⁰⁸⁾ 'Roedd y Sabbath hefyd yn ddydd o orffwys, "oddiwrth bob gwaith a llafur corfforol a meddyliol o natur fydol."⁽²⁰⁹⁾ Wrth gynghori gweithwyr pa fodd i orffwyso dywedai John Hughes, Tanygrisiau, mai "un amcan gan yr Arglwydd wrth sefydlu y Sabbath oedd iddo fod yn orphwysdra i ddyn ar ol llafur y chwe diwrnod gwaith; ac y mae mor amlwg a hyny y cynnwysir y gweithwr yn neillduol yn hyn, gan mai efe sydd yn y llafur mwyaf o ran ei gorff ar hyd yr wythnos."⁽²¹⁰⁾

Degfed rheol "Rheolau a Dybenion" y Trefnyddion Calfinaidd a ymwnâi â chadw'r Saboth, fel y gwelir isod, oedd

"Eu bod hwy a phawb o dan eu gofal, yn sancteiddio y dydd Sabboth - yn ymattal oddiwrth negesau bydol, mân orchwylion a ellid eu gwneuthur o'r blaen, neu eu hoedi hyd ddydd arall - oddiwrth brynu a gwerthu, siarad eu geiriau eu hunain, sef y'ngghylch negeseuau a phethau daearol, helynt teyrnasoedd, amgylchiadau eu cymmdogion, a phethau cyffelyb. Ac nid yn unig hynny, ond eu bod yn treulio y diwrnod (heb ei fyrhau trwy gwsg gormodol) mewn rhyw orchwylion neu ymddiddanion sanctaidd, addoliad Duw, gwrandawriad ei air, addysgiad i'r anwybodus, a'r cyfryw ymarferiadau a'r a fo yn gwirdueddu, ac yn cau allan deyrnas Dduw..."⁽²¹¹⁾

'Roedd dau brif bwyslais ar gadw'r Saboth, sef ymroi i ymarfer duwioldeb trwy foddion gras a mynychu oedfaon, a chadw rhag gorchwylion bydol diangen. Fel hyn y cynghorai W. Mitchill aelodau eglwysig,

"Y Saboth hwn ni ddylid ei dreulio yn segur yn meddwl ein meddyliau ein hunain, yn dywedyd ein geiriau ein hunain, yn ceisio ein geiriau ein hunain, yn ceisio ein pleserau ein hunain, yn porthi ein cnawd, ac yn boddioni ei drachwant ef, yn diota, yn yfed, yn chwareu cardiau, disiau, nac unrhyw chwareuon eraill; nac mewn masnach fydol, megis teithiau afreidiol; ond y Saboth hwn a gedwir yn sanctaidd i'r Arglwydd, pan fyddo dynion, ar ôl dyfal baratoi eu calonau, a threfnu eu negeseuon cyffredin o flaen llaw, nid yn unig yn cadw gorphwysdra sanctaidd ar hyd y dydd oddiwrth eu gweithredoedd a'u geiriau a'u meddyliau eu hunain ynghylch eu gorchwylion a'u difyrwch bydol, ond hefyd yn treulio yr holl amser mewn arferiad cyhoeddus a dirgel o addoliad Duw, ac mewn dyledswyddau o angenrheidrwydd a thrugaredd..."⁽²¹²⁾

Yn Y Traethodydd (1846), fe geir traethawd cynhwysfawr yn esbonio'n eglur arwyddocâd y Sabbath. Pwysleisiai'r awdur mai diwrnod i Dduw ydoedd, ac y dylid ei dreulio i adeiladu'r berthynas â Duw. Y dull i sancteiddio'r dydd oedd "drwy gysegru yr oll o'r dydd i Dduw, ac at ei wasanaeth, sef ymarfer yn ddyfal a pharchus â holl ddyledswyddau crefydd, megys darllen y gair, gweddio yn ddirgel a theuluaidd a chynnulleidföol, pregethu a gwrando, a thori bara er côf am angeu y groes.....Nid oes achos

i neb droi i'r papur newydd i ymofyn am ddifyrwch ar y Sabboth; y mae digon i'w gael yn Nhestament Newydd ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist." A thrwy i aelod wneud hyn 'roedd yn derbyn gorffwysdra, "Nid yw ddigon fod y dwylaw a'r traed a'r tafod yn gorphwys, ond y mae yn angenrheidiol fod yr enaid yn gorphwys.....Mae'r meddwl yn gorphwys yn yr olwg ar ryfeddodau person Crist a gwaith y prynedigaeth: y serchiadau yn ymlonyddu yn yr amlygiad o degwch a gogoniant yr hwn sydd oll yn hawddgar; yr ewyllys yn ymhyfrydu yn y gyfraith, ac yn y gwaith o ufuddhau iddi; a'r gydwbybod yn dawel yn ei aberth gwaedlyd ef." Diwrnod ydoedd felly i ymroi i dduwioldeb a dyletswyddau crefyddol. (213)

Hefyd 'roedd y Sabath yn "rhodd amhrisiadwy i fyd colledig," gan ei fod yn rhoddi gorffwys corfforol i ddyn. (214) 'Roedd anifeiliaid, gweision, morwynion a phlant i gael gorffwys rhag gorchwylion bydol a llafur caled. Rhoddwyd cynghorion i bennau teuluoedd y dylent roddi pob cyfleustra i'w gweision ymarfer duwioldeb a chadw'r Sabath. Dywedai J. A. James (215) fod rhai teuluoedd yn cadw eu gweision o dŷ yr Arglwydd am amrywiol resymau, ond dyletswydd teuluoedd Cristnogol oedd "nid yn unig i beidio rhoddi rhwystr ar ffordd eu hiachawdwriaeth, ond i wneyd a allom at ei dwyn ymlaen." I wneud hyn 'roeddent i'w cynnwys yn gyson yn yr addoliad teuluol, i ofalu fod ganddynt Feiblau, ac i roi "cyfleusdra iddynt i addoli, a chadw'r Sabath. Na chedwch hwy yn rhy hwyr wrth eu gwaith nos Sadwrn, fel na byddo i drafferthion bydol ormesu ar y Sabath." (216) Wrth gynghori'r gweision fe anogai John Foulkes hwy i beidio â mynd i weini mewn cartrefi "drygionus, lle yr halogir y Sabath, y dirmygir crefydd, a lle hefyd na chewch gyfleusdra i fwynhau addoliad Duw yn gyhoeddus." 'Roeddent i wneud trefniant gyda'r teulu wrth gael eu cyflogi y byddai rhyddid iddynt fynd i eglwys bob Sabath. (217) Wrth drafod Ecsodus 20:9 dywed John Hughes,

"wrth 'dy holl waith' yma y golygir pob math o waith naturiol, oddieithr yn unig gweithred anhepgorol o drugaredd i ddyn ac anifail. Gan nad yw'r gweithiwr fwy nac eraill i wneud un math o waith naturiol ar y Sabbath, ond yr hyn a nodwyd, mae yn eglur ei fod wedi ei drefnu yn orphwysdra i'w gorff ar ol ei lafur trwy yr wythnos."⁽²¹⁸⁾ Yn y cartref 'roedd yn ofynnol paratoi pob peth fyddai'n angenrheidiol ar y Sabath y Sadwrn blaenorol, "fel na byddo dim gwaith ar ddydd yr Arglwydd, ond ei ferwi, (y bwyd) gochelir pob tafferth hyd y gellir ar y Sabbath, megys golchi llestri &c."⁽²¹⁹⁾ Condemnid pob ffurf ar fasnach Sabathol, ac yn enwedig y tafarndai fyddai'n agor i werthu diodydd cadarn. Cyhuddid tafarnwyr o wrthryfela yn erbyn Duw, drwy fasnachu ar ei ddydd ac o fod yn euog o arwain pobl ar gyfeiliorn drwy eu hatal rhag mynychu lle o addoliad.⁽²²⁰⁾

Mynnai'r Cyrff Ymneilltuol fod eu haelodau'n cadw at y rheolau a osodwyd ynglŷn â chadw'r Sabath ac 'roedd y rheolau hynny'n fanwl a niferus. Yn ymarferol 'roedd cadw'r Sabath yn golygu cadw rhag pob math o orchwylion bydol. "Teithio, rhodio, marchogaeth, gwledda, talu neu dderbyn cyflogau, ac ymddyddan am bethau bydol."⁽²²¹⁾ Gresynai un awdur yn y Dysgedydd, (1847), fod cymaint o bobl yn halogi'r dydd "drwy rodio ar lanau aberoedd ac afonydd, teithio gyda'r agerddlongau a'r agerbydau, ac ymweled â thafarndai."⁽²²²⁾

Gwelsom gyda ieuo anghymarus a balchder fod yr aelod a ymddygai'n groes i reolau'r Corff y perthynai iddo yn cael ei ddisgyblu, yn yr un modd 'roedd y torrwr Sabath i gael ei ddisgyblu. Gallwn rannu ein sylwadau ynglŷn â Sabath a disgyblaeth yn ddwy ran, sef, gweithio a theithio.

Yn gyntaf, fel y crybwyllwyd eisoes, nid oedd unrhyw waith dianghenraid i gael ei gyflawni ar y Sabath. ⁽²²³⁾ Daeth achos ger bron Cymdeithasfa Llanidloes ym 1849 yn ymwneud â gŵr a oedd yn cludo llythyrau o'r orsaf rheilffordd i'r swyddfa post ar y Sabath. Nid oedd ei gydaelodau yn sicr pa fodd i ddelio â hyn, a gofynnwyd am gyngor y Gymdeithasfa. Eu cyngor hwy oedd ar i'r brawd, cyn gynted ag y bo modd, ryddhau ei hun o'r gwaith. ⁽²²⁴⁾ Cyngor Eta Delta yn y Dysgedydd (1848), oedd, "nad gweddaidd yw i Gristion rwyho ei hun ar ddydd Crist, ond at wasanaeth Crist ei hun yn unig. Yr Arglwydd Iesu Grist ei Hun biau y Sabbath a phob dyn. Cofied y meistr a'r meistresi hyn, a chofied y gweision a morwynion beidio rhwymo ei hunain, ond cadw eu hunain i Grist, yn hollol rydd iddo." ⁽²²⁵⁾ Yng Nghymdeithasfa Aberhonddu, 1856, mynegwyd gofid "ar yr ymdrechion diweddar i halogi dydd yr Arglwydd drwy daflu yn agored leoedd cyhoeddus megis yr Amgueddfa Frytanaidd," a chymhellwyd gweinidogion i "alw sylw y cynulleifaedd at hawliau ac awdurdod parhaus y Sabboth mewn pregethu." ⁽²²⁶⁾ Condemniai "Dyledwr i'r Sabboth" y rhai hynny oedd yn gweithio ar y Sabboth, yr argraffwyr, y llythyrdy, y siopau a'r tafarndai oedd yn masnachu. ⁽²²⁷⁾ 'Roedd llawer o weinidogion yn frwd dros gadw'r Sabath, ac nid y lleiaf ohonynt oedd John Elias. ⁽²²⁸⁾ Dywed W. Pritchard ei gofiannydd, "Ni fu neb o ddiwygwyr Cymru yn fwy blaenllaw a thanbaid ei ysbryd a deheuig ei ffordd nag y bu John Elias i gael ei gydgenedl i gadw yn sanctaidd y dydd Sabboth.... Trwy ei bregethu a'i ymdrechion ef yn bennaf o bawb y rhoddwyd i lawr yr arferiad o falu ŷd ar y Sabbothau yn Ynys Môn..... ar adegau neillduol, megis tymhor cynheuaf, byddent yn or-brysur y nos fel y dydd... Ac yn ychwanegol at y cwbl yr oedd gadael i'r melinau gwynt droi ar y Sabbothau yn arferiad wedi dyfod i lawr o'r oesau gynt, a phrin yr oedd neb yn dyrchafu ei lais i wrthwynebu.... Ond John Elias oedd y dyn i ymaflyd yn y gorchwyl, ac heb ofni na phetruso dechreuodd ar y gwaith

gyda'r fath egni a difrifwch a phe buasai ganddo ddim arall i'w wneud... «229» Llawer gwaith bu yn pregethu ar lannau y môr o flaen adegau pysgota penwaig, er mwyn darbwyllo y rhai oedd yn ymgymeryd â'r gwaith hwnnw i beidio gosod eu rhwydau ar y Saboth. «230»

Mae'n amlwg fod gweithio ar y Sabath yn peri gofid i nifer o aelodau. Derbyniodd James Hughes, (Iago Trichrug), lythyr gan longwr ym 1835, a bryderai ei fod yn torri'r Sabath drwy hwylio o borthladdoedd ar ddydd yr Arglwydd. Cynghorai J. Hughes ef gan ddweud y dylai "geisio lle gyda rhyw un o'r capteiniaid crefyddol hynny, fel na byddo raid i chwi hwylio ar y Saboth, na gwneyd dim ond a fyddo yn wir angenrheidiol i chwi ar y Saboth, na gwneyd dim ond a fyddo yn angenrheidiol ar y môr, er iawn hwyliad a diogelwch y llong ar ddydd yr Arglwydd.....Byddai yn well i chwi wneyd felly pe caech beth llai o gyflog, a rhoi i fyny gyda rhai anfanteision ereill..." «231»

Bu dadl yn Y Diwygiwr, (1848), rhwng Robert Jones, Drewen, a John Thomas, Lerpwl. «232» Testun y ddadl oedd gwerthu llyfrau ar y Sabath yn y capeli. 'Roedd Robert Jones yn condemnio'r arfer gan gredu ei fod yn torri'r Sabath. Ar y llaw arall cefnogai John Thomas yr arfer oherwydd y credai ei fod yn gymorth i ychwanegu at wybodaeth pobl Cymru. Rhoddodd y golygydd derfyn ar y ddadl ym mis Rhagfyr, gan ei fod yn ystyried na allai unrhyw fudd ddeillio ohoni. «233»

Ond ambell dro 'roedd y ffin yn denau rhwng disgyblaeth a phariseaeth. Un Sabath yng nghyffiniau Penmaen-mawr, 'roedd gŵr o'r enw William Griffiths, Y Cae, yn un o'i gaeau yn gwneud dim mwy nag edrych ar ei gynnyrch. Fe'i gwelwyd gan un o'i gymdogion, William Thomas, y Bicill,

Calfin o'r Calfiniaid. Yn y cyfarfod eglwysig dilynol ceryddwyd William Griffith yng ngŵydd yr eglwys am iddo dorri'r Sabath. <234>

Yn ail, nid oedd unrhyw deithio dianghenraid i'w wneud ar y Sabath. Yng Nghymdeithasfa Llanrwst, 1849, nodwyd nad oedd Cyfarfodydd Misol mewn ardaloedd lle 'roedd rheilffyrdd ynddynt yn caniatáu i'w haelodau deithio arnynt ar y Sabath. <235>

Yn fuan wedi i Gwilym Hiraethog fynd yn weinidog i Mostyn fe gododd achos disgyblaethol yn ymwneud â theithio. 'Roedd hen ŵr a oedd yn aelod yn yr eglwys wedi dod adref ar brynhawn Sabath gyda'r Stemar o Lerpwl. Daeth i'r capel y noson honno, ac yn y cyfarfod eglwysig ar derfyn yr oedfa, cyn i neb ddweud gair, cododd ei wraig a oedd yn eistedd gerllaw iddo ar ei thraed, a dywedodd, "Dyma fo. Torwch o allan heno!" Yr oedd dau neu dri o'r brodyr yn awyddus i gefnogi cynnig yr hen chwaer. Ceisiodd Hiraethog eu darbwylllo er mwyn iddynt gael rhagor o amser i ystyried yr achos. <236>

Aeth J.J.Morgan rhyw Sul i bregethu yng nghapel y Dyffryn, Goginan, a bu'r blaenoriaid yn trafod yn hirfaith a fyddai'n cael pregethu yno oherwydd iddo gyrraedd ar "ysgrubl anefengylaidd," sef beic. Wedi trafod fe ganiatawyd iddo bregethu, ac fe dybiai J.J.Morgan mai'r unig reswm am hynny oedd oherwydd ei fod yn fab i'w dad. <237>

Ond yr achos enwocaf sy'n gysylltiedig â theithio ar y Sabath, oedd yr achos yn Llansannan a barodd i Gwilym Hiraethog droi oddi wrth y Trefnyddion Calfinaidd at yr Annibynwyr. Yn y flwyddyn 1827, yr oedd gŵr o'r enw Joseph Davies, Llys Aled, yn aelod ffyddlon, ac yn godwr canu

parchus a chymeradwy yn y gymdogaeth. Ar ddiwedd y flwyddyn byddai'n arfer ganddo yrru moch i'r Amwythig a Wolverhampton i'w gwerthu. Ond y flwyddyn arbennig hon 'roedd ei wraig yn sâl o'r ddarfodedigaeth, a phan ar ei deithiau derbyniodd lythyr ar fore Sadwrn yn yr Amwythig yn dweud fod ei wraig yn gwaethygu, ac os oedd am ei gweld eto ar dir y byw y dylai ddychwelyd ar unwaith. Cyrhaeddodd Gerrigydrudion yn hwyr brynhawn Sadwrn a chan ei bod yn dywyll, ac yn beryglus i groesi'r mynydd, penderfynodd aros yng Ngherrigydrudion hyd y bore. Drannoeth ar y Sabbath cychwynnodd ben bore, gan gyrraedd adref yn lled fuan, ac er mawr lawenydd iddo 'roedd ei wraig gryn lawer yn well. Pan ddaeth yr hanes am ei daith i glustiau Peter Roberts, y gweinidog, a'r swyddogion penderfynasant fod yn rhaid dwyn ei achos ger bron yr eglwys. Gwrthwynebai Joseph Davies hyn yn chwyrn, gan ddweud ei fod yn groes i ddysgeidiaeth yr Iesu, ac mai'r un peth fyddai iddynt sôn am ddiarddel y disgyblion am gerdded trwy yr yd a thynnu tywysennau ag a fyddai iddynt ei ddiarddel ef am deithio dros y mynydd ar y Sabbath dan amgylchiadau mor arbennig. Ond 'roedd y swyddogion yn ddiwrando. "Yr oedd y Sabbath wedi ei halogi, a theimlent eu hunain o dan yr angenrheidrwydd i wneud esiampl o'r troseddwr, fel y gwelid mawredd y drwg yn mawredd y gosb oedd arno i gael ei gweinyddu. Nid oeddynt yn gallu gweled y gwahaniaeth rhwng yr hyn oedd yn foesol a'r hyn oedd bendant, a bod yr hyn oedd bendant bob amser i roi ffordd i'r hyn sydd foesol, pa bryd bynag y bydd iddynt i ddyfod i wrthdrawiad â'u gilydd, fel yr oedd yn amlwg i'w weled yn ymddygiad y Dysgawdwr mawr ei hun. Nid oedd crefydd na dynoliaeth mewn diarddel dyn am ddyfod adref ar y Sabbath i weled ei wraig, yr hon oedd ar fin marw." Ond felly y digwyddodd, diarddelwyd Joseph Davies, gan beri rhwyg yn yr eglwys. Ychwanega Gwilym Hiraethog, "eto yr oedd llawer o eglwysi y pryd hwnw, heblaw eglwys Llansanan, yn barod i

wneuthur yr un peth, nid yn unig ymhlith y Methodistiaid, ond yn mhlith yr Annibynwyr yn ogystal." <238>

Ffurf arall ar deithio a fyddai'n drosedd ar y Sabath oedd rhodianna. Mae'n amlwg ei fod yn arfer mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru i fynd am dro gyda chyfeillion ar brynhawn Sul, gan grwydro'n ddigyfeiriad. Ceisioedd y Cyrff Ymneilltuol ddileu'r arfer hwn, fel y dengys yr hanes canlynol,

"Hyd yn ddiweddar, ystyrid rhodio ar y Saboth yn destyn disgyblaeth, a mynych yr athrawiaethid ar hyn o'r Set Fawr ar nos Saboth. Digwyddodd tro digrifol unwaith pan alwyd ychydig ddynion ieuaic i gyfrif am droseddu yn hyn. Clywodd y swyddogion fod amryw o honynt yn rhodio i ben y Garth a mannau eraill ar ôl y moddion. Er mwyn cael tystiolaeth safadwy yn eu herbyn aeth un o'r swyddogion i ben y Garth a gwelodd amryw o honynt yno, ond ni ddangosodd ei hun iddynt. Galwyd y gwŷr ieuaic o flaen y fainc, a holwyd hwy o un i un, ond ni hysbyswyd hwy pwy a'u cyhuddai. Yn eu plith yr oedd y llenor adnabyddus, Llew Llwyfo, bachgen direidus oedd ef ar y pryd, ac yn gwasanaethu yn un o siopau'r dref. "Wel, Lewis." meddai un o'r swyddogion, "oeddet ti allan yn rhodio nos Sabbath diwethaf?" "Wel oeddwn," meddai yntau, "ac fel hyn y bu. Clywais fod rhai lled gyfrifol yn arfer mynd i'r Garth am dro nos Sabboth, a phenderfynais fynnu gwybod a oedd gwir yn hynny a'i peidio. Wel aethum yno, a phwy feddyliech chwi welais i yno? Hwn a hwn." meddai, gan enwi y swyddog a'i dygodd i'r fagl." <239>

Dywedai Eta Delta nad gweddaidd oedd "i Gristion gydymffurfio â'r byd, mewn gwledda, a rhodiana, a segura ar y Sabboth." <240> Diarddelwyd Margaret Williams ym 1839, ac Elisabeth Thomas ym 1845 o Eglwys y Bedyddwyr Caergybi, am "rodiana ar Ddydd yr Arglwydd." <241>

Yr oedd rheolau'r Sabath mor llym ar ddechrau'r ganrif fel y bu i rai o'r brodyr yn eglwys y Trefnyddion Calfinaidd, Tanygrisiau, ohirio trafodaeth ar gael ysgoldy i'r Ysgol Sul oherwydd, "yr ystyrient yr achos yn rhy angylchiadol i'r Sabbath, ac yn fwy teilwng o ddydd gwaith. Felly

gohiriwyd y mater hyd noson waith benodedig yr wythnos ganlynol." (242)

Cafwyd digwyddiad digon tebyg yn Rachub, Bethesda. Yno daeth gŵr o'r enw John Humphreys o dan beth erledigaeth am gadw Ysgol Sul yn Nant Ffrancon, gan fod rhai o'i frodyr yn yr eglwys yn tybied fod cadw Ysgol Sul yn "halogiad o'r seithfed gorchymyn. Eu dull o ymresymu i brofi eu gosodiad hwn oedd, honi fod dysgu darllen a deall y Beibl yn waith, a bod pob gwaith ar ddydd yr Arglwydd yn bechod; gan hyny, fod John Humphreys wrth fyned i Nantfrancon ar y Sabbath i ddysgu y bobl yn Ngair Duw yn pechu, ac yn pechu yn rhy ysgeler i gael ei oddef yn aelod eglwysig." Pan ddaethpwyd â'i achos ger bron yr eglwys nid oeddent ddigon unfryd, ac felly aeth yr achos ger bron y Cyfarfod Misol yn Rhyd-bach, Llŷn. Yn y cyfarfod hwnnw yr oedd Thomas Charles o'r Bala yn digwydd bod yn bresennol, ac wedi trafodaeth hir penderfynwyd fod John Humphreys i gadw ei aelodaeth eglwysig a pharhau i gadw'r ysgol Sul. (243)

Er mai'r prif resymau dros gadwraeth manwl o'r Sabath, oedd y rhai ysgrythurol ac ysbrydol, 'roedd rhesymau eraill pwysig dros ddangos y fath fanylrwydd ynglŷn â'r dydd, a'r rhesymau hynny yn foesol a chymdeithasol. Mewn cymdeithas lle 'roedd mwyafrif y boblogaeth fynyachaf yn gweithio'n ddi-dor am chwe diwrnod o'r wythnos, dim ond y Sabath oedd ganddynt yn rhydd oddi wrth lafur. Oblegid hyn fe'i defnyddid fel diwrnod i gyflawni pob math o orchwylion nad oedd amser weddill yr wythnos i'w cyflawni ac hefyd i gymdeithasu a chyfeddach.

Arfer rhai oedd treulio'r rhan helaethaf o'r diwrnod yn eu gwllâu yn segura ac yn dadflino o'u lludded ar ôl wythnos galed o waith corfforol. (244)

Arfer arall gan luoedd oedd "tyru ar fore Sabboth i dŷ yr

eilliwr, i gael eillio eu barfau a thrwsio eu gwalltiau;...ac yn paratoi eu hunain erbyn y prydawn, pryd y bydd ganddynt hamdden i rodiana, a difyru eu hunain gyda'r cymdeithasau llawen yn y tafarn."⁽²⁴⁵⁾ Ar y Sabath y cynhelid chwaraeon a fyddai'n aml yn troi'n ymladdfeydd cyn machlud haul.⁽²⁴⁶⁾

Eraill a fanteisient ar nos Sadwrn i "yfed i ormodedd o ddiad gadarn, ac ar fore Sabboth yn rhy glaf i godi o'u gwelyau hyd naw neu ddeg o'r gloch."⁽²⁴⁷⁾

'Roedd yn ddiwrnod i ymweld â'r meddyg ac i "daro gwaed... oherwydd fod dolur yn y pen," ac i gynnal angladdau.⁽²⁴⁸⁾ 'Roedd yn ddiwrnod pryd yr oedd rhai'n gloddesta gan "ddarparu mwy a gwell danteithion i'r corff nag a wneir ar ddyddiau eraill o lawer."⁽²⁴⁹⁾

Fe'i defnyddid hefyd fel diwrnod i gynnal ffeiriau cyflogi, i deithio adref o ffeiriau a fu ar y Sadwrn, neu i ffeiriau a gynhelid ar ddydd Llun.⁽²⁵⁰⁾ Eraill a ddefnyddient y Sabath i ymweld â pherthnasau, i wneud mân negeseuon ac i sgwrsio.⁽²⁵¹⁾

Yn ei fywgraffiad o'i dad, y Parch. John Roberts, Llangwm, fe rydd Michael Roberts, Pwllheli, ddarlun o Sabath yn Nyffryn Nantlle ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, pryd yr oedd gwaith copr Drws y Coed a gwaith llechi'r Cilgwyn yn eu bri.

"Ymdyrent yn bob oedran ar y Sabbothau i gyntedd ehang wrth anedd-dy Nantlle, yn adeg yr haf, i gynnal pob gwrol gampau, chwarae'r bel-law - ceulus; a byddai yr hen bobl yno yn edrych ar yr ieuenctyd, gan eu hanog a'u dysgu, er mawr foddhad iddynt eu hunain. Ac yn y diwedd, adroddid hen chwedlau y naill i'r llall, heb yr un rhith o wirionedd ynddynt - hen ofergoelion paganaidd a phabaidd. Byddai y rhai mwyaf gwybodus yn eu plith yn adrodd peth wmbrethol o ddaroganau Robin Ddu, hanesion am fwanod a'r tylwyth teg, a phethau o'r fath....Ac fel hyn y treulid y Sabbothau y pryd hyn, ac ystyrient fod ganddynt berffaith hawl i wneyd fel y mynont ar ol bod yn y Llan yn y boreu yn cael y foreuol weddi. Ond byddai rhai yn hoffach o'r dafarn na'r chwareusethau, ac arhosent yno hyd y nos, rhai hyd ddydd Llun, a llawer gwaith yr

arhosodd tad John Roberts yno hyd ddydd Mawrth. Yn ei hanes anaml y byddai wythnos yn pasio heb ei fod y ymladd â rhywun neu rywrai, naill ai prydawn Sabboth yn y pentref, neu yn ystod yr wythnos yn rhai o fan dafarnau y Nant.....Yn y gaeaf, ymdyrai holl feibion ieuanc y gymdogaeth i chwareu y bel-droed i gae gerllaw Tymawr ar brydnawnau Sabbothau, ac ymddifrent felly hyd y tywyll nos, pan yr ymwasgarent i'r tafarndai. Cynhelid priodasau, nosweithiau llawen, chwareu cardiau, canu a dawnsio, a phethau cyffelyb yn aml ar y Sabbothau."(252)

Gan fod yr eglwys yn gorff neilltuedig, 'roedd yn angenrheidiol i'r Cyrff amddiffyn eu haelodau rhag yr arferion bydol hyn, gan sancteiddio'r Sabath yn ôl gorchymyn Duw.

Ond yr oedd dau safbwynt yn ystod y ganrif ynghylch pwy oedd i gadw'r Sabath ac ufuddhau i'r pedwerydd gorchymyn. Daliai un gafran mai gorchymyn ydoedd ar gyfer credinwyr yn unig. Barn yr ail garfan oedd fod y gorchymyn wedi ei roddi i holl ddynolryw, credinwyr ac anghredinwyr, a'i fod ar yr un gwastad â'r gorchymynion eraill, na ladd ac na wna odineb. Dywedai Ioan Meirion, fod torri'r Sabath "mor ddrwg (os nad gwaeth) yn ngolwg Duw, â'r pechod o ladd dy gymydog."(253)

Yn y garfan gyntaf 'roedd J.R.Jones, Ramoth, (254) a gwelir ei safbwynt ef yn glir yn y Crynodeb o Egwyddorion Ysgrythyrol a ymddangosodd ym 1805. Ffurfiwyd y Crynodeb yn rhannol gan J.R.Jones mewn cyd-weithrediad â nifer o henuriaid a brodyr amryw o eglwysi'r Bedyddwyr yng ngogledd Cymru. Wrth drafod y Sabath fe gawn y sylwadau hyn yn y Crynodeb,

"Yr ydym yn dysgu ddarfod i Dduw wneuthur y bydoedd mewn chwe' diwrnod, a gorphwyso ar y seithfed dydd, gan ei fendigo a'i sancteiddio, i fod yn goffawdwriaeth o'i holl weithredoedd daionus.....Fel hyn yr ydym yn dysgu fod y Sabath yn ordinhad osodedig ac arwyddol, a chwedi ei roddi yn unig i eglwys Dduw, ac nid yn orchymyn moesol yn perthyn i bob dyn yn gyffredinol, pe amgen ni buasai byth yn cael ei ddileu a'i ddiddymmu."(255)

Oherwydd hyn gwrthwynebent unrhyw ymgyrch i gael deddf seneddol fyddai'n gorfodi pobl i gadw'r Sabath. Rhywbeth i Gristnogion oedd y gorchymyn hwn, a gwaith yr eglwys nid y senedd oedd ceisio ennill pobl i ufuddhau iddo.

Un arall oedd yn aelod o'r garfan gyntaf hon oedd J.R., Llanbrynmair. Gwrthwynebai ef yr ymgyrch oedd ar y gweill i gael deddf fyddai'n gorfodi dinasyddion gwledydd Prydain i gadw'r Sabath. Credai mai trwy bregethu'n unig y gellid argyhoeddi pobl i sancteiddio'r Sabath ac y byddai deddfwriaeth yn gwbl aneffeithiol. ⁽²⁵⁶⁾ Defnyddid yr un ddadl yn yr America gan ddirwestwyr a wrthwynebent Ddeddf Maine, yn eu tyb hwy cwestiwn crefyddol ydoedd anghymedroldeb, ac 'roedd y drwg i gael ei roddi i lawr trwy foddion moesol ac nid trwy ddeddfwriaeth llywodraeth. ⁽²⁵⁷⁾

Ymosododd W.J., Pwllheli, ar ddaliadau J.R. Jones ynglŷn â'r Sabath yn Seren Gomer (1823). Dywedai W.J., fod y Crynodeb, yn "amcan teg i wadu moesoldeb y Sabbath, dileu y pedwarydd allan o'r deg gorchymyn; rhyddhau i fyrddiynau o ddynolryw o'u rhwymedigaethau o gadw y Sabbath, a thrwy hyny eu difuddio o foddion cyffredinol Duw i gyfranu gras er iachawdwriaeth i bechaduriaid." Safbwynt yr ail garfan - a gynrychiolir yma gan W.J., Pwllheli, - oedd fod y Sabath yn "orchymyn moesol perthynol i bob dyn," ac nid yn gyfyngedig i'r eglwys. ⁽²⁵⁸⁾

Yn ôl J.W., Penrhyndeudraeth, 'roedd y Sabath yn ddylanwad daionus ar gymdeithas yn ei chyfanrwydd, oherwydd ei fod yn rhoi "gorphwysdra i'r llafurwr blinedig...yn diogelu rhyddid y dosbarth israddol o'n pobl...ac am ei fod yn sicrhau moddion diwylliant meddyliol." ⁽²⁵⁹⁾

Safbwynt Eta Delta oedd fod cyfrifoldeb gan y Llywodraeth Wladol i arwain ei deiliaid i gadw gorchmynion Duw, a gwrthwynebai'r rhai oedd o farn gwahanol.

"Drwg genyf glywed rhai, er's blynyddau, yn taeru nad oes dim a fynd ein Seneddwr â'r fath beth! Dywedant, dim arfau dynol, na moddion anianyddol, na chosbau gwladol, yn nghylch cadw y Sabbath, eithr yn unig arfau moesol, dysgu, pregethu, a darbwyllio dynion. Ymddengys y fath resymu yn iaith gref a doeth ryfeddol ar yr olwg gyntaf, ond mae hi yn arwynebol, yn ochrog, ac yn rhedeg i eithafion.....Diau y dylai cyfraith tir achosi i bob gwaith perthynol i'r llywodraeth sefyll ar ddydd yr Arglwydd; yna caiff miloedd hamdden i addoli ar y Sabbath.....Yn fyr gallai y gyfraith attal bron bob teithio, gyda cherbydau, gydag afonydd, gyda'r ffyrdd heilyrn, attal milwyr i rodiana, ac attal pob masnachu cyhoeddus, a bloeddio ar hyd yr heolydd yn y trefydd mawrion." <260>

Erbyn canol ail hanner y ganrif 'roedd safbwynt yr ail garfan wedi ennill y dydd, a'r safbwynt cyntaf wedi mynd i ebargofiant. Ym mhumedgau'r ganrif daeth cefnogwyr cadw'r Sabath a phleidwyr dirwest at ei gilydd i gyd-ymdrechu mewn ymgyrch i gau'r tafarnau ar y Sul. Yn Y Dysgedydd, (1848), anogid darllenwyr i anfon deisebau i'r Senedd i wrthwynebu gwerthu'r ddiod gadarn ar y Sabath. <261> Yr un oedd llef Eta Delta, wrth iddo ef yn ddiweddarach yn y flwyddyn alw ar "bob tref, ardal boblog, neu gynulleidfa," i anfon deisebau i'r senedd. <262> Ym 1853 ffurfiwyd Cynghair y Deyrnas Unedig ym Manceinion, ei nod oedd lleihau y fasnach mewn diodydd meddwol. Ym 1881 wedi ymgyrch hir ac effeithiol pasiwyd Deddf Cau'r Tafarnau ar y Sul, ac 'roedd y ddeddf hon yn bluen fawr yng nghap pleidwyr cadw'r Sabath, yn osgystal â dirwestwyr. <263>

Er fod cadwraeth y Sabath ar ddechrau'r ganrif yn pwysleisio arwahanrwydd y Cyrff Ymneilltuol a'r ffaith eu bod yn wahanol i fwyafrif y boblogaeth yn eu hymarweddiad, trwy i'w daliadau yn y maes hwn gael eu

cadarnhau gan ddeddfau gwladol a gwleidyddion; a thrwy y cynnydd enfawr fu yn eu haelodaeth a barai fod iddynt ddylanwad mawr ar gymdeithas, 'roedd mwyafrif poblogaeth Cymru yn cael eu hannog a'u gorfodi i gydymffurfio. 'Roedd daliadau y Cyrff Ymneilltuol yn datblygu o fod yn ddaliadau lleiafrifol gwrth-sefydliadol i fod yn ddaliadau'r mwyafrif a chan hynny'n cadarnhau'r sefydliad. Felly, nid yn unig 'roedd symudiad graddol o fewn y Cyrff Ymneilltuol tuag at enwadaeth a'r byd, ond 'roedd y byd hefyd drwy ddylanwad yr Ymneilltuwyr yn dod yn fwy Cristnogol ei naws a'i feddylfryd. Yn ystod y ganrif rhoddwyd heibio i raddau helaeth y rheolau oedd yn ymwneud â ieuo'n anghymarus a gwisgo â balchder, ond fe barhaodd y rheolau a ymw'nâi â chadwraeth y Sabath yn gryf trwy gydol y ganrif. Y rheswm am hyn oedd fod y Cyrff wedi llwyddo yn yr achos arbennig hwn i ennill cydymdeimlad y byd gyda'u hachos, a bod pobl y tu allan i'r Cyrff yn gweld rhesymeg gymdeithasol o gael un diwrnod o orffwys a thawelwch pob wythnos.

Pennod 7. Manylrwydd.

Cyn y gallwn symud ymlaen o faes disgyblaeth eglwysig mae'n bwysig ein bod yn ymwybodol o ehangder a manylrwydd y ddisgyblaeth, drwy sylweddoli ei bod yn cyffwrdd pob rhan o fywyd aelodau'r Cyrff. Nid disgyblaeth arwynebol, fas a ffurfiol ydoedd yn cynnwys rhai arweddau ar fywydau unigolion, ond disgyblaeth fanwl, ofalus, ddwys a phersonol a oedd yn cwmpasu'r cyfan o'u bywydau a'u hymarweddiad. Deuai pawb yn ddiwahân o aelodau'r Cyrff o dan lygaid barcud y ddisgyblaeth pwy bynnag oeddent, yn aelodau cyffredin, yn flaenoriaid, yn ddiaconiaid a gweinidogion. Nid yw gofod yn caniatáu i ni fanylu ar yr holl bynciau sydd yn weddill heb eu crybwyll, ond yn y bennod hon fe gyfeiriwn yn fras at nifer o feysydd eraill a ddeuai o dan gronglwyd y ddisgyblaeth er mwyn dangos yr ehangder a'r manylrwydd a berthynai iddi.

Yn ddigon naturiol fe ddisgwylid i aelodau fod yn onest a geirwir ym mhob peth, yn eu cartref, eu gwaith, eu masnach ac o fewn y bywyd eglwysig. Ac os oedd aelodau'n anonest deuent o dan y ddisgyblaeth. Diarddelwyd blaenor yng Nghyfarfod Misol Môn gan W. Roberts, Amlwch, yn rhannol am iddo ddweud celwydd, ⁽²⁶⁴⁾ a diarddelwyd David Hughes ym 1864, o eglwys y Trefnyddion Calfinaidd ym Mhen-y-groes, Arfon, am anwiredd. ⁽²⁶⁵⁾ 'Roeddent i fod yn bobl, oedd

"o wefus bur...na byddont yn arfer llawer o eiriau wrth brynu a gwerthu...nac yn dweud yn rhy dda am eiddo wrth ei werthu, a "drwg drwg" wrth ei brynu.....Na wnelont farn, ar lathen, ar bwys, nac ar fesur..." ⁽²⁶⁶⁾

Telynegai Herber am rinweddau onestrwydd yn yr Annibynwr (1858), gan ddweud ei fod yn "flodeuyn tlws, a pheraidd ei arogl. Er tlysed lili y

dyffrynoedd, a hardded Rhosyn Saron, canmil harddach yw gonestrwydd." Yn ei lith fe anogai'r darllenwyr i ddilyn onestrwydd, oherwydd fe ddeuai onestrwydd a'i wobrwyon, ond drygfyd ddeuai yn sgil anonestrwydd. ⁽²⁶⁷⁾ Yn ôl T. Davies, yr oedd crefydd yn "gorchymyn pob dyn i fod yn gyfiawn a gonest," ac y dylai masnach gael "ei chario yn mlaen yn gyfiawn, ac os oes twyll a hocced yn cael eu harfer gan eraill, nid ydyw hyny yn un rheswm dros i aelodau crefydd wneyd yr un peth." ⁽²⁶⁸⁾

Wrth ymdrin â'u harian disgwylid i aelodau fod yn ddoeth. Ar un llaw nid oeddynt i fod yn grintachlyd a chybyddlyd ⁽²⁶⁹⁾ ac ar y llaw arall nid oeddent i fod yn wastraffus. ⁽²⁷⁰⁾ Yn hytrach anogid hwy i fod yn ddarbodus a gofalus. ⁽²⁷¹⁾ 'Roedd y pwyslais hwn ar gynildeb i dyfu'n egwyddor economaidd bur arwyddocaol yn Radicaliaeth ail hanner y ganrif. Yr oedd J. R., Conwy, yn huawdl iawn ar y pwnc. Condemniai yr arfer o wastraffu arian ar bethau di-fudd fel llestri i addurno silffoedd, ⁽²⁷²⁾ anfon cardiau ffolant, ⁽²⁷³⁾ a smocio. ⁽²⁷⁴⁾ Rhybuddid hwy hefyd rhag prynu ar goel heb fodd i anrhydeddu'r taliadau. Gwelid hyn fel anonestrwydd mawr, "Y maent yn prynu pethau sydd arnynt eu heisiau, ond yn analluog i dalu am danynt. Hwyrach fod y cyfryw sydd yn gwneyd hyn yn meddwl nad ydyw y fath beth a hyn yn anghyfiawnder; ond pa reswm all fod gan ddyn dros gymeryd eiddo pobl eraill at ei wasanaeth ei hun, heb fod ganddo fodd i dalu." ⁽²⁷⁵⁾ Canlyniad methdaliad oedd cerydd ac yn y diwedd diarddeliad. "Nid ydym yn gweled fod y dynion sydd yn rhedeg i lawer o ddyledion yn deilwng o aelodaeth eglwysig. 'Gwell yw y tlawd a rodio yn ei uniondeb, na'r traws ei ffyrdd er ei fod yn gyfoethog,' Diar. 28:6." ⁽²⁷⁶⁾ Bu rhaid i Gyfundeb y Methodistiaid dynhau ei reolau ynglŷn ag adfer methdalwyr yn ôl i gyflawn aelodaeth ar ôl eu profiad gyda Griffith Evans a ffodd i'r America gan adael llu o ddyledion ar ei ôl. ⁽²⁷⁷⁾ Nid oedd aelodau ychwaith i ymwneud â

hap chwarae a betio. ⁽²⁷⁸⁾ Canlyniad anochel ymdrin â phethau o'r fath oedd dod o dan gerydd fel y digwyddodd yn hanes Robert Tomos, Llidiardau, a ddiarddelwyd o seiat y Trefnyddion Calfinaidd, Betws-y-Coed, am chwarae am arian. ⁽²⁷⁹⁾

Mewn ardaloedd arfordirol 'roedd eglwysi'n wynebu anawsterau neilltuol oherwydd fod aelodau'n cymryd, ac mewn rhai achosion yn gwerthu, eiddo llongddrylliadau a olchwyd ar y traethau. Yr oedd dwy o Reolau a Dibenion y Trefnyddion Calfinaidd yn ymwneud â hyn sef y bymthegfed a'r ail ar hugain. ⁽²⁸⁰⁾ Treuliodd John Elias lawer o amser yn ceisio ymlid y drwg hwn o'r eglwysi ym Môn, drwy ddiarddel aelodau a oedd yn euog o'r droedd ⁽²⁸¹⁾, ac mewn un achos drwy ddiarddel eglwys Caergybi yn ei chyfanrwydd. ⁽²⁸²⁾ Yn Chwefror 1841, ysgrifennai Dr. William Morgan - gweinidog gyda'r Bedyddwyr yng Nghaergybi - yn ei ddyddiadur gan ddweud ei fod yn cael ei ofidio, "yn fawr wrth glywed fod amryw o aelodau y Bontypont wedi bod yn ymyriaeth a nwyddau llongdoriad. ⁽²⁸³⁾... Gofydus yw na bai pawb crefyddwyr ar achosion o'r fath yn gwilio mwy, ac yn darparu pethau onest yng ngolwg pob dyn fel na cheblid yr enw rhagorol oblegyd camymddygiad ei arddelwyr." ⁽²⁸⁴⁾ Ym 1839, diarddelwyd gŵr o'r enw Richard Thomas o eglwys Bedyddwyr Caergybi am "gymeryd peth anghyfreithlon oddi wrth longddrylliad." ⁽²⁸⁵⁾ Yng Nghymdeithasfa Llannerch-y-medd, 1854, ailbwysleisiwyd fod y Cyfundeb yn parhau i ddiarddel o'r eglwysi yr aelodau hynny a geid yn euog o yspeilio "eiddo llong ddrylliedig ar yr arfordiroedd." ⁽²⁸⁶⁾

Nid oedd aelodau ychwaith i regi na thyngu; gyda'r bywyd newydd yng Nghrist 'roeddent i roi heibio arferion bydol o'r fath. Yn ôl Thomas Rees fe ddylid ceryddu aelodau am "bechodau'r tafod, megys cablu enw Duw,

tyngu, anudon, difenwi, enllibio, arfer ymadroddion llygredig." (287) Yn Nhywysydd yr Ieuanc, (1840), rhoddwyd cyngor i blant ymatal rhag defnyddio araith o'r fath. (288) Ceryddodd Cadwaladr Jones wraig yn eglwys yr Annibynwyr, Dolgellau, (1842), am "arfer geiriau anaddas yn fynych." Oherwydd ei bod wedi ei rhybuddio droeon o'r blaen, bu rhaid ei disgyblu drwy ei hatal o'r cymundeb dros gyfnod o amser, hyd nes y byddai'n diwygio ei hun. (289)

'Roedd y ddisgyblaeth hefyd yn treiddio hyd at berthynas aelodau a'i gilydd a hyd yn oed perthynas aelodau teuluol a'i gilydd. Yn nyddiadur Dr. William Morgan, Caergybi, ar yr 20ed o Ionawr 1843, fe geir y geiriau hyn.

"Yr ydwyf mewn llawer o fyd y dyddiau hyn yn achos crefydd yn ein plith. Wedi gorfod diaelodi tri o'n haelodau oddi ar nos Sabath diwethaf, ac yn eu plith fy mab hynaf. Teimlais yn ddwys yn yr achos. Ond nid oedd modd i'w arbed, gan ei fod yn dilyn oferedd." (290)

Ceir enghreifftiau hefyd o berthnasau agos yn annog yr eglwys i ddisgyblu aelodau o'u teuluoedd, oherwydd iddynt droseddu. Yn eglwys Mostyn galwodd hen wraig ar i'w gŵr gael ei dorri allan am deithio ar "steamer" ar y Sabath. (291) Diarddelwyd Robert Hughes, Tŷ Uchaf, o eglwys y Methodistiaid Calfinaidd, Pen-y-groes, Arfon, a Miss Owen o eglwys y Bedyddwyr Caergybi am "ddi-anrhydeddu" ac "amrafaelio" a rhieni. (292)

Yn ôl pob tystiolaeth, 'roedd llawer o'r ddisgyblaeth eglwysig yn cael ei gweinyddu oherwydd anghydfod rhwng aelodau a'i gilydd. Ymylai'r cyfarfod eglwysig a'r seiat ar fod yn llysoedd bychain lleol a geisiai dorri'r ddadl rhwng pobl a'i gilydd gan eu heddychu. Tra oedd William

Williams o'r Wern⁽²⁹³⁾ ar daith gasglu yn Lloegr, bu ymrafael yn ei eglwys rhwng gwraig "lled afrywiog ei thymherau", a chymdoges, a bu i'r flaenaf fygwth yr olaf gyda "haiarn smwddio." Wedi iddo ddychwelyd, galwyd ar Williams o'r Wern i arfer y ddisgyblaeth eglwysig.⁽²⁹⁴⁾ Fe gafodd Cadwaladr Jones, Dolgellau, brofiad ddigon tebyg lle bu ffrwgdw rhwng dwy chwaer. Galwyd y chwiorydd ger bron yr eglwys, ac wedi i Cadwaladr Jones gael at wreiddyn y drwg ceryddwyd y ddwy, a bu rhaid iddynt faddau i'w gilydd yn y fan a'r lle gan ddangos hynny trwy ysgwyd dwylo.⁽²⁹⁵⁾ Yn yr un modd bu rhaid i Emrys fynd i'r afael â gwraig o'r enw Shan, Brynllwyd, oherwydd fod ganddi dafod finiog a'r gallu i dramgwyddo cydaelodau a chymdogion.⁽²⁹⁶⁾

Rhybuddid aelodau hefyd i ymgadw rhag "pob math o annoethineb mewn ymddygiad, a fyddo yn tueddu i iselu crefydd, er nad ellir yn briodol ei alw yn anfoesoldeb."⁽²⁹⁷⁾ Golygai hyn ochelyd digwyddiadau megis ffeiriau, gwylmabsantau, chwaraeon, dawnsfeydd a syrcau. Os oedd rhaid iddynt fynd i lefydd o'r fath e.e., ar neges, 'roeddent i fod ar eu gwyladwriaeth ac yn ofalus rhag iddynt syrthio i demtasiwn. Cysylltid y digwyddiadau hyn gydag anlladrwydd, ymladd, meddwdod a llygredigaeth. Yn ôl D.S. Jones, yng nghyfnod plentyndod Williams o'r Wern 'roedd "gwyl mab santau mewn bri ar y Sabbathau, lle y ceid y bibell, y delyn, a'r ddawns yn nghyd; ac yn fynych, meddwai y cwmni, a diweddid mewn ymladdfeydd mileinig rhwng dynion â'u gilydd."⁽²⁹⁸⁾ Gwelir pa mor ddychrynlyd yr ystyrid ffeiriau gan aelodau o'r Cyrff oddi wrth ymateb mam John Jones, Tal-y-sarn,⁽²⁹⁹⁾ pan benderfynodd ei mab fynd i ffair fawr yn Llanrwst.

"Ymdrechodd â'i holl egni, ond yn y modd mwyaf tyner, ei berswadio i beidio myned. Gosododd ger ei fron y perygl oedd iddo gael ei lithio i ynfydrwydd cyffredin yr ieuenctyd a gyrchent i'r cyfryw lecedd, a cheisiai ddangos iddo nad oedd berw a gwylltineb ffair mewn un modd yn gweddu i neb parchus oddieithr pan y byddai neges yn galw am hyny." ⁽³⁰⁰⁾

Ond mynd wnaeth John Jones i'r ffair er gwaethaf ymdrechion ei fam. Yn ystod y dydd enciliai hithau'n fynych i'w hystafell wely, "ac yr oedd y chwŷorydd yn deall yn dda ei bod mewn ymdrech yno yn ymbil â Duw ar ei ran."⁽³⁰¹⁾ Dyma'r math ing, dychryn a phoen meddwl a barai ffeiriau a gwylmabsantau i rieni duwiol. Digwyddiadau oeddent oedd yn arf yn llaw'r diafol i arwain pobl ar gyfeiliorn. Yn ddiweddarch yn ei oes fe fu John Jones, Tal-y-sarn, ei hun wrthi'n pregethu mewn ffair wagedd yn Abertawe er mwyn achub y bobl a oedd yn bresennol a'u harwain o'u hynfydrwydd. Ar yr achlysur hwnnw John Jones enillodd y dydd, gan i rhwng pedair a phum mil o bobl - yn ôl D.S.Jones - adael y ffair i wrando ar ei bregeth.⁽³⁰²⁾ Yn yr un modd ym mlynnyddoedd cyntaf ei weinidogaeth ymosododd John Elias yn ddirugaredd ar y gwylmabsantau ym Môn. Ymosododd yn arbennig ar Wylmabsant Penmynydd, a ystyrid, yn "un o gaerydd cadarnaf y gelyn."⁽³⁰³⁾ Yr oedd unrhyw fath o gynulliad gan y byd i'w ochelyd fel y pla, e.e., rhybuddid plant y Tabernacl, Bangor, ar nos Sul i gadw draw o syrcau a fyddai'n digwydd bod yn y dref.⁽³⁰⁴⁾

Yn ogystal â ffeiriau a gwylmabsantau, 'roedd chwaraeon o bob math hefyd o dan yr ordd.⁽³⁰⁵⁾ Penderfynodd rhai yn Amlwch gychwyn "rural sports"; cyn gynted ag y clywodd W.Roberts, Amlwch, am y cynllun penderfynodd eu gwrthwynebu oherwydd yr ystyriai y fath ddigwyddiad yn "beryglus i foesau'r trigolion." W.Roberts a orfu.⁽³⁰⁶⁾ Bu digwyddiad cyffelyb ym Mangor. 'Roedd rhai o drigolion y ddinas eisiau cynnal "rural sports" i ddathlu dyfodiad y Brenin Iorwerth VII i oed. Ond fe gytunodd y Cyrff Ymneilltuol i wrthwynebu'r chwaraeon, a thrwy hynny chwalwyd y cynlluniau.⁽³⁰⁷⁾ Er fod John Thomas pan yn blentyn yn bencampwr mewn chwaraeon ymhlith y plant, "nid oedd hyn yn un help iddo enill ffafr rhai hynach nag ef, yn enwedig ffafr pobl dda y Tabernacl." Ac fe ychwanegir,

gan ei gofiannydd, "Yr oedd pob math o chwareuon, hyd yn oed chwareuon plant, yn waharddedig gan y tô hwnw o grefyddwyr. Ystyrient redeg, a neidio, a nofio yn rhagymadrodd i fywyd o oferedd ac annuwioldeb, a chredent fod ymhyfrydiad yn y cyfryw bethau yn arwydd sicr o galon ddrwg." «308»

Anghymeradwyid dawnsfeydd hefyd fel cyfrwng a oedd yn arwain aelodau i lygredd a chwymp. Yn un o'i bregethau yr oedd Thomas John, Cilgerran, yn condemnio dawnsfeydd, gan rybuddio ei wrandawyr eu bod yn foddion i galedu calonnau. «309» Trefnwyd dawns ym mhlas y Faenol, Bangor, a gwahoddwyd rhai o aelodau Bethania, Felinheli, i fynd yno. Ond ni allai Evan Evans, un o'r blaenoriaid, ddal ei dafod - er ei fod yn cael ei gyflogi gan deulu'r plas - a thraethodd yn llym yn erbyn yr arfer o ddawnsio oherwydd ei fod yn gydymffurfiad â'r byd. «310» Ym 1884, bu rhaid i Gymdeithasfa Caernarfon ail-bwysleisio'r chweched rheol yn y Gyffes Ffydd oherwydd fod eglwys ym Môn yn cael ei blino drwy fod rhai o'i phobl ifanc yn mynd i ddawnsfeydd a gynhelid mewn tafarndai a neuaddau. Gelwid ar yr eglwysi i fod yn fwy gwyliadwrus gyda'u haelodau, oherwydd "gwell i'r eglwys...fod nifer yr aelodau yn llai, os drwy hyn y bydd eu cymeriad crefyddol yn fwy pur." «311» Diarddelwyd Catherine Williams o eglwys y Bedyddwyr, Caergybi, ym 1849 am ymuno mewn "ball." «312» Yn yr un modd diarddelwyd pedwar o fechgyn o Gapel Mawr, Dinbych, am fynychu syrcau, a hynny er i flaenoriaid yr eglwys rybuddio'r ieuenctid y Sul cyn ei dyfodiad i "gofio eu hurddas fel aelodau eglwysig ac i gadw draw rhag yr hudoliaeth." «313»

Yn ystod y ganrif bu chwyldro llwyr yn agwedd y Cyrff Ymneilltuol tuag at y ddiod gadarn, a hynny'n bennaf oherwydd y diwygiad dirwestol. Ar

ddechrau'r ganrif 'roedd yn gwbl arferol a derbyniol i bobl yfed diod feddwol. ⁽³¹⁴⁾ Rhoddid cwrw i bregethwyr a gweinidogion cyn ac ar ôl oedfaon, ⁽³¹⁵⁾ ac mewn rhai capeli fe geid cwrw a thybaco'r achos. ⁽³¹⁶⁾ Hefyd cynhelid oedfaon a chychwynnid achosion ambell dro mewn tafarndai. ⁽³¹⁷⁾ Mewn rhai ardaloedd nid peth dieithr o bell ffordd oedd gweld y gynulleidfa'n mynd o'r capel i'r dafarn am lymed wedi'r oedfa. ⁽³¹⁸⁾ Ond fe ddaeth gweddnewidiad llwyr yn agwedd y Cyrff tuag at ddiodydd meddwol, y fasnach feddwol a thafarndai. Rhaid cofio fod yfed i ormodedd a meddwdod wedi bod yn drosedd o'r cychwyn yn yr eglwysi, ond gyda thwf dirwest o'r tri degau ymlaen, yn gyffredinol, fe ddaeth yn drosedd fwy neu lai i arfer diod gadarn, er fod rhai lleisiau'n gwrthwynebu'r duedd hon. ⁽³¹⁹⁾ Aethpwyd i ystyried tafarnau fel temlau annuwioldeb, a diod feddwol fel gwenwyn annuwioldeb. Mewn traethawd o'i eiddo datganai Eos Iâl,

"O Bob pechod dan haul y ffurfafen, y prif flaenor yw meddwdod: ie, meddwdod meddaf yw'r gelyn i'r natur ddynol ag sydd yn darostwng ei ddeiliaid yn hollol groes i'w ddelw." ⁽³²⁰⁾

Meddwdod yn gwneud Satan yn ddi-waith? Ond yn y fan hon mae'n diddordeb ni yn bennaf gyda meddwdod a diota mewn cysylltiad â disgyblaeth. 'Roedd pob aelod fyddai'n euog o feddwi yn cael ei ddiarddel yn ddiymdroi. Pan oedd John Evans, Eglwys-bach yn dechrau ei yrfa fel pregethwr diarddelwyd blaenor o eglwys Wesleyaidd, Llanrwst, am feddwdod. Ystyrid fod ei bresenoldeb yn y capel yn "halogi y sêd fawr A'i ragrith." ⁽³²¹⁾ Yn Eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Salford diarddelwyd gŵr am feddwdod. ⁽³²²⁾ Yn ystod diwygiad 1859, mewn seiat yn Llangwryfon, bu rhaid i Dafydd Morgan ddisgyblu hen ŵr am feddwdod, a gweddiodd yn daer drosto. ⁽³²³⁾ Y mae llu o enghreifftiau o hyn. ⁽³²⁴⁾

Fel gyda chadwraeth y Sabbath, cryfhau a wnaeth yr ochr hon i'r ddisgyblaeth yn ystod y ganrif ac nid gwanychu fel yn achos leuo anghymarus a balchder. Mewn rhai cylchoedd aethpwyd i ystyried llwrymataliad fel amod aelodaeth eglwysig - rheol anysgrifenedig oedd hon gan fwyaf - a bod ymarfer cymedrol â'r diodydd meddwol yn beth anaddas i aelodau eglwysig. ⁽³²⁵⁾ Dywed Henry Lewis, yn ei lyfr Canmlwyddiant y Tabernacl, Bangor,

"Ni wnaed llwrymataliad erioed yn amod aelodaeth yn y Tabernacl, fel y gwnaed mewn amryw o eglwysi yn y sir, ond yr oedd gogwydd yr eglwys am dymor maith yn y cyfeiriad hwnw." ⁽³²⁶⁾

Yn eglwys y Methodistiaid Calfinaidd, Tanygrisiau, dygwyd achos ger bron yr eglwys am ddyn oedd yn ymarfer â diodydd meddwol, nid oes unrhyw gyfeiriad at y ffaith ei fod yn goryfed. Er iddo ei amddiffyn ei hun drwy ddweud mai am resymau meddygol yr oedd yn ei yfed, collodd y dydd, ac fe'i ceryddwyd. ⁽³²⁷⁾ Yn eglwys Lôn Bopty, Bangor, gyrrwyd "round robin", gan rai o'r aelodau at y blaenoriaid yn eu cyhuddo o fod yn esgeulus gyda'r ddisgyblaeth eglwysig, gan eu bod yn caniatáu i rai aelodau ymhel â'r ddiod. ⁽³²⁸⁾ Ceryddwyd Owen Davies yn eglwys y Methodistiaid Calfinaidd ym Mhen-y-groes, Arfon, am yfed diod feddwol. ⁽³²⁹⁾ Diddorol yw'r nodyn bychan wrth enw Thomas Griffith, yn Llyfr eglwys Methodistiaid Calfinaidd, Pen-y-groes, Arfon, sef "nacau arwyddo dirwest." ⁽³³⁰⁾ Awgryma hyn ei fod dan gerydd am beidio ag arwyddo. A diarddelwyd Thomas Griffiths o'r un eglwys o'r Ordinhad ym 1866 am yfed. ⁽³³¹⁾ Mewn rhai eglwysi fe aethpwyd mor bell â gwrthwynebu fod tafarnwyr yn aelodau eglwysig. ⁽³³²⁾ Cawn gyfle yn ddiweddarch yn y traethawd i edrych eto ar ddirwest.

Ond yr oedd amrywiaeth barn o fewn y Cyrff Ymneilltuol tuag at llawer iawn o bynciau, ac ni ellir dweud fod eu hymateb yn unffurf at bopeth yn ddiwahân.

Am gyfnod fe ystyrid eisteddfodau yn anathema, cyn i gyfnod y bardd bregethwyr eu dyrcharfu i safle o barchusrwydd. Yng Nghymdeithasfa'r Wyddgrug 1840, cadarnhawyd penderfyniad a wnawd yng nghynt, sef nad oedd aelodau "i fyned i'r cyffelyb gyfarfodydd, oblegid y llygredigaeth sydd yn arferol ynddynt." Nid oeddent yn eu gweld yn gyfarfodydd addas i aelodau eglwysig eu mynychu. ⁽³³³⁾ Barn Arthur Jones, Bangor, oedd mai "crefyddwyr gwagsaw" oedd yn cyrchu iddynt. ⁽³³⁴⁾ Eto, yn fuan yn y ganrif 'roedd nifer o weinidogion wrthi'n brysur yn barddoni ac yn mynychu eisteddfodau. ⁽³³⁵⁾ Pan yn blentyn, 'roedd John Evans, Eglwys-bach, yn cofio amdano'i hun yn mynd i eisteddfod fechan yn Llansanffraid, Glan Conwy, yn addoldy'r Methodistiaid o dan arweiniad y Parch. John Evans. ⁽³³⁶⁾ Ac mewn rhai ardaloedd erbyn canol y ganrif 'roedd eisteddfodau wedi dod yn rhan cyffredin o fywyd yr eglwysi. ⁽³³⁷⁾

Rhwng 1853 a 1866 ymddangosodd "Adgofion fy Ngweinidogeth" yn Y Dysgedydd, gan William Ambrose pan oedd yn gydolygydd gyda Gwilym Hiraethog. Flynyddoedd yn ddiweddarach ymddangosodd yr atgofion ar ffurf llyfr o dan olygyddiaeth H. Elvet Lewis. Yn ei ragymadrodd dywed Elfed,

"Cyfrolau ardderchog yw y rhain am y blynyddoedd hyny; ond nid ymddengys fod y cylchrediad yn cyfateb i werth y cynhwysiad, yn ôl yr hyn a ddywed Hiraethog yn nghofiant Emrys..... Credwn mai y rheswm cryfaf oedd fod y Cymry y pryd hwnw heb gollu ei hofn Piwritanaidd o bopeth ar lun ffugchwedl. Yn ei ragymadrodd i'r Bardd, neu y Meudwy Cymreig (gyhoeddwyd yn 1830), sonia Cawrdaf am y llyfr fel un "ar ddull hollol newydd o addysgu", ac mewn canlyniad yn "fwy agored i safnau rhwth" y rhai "sydd a'u llygaid cenfigenus yn edrych ar wendidau eraill." Ac er i bum' mlynedd ar hugain ddwyn i Gymru lawer cyfnewidiad meddwl, yr oedd llawer o'r pryder gydgerddasai â'r ffug-chwedl yn aros, ac yn aros hyd amser

diweddarach o lawer. Ac nid diachos chwaith fu'r pryder a'r ofn. Rhaid cofio mai y cyntaf i hawlio rhywbeth heblaw goddefiad i'r math yma o lenyddiaeth oedd Daniel Owen; a chafodd golygydd y Drysorfa wybod fod dwy farn ar waith awdwr y Dreflan." (338)

Mynegir yng ngeiriau Elfed fod unrhyw fath o nofelau a ffugchwedlau wedi bod o dan gabl hyd at ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn hwyrach na hynny. Yn ystod cyfnod ei wrthgiliad fe resynai James Hughes ei fod wedi dechrau cael blas rhyfeddol ar bob math o "lyfrau ofer a gwageddawl." y llyfrau hynny oedd "newyddiaint (*novel*), rhamantau (*romances*), a llyfrau ar chwareuyddiaeth." (339) Ond gyda thwf y wasg Gymreig a straeon moesol, a oedd yn hyrwyddo moesau da a dirwest, fe ddaeth ffug chwedlau'n fwy derbyniol, fel cyfrwng i blannu egwyddorion Cristnogol yn y darllenwyr. (340)

Yn yr un modd yr oedd y ddrama o dan gwmwl. Ymosododd W. Roberts, Amlwch, ar gymdeithas a ffurfiwyd ym Môn i lwyfannu dramâu rhai o'r awduron Saesneg, gan "selio ei ddinystr." (341) Yng Nghymdeithasfa Corwen 1887, derbyniwyd cenadwri oddi wrth Gyfarfod Misol a gynhaliwyd yn Llannerch-y-môr, Mostyn, yn anghymeradwyo'n llwyr waith cwmni drama a oedd ar daith yn actio Rhys Lewis. Penderfynodd y Gymdeithasfa yn sgil hyn i dynnu sylw'r eglwysi at y rheol yn y Gyffes Ffydd a ymwnâi â chwaraeyddiaeth gan annog swyddogion yr eglwysi i feithrin dwyster a sobrwydd a oedd yn gweddu i rai a broffesai duwioldeb, ymhlith eu hieuenctid. Gwaharddwyd hefyd gyhoeddi'r cyfryw gyfarfodydd yn yr eglwysi. (342) Ac yn y cylchgronau yn hanner cyntaf y ganrif cynghorid aelodau i ochelyd y theatrau. (343)

Hefyd yn hanner cyntaf y ganrif gwrthodai arweinwyr y Methodistiaid Calfinaidd o dan arweiniad pobl fel John Elias, Michael Roberts, Pwllheli, a W. Roberts, Amlwch, wneud unrhyw beth â gwleidyddiaeth.

'Roedd eu hagwedd yn hyn o beth yn llawer mwy ceidwadol na'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr, a hynny'n rhannol oherwydd tarddiad y Cyrff. Teimlai'r Methodistiaid Calfinaidd fwy o ymlyniad i'r sefydliadau llywodraethol oherwydd iddynt darddu'n uniongyrchol o'r Eglwys Sefydledig. Am gyfnod 'roedd aelodau a oedd yn ymyrryd â gwleidyddiaeth yn rhwym o dderbyn cerydd eglwysig. Ond o dipyn i beth fe newidiodd yr Hen Gorff ei ffyrdd ac fe ymrodd ei arweinyddion i ddiwygiad cymdeithasol trwy wleidyddiaeth. (344)

Gan fod aelodau i ymgadw rhag cyfarfodydd a digwyddiadau bydol, dim ond dau ateb oedd. Un ai ar un llaw eu gwahardd yn llwyr o gyfarfodydd o'r fath, neu dod â'r cyfarfodydd hynny o dan gronglwyd Cristnogaeth ac o fewn i weithgareddau'r eglwysi. A dyma a ddigwyddodd yn raddol yn ystod y ganrif. Daeth yr eisteddfod, y ddrama a'r nofel ynghyd â chymdeithasau eraill yn barchus a chydag arlliw Cristnogol iddynt. Golygai hyn un o ddau beth, un ai fod y byd yn datblygu'n fwy Cristnogol neu fod yr eglwys yn ymdebygu fwy-fwy i'r byd. Byddwn yn edrych ar hyn yn fanylcah yn nes at ddiwedd y traethawd.

Yn yr adran hon felly, gwelsom pa fodd yr oedd y Cyrff Ymneilltuol yn pwysleisio'r arwahanrwydd rhyngddynt â phobl y byd, a hynny yn fwyaf arbennig drwy gyfrwng y ddisgyblaeth eglwysig, disgyblaeth a ddeilliai'n uniongyrchol o'r ysgrythur anffaeledig. Pobl neilltuedig i Dduw oeddent, cyd-bererinion nad oedd iddynt ddinas barhaus ar y ddaear, cymdeithas a oedd wedi ei gwahanu drwy eu ffydd yn yr Arglwydd Iesu oddi wrth y byd colledig. Golygai hyn fod ganddynt flaenoriaethau, dyheadau a ffyrdd o ymddwyn a gwisgo a'u gwnaent yn amlwg wahanol i'r di-gred. 'Roedd y gwahaniaeth rhwng yr eglwys gadwedig a'r byd colledig yn glir, gweladwy a chwbl ddi-amwys. O ganlyniad, tra oedd eu cred yn anffaeledigrwydd y Beibl

yn ddiysgog a safonau derbyn aelodau'n uchel a'r ddisgyblaeth fewnol yn parhau'n fanwl a haearnaidd, 'roedd yr arwahanrwydd yn parhau a'r nodweddion sectyddol yn aros. Ond cyn gynted ag yr oedd awdurdod y Beibl yn lleihau, safonau derbyn yn gostwng a'r ddisgyblaeth yn llacio a gwanychu gan ganiatáu i rai anaddas ddyfod yn aelodau, yna, 'roedd yr arwahanrwydd hefyd yn lleihau, gan gyfrannu'n helaeth tuag at gyfaddawdu â'r byd a'r symudiad graddol tuag at enwadaeth.

Dwyfol Ysbrydoliaeth. (t. 35 - 42).

1. "Y mae bywyd y credadyn yn y byd, i fod yn un ag amcan yr Arglwydd Iesu yn dyfod i'r byd, sef gwneud ewyllys Duw - achub y byd - gwneud daioni i eraill," Cymro o Liverpool, 'Dyben Aelodaeth Eglwysig,' Y Dysgadydd, 1873, 277. "Y mae pob pechadur a achubar yn cael ei dybied i fod yn achubwr eraill. Y mae pob eglwys o'i ffurfiad cyntaf i gadw golwg ar helaethiad ei tharfynau. Y mae achubiaeth y byd, ac adeiladaeth bersonol pob Cristion, a phob eglwys, i fod yn gydblethiedig â'u gilydd. Yn yr ystyr hwn y mae hi i fod yn ymosodol." 'Natur Eglwys' Y Dysgadydd, 1874, 26. Gw., Owen Williams, Halogrwydd Natur Pob Dyn. Fel Dailiaid y Cyfammod Toredig: Ac y Dangosir Cyflawnhad Pechaduriaid Trwy eu Hundeb a Christ. Pen y Cyfammod Gras. (Dolgellau, 1833), Owen Williams, Golwg ar Gyflwr Dyn I. Yn ei Greadigaeth. 2. Yn ei gwmp. 3. Yn ei Gyfodiad Drwy Grist. (Aberystwyth, 1840), R. Baxter, Haner Cant o Resymau Paham y Dylai Pechadur Droï at Dduw Heddyw. Heb Gadi. (Llanidloes, 1833).
2. "Yr ydym yn synied fod gair Duw, yn gosod allan bob peth perthynol i'n ffydd a'n hymarferiad, gyd âg eglurdab a symylrwydd mawr,..." Crynodab o Egwyddorion Ysgrythyrol. yr ail argraffiad, (Dolgellau, 1805), 1. Gw., David Davies, Bywgraffiad J.R. Jones, o Ramoth. (Llangollen, 1911), 183.
3. M.D. Jones & D.V. Thomas (gol.), Cofiant a Thraethodau Duwinyddol Y Farch. R. Thomas (Ap Vychan). (Dolgellau, dim dyddiad), 24.
4. Y Dysgadydd, 1866, 262. "Dwyfoldab yr Ysgrythyrau yw y pwnc mwyaf ei bwys o bob pwnc, oblegid efe yw sylfaen yr oll a wneir, a gredir, ac a obeithir yn y byd hwn, a'r hwn a ddaw." Y Diwygiwr, 1845, 261.
5. Thomas Charles, Gairiadur Ysgrythyrol. (Wrecsam, 1884, Saithfed Argraffiad.), 922.
Am "Dwyfol Ysbrydoliaeth" gw., Y Gwyddoniadur, cyfrol 1, 684-85. Albert Barnes, Y Testament Newydd gyda Sylwadau Eglurhaol ac Ymarferol, cyflaithwyd gan Thomas Rees, (Dinbych, 1858), cyfrol 5, 188. W. Jones, Gairiadur Duwinyddol. (Marthyr Tydfil, 1837), cyfrol 1, 647. A.A. Hodge, Banau Duwinyddiaeth, gol. William H. Goold, (Dinbych, 1878), 83-6. R. Tudur Jones, Yr Ysbryd Glân. (Caernarfon, 1972), 44. H. Carnyw Williams, Yr Arweinydd Dwyfol. (Llangollen, 1907), 31-74. J. Hastings (gol.), Dictionary of Christ and the Gospels. Cyfrol 1, 831. Y Diwygiwr, 1840, 'Yr Ysgrythurau Sanctaidd,' 168. Ibid., 1845, 261. Ibid., 1849, 'Ysbrydolrwydd a Bywyd yr Ysgrythyrau,' 196. Ibid., 1858, 'Dwyfoldab yr Ysgrythyrau,' 101. Ibid., 1864, 'Rhagoriaeth y Beibl,' 353. Ibid., 1865, 'Rhagoriaeth y Beibl ar Holl Lyfrau'r Byd,' 134, 171. Ibid., 1871, 'Ysbrydolrwydd yr Ysgrythyrau,' 65. Y Cylchgrawn, 1871, 303. Gwilym Bowyer, "Y Beibl Fel Gair Duw," Y Dysgadydd, 1951, 69-72, 86-92, 118-122. C.H. Dodd, The Authority of the Bible. (1938). H. Cunliffe Jones, The Authority of the Biblical Revelation. (1945). Lewis Edwards, Traethodau Duwinyddol. (Wrecsam, Hughes a'i Fab, dim dyddiad), 'Ysbrydoliaeth yr Ysgrythyr,' 551. Y Traethodydd, 1845, 82-88. Ibid., 1865, 352-370. Ibid., 1881, 84-115. Y Diwygiwr, 1840, 168. Ibid., 1845, 261. Seren Gomar, 1833, 292. Y Drysorfa, 1856, 332, 374, 403. John Hughes, Cydymaith yr Ysgrythyrau. (pamffled, 1863). John Hughes, Unoliaeth y Beibl fel prawf o'i Darddiad Dwyfol. (Pamffled, Lerpwl, 1866). David Charles Davies, Ysbrydoliaeth y Beibl. (Pamffled, Treffynnon, 1872). Yr Eurgrawn, 1833, 'Traethawd ar werthfawrogrwydd y Beibl', 270. Ibid., 1838, 'Rhagoriaethau y Beibl Sanctaidd', 210. Ibid., 1843, 'Araeth ar y Beibl-Cysegrlan', 45. Ibid., 1848, 'Rhagorolrwydd y Beibl', 15. Ibid., 1850, 'Dwyfoldab yr Ysgrythyrau', 300. Ibid., 1866, 'Y Beibl o Ddwyfol anfoniad', 293. Y Cenhadydd Cymreig, 1840, 'Ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau', 3. D. Charles Davies, Darlithiau ar Ysbrydoliaeth y Bibl.

- (Treffynnon, 1872). Y Cronicle, 1843, 'Rhagoroldeb a gwerth y Bibl,' 43, Ibid., 1846, 'Y Bibl y trysor gorau,' 149, Ibid., 1850, 'Dwyfoldeb yr Ysgrythyrau,' 328, Ibid., 1852, 'Cadernid yr Ysgrythyrau,' 39, J.I.Packer, Among God's Giants, (Eastbourne, 1991), 372.
6. Y Traethodydd, Ionawr, 1845, L.Edwards, Traethodau Duwinyddol, (Wrecsam, Hughes a'i Fab, dim dyddiad), 551, Am Lewis Edwards, (1809-87), gw., Bywg., 178, Gw., hefyd J.I.Packer, Among God's Giants, (Eastbourne, 1991), 325.
7. L.Edwards, Traethodau Duwinyddol, (Wrecsam, Hughes a'i Fab, dim dyddiad), 553.
8. Hugh Roberts, Bangor, Llawlyfr i'r Prawfion o Wirioneddau y Grefydd Gristnogol, (Caernarfon, 1867?), 30
9. Am R.Thomas, ('Ap Vychan'; 1809-80) gw., Bywg., 903.
10. M.D.Jones & D.V.Thomas (gol.), Cofiant a Thraethodau Duwinyddol Y Parch. R.Thomas (Ap Vychan), (Dolgellau, dim dyddiad), 31.
11. Am James Hughes, ('Iago Trichrug'; 1779-1844), gw., Bywg., 358.
12. James Hughes, Y Testament Newydd gyda Nodau Eglurhaol ar Bob Adnod, (Treffynnon, 1846, Ail Argraffiad), 856, Gw., hefyd A.A.Hodge, Banau Duwinyddiaeth, William H.Goold (gol.), (Dinbych, 1878), 87, Robert Jones, Llanllyfni, Gemau Duwinyddol, (Caernarfon, 1865), 47.
13. William Mitchell, Jacin a Boaz - neu Gynodeb o'r Athrawiaeth a'r ddisgyblaeth a Safydlwyd Gan Grist yn Eglwysi y Testament Newydd, (John Jones, Llanrwst, 1828), 9.
14. Robert Jones, Llanllyfni, Gemau Duwinyddol, (Caernarfon, 1865), 51.
15. Samuel Roberts, Pragethau yn nghydag Areithiau a Chaniadau, (Dolgellau, 1865), 372.
16. William Thomas, Gwynfe, Cofiant a Phragethau y Diweddar Parch.Thomas Davies. Llandilo, (Llandeilo, 1877), 229, Gw., Yr Annibynwr, 1857, 63, M.D.Jones & D.V.Thomas (gol.), Cofiant a Thraethodau Duwinyddol Y Parch. R.Thomas (Ap Vychan), (Dolgellau, dim dyddiad), 31, "Mae yr Ysgrythyrau yn graig o emau, a chadwyn o berlau i addurno y credadyn a gogoneddu Duw, Maent yn fuddiol i bob peth. Dyma *charf* y Cristion at ei fordaith - ei *fap* wrth yr hwn y rhodia - y *dial* wrth ba un y rholeiddia ei fywyd - a'r glorian yn yr hon y pwysa ei weithredoedd". Parch.T.Watson, Yr Annibynwr, 1857, 63, "Y mae yn ddyledswydd ar ddyn ymddarostwng i drefn y Bibl fel y deallir hi gan y gymdeithas y perthyna iddi." T.Davies, Yr Aelod Cyflawn: Neu Lawlyfr yr Aelod Eglwysig, (Dolgellau, 1861), 176.
17. Y Dysgedydd, 1873, 320.
18. M.D.Jones & D.V.Thomas (gol.), Cofiant a Thraethodau Duwinyddol Y Parch. R.Thomas (Ap Vychan), (Dolgellau, dim dyddiad), 31.
19. Rhys Gwesyn Jones, Caru Priodi A Byw, (Merthyr Tydfil, 1866), 52, Gw., Evan Jones (cyf.), Deig o Bregathau ar Brif Bynciau Moddion Gras Gan E.Berans, (Wrecsam, 1826), 'Am ddarllen yr Ysgrythyrau', 56-68, R. Hughes (gol.), Pragethau y Diweddar John Elias, (Wyddgrug, 1846), 'Rhagoriaeth Gair Duw Fel Rheol Barn ac

- Yddygiad i Ddyn', cyfrol 1, 324-335. 'Pwysigrwydd y ddyledswydd o wrando y Gair', ibid., 451-467, John Foulkes (cyf.), Cyfarwyddwr Teuluaidd: Cyfieithiad o Waith Y Parch. J.A.James, (Aberystwyth, 1850), 22.
20. Dyddiaduron Dr. William Morgan, LLS., Llyfrgell Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, Casgliad cyffredinol, Rhif 2335-9.
21. H. Jones, (Cromwel o Went), Eglwys Crist, Sef Darluniad o'r Eglwys New yr Eglwys Cristnogol yn ol y Testament Newydd, (1848), 185.
22. Y Drysorfa, 1878, 210. Yn y Crynodeb o Egwyddorion Ysgrythyrol, a ymddangosodd gyntaf ym 1802 dan olygyddiaeth J.R. Jones, Ramoth, dywedir hyn o dan y penawd, 'Am yr Ysgrythyrau Sanctaidd',
 "1. Yr ydym yn arddel Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd y wir air Duw,
 2. Yr ydym yn synied fod gair Duw, yn gosod allan bob path parthynol i'n ffydd a'n hymarferiad, gyd â eglurdeb a symylrwydd mawr.....
 3. Yr ydym yn credu mai'r Ysgrythyr yw'r dëonglydd gorau o'r Ysgrythyr; a bod y Testament Newydd yn esponiad anffaeledig, ac yn gyflawniad cywir a didwyll o'r Hen Destament....
 4. Yr ydym yn ystyried yn ddyledswydd arnom chwilio'r Ysgrythyrau, gyd â phob diwydrwydd a symylrwydd; gan eu hystyried yr unig ddatguddiad o ffordd iechydwrriaeth a bywyd tragwyddol; ac wrth eu chwilio, dylem ymrthod â phob rhyw ddychymygion dynol, a thybiau traddodiadol; a darbyn pob path a ddatguddir yn y gair, gyd â phob parodrwydd meddwl, yn ddiddichell, fel plant bychain, ac ar awdurdod Duw ei hun, yr hwn a'u llefarodd,
 5. Gan ein bod yn synied mai'r Hen Destament a'r Newydd, yw y ddau dyst, pa rai sydd gan Dduw, yn datgan tystiolaeth Iesu, yn erbyn anghrist, a'i holl lygriadau, yr ydym ninnau yn ystyried yn ddyledswydd ac yn fraint i ni ddal yn lew arnynt, a glynu yn ddyfal wrthynt, mewn gwrthwynebiad i bob rheol arall; megis, dychymygion dynol, dull y byd defosiynol, traddodiadau yr hen dadau duwiol, gorchymynion ac athrawiaethau dynion, ysbrydion cyfeiliornus, ac awdurdod llysoedd eglwysaidd a chymmanfaoedd. Yr ydym yn proffesu, ac yn bwriadu ymrthod â'r pathau hyn oll, a glynu yn ffyddlon a chydybodol wrth air Duw, a sefyll yn wrol a diysgog yn rhyddid yr efangyl." David Davies, Bywgraffiad J.R. Jones, o Ramoth, (Llangollen, 1911), 183-84.
23. T. Davies, Yr Aelod Cyflawn: Neu Lawlyfr yr Aelod Eglwysig, (Dolgellau, 1861), 155.
- Arwahanrwydd. (t.43 - 49).
24. Gw., E. Davies (gol.), Y Fasgedaid Friwfyd, (Llannerch-y-medd, 1867), 217, John E. Davies, James Hughes saf Cyfrol Goffa, (Dinbych, 1911?), 286, David Williams (gol.), Y Gofadail Fethodistaidd, (Gyffin, 1884), cyfrol 2, 'Plant Duw a'u Rhagorfreintiau', prageth gan John James, 204-5, Yr Eurgrawn, 1827, 'Myfyrdod yn nghylch Uffern,' 57. Ibid., 1866, 'Tragwyddol gosp yr annuwiol,' 194, Ibid., 1874, 'Tragwyddol gospedigaeth yr annuwiol,' 311, Ibid., 1875, 'Tragwyddol gosp yr annuwiol,' 92. Y Diwygiwr, 1842, 'Cosp Dragwyddol,' 9, Ibid., 1869, 'Cosbedigaeth Dragwyddol,' 161, Ibid., 1872, 'Cosbedigaeth Ddyfodol yr Annuwiol,' 33.
25. Thomas Phillips, Natur Cyfannod Eglwys, Ynghyd a Dyledswyddau Neillduol Aelodau Eglwysig, (Caerfyrddin, 1815), 22.
26. Y Drysorfa, 1857, 261.

27. Am Thomas Rees (1815-85), gw., Bywg., 780.
28. Thomas Rees, Natur Trefn A Dybenion Dysgyblaeth Eglwysig, (Llanelli, 1853), 20.
29. Y Gwyddoniadur, cyfrol 4, 202. Gw., "Wrth arferu yr awdurdod hwn a ymddiriedwyd iddo, y mae yr Arglwydd Crist, trwy ei air a'i Ysbryd yn galw allan o'r byd, i gyflwr o ras, ac i gymundeb ag ef ei hun, yr holl rai a roddwyd iddo gan ei Dad, fel y rhodiont gar ei fron yn yr holl ffyrdd o ufudd-dod a orchymynodd efe iddynt yn ei air." T. Davies, Yr Aelod Cyflawn, (Dolgellau, 1861), 'Natur Eglwys,' 139-156. William Mitchell, Jacin a Boaz - Neu Grynoded o'r Athrawiaeth a'r Ddysgyblaeth a Sefydlwyd gan Grist yn Eglwysi y Testament Newydd, (Llanrwst, 1828), 35, 36. Y Dysgedydd, 1852, 257-6. Crynoded o Egwyddorion Ysgrythyrol, ail argraffiad, (Dolgellau, 1805), 20. David Davies, Bywgraffiad J.R. Jones, o Ramoth, (Llangollen, 1911), 202-3.
30. Owen Thomas (gol.), Lampau'r Demi: sef Pregethau gan Weinidogion Y Methodistiaid Calfinaidd, (Caernarfon, 1859), pregeth 'Undeb yr Eglwys' gan David Charles, 133. Samuel Roberts, Pregethau yn Nghydag Areithiau a Chaniadau, (Dolgellau, 1865), 21, 56. Y Dysgedydd, 1873, 146.
31. Moses Ellis, Y Pwys o Fod Gwahaniaeth Rhwng yr Eglwys a'r byd yn Fwy Amlwg, (Llanelli, 1853), 8.
32. Ibid., 5.
33. Thomas Phillips, Natur Cyfammod Eglwys, ynghyd a Dyledswyddau Neillduol Aelodau Eglwysig, (Caerfyrddin, 1815), 23.
34. Ibid.
35. Ibid.
36. Ibid.
37. Ibid.
38. Crynoded o Egwyddorion Ysgrythyrol, ail argraffiad, (Dolgellau, 1805), 22. Gw., David Davies, Bywgraffiad J.R. Jones, o Ramoth, (Llangollen, 1911), 204.
39. Am John Richard Jones (1765-1822), gw., Bywg., 459-60.
40. David Davies, Bywgraffiad J.R. Jones, o Ramoth, (Llangollen, 1911), 60.
41. Thomas Phillips, Natur Cyfammod Eglwys, ynghyd a Dyledswyddau Neillduol Aelodau Eglwysig, (Caerfyrddin, 1815), 23.
42. Am Samuel Roberts ('S.R. '; 1800-85), gw., Bywg., 825-6.
43. Samuel Roberts, Pregethau yn Nghydag Areithiau a Chaniadau, (Dolgellau, 1865), 23.
44. Am Ann Griffiths (1776-1805), gw., Bywg., 283.

45. Am John Hughes (1775-1854), gw., Bywg., 359.
46. E. Griffiths, Ann Griffiths, (Caernarfon, 1903), 24.
47. Samuel Roberts, Pregethau yn Nghydag Areithiau a Chaniadau, (Dolgellau, 1865), 54, 138. Y Cylchgrawn, 1871, 383. Y Gyfrol olaf o Bregethau gan J.R., (Bala, 1876), 218. Thomas Lloyd Jones (gol.), Pregethau Parch. John Jones Talysarn, ail gyfrol, (Caernarfon, 1875), pregeth 7, 'Tŷ Tragwyddol yn y Nefoedd,' 103. Roger Edwards, Y Gofadail Fethodistaidd, cyfrol 1, (Conwy, 1882), 'Serch ar bethau sydd oddi uchod,' pregeth gan William Hughes, 18.
48. Am John Jones, Talysarn, (1796-1857), gw., Bywg., 450-1.
49. Owen Thomas (gol.), Lampau'r Deml: sef Pregethau gan Weinidogion Y Methodistiaid Calfinaidd, (Caernarfon, 1859), 'Teulu Duw,' pregeth gan John Jones, Talysarn, 70. Moses Ellis, Y Pwys o Fod Gwahaniaeth Rhwng yr Eglwys a'r byd yn Fwy Amlwg, (Llanelli, 1853), 13.
50. Ibid., 13.
51. Ibid., 13. Gw., "Byddai yr hen bobl yn cadw manylach rheolau gyda'r ddisgyblaeth nag a geir yn ein dyddiau ni; pa un ai doeth neu annoeth oedd hyn, caiff y darllenydd farnu.....Yr oeddent am ddangos yn eglur y gwahaniaeth rhwng yr byd a'r eglwys, ac er dangos hyn, byddent ar Sul Cymundeb weithiau yn dyfod allan o'u sedd, gan aegylchynu y sedd fawr i dderbyn y cymundeb. Brydiau ereill, byddai raid i'r gwrandawyr fyned allan o'u seddau, a'r aelodau i aros yno i gymuno." Jacob Treharne, Hanes Eglwys Annibynol Ebenezer, Aberdar, (Aberdar, 1898), 109. "Dysgent fod yn rhaid i'r rhai a fynnent ddilyn 'y grefydd newydd,' yn gyntaf path groeshoelio'r hen ddyn, ei wŷniau a'i chwantau. Rhaid fod gwahaniaeth amlwg rhwng 'proffeswyr crefydd' a'r rhai di-grefydd." Henry Lewis, Canmlwyddiant y Tabernacl, Bangor, (Conwy, 1907), 144.
52. Thomas Rees, Natur Trefn A Dybanion Dysgyblaeth Eglwysig, (Llanelli, 1853), 42.

Derbyn Aelodau. (t. 50 - 58).

53. "Bydd derbyn cymeriadau amhriodol i'r eglwys yn sicr o wneud niwad anrhaethol, ac yn attalfa hollol i gadw fyny y gwahaniaeth rhwng yr eglwys a'r byd. Profa y cyfryw yn yr eglwys yn blaid o gydraddolwyr, a gwastadawyr; tynant i lawr ei muriau, a gwnant yr eglwys yn un a'r byd, twyll-ymresymant dros eu hamcan, a byddant yn dra sicr o ddwyn i mewn heresiau dinystriol." Moses Ellis, Y Pwys o Fod Gwahaniaeth Rhwng yr Eglwys a'r Byd yn Fwy Amlwg, (Llanelli, 1853), 11.
54. Gw., Henry Lewis, Canmlwyddiant y Tabernacl, Bangor, (R.E. Jones & frodyr, Conwy, 1907), 144.
55. Y Dysgedydd, 1847, 77. Am Dr. George Payne (1781-1848), athro yn academi Blackburn, 1823-29, a Western Academy, 1829-48, gw., DNE., a C.Y.E. (1848), 234-5.
56. T. Davies, Yr Aelod Cyflawn: Neu Lawlyfr yr Aelod Eglwysig, (Dolgellau, 1861), 155. "Gwyliadwraeth ar ei drws, Y mae diofalwch am nodwedd cymeriad ymgeiswyr am aelodaeth, nid yn unig yn achosi llawer o ofid i'r eglwys, ond hefyd yn achos o wandid mawr iddi. Mae dylanwad yr eglwys ar y byd yn ymddibynu ar ei phurdeb moesol; ac y mae ei phurdeb yn ymddibynu i raddau helaeth ar ei gofal drosti ei

- hun, Os na bydd gofal neillduol ganddi am ei phurdeb, ofer fydd dysgwyl iddi allu puro y byd," Y Dysgedydd, 1873, 'Dyben Aelodaeth Eglwysig,' gan Cymro o Liverpool, 230.
57. Am Joshua Lewis (1816-79), gw., Bywg., 522.
58. Joshua Lewis, Yr Amserau Presenol, (traddodwyd yng nghwrdd chwarter Caerfyrddin, Abergorlech, Hydref 29ain, 1851), 39.
59. Moses Ellis, Y Pwys o Fod Gwahaniaeth Rhwng yr Eglwys a'r Byd yn Fwy Amlwg, (Llanelli, 1853), 9. "Y gyfraith ei hun ydyw, na byddo i neb gael ei ollwng i eglwysi ond y cyfryw ag ydynt gymhwys i rwyddabu dybenion mawr cymdeithas Gristnogol; sef y cyfryw yn unig a allant roddi tystiolaeth foddhaol eu bod yn meddu gwir grafydd," Y Dysgedydd, 1847, 78. "Ymddengys, pa fodd bynag, fod llawer yn tybied fod yr eglwys yn rhyw fath o beiriant i blanu egwyddorion duwioldab, &c. Camgymeriad o'r mwyaf ydyw awgrymu y fath syniad; rhaid aileni cyn ymuno â'r eglwys," Y Dysgedydd, 1873, 231. "Yr ydym yn barod i dderbyn pob math o ddynion yn aelodau eglwysig, os byddant yn rhoddi proffes ysgrythyrol o'r gwirionedd achubol, fel unig sail eu gobaith, ac yn proffesu edifeirwch oddi wrth bob rhyw weithredoedd meirwon, pa un bynnag ai Phariseaidd ai halogedig; ac yn cyffesu hefyd eu bod yn barod ac awyllysgar i gadw pob peth a orchmynodd Crist," Crynodeb o Egwyddorion Ysgrythyrol, ail argraffiad, (Dolgellau, 1805), 33.
60. William Mitchill, Jacin a Boaz - neu Grynoded o'r Athrawiaeth a'r Ddisgyblaeth a Sefydlwyd gan Grist yn Eglwysi y Testament Newydd, cyfieithwyd i'r Gymraeg gan John Blayney, (Llanrwst, 1828), 42. Gw., Dysgedydd, 1852, 'Derbyniad Aelodau,' 256-260. Joshua Lewis, Yr Amserau Presenol, (traddodwyd yng nghwrdd chwarter Caerfyrddin, Abergorlech, Hydref 29ain, 1851), 39.
61. T. Davies, Yr Aelod Cyflawn: Neu Lawlyfr yr Aelod Eglwysig, (Dolgellau, 1861), 181-210.
62. William Mitchill, Jacin a Boaz - neu Grynoded o'r Athrawiaeth a'r Ddisgyblaeth a Sefydlwyd gan Grist yn Eglwysi y Testament Newydd, cyfieithwyd i'r Gymraeg gan John Blayney, (Llanrwst, 1828), 42.
63. R. Thomas, Cadwaladr Jones. Hen Olygydd y Dysgedydd, (Lerpwl, 1870), 119.
64. Am William Williams (1781-1840), gw., Bywg., 1016.
65. David Samuel Jones, Cofiant Darluniadol Williams o'r Wern, (Dolgellau, 1894?), 189-91.
Am Cyfamod Eglwysig gw., T. Davies, Yr Aelod Cyflawn: Neu Lawlyfr yr Aelod Eglwysig, (Dolgellau, 1861), 211. Thomas Phillips, Natur Cyfamod Eglwys. Ynghyd a Dyledswyddau Neillduol Aelodau Eglwysig, (Caerfyrddin, 1815), 1-12. Y Cofiadur, 1924, 'Cyfamodau Eglwys Llanbryn-mair,' 28.
66. John Davies, Cronfa o Adgofion, (Salford, 1891), 161.
67. "Mae'r broffes yma yn cael ei rhoddi ger bron yr eglwys, lle mae'r henuriaid ac eraill o'r brodyr yn gofyn iddynt y cyfryw gwestiynau ag a fernir yn angenrheidiol yn yr achos, hyd nes y byddo'r holl eglwys yn cael ei boddioni. Ac yn y cyfanser, cymmerir cyfleusdra yn fynych i gynghori ac i annog aaryw ddyledswyddau Crist'nogol, megis gwiliadwriaeth a gweddi ddirgel, crefydd deuluaidd, a dyledswyddau perthynasol." Crynodeb o Egwyddorion Ysgrythyrol, ail argraffiad, (Dolgellau, 1805), 33. David Davies, Bywgraffiad J. R. Jones o Ramoth, (Llangollen, 1911), 215.

292. Llyfr Methodistiaid Calfinaidd Penygroes, Arfon, 1851-63, LLS., Llyfrgall Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, Casgliad Cyffredinol, 462, 86, Hanes a Cyfnewidiadau &c yn Eglwys Fedyddiedig Crist ag sydd yn Cyfarfod i Addoli Duw yn Caergybi a Pontybont, LLS., Llyfrgall Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, Casgliad Cyffredinol, 2339, 1834-35, 11.
293. Am William Williams o'r Wern (1781-1840), gw., Bywg., 1016.
294. D.S.Jones, Cofiant Darluniadol y Parchedig Williams o'r Wern, (Dolgellau, 1894), 189.
295. R.Thomas, Cadwaladr Jones Han Dlygydd y Dysgedydd, (Lerpwl, 1870), 118-19.
296. H.Elvet Lewis (gol.), W.Ambrose, Adgofion fy Ngweinidogaeth, (Dolgellau, dim dyddiad), 283-88, Gw., W.Pritchard, John Elias a'i Oes, (Caernarfon, 1911), 184-85, David O. Hughes, Canrif o Hanes: Sef Hanes Yr Achos Methodistiaid yn Nhanygrisiau, 1808 - 1909, (Blaenau Ffestiniog, 1909), 14, 104, 105, Yn eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Nhanygrisiau, fe ddaethpwyd a meistr o flaen swyddogion yr eglwys wedi ei gyhuddo o lwgu prentis oedd o dan ei ofal, Y canlyniad fu terfynu'r achos yn heddychlon, a rhoddi rhagor o fwyd i'r prentis o hynny allan, David O.Hughes, Canrif o Hanes sef Hanes yr Achos Methodistiaid yn

- Nhanygrisiau, 1809 - 1909, (Blaenau Ffestiniog, 1909), 105, "Mai 5, 1834, Torri Hannah Owen, gwraig Owen Owens, Henllan Street o Swper yr Arglwydd am guro'r forwyn," E.P.Jones, Methodistiaeth Galfinaidd Dinbych 1735-1909, (Dinbych, 1936), 140. Fe aeth Cadwaladr Owen, Dolwyddelan, un tro i Flaenau Ffestiniog i geryddu hen ŵr oedd yn euog o guro ei wraig, Griffith Owen, Cofiant y Parchedig Cadwaladr Owen, Dolwyddelan, (Wrecsam, 1896), 196.
297. Thomas Rees, Natur Trefn a Dybenion Disgyblaeth Eglwysig, (Llanelli, 1853), 21.
298. D.S.Jones, Cofiant Darluniadol y Parchedig William Williams o'r Wern, (Dolgellau, 1894), 34.
Am 'Gwylmabsant,' gw., R.W.Jones, Bywyd Cymdeithasol Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif, (Llundain, 1931), 115.
299. Am 'Ffair a Marchnad,' gw., R.W.Jones, Bywyd Cymdeithasol Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif, (Llundain, 1931), 23.
300. Owen Thomas, Cofiant John Jones Talysarn, (Wrecsam, 1874), cyfrol 1, 52.
301. Ibid., 51-55, Gw., "Asgwrn cefn teyrnas Satan yng Nghymru ydyw ffairiau," John Foulkes, Y Cyfarwyddwr Teuluaidd - Cyfieithiad o waith y Parch. J.A. James, (Aberystwyth, 1850), 52.
302. Ibid., 181-83, Cwynai awdur colofn "O'r Tŵr Llechi" yn Y Tyst fel a ganlyn am ffairiau, "Dyma ffair fisol Bethesda, Ar hon y mae llawer llanc wedi myned yn feddwyn! A llawer crefyddwr i dir gwrthgiliad, a marw yno! Ar hon y mae seiniau melus cerddgar llawer bachgen i rieni crefyddol wedi troi yn grechwen ac yn rhegfeydd, yn swm y rhai y prysurodd dros gaulan amser! Byddwn yn clywed yn aml (ac yr ydym yn credu y peth o ran hyny) - fod y byd yma yn myned er ei well; ond pan y byddwn yn cael golwg ar ambell i nos settlo, ar ieuencyd ein hardaloedd, pigion ein cynnulleidfaoedd, ie gobeithion ein heglwysi, yn ymddifyru yn sain y bibell, ac yn swm rhegfeydd yr annuwiol, yn nghyd ag yn ymorchestu mewn cyflawni yr un gweithredoedd annuwiol a hwythau, byddwn braidd yn myned i gredu i'r gwrthwynab, Trueni na ellid cael gafael ar rywbeth wrthweithia y drwg hwn, Yr ydym yn credu nas gallir cyrhaeddyd hyn hyd nes y gesyd yr eglwysi eu gwynebau yn gadarnach yn erbyn yr arferiad sydd yn ffynnu yn mysg llawer o aelodau eglwysig, o fyned i'r dafarn i yfed,.....Wrth wel'd yr agwedd bresenol ar bethau mae y cwestiwn yn dod yn bwysig, a ddylid goddef y sawl sydd yn ei werthu i fod yn aelod eglwysig? Os ydym yn credu fod yr arferiad o hono *yn arwain o'r eglwys* ar ba dir y gallir goddef y sawl sydd yn ei werthu i *ddod i'r eglwys?*" Y Tyst Cymreig, 21 Chwefror 1870, 7.
303. W.Pritchard, John Elias a'i Oes, (Caernarfon, 1911), 179, "Cynelid Gwyl Mab-sant plwyf Llanwrtyd, o gwmpas calan Mai; ar y pryd y byddai un Daniel y Telynor, o Gilycwm, yn dyfod yno i *fiddio* gyda'r ddawns, Dechreuai'r wyl ar y Sul, a pharhâi am amryw ddiwrnodau yn olynol, Byddent yn cicio'r bêl droed, neu ryw gampau ereill lawer o'r dydd ac yn yfed, Yna yn y nos yn yfed, cânu, a dawnsio, Ymdyrai meibion a merched y gymdogaeth i'r lle ar y cyfryw adagau, a llawer o honynt yn aros yno nes y byddai y rialtuch drosodd,..," D.Avan Griffith, Cofiant D.Williams, Troerhiwdalar, (Llanddeilo, 1877), 84-85.
304. Henry Lewis, Canmlwyddiant y Tabernacl Bangor, (Conwy, 1907), 144, Gw., John Price Roberts a Thomas Hughes, Cofiant y Parch. John Evans, Eglwysbach, (Bangor, 1903), 308.
305. Gw., Gomer M.Roberts, Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, cyfrol 2, (Caernarfon, 1978), rheol 6, 229, John Jones, Cofiant y Parch. Michael Roberts.

- Pwllheli, (Pwllheli, 1883), 135, Henry Lewis, Canmlwyddiant y Tabernacl Bangor, (Conwy, 1907), 144.
Am 'chwaraeon,' gw., R.W.Jones, Bywyd Cymdeithasol Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif, (Llundain, 1931), 131.
306. H.Jones, Cofiant y Parch.W.Roberts, Amlwch, (Llannerch-y-medd, 1869), 230.
307. Henry Lewis, Canmlwyddiant y Tabernacl Bangor, (Conwy, 1907), 144. Gwrthwynebodd Dr.Price, Aberdar, "Rural Sports" a drefnwyd dan nawdd y Ficer, gw., Benjamin Evans, Bywgraffiad y Diweddar Barchedig T.Price, M.A., Ph.D., (Aberdar, 1891), 51-54.
308. Owen Thomas & J. Machreth Rees, Cofiant y Parchedig John Thomas, Liverpool, (Llundain, 1898), 23.
309. Robert Edwards, Adgofion new Hanes Crefydd yn Llanfechell a'r Cylch, (Dinbych, 1910), 115.
310. W.Hobley, Hanes Methodistiaeth Arfon. Dosbarth Bangor, (Cyfarfod Misol Arfon, 1824), 382.
311. Edward Jones, Y Gymdeithasfa, (Caernarfon, 1891), 96.
312. Hanes a Cyfnewidiadau &c yn Eglwys Fedyddiedig Crist ag sydd yn Cyfarfod i Addoli Duw yn Caergybi a Pontybont, LLS., Llyfrgell Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, Casgliad Cyffredinol, 2339, 38. "Ceryddid rhieni am adael i'w meibion a'u merched fyned i 'ball' yn un o balasau'r gymdogaeth, a cheryddid llawer am fyned i edrych ar ddawnsio. Diarddelwyd dwy o ferched Daniel Jones am fyned i edrych ar ddawnsio yng Nghastell y Waun, Hydref 18, 1830, ond derbyniwyd y ddwy yn ôl i'r seiad Tachwedd 29." E.P.Jones, Methodistiaeth Galfinaidd Dinbych 1735-1909, (Dinbych, 1936), 121. Yr Eurgrawn, 1855, 'Pa niwaid sydd mewn dawnsio?', 229-33.
313. E.P.Jones, Methodistiaeth Galfinaidd Dinbych 1735-1909, (Dinbych, 1936), 121, 163. Gw., hefyd, J.G. Davies, The Secular Use of Church Buildings, (Llundain, 1968), 167-170.
314. Henry Lewis, Canmlwyddiant y Tabernacl Bangor, (Conwy, 1907), 146. H. Elvet Lewis (gol.), Adgofion fy Ngweinidogaeth gan William Ambrose, (Emrys), (Dolgellau, dim dyddiad), 201. John Thomas, Y Diwygiad Dirwestol, (Merthyr Tydfil, 1885), 18, 35.
315. John Thomas, Y Diwygiad Dirwestol, (Merthyr Tydfil, 1885), 36. "Eisteddai y pregethwr mewn cadair a breichiau iddi, yn ymyl yr hon yr oedd bwrdd crwn, a blwch nyglys mawr arno, a'r Tabernacl ar y blwch, Dyna 'baco'r achos,' Rhoddid glasiad bychan o gwrw i'r pregethwr cyn pregethu, ac un arall wedi dibenu, Dyna oedd yr arfer. Owen Thomas a J.Machreth Rees, Cofiant y Parch.John Thomas, Liverpool, (Llundain, 1898), 32. Y Dysgedydd, 1876, 'Boreu Sabbath yn Hen Gapel Esgairdawe,' 299-30.
316. Gw., Rhys Gwesyn Jones, Caru Priodi a Byw, (Merthyr Tydfil, 1966), 59. Seren Gomer, 1818, 311.
317. W.R.Lambert, Drink and Sobriety in Victorian Wales, 1820-1895, (Traethawd Ph.D., Caerdydd, 1983), 16-17. "Ac nid allan o le arnom yw dywedyd mai i'r gwestai yr ydys yn ddyledys am le i arch Duw mewn degau o fanau ar hyd a lled y Dywysogaeth, pryd nad oedd un man arall er gwerth na gwobr i'w gael. Dyweder a fyner am

- danynt, iddynt hwy y perthyn yr anrhydedd o roddi y nawdd gyntaf i gysagr Duw mewn lluwys o fanau; ac i'r gwestywr y perthyn yr anrhydedd o amddiffyn gweision y Duw goruchaf pan oedd yr offeiriad, yr yswain, a'r werin, yn gwneuthur eu goreu i'w sarhau." T. Roberts & D. Roberts, Cofiant y Parch. W. Rees (Hiraethog), (Dolgellau, 1893), 81-82. Cychwynnodd Achos yr Annibynwyr Merthyr Tydfil yn un o ystafelloedd y Crown Inn, David Avan Griffith, Cofiant y Parch David Williams, Troedrhiwdalar, (Llandeilo, 1877), 32. Cychwynnodd achos y Bedyddwyr Saesneg yn Aberdar yn un o ystafelloedd yr Horse and Groom, Benjamin Evans, Bywgraffiad y Diweddar Barchedig T. Price, (Aberdar, 1891), 112.
318. John Thomas, Y Diwygiad Dirwestol, (Merthyr Tydfil, 1895), 36. W. R. Lambert, Drink and Sobriety in Victorian Wales, 1820-1895, (Traethawd Ph.D., Caerdydd, 1983), 120. D. Avan Griffith, Cofiant y Parch David Williams, Troedrhiwdalar, (Llandeilo, 1877), 87-8.
319. Gw., John Thomas, Y Diwygiad Dirwestol, (Merthyr Tydfil, 1895), 19-21. W. R. Lambert, Drink and Sobriety in Victorian Wales, 1820-1895, (Traethawd Ph.D., Caerdydd, 1983), 67-8.
320. Eos Iâl, Efrwyth y Profiad neu Waedd yn erbyn Meddwod, (1837). Gw., J. Pugh, Llanfyllin, Y Cwrw yw Mam y Drwg, (Llanfyllin).
321. John Price Roberts & Thomas Hughes, Cofaint y Parch John Evans, Eglwysbach, (Bangor, 1903), 112-3.
322. John Davies, Cronfa o Adgofion, (Salford, 1891), 65.
323. J. J. Morgan, Dafydd Morgan a Diwygiad '59, (Cyhoeddwyd gan yr awdur, 1906), 94.
324. Gw., W. Pritchard, John Elias a'i Oes, (Caernarfon, 1911), 121. Llyfr eglwys Methodistiaid Calфинаidd, Penygroes, Arfon, 1851-63, LLS., Llyfrgell Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, Casgliad Cyffredinol, 462, 86. Hanes y Cyfnewidiadau &c yn Eglwys Fedyddiedig Crist sydd yn Cyfarfod i Addoli Duw yn Caerdybi a'r Bontypont, 1825-61, LLS., Llyfrgell Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, Casgliad Cyffredinol, 2339, 11, 20. Jacob Treharne, Hanes Eglwys Annibynol Ebenezer, Aberdar, (Swyddfa'r Darian, Aberdar, 1898), 61. Owen Davies, Cofiant y Parch Robert Jones, Llanllyfni, (Llangollen, 1903), 241-42. Am hanes diarddel Evan Evans am feddwi, nos Iau, 23 Ionawr 1817, gw., LLS., Llyfrgell Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, casgliad cyffredinol, rhif 5757, 5.
325. Gw., Henry Lewis, Can-mlwyddiant y Tabernacl, Bangor, (Conwy, 1907), 146.
326. Ibid.
327. David O. Hughes, Canrif o Hanes sef Hanes yr Achos Methodistiaidd yn Nhanygrisiau, (Blaenau Ffestiniog, 1909), 120-21.
328. Henry Lewis, Can-mlwyddiant y Tabernacl, Bangor, (Conwy, 1907), 41.
329. Llyfr Eglwys Methodistiaid Calфинаidd, Penygroes, Arfon, 1851-63, LLS., Llyfrgell Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, Casgliad Cyffredinol, 462, 86.
330. Ibid., 105-6.
331. Ibid., 17-8.

332. W.Hobley, Hanes Methodistiaeth Arfon, Dosbarth Bangor, (Cyfarfod Misol, 1924), 409. Gw., hefyd Y Tyst Cymreig, 21 Chwefror 1970, 'O'r Tŵr Llechi', 7.
333. Edward Jones, Y Gymdeithasfa, (Caernarfon, 1891), 96.
334. Z.Mather, Bywyd a gwaith yr Hynod Ddr.Arthur Jones o Fanger, (Argraffwyd gan yr awdur, 1908), 87.
335. Thomas Roberts (Scorpion), Cofiant Caledfryn, (Bala, 1877), 25-26. T.Roberts & D.Roberts, Cofiant y Parch. W.Rees, (Dolgellau, 1893), 59-60. R.Tudur Jones, Hanes Annibynwyr Cymru, (Abertawe, 1966), 227.
336. John Price Roberts a Thomas Hughes, Cofiant y Parch.John Evans, Eglwysbach, (Bangor, 1903), 152.
337. Jacob Treharne, Hanes Eglwys Annibynol Ebenezer, Aberdar, (Swyddfa'r Darian, Aberdar, 1898), 67.
338. H. Elvet Lewis (gol.), Adgofion fy Ngweinidogaeth gan W.Ambrose (Emrys), (Dolgellau, dim dyddiad), rhagymadrodd.
339. John E. Davies, James Hughes sef Cyfrol Goffa, (Dinbych, 1911), 65. Gw., hefyd, Yr Annibynwr, 1859, 'Ffughanesion,' 62, Ibid., 1865, 'Nofelau,' 263.
340. Gw., R.Tudur Jones, Hanes Annibynwyr Cymru, (Abertawe, 1966), 231-32. Fe gair amddiffyniad i'r nofel gan Richard Roberts, (Am Richard Roberts, - 'Gruffydd Rhisiart'; 1810-83 - gw., Bywg., 822.) yn Y Cronicl, 1856, 14-19. Gw., hefyd, Ibid., 1859, 'Ffug-hanesion,' 156.
341. H.Jones, Cofiant y Parch.W.Roberts, Amlwch, (Llannerch-y-medd, 1869), 230. Gwrthodwyd aelodaeth i'r actores Elisabeth Davies yng Nghapel Jewin, Llundain, oherwydd ei bod yn ymnaud i'r ddrama, Gomer M.Roberts, Y Ddinas Gadarn, (Dinbych, 1974), 98-99.
342. Edward Jones, Y Gymdeithasfa, (Caernarfon, 1891), 96-7. Gw., R.T.Jones, Hanes Annibynwyr Cymru, (Abertawe, 1966), 232-3. W.Thomas, Gwynfe, Cofiant a Phregethau y Diweddar Barch.Thomas Davies, Llandilo, (Llandeilo, 1877), 102-3. Y Dysgedydd, 1865, 295. Y Diwygiwr, 1865, 232. O. Llew Owain, Hanes y Ddrama yng Nghymru 1850-1934, (Lerpwl, 1948), 21-33. Gwynfor, "Cychwyn y Ddrama yng Nghymru," Western Mail, (1932).
343. Yr Eurgrawn, 1833, 'Pleserau y chwareudy,' 144. Ibid., 1854, 'Y chwareudy,' 375-6. Ibid., 1855, 'Chwareuon,' 271. Y Cronicl, 1857, 'Y Chwareudai,' 325. J.G. Davies, The Secular Use of Church Buildings, (Llundain, 1968), 198-204.
344. Gw., W.Pritchard, John Elias a'i Oes, (Caernarfon, 1911), 235-43, 251. Henry Lewis, Can-mlwyddiant y Tabernacl, Bangor, (Conwy, 1907), 70. T.Gwynn Jones, Cofiant Thomas Gee, (Dinbych, 1913), 312, 369. Griffith Ellis, Cofiant y Parchedig Edward Morgan, Dyffryn, (Dinbych, 1906), 507-516. Adroddiad Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, (1874), 'Cyfrifoldeb Gwleidyddol,' 189. R.Thomas, Cadwaladr Jones, Dolgellau, (Lerpwl, 1870), 189-90. J.Mostyn Jones, Cofiant, Pregethau a Ffraethabion y Parch. Griffith Jones, Tregarth, (Bala, 1887), 22. John E. Davies, James Hughes sef Cyfrol Goffa, (Dinbych, 1911), 278-283. J.Wyndham Lewis, Cofiant y Parchedig Edward Matthews o Eweni, (Dinbych, 1893), 28-32. Elfed Ap Nefydd Roberts (gol.), Corff ac Ysbryd, 'Methodistiaeth a'r Gydwbybod Gymdeithasol', Elfed Ap Nefydd Roberts, 51, 63. D.D.Williams, Llawlyfr Hanes y Cyfundeb, (Caernarfon, dim dyddiad), 163-168. Gomer M.Roberts, Y Ddinas Gadarn, (Dinbych,

1974), 58-68, D. Denis Morgan, Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd,
(Llandysul, 1991), 78.

Adran 2: Y Cartref a'r Capel.

Pennod 8. Gwerin.

Yn yr adran hon bwriadwn edrych ar nodweddion ymarweddiad aelodau'r Cyrff Ymneilltuol wrth addoli a chynnal cyfarfodydd, a'u hymddygiad yn eu cartrefi ac ymhlith ei gilydd fel teuluoedd. Bydd hyn yn ein harwain i edrych ar amrywiol rannau o'u bywydau o'r cyfarfodydd eglwysig a'r diwygiadau i'r pregethu a'r addoli. Wrth wneud hyn deugn i wybod ychydig yn fwy am ansawdd eu cymdeithas a nodweddion eu hymddygiad wrth gyfarfod ac addoli. Y mae naws a natur y gymdeithas fewnol ac ansawdd y berthynas rhwng aelodau a'i gilydd yn bwysig i'r drafodaeth. Y cwestiwn a fydd flaenaf yn ein meddyliau wrth edrych ar y ffeithiau hyn yw, a oedd newid yn ymddygiad yr aelodau yn ystod y cyfnod sydd dan sylw?

Cwestiwn y dylid ei ofyn wrth gychwyn yw pa fath bobl oedd yn perthyn i'r Cyrff Ymneilltuol a beth oedd eu safle cymdeithasol? Mae'n gwbl amlwg yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mai'r bobl gyffredin, dosbarth gweithiol, oedd mwyafrif helaethaf aelodau'r Cyrff Ymneilltuol. Nid bonheddwyr, nac uchelwyr, na thirfeddiannwyr ond gwerinwyr cyffredin. Ar ddechrau'r ganrif Cyrff bychain oeddent gyda llawer o'u haelodau'n anllythrennog, di-addysg ac ofergoelus. ' ' Ond yn ystod y ganrif, gyda thwf enfawr Ymneilltuaeth, fe lwyddodd y Cyrff drwy eu cenhadaeth a'u gweithgarwch di-flino i gael gafael, a dylanwadu mewn ffordd gwbl anghyffredin, ar drwch y boblogaeth gan eu haddysgu a'u diwyllio. Y werin yn bennaf oedd yr aelodau, y werin oedd y swyddogion ac ymhlith y werin y magwyd y mwyafrif o'r arweinyddion. Er mwyn profi'r gosodiad mai mudiadau gwerinol oedd y Cyrff Ymneilltuol fe nodwn rai ffeithiau.

Capeli a Gweithwyr.

Yr oedd rhai capeli'n dibynnu i raddau helaeth ar weithwyr o weithfeydd lleol i fod yn asgwrn cefn eu haelodaeth. Wrth ysgrifennu hanes eglwysi'r Methodistiaid Calfinaidd ym Mangor fe ddywedodd W. Hopley,

"Nodwedd arbennig ar eglwys Glanadda ydyw lluosowgrwydd gwŷr y ffordd haearn a ymgartrefa ynddi o bryd i bryd, sef yn borters a chlercod a gweithwyr y ffordd haearn ei hun neu yn y warehouses, a swyddau eraill. Mae mwy na haner o'r dynion sy'n gyflawn aelodau yn rhwym wrth y gwaith yma. Y naill ben i'r dref fe geir morwyr, sef y sawl y mae eu gorchwyl mewn dyfroedd mawrion; ac yn y pen yma fe geir y gwŷr y mae eu gorchwyl ar y ffordd haearn yn amlwg, ansigledig."«2»

Pan oedd Gwilym Hiraethog (William Rees) yn weinidog am gyfnod ym Mostyn, Fflint, 'roedd nifer o'r gwrandawyr a ddeuent i'r oedfaon ar y Sul yn forwyr. Gan fod Hiraethog yn bregethwr grymus ac effeithiol tyrrai morwyr i wrando arno. Ac nid yn "anfynych yr angorwyd llawer llong wrth fyned neu ddyfod hyd yr afon, dros ddydd yr Arglwydd yn Mostyn, er mwyn cael y cyfleusdra i wrandaw yr hoff bregethwr."«3» Mewn achosion eraill 'roedd mwy o amrywiaeth yn y bobl a oedd yn aelodau ynddynt. Yn hanes Capel Mair Aberteifi, gan D.J. Roberts, ceir rhestr o alwedigaethau'r aelodau ym 1831, ac yno ceid y gweithwyr canlynol, "mason, farmer, drapers, glazier, labourer, cooper, weaver, culm-maker, hatter, gardener, apprentice shop-keeper, inn-keeper, stone-cutter, carter." Nodir hefyd alwedigaethau rhai o'r merched a oedd yn aelodau sef, "washer-woman, flour-seller, mantle-maker a hawker."«4» Yn eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Llanfechell, Môn, gwerinwyr oedd yn arwain. "Yn cyhoeddi byddai William Parry, y saer; yn dechrau canu, Benjamin Edwards, y gôf; yn egwyddori, Mr. Elias, Hugh Jones, y saer, John Williams y gwehydd, a Willaim Thomas, Ceryg mân."«5» Wrth ysgrifennu am hen golofnau eglwys annibynnol, Bwlch-y-

corn, fe gyfeiria Simon B. Jones at Jaci'r Gors, ffermwr, Thomas Walters, hen filwr, John Crydd Bach, crydd, a Wil Rhys, tincer. «6»

Llwyddodd y Cyrff Ymneilltuol drwy ddylanwad yr Efengyl a grym yr Ysbryd Glân i gyrraedd gwerin Cymru mewn modd na welwyd mo'i fath gynt na chwedyn. Cyffyrddasant hyd yn oed rai o'r bobl hynny a ystyrid yn wehilion cymdeithas, pobl arw a chaled, fel y dengys hanes tröedigaeth Robert Thomas, prif ymladdwr plwyf Llanllyfni. «7» Mae'n bwysig deall pa mor fawr oedd dylanwad y Cyrff ar y gymdeithas, a bod pobl na fuasem ni - gwaetha'r modd - byth yn eu dychymygu, yn mynd i wrando ar bregethau. Pan oedd John Evans, Eglwys-bach, yn pregethu yn y Betws, Abergele, ym 1861, fe ddaeth amrywiaeth o bobl i wrando arno.

"Yn y gynulleidfa y noson hono yr oedd llawer o hen bechaduriaid duaf yr ardal, a nifer fawr ohonynt yn rhai nad arferent fyned i unrhyw le o addoliad - yn halogwyr dydd yr Arglwydd, eu hoes wedi ei threulio mewn meddwod, ymladdfeydd, ac anystyriaeth; ac yr oedd gweled yr hen gymeriadau hyn mewn addoldy yn achos syndod mawr." «8»

Cyrhaeddid y werin - fel y gwelwyd uchod - drwy bregethu a thrwy gymanfaoedd pregethu, ac fe wneid ymdrechion i ddod â phawb yn ddiwahân i glyw yr Efengyl. Pan aeth John Evans, Eglwys-bach, ar daith bregethu i Ynys Môn, oddeutu 1860, gofynnwyd iddo ar fyr rybudd i bregethu yn lle Humphrey Jones, Biwmares. Er mwyn cael cynulleidfa weddus i wrando ar yr ymwelydd, gyrrwyd dau frawd ieuanc o amgylch tref Amlwch, "i roi cnoc ar bob drws," ac i arfer "rhyddid cymydog i godi y glicied er mwyn gollwng i mewn, fel ergyd o wn, y cyhoeddiad syml a chwta, 'Mae John Evans Eglwysbach, yn pregethu yn nghapel y Felin heno.'" O fewn byr amser 'roedd y capel o dan ei sang a'r gynulleidfa niferus yn gorlifo i'r buarth. «9» Fe ddigwyddodd rhywbeth digon tebyg yn hanes Michael Roberts, Pwllheli, pan bregethodd yng

Nghymdeithasfa'r Bala. Cyn oedfa'r prynhawn gyrrwyd dau ŵr o amgylch tafarndai'r dref i annog yr yfwyr i ddyfod yn ddiymdroi i'r Green i wrando ar y pregethu.^{'10'} Ymddengys fod hyn yn arferiad pan gynhelid y Gymdeithasfa yn y Bala, ac yn arferiad mewn llawer man pan gynhelid cyfarfodydd pregethu arbennig.

'Roedd atyniad y cyfarfodydd pregethu mor gryf i'r werin fel pan bregethodd Williams o'r Wern un tro yng Nghymanfa Bethesda, Arfon, fe roddodd swyddogion y chwarel orchymyn i'r gweithwyr nad oeddent ar unrhyw gyfrif i golli gwaith trwy ei mynychu. "Ond cyn bod oedfa'r bore bron wedi dechreu, yr oedd gan y gymanfa a Williams o'r Wern ynnddi, ormod at-dyniad iddynt, fel y torwyd ar draws pob gorchymyn, a dylifwyd yn dyrfaoedd o'r chwarel i gae y gymanfa. Ni feiddiwyd eu cosbi chwaith am hyny. Yr oedd y don yn rhy gref, a chorff y gweithwyr yn rhy unol i'r swyddog feiddio gwneud hyny."^{'11'} Yn ystod diwygiad 1859, fe gryfhaodd y Cyrff eu gafael ar y werin a gwelwyd digwyddiadau hynod yn eu plith. Cynhelid cyrddau gweddi gan chwarelwyr y Penrhyn, Bethesda, ar ganol dydd yn y cabanau a'r efail ac mewn mannau eraill o'r chwarel.^{'12'} Hefyd yn ystod diwygiad 1859 cyhaliwyd oedfa mewn man o'r enw Ffridd y Bwlch, rhwng Ffestiniog a Dolwyddelan. Dywedir fod 1,500 o bobl wedi ymgynnull ynghyd. 'Roedd cymaint o chwarelwyr wedi ymuno â'r cyfarfod fel yr anfonwyd neges ar lechen mewn un o'r wagenni i Borthmadog yn dweud, "Ni ddaw dim chwaneg o slates i lawr heddyw. Mae y gweithwyr wedi myned i'r mynydd i weddio."^{'13'} Nid chwarelwyr yn unig a ddaeth dan ddylanwad y diwygiad hwn ond hefyd morwyr.^{'14'}

Yng nghyfnod John Jones, Tal-y-sarn, a'i feibion, arferid cynnal cyfarfod gweddi wythnosol yn chwarel Dorothea, Dyffryn Nantlle, ac yn achlysurol byddai Robert Jones, Llanllyfni, yn mynd yno ar awr ginio i

bregethu. Pregethai hefyd o bryd i'w gilydd yn chwareli'r Cilgwyn a Phen-yr-orsedd. ^{<15>}

Nid yn unig yr aelodau oedd yn werinwyr, ond hanai'r arweinwyr a'r gweinidogion hefyd o blith y werin bobl. Yn hanes llawer ohonynt bu eu magwraeth yn dlawd a chaled. Tyddynwr bychan oedd tad Williams o'r Wern a ychwanegai at ei ennillion drwy wneud ychydig waith coed. ^{<16>} Gan na ellid gwneud bywoliaeth o dyddyn Brynllwyn Bach, Abererch, cartref maboed John Elias, bu rhaid i'w rieni er mwyn cael rhagor o gynhaliaeth weithio fel gwehyddion. ^{<17>} Nid bywyd hawdd oedd bywyd tyddynwyr bychain Cymru, ac 'roedd llawer ohonynt yn gorfod gwneud rhywbeth ychwanegol i gael dau ben llinyn ynghyd. Dyma oedd cefndir Thomas Rees, Abertawe. Crydd oedd ei dad, ac arferai ei fam fynd o amgylch y ffermydd i weithio. ^{<18>} Oherwydd tlodi teulu Ap Vychan (Robert Thomas) byddai'r plant yn gorfod gweu sanau a mynd i'r ffriddoedd a'r mynyddoedd i hel cen oddi ar y cerrig er mwyn ei werthu. ^{<19>} Ym mlynnyddoedd eu plentyndod fe welodd y brodyr John ac Owen Thomas ^{<20>} hefyd dlodi llym. Bu eu tad yn gweithio fel naddwr cerrig ar y South Stack, Caergybi, a phalasau'r Penrhyn a Glynllifon. A diffyg gwaith a thlodi eithafol a yrrodd y teulu o Fôn i Fangor. ^{<21>} Fe gafodd Gweirydd ap Rhys fagwraeth anodd, ond prentisiwyd ef fel gwehydd, a glynodd wrth yr alwedigaeth honno drwy gydol ei oes. ^{<22>} Pan yn laslanc ymadawodd James Hughes a'i ardal enedigol i chwilio am waith yn Llundain. Am gyfnod bu'n crwydro o swydd i swydd hyd nes iddo gael gwaith parhaol fel gof yn Iard y Brenin, Llundain. ^{<23>} Dechreuodd Robert Tomos, Llidiardau, ar ei yrfa yn gweini ar ffermydd yn Nyffryn Conwy, yna fe aeth yn labrwr a saer maen cyn mynd i'r weinidogaeth. ^{<24>} Pan yn ifanc mwynwr oedd W. Roberts, Amlwch, ar Fynydd Parys, ^{<25>} ac fe brentisiwyd D. Williams, Troedrhiwdalar, fel crydd. ^{<26>} Bu John Jones, Tal-y-sarn, am gyfnod yn gweithio fel chwarelwr,

cyn iddo fynd i'r weinidogaeth.^{<27>} Gelwid ef gan Owen Thomas, ei gofiannydd, yn "bregethwr y bobl," ac fe ddywed yr edrychai'r bobl arno "megis un o honynt eu hunain, ac mewn modd neillduol yn eiddo iddynt eu hunain."^{<28>} 'Roedd y ffaith mai gwerinwyr oedd yr arweinyddion yn elfen bwysig ymhlith y Cyrff Ymneilltuol ac yn effeithio ar eu datblygiad. Oherwydd ar ddechrau'r ganrif bychan oedd nifer y gweinidogion "proffesiynol" gan unrhyw un o'r Cyrff, yn yr ystyr fod dynion wedi eu hyfforddi a'u haddysgu i'r weinidogaeth. Yn hytrach, y drefn bryd hynny oedd chwilio am arwyddion addas mewn dynion i fod yn arweinyddion pan oeddent mewn galwedigaethau eraill. Yna ar ôl meithrin y doniau hynny oedd ynddynt dros gyfnod o amser anogid hwy i ymroi i'r weinidogaeth. A hyd yn oed wedyn, 'roedd llawer ohonynt fel gweinidogion yn gorfod cael gwaith arall er mwyn cynnal eu hunain a'u teuluoedd.^{<29>} Mewn geiriau eraill 'roedd y gweinidog yn cychwyn ar yr un gwastad â phawb arall, yn un o'r bobl, ac yna maes o law yn neilltuo ei hunan i'r weinidogaeth. Canlyniad hyn - er fod gweinidogion yn cael eu parchu - oedd fod pobl yn teimlo agosatrwydd mawr tuag atynt, ac nad oedd unrhyw agendor rhyngddynt a'u harweinwyr. A gwyddai'r arweinyddion yn union beth oedd anghenion a phryderon y bobl, oherwydd eu bod hwy'n amlach na pheidio wedi profi'r un tryblith. O ganlyniad nid oedd y gweinidogion wedi datblygu i fod yn ddsbarth a oedd wedi ei wahanu oddi wrth yr aelodau cyffredin. Fe gawn gyfle eto i edrych ar hyn wrth ystyried y Fugeiliaeth.

Pennod 9. Ar yr Aelwyd.

Crefydd y werin oedd Ymneilltuaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn enwedig felly yn ystod hanner cyntaf y ganrif. Gan hynny 'roedd iddi ei nodweddion gwerinol, syml, dilyffethair ac ar brydiau, garw. Fel y gellid disgwyl deuai'r bobl ag arferion ymarweddiad y byd i'r eglwys ac i gymdeithas y saint, ac i'n meddyliau ni ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif y mae peth o'u hymddygiad yn ymddangos yn erwin ac aflednais. 'Roedd blas y pridd ar eu cyfarfodydd, ac 'roedd anffurfioldeb a diffyg trefn osodedig, yn creu rhyddid ac agosatrwydd yn yr addoliad. Hwyrach fod hyn yn beth annisgwyl i'w ddweud ar ôl trafod y ddisgyblaeth lem oedd ganddynt, ond er y ddisgyblaeth fanwl 'roedd rhyddid unigryw yn yr addoliad. Ai'r rheswm am hyn yw'r ffaith syml nad oedd ganddynt draddodiadau i'w dilyn a'u caethiwo, ac mai arloeswyr oeddent ym myd addoliad yn torri eu cwys eu hunain?

Nid yn unig 'roedd Ymneilltuaeth yn grefydd y werin, ond hefyd 'roedd yn grefydd yr aelwyd a'r cartref. I raddau 'roedd hyn yn anorfod ar ddechrau'r cyfnod gan nad oedd eto lawer iawn o addoldai wedi eu hadeilladu. Mewn llawer ardal nid capel-ganolog oedd eu Cristnogaeth ond cartref-ganolog. Er y pwyslais a roddid ar achubiaeth unigolion, nid Cristnogaeth unigolyddol ydoedd, lle 'roedd pob dyn yn ynys, ond Cristnogeth deuluol.

Oedfaon Mewn Annedd-dai.

Prawf o hyn yw'r ffaith y cynhelid lluwys o gyfarfodydd mewn cartrefi, tyddynnod a ffermydd. Gellir dweud y cynhelid mwy o oedfaon ar ddechrau'r ganrif mewn cartrefi nag a gynhelid mewn addoldai. Yn ei draethawd rhagorol yn Welsh Rural Communities, y mae Trefor Owen yn trafod y pwnc hwn yng nghyd-destun ardal Glan-llyn, Llanuwchllyn. Credai ef fod y cyfarfodydd crefyddol ar aelwydydd wedi datblygu o nosweithiau cymdeithasol

fel y noson weu a'r noson ganu, lle'r oedd cymdogion yn yr ardal honno ar nosweithiau tywyll y gaeaf yn ymgynnull yn nhai ei gilydd i weithio, ymddiddan a chanu. O dipyn i beth fe ddaeth pwyslais Cristnogol i'r nosweithiau cymdeithasol hyn, dechreuwyd ymgomio am faterion ysbrydol a diwinyddol. Ambell dro byddai pregethwyr yn ymuno â hwy, a chloid y cyfarfodydd gyda darlleniad o'r ysgrythur a gweddi. ⁽³⁰⁾

Ond nid tarddiad y cyfarfodydd hyn mewn tai yw ein prif ddiddordeb yma ond yn hytrach y ffaith eu bod yn cael eu cynnal mewn miloedd o gartrefi cyffredin led-led y wlad. Amrywiai cynnwys a threfn y cyfarfodydd hyn yn ôl yr achlysur a'r gofyn. Er mwyn hwylustod fe ddidolwn y cyfarfodydd gan ddefnyddio'r is-adrannau, pregethu, gweddi, cyfeillach, ac ysgol Sul.

Pregethu.

Dywedir fod Cadwaladr Jones - a hanaï o ardal Llanuwchllyn - wedi pregethu bron iawn ym mhob tŷ yn yr ardal rhwng 1806 a 1811. ⁽³¹⁾ Ond nid oedd yr arfer o gynnal cyfarfodydd mewn tai yn gyfyngedig i Penllyn, oherwydd 'roedd yn arfer cyffredinol ar hyd a lled y wlad, a miloedd o dai yn ganolfannau addoliad. Fel y dywedid am Gadwaladr Jones, felly y dywedid hefyd am Griffith Jones, ⁽³²⁾ Tregarth, Bangor, ei fod wedi cyhoeddi "yr ymadrodd am y groes, o'r bron ar bob aelwyd trwy'r ardal, ac enillodd agos yr oll o'r penau teuluoedd." ⁽³³⁾

Yn Llanymawddwy, cynhelid cyfarfodydd pregethu gan nifer o wahanol enwadau yn eu tro yng nghartref hen wraig o'r enw Mary Siôn Huw. ⁽³⁴⁾ Yr un oedd yr arfer ar Ynys Môn. Pan oedd W. Roberts yn weinidog yn Amlwch, gelwid arno'n fynych i bregethu yn annedd-dai a ffermdai'r

ynys. ⁽³⁵⁾ Yn yr un modd pregethai Cadwaladr Owen mewn llawer o dai yn ardal Dolwyddelan, Sir Gaernarfon. ⁽³⁶⁾ Ym 1841 aeth John Thomas, Lerpwl, a Noa Stephens ar daith bregethu drwy rannau o Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Pan yn aros yng nghyffiniau Trefdraeth, Penfro, byddai J. Thomas ar y suliau yn pregethu yn y capeli, ond yn ystod yr wythos pregethai ddwywaith neu dair yn ffermydd yr ardal. ⁽³⁷⁾ Un arall a fyddai'n pregethu'n gyson mewn tai oedd David Williams, Troedrhiwdalar. ⁽³⁸⁾ Dywed D. Avan Griffith yn ei gofiant i'r gŵr hynod hwn,

"Ni wnai Mr. Williams ymfoddloni ar bregethu yn Sabbothol ac yn y capeli yn unig, ond pregethai ar nosweithiau ereill mewn anedd-dai. Yr oedd ganddo rai o'r cyfryw i bregethu yn rheolaidd ynddynt yn y gwahanol ardaloedd, cyn bod yr arferiad o gynnal addoliad hwyrol yn yr addoldai....Ni flinai un amser ar bregethu nos na dydd. Nid oes llawer o anedd-dai o ddyffryn Claerwen a Chwm Towy i Ferthyr Cynog, ac o Bylchau a Blaenau Sir Gaerfyrddin i'r afon Ŵy, o'r palas i luest y bugail, na fu efe yn pregethu ynddynt ar ryw achlysur." ⁽³⁹⁾

Yn yr un cofiant fe gawn ddisgrifiad byr o gyfarfod pregethu dan arweiniad D. Williams, mewn tŷ bychan o'r enw Tŷ'n-dŵr nid nepell o Droedrhiwdalar ym mis Awst, 1840. Buddiol yw nodi'r disgrifiad hwn, er mwyn cael peth o naws y cyfarfodydd hyn.

"Gweddi Stephan dan y gafod gerig oedd ei destyn. Yr oedd y tŷ yn llawn pobl. Cerddai rhyw deimlad dwfn dystaw trwy yr holl le, yn gymaint felly fel y dywedodd ar ei bregeth fod a fyno Duw â'r cwrdd hwnw. Er hyny, ni thorodd y dylanwadau dros yr argae yn ystod y bregeth. Ond gyda'r cânu ar ol y bregeth, teimlid rhyw ddylanwad angerddol yn cerdded trwy y lle fel trydan, neu wynt nerthol yn rhuthro. Torodd un dyn ieuanc o'r enw David Pugh allan, a diolchai i Dduw yn nodau uchaf ei lais, am gael ei draed yn rhydd, a llefai, 'O'm mywyd anwyl i.' Yna lledodd y dylanwad drwy yr holl dŷ, nes yr aeth yn un floedd. Molianwyd, wylwyd, gweddiwyd am oriau lawer, a Mr. Williams yn eu canol mor gynnes a neb." ⁽⁴⁰⁾

Gweddi.

Nid yn unig fe gynhelid cyfarfodydd pregethu mewn cartrefi ond cynhelid hefyd gyfarfodydd gweddi'o. Ym Mhen-y-waun, Hirwaun, cynhelid cyfarfodydd gweddi o dŷ i dŷ. "Byddai brodyr Hirwaun yn dyfod i lawr, a phobl Ebenezer yn myned i fyny, ac elent gyda'u gilydd ar gylch i'r Gamlyn Uchaf a'r Gamlyn Isaf, a thrwy'r tai yn Penywaen."⁽⁴¹⁾ Pan oedd John Thomas, Lerpwl, yng nghapel Jerusalem, Llanberis, fe aeth yn ddadl yn y "society" ar derfyn yr oedfa hwyrol ynglŷn â'r cyfarfod gweddi boreol. Fe'i cynhelid o dŷ i dŷ bob bore Sul am saith o'r gloch. Dadleuai rhai o'r aelodau ei fod yn tarfu'n ormodol ar deuluoedd gan ei fod mor gynnar yn y bore, ac y dylid ei gynnal yn y capel. Dadleuai eraill yr un mor frwd dros gadw at yr hen arfer. Diwedd y ddadl oedd penderfynu ei gynnal o hynny ymlaen yn y capel.⁽⁴²⁾ Yn ystod diwygiad 1859 bu bri mawr ar gynnal cyfarfodydd gweddi mewn cartrefi. Wrth ddarllen Hanes Crefydd yn Llanfechell, Môn, ceir yr argraff fod cyfnod y diwygiad yn un cwrdd gweddi mawr gorfoleddus. Dywed Robert Edwards wrth hel atgofion am ddiwygiad 1859-60,

"Un nodwedd arall arbenig ynddo ydoedd yr awydd arbennig am gyfarfodydd gweddi yn y tai. Cododd o hono ei hun heb i neb ei gymmhell o gwbl; parhâodd am o ddeutu dwy flynedd yn y dull a ganlyn:- Cyfarfod gweddi bach ar ol pob cyfarfod rheolaidd trwy yr wythnos; cyfarfod y pobl ieuaingc bob nos Wener.....Am saith y boreu, cyfarfod gweddi yn un o dai y pentref. Byddai rhywun wedi bod yn gofyn am dano wythnos yn mlaen, a phob tŷ yn orlawn."⁽⁴³⁾

Yn y gyfres o erthyglau "Sabbathau yma a thraw", a ymddangosodd yn Y Dysgedydd, yn y saithdegau a'r wythdegau, fe geir disgrifiad rhagorol gan Herber⁽⁴⁴⁾ o gwrdd gweddi mewn tŷ. Lleoliad y cwrdd gweddi oedd Penyrherber ger Castell-newydd-emlyn.

"Yn ystod yr Hydref a'r gauaf, cynelid cyfarfodydd gweddio wythnosol drwy yr ardal, o dŷ i dŷ, ac yr wyf yn cofio amryw o rai nodedig yn Penrherber. Yr oedd noson y cwrdd yn un neillduol - yr oedd y ty ar clos yn cael eu glanhau yn drwyadl. Y gegin fawr yn cael ei llenwi â meinciau ar gyfer y dyfodiaid, ac yn y grât eang ceid "Y tanllwyth mawr yn taflu siriol wres;" ac fel rheol, cawn inau eistedd ar y pentan llydan gerllaw. Yr oedd y cynulliad yn un gwledig, ac felly yn un dyddorol iawn. Deuai iddynt amryw o hen garactors gwreiddiol. 'Brethyn cartref' oedd dillad y dynion, a 'gwlanen gartref' ydoedd eiddo y menywod, a 'homespun' oedd eu gweddïau a'u profiadau.... Cyfarfodydd rhagorol oeddynt. Yr oeddynt yn meithrin dawn gweddi yn y wlad, ac yr oedd y bobl yn ysgrythurwyr mawrion, i gyd yn ddynion 'yr un llyfr,' yn gadarn yn yr ysgrythurau, heb wybod fawr am esboniadau; yr oedd y cwbl yn homespun, 'brethyn cartref,' ac oblegid hyny yr oedd yno gyflawnder o wreiddioldeb." (45)

Gresynai Herber yn fawr oherwydd fod y cyfarfodydd hyn wedi peidio â bod, oherwydd "mae rhyw wres a chynesrwydd mewn cyfarfod gweddi mewn anedd-dy llawn, na ellir ei gael mewn addoldy haner gwag." Credai hefyd fod diflaniad y cyrddau gweddi hyn ar yr aelwydydd yn un o'r rhesymau mwyaf am ddirywiad dawn gweddi gyhoeddus. (46)

Cyfeillach.

Cyn i gapel Beulah gael ei adeiladu yn Nhroedrhiwdalar byddai D. Williams yn cynnal y gyfeillach un ai yn ei gartref ei hun, neu yn Nhŷ-gwyn, sef tŷ arall yn y gymdogaeth. (47) Yn yr un modd bu cyfeillachau rheolaidd yn Tŷ Newydd, cartref Siôn Wyn o Eifion, (48) am ugain mlynedd, yn ogystal â chyrddau pregethu a gweddïo. (49)

Ysgol Sul.

Mewn cartrefi hefyd y cynhelid ac y cychwynnwyd llu o ysgolion Sul. Yn Nosbarth Ffestiniog 'roedd gan y Methodistiaid Calfinaidd 37 o ysgolion Sul, ym 1903, a gellir dweud fod y mwyafrif llethol o'r ysgolion hynny wedi eu cychwyn mewn tyddynnod, ysguboriau a thai yn yr ardal. Llawer

ohonynt wedi crwydro o aelwyd i aelwyd. ⁽⁵⁰⁾ Yr un oedd yr hanes yn Nosbarthiadau Abergele, Conwy a Llanrwst, yn ôl Thomas Gwynn Jones,

"mewn tai ffermydd, ysguboriau, a rhyw adeiladau y gellid eu cael, y cychwynnwyd llawer o'r ysgolion yn yr ardal oedd hyn, tua dechrau y ganrif. Dechreuwyd ysgol y Bont Uchel mewn ysgubor; ysgol Gyffylliog mewn naw o dai; Clawdd Newydd mewn odyn frâg; Pentre Celyn mewn ystabl; Llanbedr mewn efail gôf; a Chlocaenog mewn ffermdy." ⁽⁵¹⁾

Cychwynnwyd Ysgol Sul, Y Banc, Pant-teg, mewn tyddyn o'r enw Eithin Môn, ⁽⁵²⁾ a chychwynnwyd ysgol Sul yng Nghwm Clydach, mewn tŷ o'r enw'r "Mount", lle 'roedd y Bedyddwyr a'r Annibynwyr yn cyfarfod ar y cyd. ⁽⁵³⁾ Nodwedd yr ysgolion Sul hyn oedd eu hanffurfioldeb a'u naturioldeb. Isod fe geir disgrifiad o ysgol Sul a gynhelid yn Hafoty, Llanfrothen.

"Byddid weithiau yn ei chynnal ar nosweithiau gwaith, a byddai llawer yn dyfod iddi yr adegau hyny; ond cyn hir cafwyd llwybr clir i'w chynnal yn y dydd, yr hyn oedd yn llawer mwy manteisiol gan fod yn anhawdd iawn i blant fyned i le mor anghysbell yn y nos. Yr oedd golwg rhyfedd arnynt yma, yr ychydig rai mewn oed yn y llofft, a'r plant ar y llawr. Gosodid y plant yn gylch ar y llawr, a rhoddai William Lewis wers iddynt o un i un, ac ar ol cyrhaedd pen y rhês, byddai yn gyffredin yn eistedd i lawr, ac yn sugno mygllys nes y byddai y ty yn llawn mwg, heb ystyried hyny yn drosedd ar weddeidd-dra na threfn." ⁽⁵⁴⁾

Di-fudd fyddai lluosogi cyfeiriadau yn y fan hon, gan ei bod eisoes yn ddigon eglur, fod cannoedd o ysgolion Sul wedi cychwyn ar eu taith mewn tai gwerinwyr cyffredin.

Pan yn weinidog ym Mwlchnewydd a Gibeon, Sir Gaerfyrddin, ffurfiodd Michael D. Jones ⁽⁵⁵⁾ rwydwaith o gyfarfodydd yng nghartrefi'r

aelodau. Gwnaeth hyn er mwyn goresgyn yr anhawster o gynnull pobl mewn ardal wasgaredig amaethyddol i gyfarfodydd yn y capel.

"Yn wyneb hyn trefnodd efe gyda'r gwahanol deuluoedd yn y gwahanol gymdogaethau, i'r bobl ieuainc o ddwy neu dair o'r ffermydd cylchynol gael cyfarfod un noswaith yn y naill dy, a'r noswaith arall yn y llall, gan ranu yr esgobaeth yn bedair adran, nes yr oedd wedi troi bob ty yn yr ardal, mewn ystyr, yn ysgoldy. Byddai y cyfarfodydd hyn yn llawn amrywiaeth, rhywbeth rhwng dosbarth Beiblaidd ag ysgol ramadegol; troid hwynt weithiau yn gyfeillachau crefyddol, ac weithiau yn gyfarfodydd pregethu; rhywun yn rhoddi anerchiad neu yn darllen papur." <56>

Fe ddaeth y cyfarfodydd hyn yn rhai poblogaidd a mynychid hwy gan hen ac ieuanc. Mewn rhai eglwysi ac ardaloedd, fel Hen Capel, Llanbryn-mair a Llanuwchllyn, disodlwyd y cyfarfodydd hyn mewn cartrefi i raddau gan Ysgoldai, canghennau bychain o'r fam eglwys. <57>

Cychwyn Achosion Mewn Annedd-dai.

Bu'r cyfarfodydd hyn hefyd yn foddion i gychwyn llawer o achosion. Henglawdd, gerllaw pont Menai, tŷ bach cyffredin gyda llawr pridd oedd gwreiddyn achos Beulah ym Mangor. Yno i'r adellad diaddurn hwn y cyrchai saint o gyffiniau Bangor a'r Felinheli i addoli ac i wrando ar bregethau gan weinidogion y ddinas a'r enwog Arthur Jones, <58> gweinidog Ebeneser, Bangor, yn eu plith. <59> Gwahoddodd gwraig o'r enw Catherine Morys, bregethwr gan y Bedyddwyr, Dafydd Morys, i bregethu yn ei thŷ yng Ngarndolbenmaen. Hyn oedd cychwyn achos y Bedyddwyr yn y pentref, a phregethid yn gyson yn ei chartref am flynyddoedd lawer. <60> Cychwynnwyd yr achosion Methodistiaidd, Annibynnol ac achos y Bedyddwyr ar y cyd o dan yr unto yn Aberdar, mewn tŷ yn Heol y Lamb. <61>

'Roedd y cyfarfodydd hyn mewn annedd-dai, tyddynnod a ffermydd Cymru yn hynod bwysig yn natblygiad y Cyrff Ymneilltuol, oherwydd trwyddynt llwyddodd y Cyrff nid yn unig i ddylanwadu'n gyffredinol ar ardaloedd, ond i ddylanwadu ar galon y gymdeithas, sef y teulu ar yr aelwyd. Nid crefydd amhersonol y gellid ei gadael mewn capel neu eglwys ar derfyn y gwasanaeth ar y Sul ydoedd, ond crefydd bersonol a dreiddiai at fêr esgryn y gymdeithas werinol. Crefydd yr aelwyd ydoedd hi, ac o ganlyniad nid oedd yn bosibl gwahaniaethu rhwng bywyd seciwlar a bywyd ysbrydol, rhwng bywyd yr eglwys a bywyd y teulu nac ychwaith bywyd y capel a bywyd y cartref. 'Roeddent oll yn asio'n un.

'Roedd hefyd ochr genhadol effeithiol i'r cyfarfodydd hyn, oherwydd golygai fod nid yn unig y credinwyr mewn cartref yn clywed yr efengyl, ond hefyd fod plant a theulu, gweision a chymdogion anghrediniol yn dod yn gyfarwydd â sylfeini'r ffydd Gristnogol. Trwy hynny 'roedd y gymdeithas yn cael ei thrwytho - hwyrach yn gwbl anymwybodol - ag egwyddorion Cristnogol. Hwyrach mai dyma un rheswm pam fod cymaint o wrandawyr nad oeddent yn aelodau eglwysig yn mynd yn gyson i oedfaon mewn capeli. Pan oedd Griffith Jones yn weinidog yn Nhre-garth, Arfon, daeth cais i swyddogion eglwys Rachub, Bethesda, gan ŵr di-broffes o'r enw William Francis. Gŵr gorweddiog ydoedd ef oherwydd damwain, ac fe archodd i'r swyddogion am gael ambell oedfa bregethu yn ei dŷ, fel y gallai wrando o'i wely. Cytunwyd â'i gais, ac anfonid pregethwyr yno'n gyson. Cynhelid ysgol Sul Methodistiaid Calfinaidd Minffordd, Penrhyndeudraeth, am gyfnod yn Tŷ'n-y-ffordd er nad oedd yr hen gwpwl yn aelodau eglwysig.⁶² Yn ei lith ar ysgol Sul Pen-y-bryn, Blaenau Ffestiniog, fe geir y geiriau annisgwyl hyn gan Richard Owen. "Nid oedd un crefyddwr yn rhoddi ei bresenoldeb yn yr ysgol." Yr awgrym yw mai pobl a phlant di-broffes a

gynhaliant yr ysgol Sul hon. «63» Dengys hyn ddylanwad mawr y Cyrff ar y werin, a'r ffaith eu bod yn cyrraedd hyd yn oed haen o bobl nad oedd ganddynt unrhyw ymlyniad neilltuol.

Ond yn raddol bach yn ystod y ganrif wrth i nifer yr addoldai gynyddu fe symudodd canolbwynt crefydd ac addoliad o'r cartref i'r capel. Dros dreigl y blynyddoedd cynhelid nifer gynyddol o oedfaon yn y capeli. 'Roedd tri rheswm o leiaf am hyn; yn gyntaf 'roedd y capeli yn fwy addas ac yn fwy cyfforddus i gynnal cyfarfodydd ynddynt; ac yn ail, nid oedd y tai yn ddigon o faintioli i gynnwys y llif mawr o ddychweledigion; ac yn drydydd, 'roedd yn llawer mwy ymarferol cynnal un oedfa gyda chynulleidfa niferus, yn hytrach na nifer o oedfaon gyda chynulliadau bychan. Proses araf oedd hon a gymerodd ddegau o flynyddoedd, os nad dros ganrif o amser, fel y tystia J. Mostyn Jones yng nghofiant Griffith Jones, Tre-garth, Arfon. Wedi i gapel Pen-y-groes, Tre-garth, gael ei adeiladu parhâi Griffith Jones, y gweinidog, i gynnal oedfaon yn y tai am rai blynyddoedd, ond, "rhoddodd i fyny eu cyhoeddi am y tybid fod yr efengyl erbyn hynny wedi lefeinio y teuluoedd yn ddigonol fel ag i'w had-dynu o'u tai i'r addoldy." «64» Fe ychwanega J. Mostyn Jones y geiriau arwyddocaol hyn, "Yr oedd hyn yn ffaith i raddau pell iawn; ond er hynny mynych y datganai ef ei ofid oherwydd eu myned mor llwyr o arferiad, am y caffai afael ar rai gwrandawyr yn y tai na ddeuent byth i'r capel." «65»

Drwy i fwyafrif y cyfarfodydd maes o law symud o'r cartrefi i'r capel, fe gollodd y Cyrff Ymneilltuol nodwedd arbennig i'w bywyd a'u tystiolaeth. Collasant beth o'u cynulleidfa - fel y crybwyllai Griffith Jones uchod - ond fe'i hamddifadwyd hefyd o rywbeth llawer pwysicach, sef y dylanwad uniongyrchol ar aelwydydd eu haelodau. A thrwy hyn 'roedd

Cristnogaeth o reidrwydd yn fwy ymylol. Sylwodd Trefor Owen ar y datblygiad hwn yn ardal Llanuwchllyn a dywed,

"In reviewing the historical background of Nonconformist religion in Glan-llyn it is ironical to have to consider the possibility that the actual building and rebuilding of branch chapels, in which the fervour of the nineteenth century found a material outlet, may well have had a detrimental influence in that it took the religious activities farther and farther away from the hearth, where it was at the centre of everyday life of the individual and the family, to the chapel where it ultimately declined to a peripheral weekly experience." (66)

Nid yn unig golygai'r symudiad o'r aelwyd i'r capel fod newid yn nylanwad y Cyrff, ond fe olygai hefyd o reidrwydd newid yn ymddygiad yr aelodau. Ni ellid ymddwyn yn union yr un modd yn y capel mewn cynulleidfa niferus fel yr ymddygid gartref gyda chynulleidfa fechan o gyfeillion. Er mwyn gallu cynnal oedfa effeithiol mewn capel 'roedd yn rhaid i'r addolwyr addasu eu hymddygiad neu ni fyddai'r cyfarfodydd yn ddim amgen nag anhrefn llwyr a blêr. Ni ellid caniatáu i aelodau fynegi eu meddyliau a'u teimladau i'r un graddau mewn cynulleidfa fawr yn yr addoldy. Byddwn yn manylu ar hyn yn nes ymlaen yn y traethawd.

Pennod 10. Cadw Dyletswydd.

Yn gysylltiedig â'r toreth o gyfarfodydd hyn a gynhelid yng nghartrefi'r aelodau 'roedd yr addoliad teuluol. Disgwylid i bob aelod o'r Cyrff gynnal addoliad neu ddyletswydd deuluaidd ar ei aelwyd a hynny'n ddyddiol. Golygai hyn fod llawer o gryfder crefydd y Cyrff Ymneilltuol yn y ffaith ei bod yn grefydd yr aelwyd ac nid yn grefydd y capel. Dwysái hyn ddylanwad Cristnogaeth gan ei fod yn ddylanwad uniongyrchol ar deuluoedd cyfain, yn hytrach nag yn ddylanwad ar unigolion o fewn i deuluoedd. Nawfed rheol Rheolau a Dybenion y Methodistiaid Calfinaidd oedd,

"Eu bod yn cadw addoliad yn eu tai, o leiaf ddwywaith yn y dydd: ac "yn llywodraethu bawb ei dŷ ei hun yn dda;" ac "yn maethu eu plant yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd." «67»

Testun un o bregethau John Jones, Wrecsam, oedd "Y Grefydd Deuluaidd," «68» ac yn y bregeth hon cawn syniad eglur o beth yn ei dyb ef oedd crefydd deuluaidd. Rhennir ei sylwadau'n dair rhan o dan y penawdau, addysg, llywodraeth ac addoliad teuluol. Rhan gyntaf crefydd deuluaidd, yn ôl John Jones yw addysg, ac ar y pen hwn y mae'n tynnu sylw rhieni at eu cyfrifoldeb i ddylanwadu ar eu plant yn eu hieuenctid, meddai,

"Y mae addysg deuluaidd fel cwmpas i'r morwr. Wedi iddo ddeall *art of navigation*, a'i addysgu mewn morwriaeth, yna y mae trwy edrych ar y cwmpas yn hwylio ei lestr rhwng y creigiau, yn myned ymlaen yn nhywyllwch nos, ac o'r diwedd yn cyrhaedd yr hafan ddymunol. Rieni, dysgwch eich teuluoedd am werth y cwmpas nefol hwn, sef Bibl Duw. Yn fuan byddant yn gadael eich annedd, ac yn mentro i gyfarfod byd tymhestlog; rhowch chwithau y cwmpas yn eu llaw." «69»

All ran crefydd deuluaidd oedd llywodraeth. Canlyniad addysg briodol yn y cartref oedd llywodraeth a threfn, a dyletswydd pennau

teuluoedd oedd gwneud y Beibl "yn orchymyn ac yn gyfraith yn eu tai." <70> Y drydedd ran i grefydd deuluaidd oedd addoli. Anogai John Jones ei wrandawyr i godi allor i Dduw yn eu cartrefi, oherwydd "nursery uffern" yw tŷ y digrefydd, "a phagan sydd yn byw ynddo." Cynghorai rieni i gynnal dyletswydd foreol gan roi "tamaid o'r hen Fibl yn faeth i eneidiau" eu plant ac yna offrymu gweddi. Hefyd yr un modd yn yr hwyr cyn clwydo. Canlyniad cynnal addoliad o'r fath fyddai ymgeledd, bendith i'r teulu gan arwain rhai ohonynt maes o law i iachawdwriaeth trwy yr Iesu. Daw y bregeth i ben gyda rhybudd dwys i'r rhai hynny nad oeddent yn cynnal dyletswydd deuluol. "Y mae yn ddrwg iawn genyf ddywedyd," meddai J. Jones, "fod melltith yr Arglwydd yn nhŷ yr annuwiol. Dyma a foddodd y byd, dyma a losgodd Sodoma, dyma ddifethodd feibion Corah....ac fel y mae byw yr Arglwydd, dyna ei benderfyniad, sef tywallt ei lid ar y teuluoedd na alwant ei enw ef." <71>

Wrth ddiffinio nodweddion y teulu crefyddol, fe ddywedodd J. Davies, Iet-wen, yn Y Dysgedydd (1878), fod y teulu yn addoli Duw yn unigol a phersonol yn ogystal ag ar y cyd fel teulu. Disgwyliai i bennau teuluoedd ddarllen ac egluro'r Beibl i blant ac eraill, a chynnal cyfeillach grefyddol er mwyn siarad am faterion Cristnogol ac ysbrydol. <72> Canlyniad cynnal addoliad teuluol oedd dod â Christnogaeth yn rhan o fywyd beunyddiol y teulu. Nid elfen ymylol i fywyd ydoedd ond elfen ganolog a sylfaenol. Ystyrid cadw dyletswydd ar yr un gwastad yn ei phwysigrwydd ag addoli gyda'r eglwys a mynychu cyfarfodydd yr eglwys ac yn arwydd o dduwioldeb ac aeddfedrwydd ysbrydol.

Yn y cylchgronau enwadol yn fynych fe anogid aelodau i gynnal dyletswydd yn ddyddiol yn eu cartrefi. Yn Y Dysgedydd (1826), ceir cerdd

gan S. Roberts, Drefnewydd, <73> yn darlunio y "Teulu Diwyd, Duwiol a Dedwydd," ac yma ceir darlun delfrydol o addoliad teuluol.

"Ar air y Tad, mewn siriol wên,
A'r Mab i ddarllen pennod;
Ac yna oll mewn pwysig fodd,
Codant i adrodd adnod.

Yr emyn hwyrol yn y fan,
Roi'r allan gan y I'angaf;
Ac unant oll i seinio mawl,
Cysonawl i'r Goruchaf,

Y Tad a dd'wed ddwys air mewn pryd,
Am bethau byd trag'wyddol;
Y Fam rydd ei hamen, - a'r plant
Wrandawant yn ddifrifol.

Wrth orsedd gras, o flaen yr Iôr;
Fel bychan gôr, cyd-blygant:
A'u holl achosion o bob rhyw,
I ofal Duw gyflwynant.

Am ras a hedd a nawdd y nef
Y codant lef ddiffuant;
A Duw a ystyr yn gu fwyn,
Eu cwyn a'u holl ddymuniant." <74>

Nid addoliad preifat i'r unigolyn o grediniwr oedd yr addoliad teuluol, lle'r ymneilltuai'r dychweledig i'r dirgel i geisio Duw, ond addoliad a gynhwysai pawb a oedd y byw dan yr unto yn ddiwahân. Y credinwyr a'r anghredinwyr. Yn ôl J.E. yn Y Dysgedydd (1853), ni ddeuai'r

"byd byth yr hyn y dylai fod nes y daw pob penteulu yn ddysgawdwr moesol a chrefyddol. Pa bryd y derfydd meddwdod, cybydd-dod, celwydd, tyngu a rhegu yn ein tir? Pa bryd y rhydd dynion i fyny alw enw Duw yn ofer, a halogi y Sabbath?...cyn y daw'r byd i'w le, rhaid i benau teuluoedd etto gymeryd y gwaith i fyny gyda mwy o ddifrifoldeb nag ydynt yn bresenol; a phan bydd allor i'r Duw byw yn mhob teulu, ar y dydd hwnw y caiff yr angel gyhoeddi yn nghanol y nefoedd, "aeth terynasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef." <75>

'Roedd y ddyletswydd deuluaidd yn elfen arall a bwysleisiai ac a gadarnhai'r arwahanrwydd rhwng y crediniol a'r angrhediniol. Gellid adnabod cartrefi'r credinwyr yn rhwydd oherwydd fod addoliad, darllen y gair a gweddi yn cael lle canolog yn eu gweithgareddau. Yr oedd cynnal addoliad teuluol, yn ôl Joseph Evans, Croesoswallt, yn arwydd o ailenedigaeth ond fod y rhai "sydd heb addoliad teuluaidd yn dwyn arwyddion eglur eu bod yn anadnabyddus o Dduw, ac o natur a gwerthfawrogrwydd bendithion ei iechydwrriaeth."⁷⁶ Credai Joseph Evans ymhellach fod crefydd yn gwbl ddirym ymhlith y rhai nad oeddent yn arfer addoliad teuluol yn gyson.

Diffyg prydlondeb wrth gyrraedd gwasanaethau a brys wrth ymadael oedd yr ail beth a ofidiai ohebwr y cyfnodolion yn fawr. Yn ôl Carwr Trefn, peth "anweddus iawn ydyw dyfodiad amrhydlon a diweddar llawer i'r addoliad." 'Roedd yr addoliad i gychwyn ar awr benodol, deg, dau neu chwech, ond yn aml iawn gwelid pobl yn cyrraedd chwarter awr a hyd yn oed hanner awr yn hwyr. Effaith hwyrdyfodiaid anystyriol oedd peri cynnwrf drwy ruthro "i mewn, gan drystio ar hyd y llawr, ac i fyny i risiau yr oriel, ac ar hyd mynedfeydd i'w heisteddleoedd, yn fawr eu trwst."⁽¹⁶¹⁾ Ceisio cyrraedd yr oeddent i glywed y bregeth yn unig, gan hepgor y rhannau arweiniol; parodd hyn i rai pregethwyr Wesleyaidd newid trefn eu gwasanaeth gan symud y darlleniad o ddechrau'r oedfa i fod yn union o flaen y bregeth.⁽¹⁶²⁾ Credai Eryr Gwyllt, nad oedd pobl yn ystyried fod addoli yn gynwysedig yn narlleniad y Gair, gweddïo a chanu yn ogystal ag yn y bregeth. A chan hynny deuent yn unig i wrando ar y bregeth.⁽¹⁶³⁾

Yn ôl Iota Fau 'roedd llu o eglwysi'n anwadal ynglŷn â chychwyn cyfarfodydd yn brydlon. 'Roedd swyddogion yn euog o gyhoeddi cyfarfod ar awr benodedig ond yna byddai'r cyfarfod, "bymtheg mynyd, haner awr neu dri chwarter awr, weithiau, dros yr amser yn dechreu." Nid y gynulleidfa yn unig ychwaith oedd yn feius o gyrraedd yn hwyr, oherwydd yn gyson byddai'r pregethwyr a'r blaenoriaid yn gwneud hynny. Dylai'r pregethwyr a'r swyddogion, meddai Iota Fau, ddysgu eu gwers trwy godi yn blygeiniol yn y bore, cychwyn mewn da bryd i'w cyhoeddiad ac edrych ar ôl traed eu hanifeiliaid fel na fyddont yn colli pedol ar y ffordd, oherwydd 'roeddent yn fynych yn euog o gadw'r gynulleidfa i ddisgwyl amdanynt yn ofer.⁽¹⁶⁴⁾

Dywedai J.Morgan, Cwm-bach, fod cychwyn cyfarfodydd yn hwyr yn creu penrhyddid ac anhrefn ac yn troi'r cyhoeddwr yn gelwyddgi. "Caniatawn fod y cyhoeddwr yn ddyn fyddo yn caru gwirionedd yn ei galon, ac yn cyhoeddi y cyfarfodydd i fod y Sabboth nesaf am 10 a 6, ac yntau yn gwybod taw am hanner awr wedi yr amser y byddant yn cael eu dechreu; a'r bobl yn ei ateb yn ddystaw ei fod yn cyhoeddi celwydd yn nhŷ yr Arglwydd." «165»

Ond yn ôl at yr hwyrdyffodiaid. Disgwyliai lluo o bobl tan ar ôl y darlleniad a'r weddi i ddod i mewn i'r capel. "Pan elo y weddi drosodd, bydd yno ruthr, a thwrf, fel twrf creaduriaid gwyltton bron, am un pump neu ddeng mynyd, fel mai ynfyd yw cynig ar ddim nes derfydd hyny." «166» Dylai'r addolwyr fod yno erbyn yr awr a chyn i'r pregethwr esgyn i'r pulpud i bregethu. Credai J.Morgan, Cwm-bach, mai arfer da mewn rhai capeli oedd atal addolwyr rhag mynd i mewn yn ystod y weddi a'r darlleniad gan agor y drysau iddynt yn unig pan fyddo emyn yn cael ei ganu. «167» Yr oedd yr anhawster yn parhau ym 1871, oherwydd canai Calvin glodydd cynulleidfaoedd Seisnig am eu trefnusrwydd a hynny er mwyn annog y Cymry i'w hefelychu. "Y mae'n wir flin genym orfod addef fod y Saeson ar y blaen i ni yn hyn o orchwyl. Mewn cynulleidfaoedd Seisnig, gwelir y bobl braidd yn ddiethriad yn eistedd yn eu lleoedd pan fyddo'r gweinidog yn dechrau gwasanaeth dwyfol....Diwygied fy nghydgenedl anwyl yn hyn o beth ar frys." «168»

Nid yn unig 'roedd anhrefn yn y gwasanaethau oherwydd hwyrdyffodiaid ond hefyd crewyd cyffro gan rai a fynnent adael yn fuan. Mewn llawer man byddai dros hanner y gynulleidfa yn gadael yn syth ar ôl y bregeth cyn canu'r emyn olaf. Yn aml iawn y rhai olaf i gyrraedd fyddai'r cyntaf i fynd. «169» Barn un ysgrifennydd ynglŷn â'r "hogiau gwyltton sy'n ymwthio ar draws pobl am eu hetiau ac am y drws i fyned allan cyn darfod y

canu a'r gweddio," oedd y dylent gael eu "rhoddi yn y stocks am ddeuddeg awr."¹⁷⁰ Credai Carwr Trefn mai'r rheswm am y rhuthr yma yn enwedig ymhlith ieuencid oedd fod meibion a merched ifanc yn cytuno i ddanfôn ei gilydd gartref.¹⁷¹

Mater diddorol iawn yw cwestiwn prydlondeb, ac mae'r pwyslais newydd ddaeth ar fod yn brydlon ac ar gychwyn cyfarfodydd yn amserol yn arwydd o newid cymdeithasol cyffredinol fu yn y cyfnod hwn. Y mae yn gysylltiedig â'r syniad am amser, a phwysigrwydd amser. Mae syniad pobl cefn gwlad - yn enwedig pobl gyntefig - am amser yn hollol wahanol i syniad pobl mewn cymdeithas drefol a diwydiannol. Nid ydynt hwy yn manylu ynglŷn â phrydlondeb. Ond un o ganlyniadau Protestaniaeth, gyda'r pwyslais ar ddiwydrwydd, yw 'sancteiddio' amser. Rhaid 'prynu'r amser' ac ni ddylid ar unrhyw gyfrif ei wastraffu trwy wagsymera a llaesu dwylo. Rhodd ydyw gan Dduw i'w ddefnyddio'n ddoeth. Yn anochel mae hyn yn esgor ar bwysleisio prydlondeb. Ymddengys nad yw prydlondeb - manylu am eiliadau a munudau - yn bwysig i'r sect. Gall oedfa barhau am oriau, fel y gwna mewn diwygiad. Fel yr oedd disgyblaeth Galfinaidd yn cynyddu ac yn asio â phatrymau trefol a diwydiannol, yr oedd dod yn hwyr i oedfa'n troi'n drosedd, onid yn wir yn bechod. Mae'n arwyddocaol fod cloc wedi dod yn un o ddodrefn hanfodol capel yn ail hanner y ganrif ac yn adlewyrchu y pwysigrwydd newydd amser. Gyda llanw mawr y Chwyldro Diwydiannol, daeth newid sylfaenol yn agwedd ac arferion y boblogaeth yng Nghymru. Gyda'r cynnydd mawr mewn chwareli, pyllau glo a'r rhwydwaith rheilffyrdd, daeth yn llawer pwysicach i gadw at amseroedd penodedig. 'Roedd rhaid i'r chwarelwr a'r glöwr fod yn brydlon i'w gwaith neu wynebu gwsg eu cyflogwyr wrth fod yn hwyr. A pheth cwbl difudd fyddai ceisio dal tren hanner awr yn hwyr.'¹⁷² Felly yn y

gymdeithas yn gyffredinol daeth newid yn yr agwedd at amser, a threiddiodd y newid hwn i mewn i'r eglwysi.

Gwelwn felly yn y bennod hon, pa mor anffurfiol oedd y cyfarfodydd ymhlith y Cyrff Ymneilltuol drwy gydol hanner cyntaf y ganrif ac i mewn i ail hanner y ganrif. 'Roedd eu hymddygiad yn naturiol, gwerinol ac ar adegau yn fler heb unrhyw reolau haearnaidd gosodedig. Mynychent gyfarfodydd mewn dillad gwaith heb ymlochi, cyrhaeddent yn hwyr a gadawent yn fuan, ac yn ystod y cyfarfodydd ymddygent yn gwbl gartrefol a diluddiant.

Ond bwriad yr holl erthyglau y dyfynnwyd ohonynt uchod oedd creu trefn a gwedduster wrth addoli. Mae'n amlwg fod yn rhaid cael hynny yn enwedig gan fod yr aelodaeth yn cynyddu ar raddfa mor aruthrol yn ail hanner y ganrif. Canlyniad anochel hyn oedd fod rheolau ymddygiad yn cael eu ffurfio drwy i'r cynulleidfaoedd gael eu cyflyru yn raddol i feddwl fod ymddygiad gweddus ac anweddus mewn addoldai. Erbyn y saith degau mae'n amlwg fod yr arweinwyr yn dechrau cael y maen i'r wal, oherwydd gobeithiai Calfin fod yr arfer o gnoi myglys a phoeri yn y capel wedi "myned i dir angof, ac na chyfyd ei ben mwy." Ac ynglŷn â'r hen arferion o wamalu, llygadrythu a gwenu, cymerai'n ganiataol nad oedd "neb yng Nghymru wemp yn euog o'r cyfryw beth." Mae nifer o bethau'n oblygiedig yn y datblygiad hwn, o ffrwyno ymddygiad yn yr addoldai. Daeth yr ymdeimlad fod y capel yn lle sanctaidd yn fwyfwy amlwg, yn adeilad i'w barchu, i ymddwyn yn barchus ac i wisgo yn weddus ynddo. Golygai hefyd fod yn rhaid i'r aelodau fod ar eu gwylidwriaeth yn yr addoldy gan nad oeddent i ymddwyn yn nhŷ Dduw yn yr un modd ag y gwnaent gartref. Pen draw hyn fyddai cyfrannu yn helaeth - ynghŷd â ffactorau eraill - tuag at barchusrwydd, capelyddiaeth ac ysgaru crefydd

oddi wrth ymddygiad arferol yr aelodau, yn yr ystyr eu bod yn gorfod addasu eu hymddygiad yn y capel. Ond yn fwy na dim cyfrannai tuag at ffurfioldeb yn y cyfarfodydd a allai maes o law fod yn andwyol i'r Cyrff, drwy i'w Cristnogaeth droi'n arwynebol a defodol. Mae anffurfioldeb yn nodwedd o'r sect, nodwedd o'r enwad yw ffurfioldeb.

Sylweddolodd E. H. Evans, Caernarfon, berygl y datblygiad hwn, a sylwn pa mor graff ydoedd mewn anerchiad a draddododd yng nghyfarfod cyntaf Undeb yr Annibynwyr Cymreig yng Nghaerfyrddin ym 1872. Teitl ei anerchiad oedd "Gogwyddiadau Addoliadol yr Oes."

"Yr oedd rhywbeth yn werinol yn ein hen gapeli, yr hen eisteddleoedd oeddynt yn rhydd i bawb yn ddiwahaniaeth; dim un fainc nad allai y tlotaf yn yr ardal ddyfod i fewn ac eistedd arni; ond fel y mae capeli heirdd yn cymeryd lle yr hen addoldai, a'r seti wedi eu gosod yn cymeryd lle yr hen feinciau rhyddion, y mae perygl i ni yn y dyfodol golli y bobl, y rhai sydd wedi bod yn brif nerth Ymneillduaeth Cymru.....; pan y mae aelodau Seneddol, ynadon heddwch, a lluwys o foneddwyr yn dal sefyllfa o bwys yn mynychu capeli, ac yn weithwyr mor ffyddlawn a neb gydag achos y Gwardwr, y mae perygl i ni feddwl gormod am gynulleidfa *respectable*.....Gofalwn beidio a rhoddi lle i neb i dybied mai y bobl a fedrant *dal* am ei seti yw yr unig rai sydd a chroesaw iddynt i'n capeli; a mwy, rhaid i ni barhau i'w llwyr argyhoeddi ein bod yn dymuno eu presenoldeb yn ein cynulliadau crefyddol.....Yr wyf fi yn hoff iawn o gynulleidfa gymysgedig mewn addoldy - y tlawd a'r cyfoethog yn cyd-addoli ac yn cydfolianu yr un Duw, ar naill heb gofio ei fod yn dlawd, a'r llall heb feddwl ei fod yn gyfoethog am y diwrnod hwnw." <173>

Pennod 13. Cyfarfodydd a Seiadau.

Trown ein golygon yn awr i edrych ar gyfarfodydd yn benodol. Anodd yw gwybod yn bendant faint o gyfarfodydd yn union a gynhelid yn wythnosol gan yr eglwysi. Yr hyn sy'n sicr yw fod nifer y cyfarfodydd wedi cynyddu'n ddirfawr yn ystod y ganrif, ac fe gawn gyfle i gyfeirio eto at hyn. Yn hanner cyntaf y ganrif 'roedd nifer y cyfarfodydd a'r math o gyfarfodydd yn amrywio o gynulleidfa i gynulleidfa ac o gapel i gapel yn ôl yr amgylchiadau. Ar ddechrau'r ganrif nid oedd y nifer yn fawr, byddai un neu ddau o gyfarfodydd ar y Sul - yn dibynnu ar y gweinidog neu'r pregethwr - a seiat neu gyfeillach a chwrdd gweddi yn ystod yr wythnos. Ambell dro cynhelid cwrdd gweddi ar fore Sul, '174' ac 'roedd gan rai eglwysi gyrddau gweddi i'r ieuenctid a chyrrddau gweddi o amgylch y tai. '175' Wrth i'r Ysgol Sul ennill ei phlwyf daeth y sefydliad hwnnw yn rhan annatod o weithgareddau'r Sul yn y mwyafrif o eglwysi. Hefyd yn ystod yr wythnos byddai oedfaon pregethu achlysurol wrth i'r pregethwyr fynd ar eu teithiau o amgylch y wlad. '176' Mewn cyfnodau o ddiwygiad 'roedd y cyfarfodydd yn lluosocach o lawer. Yn ychwanegol at hyn 'roedd cymanfaoedd, cyrrddau misol, cyrrddau chwarterol a sasiynau gan y gwahanol Gyrff. '177' Disgrifir cyfrifoldeb John Thomas, Lerpwl, wedi iddo gael ei ordeinio ym Mwlchnewydd ym 1842 fel a ganlyn.

"Ni ddisgwylid iddo bregethu ond tair gwaith y mis yn y capel - boreu Sabboth y Cymundeb, a boreu Sabboth pen y pythefnos, ac un prydawn Sabboth arall; ac ar y prydawn hwnw ni wneid yn aml ddim ond holi yr ysgol. Dysgwylid iddo bregethu un nos Sabboth o'r mis yn Ysgoldŷ yr Aber; ac ar brydnawn y Sabboth Cymundeb i bregethu yn yr Henfwlch, ac yn Elim hwyr y Sabboth hwnw. Nid oedd ond dau gwrdd eglwysig y dysgwylid iddo fod ynddynt, sef y Cwrdd Eglwys ar foreu yr ail ddydd Mawrth wedi y Cymundeb, a'r Cwrdd Paratoad ar brydnawn y dydd Gwener cyn y Cymundeb." '178'

Dim ond wyth cyfarfod y mis y disgwylid iddo felly eu mynychu, a hynny pan oedd yn gofalu am dair cynulleidfa. Yna pan gymerodd ofal eglwys Melin-cwrt ger Glyn-nedd, disgwylid iddo,

"fyned yno un Sabboth cyflawn o bob mis, ac un brydnawn Sabboth am dri o'r gloch; a byddwn yn myned yno bob nos Wener i'r gyfeillach, oddieithr y nos Wener cyn y Cymundeb, pan y byddai y Cyfarfod Paratoad nos Sadwrn." <179>

Felly, dim ond oddeutu saith cyfarfod y disgwylid iddo eu mynychu yn eglwys Melin-cwrt pob mis. Pan oedd Arthur Jones yn weinidog ar eglwys Ebeneser, Bangor, cynhelid yn wythnosol oedfaon ar y Sul ynghyd ag ysgol Sul, cyfeillach a chyfarfod pobl ifanc. <180> Rhydd hyn ryw fras syniad i ni o nifer y cyfarfodydd a gynhelid yn y capeli, er wrth gwrs fod yr aelodau'n cynnal cyfarfodydd ychwanegol at yr uchod. Eto, nid oedd cyfnod y cyfarfodydd niferus eto wedi cyrraedd, - y rhai a ddaeth yn sgil dirwest, caniadaeth y cysegr a darlithoedd - ac o ganlyniad rhyw bump o gyfarfodydd a gynhelid yn wythnosol yn y capeli. Cynhwysai hyn un neu ddwy oedfa o fawl ac ysgol ar y Sul ynghyd â chwrdd gweddi a seiat ganol yr wythnos. Yn wir, nid oedd galw am fwy na hyn gan fod y ddyletswydd deuluaidd a chymaint o oedfaon yn cael eu cynnal ar yr aelwydydd. Prif bwrpas - os nad unig bwrpas - oedfaon a chyfarfodydd yr eglwysi oedd addoli Duw a chadarhau ffydd credinwyr gan ddyfnhau eu hadnabyddiaeth o Dduw trwy yr Arglwydd Iesu. 'Roedd eu holl gyfarfodydd yn grefyddol, ysbrydol a Beibl ganolog. Hwyrach fod hyn yn beth amlwg i'w nodi, ond eto mae'n bwysig bod yn ymwybodol wrth i'r ganrif gerdded yn ei blaen, fod mwy a mwy o gyfarfodydd yn datblygu lle 'roedd materion ysbrydol yn eilradd yn y gweithgareddau, ac nid yn ganolog, a llawer o'r cyfarfodydd hynny'n seciwlar eu naws. Nid oedd y fath gyfarfodydd yn bodoli yn yr eglwysi ar ddechrau'r ganrif.

Yn y rhan hon o'r astudiaeth byddwn yn cyfyngu ein sylwadau i gyfarfodydd yr eglwysi unigol - gan hepgor yn llwyr am y tro gyfarfodydd "enwadol," megis cyfarfodydd misol a chyfarfodydd chwarterol - gan fanylu ar y seiat, cyfeillach neu'r cwrdd eglwys. Y seiat oedd enw'r Methodistiaid Calfinaidd a'r Wesleyaidd ar y cyfarfodydd hynny lle 'roedd credinwyr yn rhannu eu profiadau ysbrydol â'i gilydd. Ymhlith y Bedyddwyr a'r Annibynwyr defnyddid yr enwau cyfeillach a cwrdd eglwys - er yn fynych yr oeddent hwythau'n defnyddio'r enw seiat. 'Roedd i'r cyfarfod eglwysig safle pwysicach yn eglwysi'r Bedyddwyr ar Annibynwyr nag oedd i'r seiat ymhlith y Methodistiaid. Y rheswm am hyn oedd mai yno yr oedd yr eglwysi yn trin a thrafod busnes a threfniadau'r eglwys. Ond eto gallai'r gyfeillach fod yn ddigon tebyg i'r seiat Fethodistaidd yn enwedig pan geid ynddi holi profiad.⁽¹⁸¹⁾ O'r dechrau 'roedd y seiat wedi bod yn rhan hollbwysig o weithgareddau eglwysi Methodistaidd⁽¹⁸²⁾ a dim ond ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y datblygodd y cyfeillachau ymhlith y Bedyddwyr a'r Annibynwyr.⁽¹⁸³⁾ Er hwylustod, ac i osgoi dryswch, fe ddefnyddiwn y term 'seiat' yn y fan hon fel enw ar fath arbennig o gyfarfod ymhlith y pedwar Corff Ymneilltuol, sef y cyfarfodydd hynny lle 'roedd Cristnogion yn rhannu profiad. Felly yn y cyswllt hwn fe fydd y gair 'seiat' yn cyfeirio hefyd at y cyfarfod eglwysig a'r gyfeillach.

'Roedd hawl gan y gwrandawyr dibroffes i fod yn bresenol ym mhob un o gyfarfodydd yr eglwysi - oedfaon y Sul, cyfarfodydd pregethu a chyrddau gweddi - ar wahân i'r seiat a'r cymun. ⁽¹⁸⁴⁾ Pan elwid seiat 'roedd hi'n ddisgwyliedig i'r gwrandawyr ymadael gan adael yr aelodau eglwysig ar ôl.⁽¹⁸⁵⁾ Yr unig eithriadau i hyn fyddai plant a darpar aelodau. Dywedai E. Hughes mai "cymdeithas grefyddol yn hollol a olygwn gymdeithas a alwn yn society. Crefyddwyr sydd i gyfarfod iddi, a phethau

crefyddol sydd i gael eu trafod ynddi."«186» Trwy hyn datblygodd yr arfer o ofyn a oedd rhywun wedi aros ar ôl o'r newydd? Pe byddai rhywun yn aros i fynychu'r seiat byddai hyn yn arwydd ei fod yn awyddus i gael ei dderbyn yn gyflawn aelod. 'Roedd y seiat felly yn gyfrwng arall a oedd yn cadarnhau'r gwahaniaeth rhwng yr eglwys a'r byd gan hyrwyddo'r arwahanrwydd. Y seiat mewn un ystyr oedd calon yr eglwys. Yma yr oedd cymdeithas y saint ar ei phuraf, lle'r oedd yr aelodau'n trafod a rhannu eu profiadau ysbrydol ac yma yn y cylch mewnol y gweinyddid y ddisgyblaeth, cerydd eglwysig«187» ac y derbynid aelodau newydd.«188» 'Rydym eisoes wedi trafod yr agweddau hyn yn yr adran gyntaf felly ni fydd rhaid manylu ymhellach arnynt yma. Wrth drafod y seiat ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd, fe ddywed Elfed Ap Nefydd Roberts,

"Dros y blynyddoedd, fel y tyfai ac y datblygai y seiadau, crewyd cymdeithas o fath wahanol: celloedd o gredinwyr yn cynnal a chefnogi, yn bugeilio ac addysgu ei gilydd. Dichon i'r seiat fod i raddau helaeth yn ddihangfa o galedi a thlodi bywyd bob-dydd. Ond o fewn eu cymdeithas glòs a'u gofal am ei gilydd, ffurfiwyd rhwydwaith o gymunedau oedd yn cynnig patrwm o fywyd cymdeithasol gwahanol - gwahanol ei safonau, ei ddiddordebau a'i ddiwylliant, gyda'r pwyslais ar brofiad ysbrydol, ar fuchedd foesol, ar onestrwydd, didwylledd a chyfrifoldeb am ei gilydd."«189»

Arbenigrwydd y seiat oedd pwysleisio cymdeithas y saint fel uned neilltuedig oddi wrth weddill y byd. Dywedodd William Williams o'r Wern un tro mai'r ffordd i wybod beth oedd ansawdd "pulse" eglwys oedd edrych ar ei chyfarfod gweddi. Anghytunai E. Hughes, Pen-maen, Mynwy, gyda'r gosodiad hwn gan ddweud mai "haws yw gwybod gwir ansawddiedydd a nerth crefyddol yr eglwys yn ei chyfeillachau crefyddol."«190» Galwai David O. Hughes y seiadau yn "brif gyfarfod yr eglwys yn mhob man."«191» Y seiat ar lawer cyfrif oedd y wir eglwys, y cylch mewnol o gredinwyr, y bobl oedd o ddifrif ynglŷn â'u Cristnogaeth. Credai "Pererin" mai dylanwad y seiat oedd un o'r

rhesymau pennaf pam fod Cymru wedi troi yn wlad Gristnogol, drwy iddi feithrin crefydd ysbrydol ymhlith y bobl. '192' Rhaid cytuno fod dylanwad y seiadau'n aruthrol fawr ar yr aelodau ac hefyd ar y gymdeithas yn gyffredinol.

Yn aml gelwid seiat ar derfyn gwasanaeth ar y Sul, '193' dro arall cynhelid seiat ganol wythnos, fel yn achos Cadwaladr Owen a gynhaliai seiat am wyth o'r gloch y bore ar un o ddyddiau'r wythnos. '194' Ond yn y mwyafrif o eglwysi fe geid seiat ar y Sul a chanol yr wythnos.

Ond beth oedd pwrpas ac amcan y seiat? Beth oedd nod y cyfarfod hwn? Dywedai Robert Ellis, Ysgoldy, Arfon, mewn erthygl o'i eiddo ym 1867, mai

"eu hamcan uchel yw meithrin crefydd ysbrydol y galon, cryfhau a gwresogi crefydd yn ei gwedd gymdeithasol, a dwyn yr oll allan i ymarferiad sanctaidd. A chyrhaeddant yr amcanion uchel hyn, nid yn unig trwy ddysgu a chynghori, ond hefyd trwy fod duwiolion yn mynegu i'w gilydd eu profiadau a'u gwahanol dreialon crefyddol: a pha foddion mor effeithiol i gyrhaedd yr amcan? Fel y mae'n hysbys, yr hyn a elwir genym yn "ddywedyd profiad." '195'

Yr un oedd barn E.W.Lewis, Drws-y-coed, Dyffryn Nantlle, yn Y Dysgedydd (1871), pan y cynghorai'r darllenydd gan ddweud,

"Pwysig iawn i ni hefyd ydyw bod yn ffyddlon i'r cyfarfodydd eglwysig wythnosol, o herwydd dyma un o gyfleusderau penaf i loewi arfau ein milwriaeth. Dyn mewn arfogaeth ydyw pob gwir Gristion, a hono yn arfogaeth gyflawn. Yr ydym yn cael ein cymhell i "wisgo holl arfogaeth Duw, fel y gallom sefyll yn erbyn cynllwynion diafol." Nis gallwn sefyll na rhyfela heb ein harfau, ac un o ddybenion y cyfarfodydd eglwysig ydyw, fod y saint yn cyfarwyddo eu gilydd i adnabod y gelyn yn ei wahanol ddullweddau o ymddangos ac ymosod.....Y mae pob gwir Gristion yn teimlo rhwymedigaeth arno i gyfarfod â'i frodyr a'i chwilydd yn nhŷ eu Tad, i adrodd helyntion taith yr anialwch wrth eu gilydd, a dweyd

am effeithiau rhinweddol dyfroedd bywiol yr iachawdwriaeth yn puro ac yn santeiddio eu calonau."(196)

Yn ôl D.O. Hughes yn y seiat yr oedd y Saint yn adrodd,

"eu helyntion, eu trallodion, eu hofnau, a'u profiadau y naill i'r llall. Yma hefyd y maent yn adrodd eu llawenydd a'u gorfoledd yn yr Arglwydd. Yma y maent yn derbyn cysur ac ymgeledd i'w heneidiau ar eu taith, a nerth i gyfarfod a'u gelynion: ac yma y mae Pen Mawr yr Eglwys wedi addaw ei bresenoldeb arbennig."(197)

Prif ddiben seiat yn ôl Iolo Wyn Lewis oedd, "bod yn gyfrwng cyfarwyddo eneidiau yn y bywyd ysbrydol."(198) Yn y seiat felly hogid meddyliau'r aelodau i werthfawrogi cyfoeth ysbrydol ac i sylweddoli eu bod yn bobl arbennig, yn blant i Dduw. Yma hefyd yr oedd pwyslais ar brofiadau'r aelodau, eu twf, eu temtasiynau, eu hofnau a'u buddugoliaethau. Mewn gair y seiat oedd y cyfrwng mwyaf i ffurfio bywydau'r aelodau a'u gwneud yn uned annibynnol, yn ynys o dduwioldeb yng nghanol môr o annuwioldeb. 'Roedd elfen arbennig iawn yn y seiadau, oherwydd yma yr oedd y Cristnogion yn dinoethi eu heneidiau yng nghwmni ei gilydd. Brodyr a chwirydd oeddent ar yr un gwastad â'i gilydd, yn credu yn yr un Arglwydd, yn brwydro yr un frwydr, yn wynebu yr un anawsterau, yn teimlo yr un poenau ac yn dyheu yr un dyheadau. Dywedai Robert Ellis, Ysgoldy, Arfon, fod y Cristnogion yn y seiat "yng nghyfrinach eu gilydd... yn agor eu cabinet, ac yn dwyn allan gemau gwerthfawr."(199) Mae'r gair cyfrinach yn addas iawn yng nghyd-destun y seiat, oherwydd drwy rannu profiadau dyfnaf y galon gydag eraill mae'n rhaid fod elfen ddofn o gyfrinach ac ymddiriedaeth ynddynt. Yn y seiat fe geid yr ymddiriedaeth honno, ac o ganlyniad 'roedd y sawl a'i mynychent yn ymdoddi i fod yn gymdeithas glòs, agos at ei gilydd a dibynnol ar ei gilydd a dyma un o gryfderau mawr y sect. Yr oedd aelodau'r seiat yn agosach at ei gilydd mewn llawer ystyr nag aelodau o'r un

teulu. <200> Dim rhyfedd fod D.Jones, Treborth, yn dweud mai, "seiat dda, yw y peth tebycaf i'r Nefoedd o ddim ar y ddaear." <201>

Dulliau o Gadw Seiat.

Yn ôl pob tystiolaeth cyfarfodydd agored oedd y seiadau lle 'roedd pob aelod a ddymunai yn cael rhannu ei brofiadau. Nid oedd unrhyw drefn benodedig i'w dilyn, 'roedd hynny'n gyfan gwbl yn nwylo'r sawl a fyddai'n arwain. Yng nghofiant R.Rowlands, Aberaman, ceir disgrifiad clir a chryno o'i ddull ef o gadw seiat.

"Wedi i ryw frawd ieuanc ddarllen a gweddïo, a phawb i gyd-ganu, buasai yn agor y gyfeillach ei hun - fynychaf drwy wneyd sylwadau oddiwrth y benod a ddarllenwyd, weithiau yn esboniadol, ac weithiau yn ymarferol, ond bob amser yn ymdrechu cymhwyso y sylwadau at ddeall a theimlad y rhai fuasai yn bresenol. Yna buasai yn cymeryd y naill ochr i'r hall yr wythnos hon, a'r ochr arall yr wythnos ganlynol i dderbyn adnodau gan y chwiorydd a'r plant; ac yr oedd yn hynod gartrefol gyda y rhan hyn o'r gwaith. Pan fuasai atebion y chwiorydd neu y plant yn cyffwrdd â'i deimlad, buasai yn tori allan i siarad yn yr oslef fwyaf effeithiol, nes dryllio pob teimlad.... Wedi gorphen â'r adnodau, buasai yn ceisio gan ddau neu dri o frodyr i siarad cyn terfynu, a buasai y rhai hyny lawer pryd yn teimlo yn hawddach i siarad na pheidio. Gofalai nad oedd y gyfeillach i bara yn rhy faith - ychydig gydag awr, fel rheol, a gofalai gadw dyddordeb y cwrdd i fyny i'r diwedd. Yr oedd am ddiweddu y cyfarfod yn ei flas, er i'r bobl awyddu am gyfarfod wed'yn." <202>

'Roedd yr arfer hwn o holi adnodau gan blant ac aelodau yn gyffredin iawn yn y seiadau, ac yn aml yn fodd i gychwyn ar y gweithgareddau a'r drafodaeth. <203> Wedi i'r adnodau gael eu hadrodd byddai'r arweinydd yn cydio mewn adnod arbennig a ddyfynnwyd gan wneud sylwadau arni, neu gyfeirio at hanes neu ddigwyddiad a ddeuai i'w feddwl, gan geisio ymateb gan eraill yn y gynulleidfa. Dull John Stephens o gynnal y seiat oedd dewis pennod, yna 'roedd pawb i ddysgu un o'r adnodau a'u hadrodd. Yn dilyn hynny byddai'n holi rhyw gymaint ar bob aelod am gynnwys

ac arwyddocâd y bennod. ⁽²⁰⁴⁾ Arfer Arthur Jones, Bangor, oedd rhoi paragraff o'r Beibl i fod yn sylfaen i'r drafodaeth a ddilynai. ⁽²⁰⁵⁾ Ar y llaw arall byddai rhai gweinidogion yn holi am gynnwys y pregethau ar y Sul blaenorol, gan ofyn pa argraff a adawyd ar feddyliau'r gwrandawyr. Wedi i'r seiadwyr ddweud eu dweud yna byddai'r gweinidog yn ychwanegu ei sylwadau a'i gynghorion ei hun. ⁽²⁰⁶⁾ Yn ei atgofion am "Y Gyfeillach Eglwysig" yn Y Dysgedydd (1865), dywed "Dysgybl" y byddai Mr. B. - ei weinidog, yn amrywio'n fawr o wythnos i wythnos yn ei ddull o gynnal y seiat, a thrwy hynny llwyddai i gadw diddordeb ei bobl.

"Un noson adroddid y bregeth, y noson arall holid profiad; yr wythnos drachefn byddai rhyw adnod i lawr, y gyfeillach nesaf teflid rhyw ofyniad i'r bwrdd; fel yr oedd y dyddordeb yn cael ei barhau gan yr amrywiaeth...os gwelai ei bod yn oeri, rhoddai emyn byr i'w ganu; neu efallai y troai at ryw hen frawd cynhes oedd yn lled sicr o daro tân; neu hwyrach yr ai allan o'r seat fawr, ac y cerddai ar hyd llawr y capel i ofyn gair i'r chwiorydd oedd yn rhy wylaidd i siarad allan." ⁽²⁰⁷⁾

Rhyddid oedd nodwedd y seiat ar y cyfan, rhyddid ffurf a rhyddid mynegiant. Gallai fod yn addysgol neu'n ymarferol, yn ddwys neu'n ddoniol, yn fywiog neu'n farwaidd. Dywedodd Robert Ellis, Ysgoldy, am y seiat, "nid doeth, ac yn wir, nis gellir, caethiwo y cyfarfodydd hyn at ryw reolau neillduol; rhaid iddynt gael bod yn rhydd." ⁽²⁰⁸⁾ Pan gyfyngir cyfarfodydd i drefn haearnaidd, golyga hynny ffrwyno teimladau a chaethiwo mynegiant. Nodwedd y seiadau hyn oedd rhyddid ac anffurfioldeb. Pe byddai rheolau'n cael eu gosod ynglŷn â chynnal seiat, yna byddai hynny'n dileu llawer o'i gyfoeth, cyfoeth a ddeilliai o'r elfen annisgwyl.

Ystyrid John Jones, Bryn'robyn, yn ei ddydd yn arweinydd seiat heb ei ail. Cydnabyddid ef ar ôl marwolaeth David Jones, Treborth, ⁽²⁰⁹⁾ fel y gorau yn Sir Gaernarfon am gadw seiat brofiad. Dywed ei gofiannydd, John

Jones, fod "ynddo bedwar cymhwyster arbenig i'r gwaith." Yn gyntaf, 'roedd yn wybodus yn y gallu o ymddiddan, nid traethu oedd ei ddull ond yn hytrach sgwrsio. Yn ail, gallai wneud sylw, yn gryno a chofiadwy. Yn drydydd, meddai'r ddawn i dynnu allan brofiadau o'r aelodau neu fel y dywedir yn ei gofiant, "medrai.....dynu allan ddyfroedd gloewon profiad o hen bwmp hesp, a hyn drwy roi tipyn o ddwfr i fewn yn gyntaf." Ac yn bedwerydd byddai ganddo lawer o gynghorion buddiol ar gyfer pob achlysur. (210)

Cyfarfodydd byrfyfyr oeddent, yn ddibynnol ar arweiniad yr Ysbryd Glân, a chan hynny yn hyblyg iawn. 'Roedd manteision ac anfanteision i natur fyrfyfyr y cyfarfod hwn. Rhai o'r anfanteision oedd blerwch, diffyg ymateb, tuedd rhai i fynd dros ben llestri pan fyddai'r drafodaeth yn boeth⁽²¹¹⁾ ac awydd rhai i ymddangos yn dduwiol. Ond un o'r manteision mwyaf oedd fod y seiat yn ddelfrydol fel cyfrwng i ymateb i anghenion ac amgylchiadau'r aelodau. Gallent fynd â'u beichiau, eu tryblith a'u hofnau i'r cylch mewnol hwn gan wybod y byddai cydymdeimlad a chefnogaeth. O ganlyniad 'roedd swyddogaeth y seiat yn amrywiol a phwysig ym mywyd yr eglwysi. Edrychwn yn awr ar rai o arweddau pwysicaf y seiat yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Cynghori.

Un peth a wneid yn gyson yn y seiadau oedd cynghori'r aelodau am amryfal bethau. Ceisiai W. Roberts, Amlwch, yn gyson wrth siarad â merched ieuanc eu hargyhoeddi fod gwylder yn un o rinweddau mwyaf merch. Un tro wrth ymddiddan â merch dywedodd, "Os collwch chi eich gwylder, ni fydd gan y byd un sicrwydd eich bod yn lodes eirwir, ac, efallai, na chewch chwi mor *credit* o fod yn eneth ddiwair." (212) Cynghorai John Jones, Bryn'rodyn, chwaer ieuanc o'r enw Mary oedd ar fin symud i fyw i Lerpwl. Fel W. Roberts,

Amlwch, dywedai yntau "mai prif addurn y fenyw ydyw gwylder." Fe'i cynghorai hi gan ddweud wrthi gadw ei gwylder, "neu bydd yn gâs gan bob dyn a dynes synwrol chwi. Cofiwch yr adnod hono, 'Benyw yn ofni yr Arglwydd hi a gaiff glod.' Os byddwch felly, ac os gwnewch fel yna, mi ddowch adre fel brenhines, yn llawn parch ac urddas." (213) Cyngor oedd hwn i'r merched fod yn ddiwair a glân eu buchedd. Trwy gynghorion o'r fath rhoddid arweiniad moesol pendant i'r aelodau gan eu harfogi i wynebu'r byd drwg anghrediniol. Rhybuddid aelodau'n garedig gan Cadwaladr Jones, Dolgellau, a oedd yn ei dyb ef mewn perygl o syrthio i demtasiwn. (214)

Yr arfer yn y Tabernacl, Bangor, oedd galw y rhai yr ymddiddenid â hwy yn y seiat i ddod ymlaen i eistedd ar y fainc o flaen y sêl fawr. Pan fyddai ieuenctid yn gadael eu cartrefi am un o drefi mawr Lloegr, gelwid arnynt i'r fainc i'w cynghori. (215) Dull Cadwaladr Owen, Dolwyddelan, oedd mynd o amgylch yr aelodau o un i un i ymddiddan â hwy. (216) Ambell dro byddai S. Owen, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, yn cynghori rhieni i fyw bywydau glân heb "unrhyw fwllch ynddynt," fel y byddont yn esiampl dda i'w plant ei dilyn. (217)

Cydymdeimlo.

Elfen arall yng ngweithgarwch y seiat oedd cydymdeimlo gyda'r sawl a oedd mewn profedigaeth. Fel enghraifft o hyn ceir darlun dwys o wraig dduwiol o'r enw Elizabeth Evans yn adrodd ei phrofiadau yn y seiat wrth Morris Hughes, Felinheli, wedi i ddau o'i meibion farw. (218) Hefyd byddai R. Tomos, Llidiardau, yn ei ffordd ddihafal ei hun yn gwneud ei orau i gysuro'r trallodus, er ei fod yn aml yn aneffeithiol a thrwsgl. (219) Dywedodd un brawd mewn seiat, - a oedd yn aelod yn eglwys y Methodistiaid Calfinaidd, Tanygrisiau - yn fuan wedi iddo gladdu aelod o'i deulu, fod

adnod ar ei feddwl sef, "Ymddarostyngwch, gan hynny, dan alluog law Duw." Ymatebodd Griffith Davies, Cefnbychan, gan ddweud wrtho, "fod dyfroedd Marah yn chwerwon iawn iddo yntau, ond fod yn dda ganddo ei fod wedi dod o hyd i'r pren i bereiddio y dwfr, sef ymddarostwng i Dduw; dyna sydd yn rhoddi llonyddwch a thawelwch i feddwl y Cristion. Fod dyfroedd Marah yn taflu yr annuwiol yn mhellach oddi wrth Dduw, ond yn dwyn y duwiol yn nes ato." (220)

Cadarnhau.

Rhan bwysig o waith y seiat oedd cadarnhau ffydd y credinwyr, yn enwedig y gweiniaid. Nid oedd W. Roberts, Amlwch, yn hoff o Gristnogion cwynfanllyd a fyddai byth a hefyd yn cwyno am eu gwendid a'u hofnau, gan ladd arnynt eu hunain. Dywedodd un tro wrth un o'r cyfryw rai, "ond pa beth sydd a wnelo hynny a'ch diogelwch chwi? Nid oes dim gwendid yn nhrefn Duw. Nid yw eich ofnau ddim yn dyfod o'r cyfeiriad hwnw." A thro arall dywedodd, "Y mae rhyw rai yn dal allan fod cwmp oddiwrth ras; credwn inau yr un peth a hwy pe meiddiwn, am haner munud, feddwl fod Duw yn gyfnewidiol; ond tra byddaf yn credu anghyfnewidioldeb Duw, ni chredaf byth fod cwmp oddiwrth ras." (221) Yn hanes eglwys y Methodistiaid Calfinaidd, Tanygrisiau, fe geir yr hanesyn canlynol.

"Dro arall yr oedd Shôn William mewn seiat, a'r Parch. Lewis William, Llanfachreth, yno yn ei chadw. Siaradai yr hen bregethwr am gadernid y Graig, a theimlai Shôn William y buasai yn dda ganddo fod a'i draed arni yn ddiogel. A gofynodd, i L.W., 'A fedrwch chwi ddim rhoi fy sodlau i ar y graig, L.W.?' 'Dy sodlau di! dy sodlau di!! Gafael gwael ydi gafael sawdl; mi dy ro'i di i gyd ar y graig yn ddigon sâff ond i ti gredu yn Iesu Grist,' ebai L.W., yn ei ddull sydyn hynod ei hunan." (222)

Mae'r hanesyn uchod nid yn unig yn esiampl o gadarnhau credinwyr ond hefyd yn enghraifft dda o lawer o'r hanesion a darddai o'r seiadau.

Pwysleisir ynddynt allu yr arweinydd i ymateb yn sydyn, deheuig a chofiadwy i sylw gan un o'r aelodau. Ambell dro byddai aelod yn mynegi amheumon ynglŷn â'i gyflwr yn y seiat ym mhresenoldeb Cadwaladr Jones. Ymateb Cadwaladr Jones fyddai ei holi yn bwyllog am effeithiau ei amheumon. Dyma un enghraifft.

"I b'le Dafydd bach, y mae dy amheumon a'th ddigalondid yn dy yru di? Wyt ti yn meddwl eu bod yn dy wasgu yn fwy difrifol at yr Arglwydd mewn gweddi? Neu ynte, dy adael di y maent yn yr un man? Beth a feddyli di am hyny? Yna cyn troi oddiwrtho at rywun arall, cynghorai ef gyda'r serchawgrwydd a'r difrifoldeb mwyaf." (223)

Dweud Profiad.

Gwedd arall ar y seiat oedd "dweud profiad." Dywedai Robert Ellis, Ysgoldy, fod dweud profiad yn ran hanfodol o'r seiat. Credai fod gwirionedd sanctaidd yn beth i'w deimlo a'i brofi yn ogystal â'i ddeall. Pa fodd y gallai ffydd a chariad yr Iesu fod yng nghalon unigolyn heb iddo deimlo ei effeithiau? Mae'r dyn sydd yn credu yn yr Iesu yn gwybod am weithrediadau grasol Duw ar ei enaid; yn gwybod beth yw galaru am bechod; yn gwybod beth yw "helbul flin gyda deddf yn ei aelodau yn gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl;" a gŵyr hefyd beth yw derbyn bywyd a dedwyddwch trwy yr Iesu. Dyma yn ôl Robert Ellis oedd "profiad," ac mae gan yr hwn sydd yn ei feddu rhywbeth i'w rannu gyda'i gyd-gristnogion. (224) Yr un oedd barn "Mr. B" - y gweinidog, yn atgofion "Dysgybl". "Y mae profiad i fod gyda chrefydd. Y mae hyny o grefydd sydd yn y byd yn grefydd brofiadol, yn grefydd y galon. Rhaid i'n profiad fod yn ffaith; nid adrodd ein dychmygion ein hunain, ond 'yr hyn a wnaeth Duw.' Ac mae eisiau gofalu ei fod yn brofiad i ni ein hunain; nid ail adrodd hen brofiadau pobl eraill, ond 'mynegu yr hyn a wnaeth efe i'n henaid,' i ni ein hunain yn bersonol.....Y mae gormod o gwyno arnom ein hunain yn ein cyfeillachau, yn lle adrodd beth

a wnaeth Duw." <226> Dyma felly a ddigwyddai yn y seiat, cyd-bererinion yn rhannu treialon a bendithion y daith ddaearol, gan gyfeirio at weithredoedd Duw yn eu bywydau. Isod fe geir enghraifft o Tanymarian <226> yn holi profiad gwraig o'r enw Margaret Tomos, yn y seiat,

"Yr oedd gan Mr. Stephens yn y gyfeillach ffordd o borthi y gwasanaeth trwy ddweyd "Ie." Cof yw genym am dano yn gwneud hyn wrth wrando ar yr hen chwaer ddoniol a goleuedig *Margiad Tomos*, Dolhelyg, yn dweyd gair. Safai wrth ddrws yr eisteddle, a gofynai, "Margret Thomas - gan seinio yr 'Th' yn y Thomas - be' sydd ar eich meddwl chwi heno? mae gynoch chwi rywbeth mi wn?" Dywedodd yr hen chwaer, mor agos ag y gallaf gofio, fel hyn, - "Meddwl yr oeddwn i heddi-w am eiriau Dafydd - 'Ie' - 'Cyfododd fi hefyd o'r pydew erchyll,' &c - 'Ie.' Yr ydan ni yn myn'd i bydewau erchyll yn amal - 'Ie' - ac yn glynu yn y pridd tomlyd - 'Ie' - A gweled Duw yn drugarog iawn yr oeddwn i - 'Ie' - Mae O wedi codi llawar, a galla ina ddeud, *cododd fi hefyd* - 'Ie' - A'i wel'd O yn gwneud llawar iawn yr oeddwn i - 'Ie' - Mi fasa yn o dda iddo fy nghodi o'r pydew, ond gosododd fy nhraed ar y graig - 'Ie' - A pheth mawr ydi i ni gael lle sicir i roi troed i lawr - 'Ie' - 'Gan hwylio fy ngherddediad' fy hun - 'Ie' - Ond mae O yn gofalu am dano i, ac yn fy nhywys - 'Ie' - Ac nid dyna'r oll chwaith - A rhoddodd yn fy ngenau ganiad newydd o foliant i'n Duw ni - 'Ie' - Mae O yn rhoi testun i ganu, ac ysbryd i ganu - 'Ie' - Ac mi leiciwn i yn arw dawn i yn gallu ei ganmol O yn fwy." <227>

Ceir enghraifft ragorol o'r math ymgom a ddigwyddai yn y seiadau yn nghofiant Cadwaladr Owen, Dolwyddelan. Er ei bod yn ymwneud â derbyn hen ŵr yn aelod credaf ei bod yn werth ei chynnwys yn y fan hon gan ei bod yn cyfleu naws y sgwrsio.

"Cadwaladr Owen:	'Wel frawd bach, ydach chi wedi penderfynu newid eich mistar?'
Hen ŵr:	'Ydw wir, Cydwaladr Owen.'
Cadwaladr Owen:	'Be fu yr achos?'
Hen ŵr:	'Ffrae ofnatsen fu rhyngom ni.'
Cadwaladr Owen:	'Rhywbeth ynghylch y gwaith?'
Hen ŵr:	'Na, soniwyd dim am hyny.'
Cadwaladr Owen:	'Ynghylch y cyflog, hwyrach?'
Hen ŵr:	'Naddo wir. Mi ddeuda i chi, Cydwaladr Owen. Treio gwneyd drwg rhyngwy i a'r hen wraig acw yr oedd o; deud nad oedd gynt hi ddim mwy o grefydd nag oedd gen ine, ond i bod hi yn rhagrithio. Celwydd ddeudi di'n dy ddannedd, Satan, ebre fi. Ac mi aeth y peth o ddrwg i waeth rhyngom ni, nes y deudes i wrtho fo yn i wyneb yr awn ni i berthyn i'r seiat. A dyma fi.'

Cadwaladr Owen: 'Daliwch ati i ffreuo hefo fo, frawd
anwyl.' "«228»

'Roedd y seiat felly'n gyfrwng hynod bwysig yn y gwaith o gadarnhau'r arwahanrwydd rhwng yr eglwys a'r byd. Tra oedd y seiat mewn bri, gwyddai'r aelodau'n ddigwestiwn eu bod yn bobl neilltuedig. Un o ddylanwadau pwysicaf y seiat oedd argraffu ar galonnau'r aelodau fod Cristnogaeth a'u ffydd yn berthnasol i bob gwedd ar fywyd. Digwyddai hyn drwy y cyngori, y rhybuddio, y ceryddu, y cadarnhau a'r rhannu. Nid oedd unrhyw wedd ar fywyd nad oedd Cristnogaeth yn ymwneud â hi. Hefyd trwy rannu profiadau dyfnaf y galon fe unid yr aelodau mewn modd cwbl arbennig yn gymdeithas o gredinwyr a ymddiriedent yn ei gilydd ac a ymddibynent ar ei gilydd yn llwyr. Cymdeithas a gredai fod "y byd" oddi allan yn ddrwg a gelyniaethus tuag atynt.

Niferoedd.

Cwestiwn diddorol y dylid ei ystyried yw faint o'r aelodau oedd yn mynychu'r seiat, yn enwedig yr un ganol wythnos? Hawdd oedd cael nifer dda pan elwid seiat ar ddiwedd oedfa ar y Sul, ond cwestiwn arall yw faint o'r aelodaeth oedd yn mynd i'r seiat ar noson waith? Anodd yw ateb y cwestiwn hwn ar ei ben, ond fe ymddengys fod newid wedi digwydd yn ystod y ganrif. Pan oedd eglwysi'n fychan o ran nifer, a phob un o'r aelodau'n adnabod ei gilydd yn dda, 'roedd hi'n eithaf rhwydd hel canran uchel o'r aelodaeth ynghyd. Ond wrth i eglwysi gynyddu 'roedd y gwaith yn mynd yn anos. Mewn un ystyr, oherwydd ei ffurf, cyfarfod ar gyfer cynulleidfa fechan oedd y seiat. Yn hynod effeithiol gyda chylch o dyweder 20-30 o gyfeillion oedd yn adnabod ei gilydd yn dda. Cwbl anymarferol ar y llaw arall fyddai holi profiad cant o bobl, gyda llawer ohonynt yn anadnabyddus i'w gilydd. Gan hynny, wrth i aelodaeth y Cyrff gynyddu 'roedd tuedd fod y

canran o'r aelodaeth a fynychai'r seiat yn lleihau, er hwyrach fod y rhif yn fwy. Gresynai E.W.Lewis, Drws-y-coed, Dyffryn Nantlle, ym 1871 fod cymaint o aelodau eglwysig yn esgeulus o'r cyfarfodydd wythnosol. Dywed,

"Ni raid ond myned i ambell Ysgol Sabbathol, lle y mae aelodau yr eglwys yn rhifo cant, na cheir gweled mai o 30 i 40 fydd o aelodau eglwysig yn bresenol. Yr un modd hefyd trwy yr holl gyfarfodydd a gynhelir yn nhŷ Dduw,.....Y mae gweled rhyw ugain allan o bum' ugain, yn dyfod i'r cyfarfodydd eglwysig, yn rhwym o beri i'r ffyddloniaid wangaloní...." (229)

Cofiai David O.Hughes am seiat yn eglwys y Methodistiaid Calfinaidd, Tanygrisiau, ym 1880 lle nad oedd ond ugain yn bresennol. (230) Rhif aelodaeth yr eglwys ym 1860 oedd 254. (231) Pan oedd John Thomas, Lerpwl, yn weinidog yng Nghlyn-nedd cymerodd ofal eglwys fechan Hermon a oedd oddeutu pedair milltir o Lyn-nedd. Bob mis byddai'n cynnal cyfeillach yno gyda dim mwy na phedwar yn cynnull ynghyd. Os ceid chwech yn y cyfarfod fe deimlid yn galonogol iawn. (232) Hwyrach mai eithriadau oedd cael ychydig yn y seiat ac mai dyma pam y cofnodid hwy ar gof a chadw, ond mae'r awgrym yn gryf mai canran fechan o'r aelodaeth oedd yn ei mynychu, yn enwedig yn ail hanner y ganrif.

Dywedai Robert Ellis, Ysgoldy, fod newid wedi digwydd yn agwedd rhai aelodau tuag at y seiat. Cwynai rhai ei bod yn annhrefnus a blêr. (233) Barnai eraill y dylid newid y dull o'i chynnal gan ei gwneud yn fwy "dyddorus." (234) Ond yr hyn a bryderai Robert Ellis yn fwy na dim oedd y ffaith nad oedd y seiat mor gynnes ac effeithiol ag y bu, a bod aelodau'n hwyrfrydig i ddweud eu profiad. 'Roedd hyn yn beth cwbl ddieithr yn hanes y Cyfundeb. Parodd yr amharodrwydd hwn i rai dynion ddweud fod cyfnod y "dweud profiad" yn prysur ddod i ben. Wrth geisio deall pam fod hyn yn digwydd rhydd Robert Ellis ddau reswm. Yn gyntaf, dylanwad y Saeson "a'u

dullwedd cymdeithasol oer a gochelgar," oedd yn gadael ei ôl ar y Cymry wrth iddynt gymysgu â hwy. Yn ail, "lluosogrwydd y cynulliadau eglwysig." Gwyddom o brofiad po fwyaf sydd mewn cyfarfod cyhoeddus, lleiaf yn y byd o bobl sy'n barod i siarad. ⁽²³⁵⁾ Dywedai ymhellach yn ei sylwadau deifiol ar yr "Eglwys Foethus," mai un o'i nodweddion yw boddhad.

"Yma," meddai, "mae ryw fymryn o gyfarfod eglwysig ar nos Sabboth yn ddigon gan y lluaus; bydd yr un wythnosol yn druenus o deneu. Mae dyweyd, a gwrando dweyd profiad, a rhyw bethau cyffelyb, yn rhy hên ffasiwn a diflâs, nid oes dim boddhad i'w gael mewn peth mor gyffredin a hyny. Ac oni cheir rhyw ddull newydd ar "gadw seiat," rhaid bwrw yr hen gyfarfod anwyl ymaith fel dodrefnyn heb hoffter ynddo." ⁽²³⁶⁾

Ys gwn i pa mor gyffredin oedd agwedd o'r fath yn eglwysi mawr ail hanner y ganrif?

Yr oedd Arthur Jones, Bangor, yn fynych yn cael anhawster yn y seiat i gael ymateb gan yr aelodau. ⁽²³⁷⁾ Hefyd yn eglwys y Methodistiaid Calfinaidd, Tanygrisiau, byddai rhai'n gwrthod yn llwyr dweud unrhyw beth. Yno, un tro, wedi i Joseph Jones, Doleulâs, adrodd ei adnod gofynnodd W. Mona Williams iddo, "Beth wyt ti'n i gael oddiwrth yr adnod yna Joseph?" Atebodd yntau, "wel di W.W. 'dydw i ddim wedi dwad yma i ddweyd yr adnod yna er mwyn i ti fy "nghatecesio" fi fel yna." ⁽²³⁸⁾ A oedd hyn yn arwydd o newid yn agwedd yr aelodau tuag at eu Cristnogaeth? Pan oedd pobl yn barod i ddweud profiad 'roedd Cristnogaeth yn grefydd hynod gymdeithasol. Nid rhywbeth preifat a phersonol yn unig ydoedd profiadau ysbrydol, i'w cadw yn gudd yn y galon, ond profiadau i'w rhannu gyda'r brodyr a'r chwiorydd, a allent fod o gymorth iddynt hwythau yn eu bywydau. Ond pan yw pobl yn gwrthod rhannu eu profiadau ysbrydol, yna mae Cristnogaeth yn datblygu i

fod yn ffydd fewnol a chyfrinachol yn unig, gan golli ei nodweddion cymdeithasol. <239>

Ym 1882 derbyniodd Cymdeithasfa Y Rhyl y cwestiwn canlynol gan Gyfarfod Misol Sir Fflint. "Pa fodd y dylid gweithredu tuag at aelodau Eglwysig sydd yn gwneyd arferiad o fod yn absenol o'r Cyfarfod Eglwysig yn ystod yr wythnos?" Yn y drafodaeth ar y cwestiwn hwn tystid fod y gŵyn oedd yn y genadwri yn un gyffredinol, a'i bod yn anos nag y bu i gael aelodau ynghyd i'r seiadau ac yn anos cynnal y cyfarfodydd yn effeithiol. Anogai'r Gymdeithasfa i bob ymdrech gael ei wneud gan yr eglwysi i gynnal y cyfarfodydd eglwysig yn effeithiol. <240>

Mae'n amlwg felly bod i'r seiat arwyddocâd y tu hwnt i'w dylanwad ysbrydol. Yr oedd yn offeryn pwerus i hyfforddi pobl mewn ymddygiad cymdeithasol oherwydd bod perthyn i'r seiat yn golygu mabwysiadu egwyddorion moesol clir ar y naill law ond hefyd yr oedd yn foddion i wreiddio pobl mewn cyfundrefn o werthoedd a oedd yn moldio eu dulliau o siarad, o wisgo ac o ymddwyn tuag at y bobl eraill, boed y rheini'n feistriaid gwaith, yn gymdogion, yn bartneriaid priodas neu'n gydweithwyr. Yn ddiweddarach byddai cryn ysgrifennu dychanol am waith y capeli'n dysgu moesau'r dosbarth canol i'w haelodau. Ond oddi wrth y dadansoddiad uchod gwelir nad hybu ffasiynau dosbarth oedd amcan gwaelodol y seiat ond ceisio hyfforddi gwerin amrwd mewn moesau a oedd, yn eu tyb hwy, yn fwy cyson â'r foeseg Gristnogol.

Pennod 14. Addoli.

Bwriadwn edrych yn awr ar ymddygiad aelodau'r Cyrff wrth addoli, ac ar natur yr addoliad yn eu plith. Ein diddordeb pennaf fydd, nid y cyfarfodydd eu hunain, ond ymarweddiad yr addolwyr mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Beth oedd ymateb cynulleidfa wrth wrando ar bregethau? Pa fodd yr oedd y genadwri yn effeithio ar y bobl a oedd yn bresennol? Yr ydym eisoes yn yr adran hon wedi edrych ar eu hanffurfioldeb, ac ar eu hagosatrwydd fel unedau Cristnogol yn y seiat. Ond yr oedd trydedd elfen bwysig yn eu cyfarfodydd a oedd yn nodwedd drawiadol o'r pedwar Corff. Yr elfen honno oedd teimladrwydd. Yn wahanol i'n cyfnod ni, nid oedd unrhyw reolau cymdeithasol anysgrifenedig yn gwahardd dangos teimladau ac emosiynau mewn cyfarfodydd cyhoeddus. I'r gwrthwyneb, 'roedd ymateb yn deimladwy weladwy i neges yr efengyl Gristnogol yn arwydd o ddifrifoldeb ac o'r ffaith fod y gwirioneddau'n cyrraedd y galon. Rhywbeth dieithr iawn oedd celu teimladau. Os oedd teimladau emosiynol cryf yn cronni yn y galon wrth wrando ar yr efengyl 'roedd hi'n gwbl dderbyniol eu dangos yn gyhoeddus. Yr eithriadau yn y cyfarfodydd cyhoeddus oedd y rhai hynny a fyddai'n eistedd yn fud heb ddangos unrhyw emosiwn nac ychwaith yn ymateb mewn rhyw fodd gweladwy i'r hyn a ddigwyddai. Nodweddid yr addoliad yn aml gan fywyd, egni, cynhesrwydd, gwres a sŵn. Fel y dywedai Henry Hughes wrth ddiffinio diwygiad, "enw arall arnynt, a thra phriodol, ydyw cynhyrfiadau crefyddol; oblegid y maent bob amser yn cynhyrfu teimladau dynion, ac y mae llawer o gynwrf a thwrw yn gystylltiedig â hwy."²⁴¹ Buasai eu hynni a'u brwdfrydedd yn eu haddoliad, fwy na thebyg, yn codi dychryn arnom ni, Gristnogion ffurfiol, ddiwedd yr ugeinfed ganrif. 'Roedd y teimladrwydd hwn i raddau'n gysylltiedig â'r anffurfioldeb a'r ffaith a nodwyd eisoes nad oedd rheolau cyhoeddus caethiwus o ymddwyn eto wedi datblygu. Pe bai rhaid cael un gair i ddisgrifio'r addoliad, rhyddid, fyddai'r gair hwnnw.

Mae'n amlwg fod nodweddion arbennig, os nad unigryw, i'r addoliad a'r gorfoledd Cymreig yn y ddeunawfed ganrif a chychwyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yng nghofiant Christmas Evans⁽²⁴²⁾ fe gofnodir amddiffyniad o'i eiddo dros yr hyn a elwid yn "Welsh Jumping," neu "mwynhad crefyddol," fel y gelwid ef gan Christmas Evans.⁽²⁴³⁾ Ym 1829 y gwnaeth yr amddiffyniad hwn a hynny yng Nghaerodor ym mhresenoldeb nifer o weinidogion Saesneg. Mae'n amlwg fod llawer o'r Saeson a gweinidogion Seisnig yng Nghymru yn bur amheus o'r gorfoledd Cymreig, ac fe aeth rhai ohonynt mor bell â'i gondemnio. Yn ystod Diwygiad Beddgelert, 1817-22, synnai'r Saeson a oedd ar ymweliad â'r ardal yn fawr at ymddygiad yr addolwyr yn y capeli, a daeth rhai ohonynt i'r casgliad mai ffurf ar wallgofrwydd ydoedd.⁽²⁴⁴⁾ Yn ei amddiffyniad, olrheiniai Christmas Evans y dull hwn o addoli yn ôl i gyfnod Harris, Rowlands, y ddau Williams a'r Diwygiad Methodistiaidd.⁽²⁴⁵⁾ "Trwy eu gweinidogaeth hwy," meddai, "y dechreuodd y canu a'r dawnsio hyn mewn mwynhad crefyddol yng Nghymru, y rhai sydd heb ymadael yn llwyr o'r Dywysogaeth hyd yma."⁽²⁴⁶⁾ Ceisiai Christmas Evans oleuo ei frodyr Seisnig drwy ddangos mai dylanwad yr Ysbryd Glân a barai'r "mwynhad crefyddol," a'i fod yn gyfrwng effeithiol i daenu'r efengyl Gristnogol. Yn wir, ymhelaethai gan ddweud mai un o'r rhesymau pam nad oedd yr efengyl wedi bod yn fwy effeithiol yn Lloegr, oedd oherwydd nad oeddent wedi profi'r nerthoedd ysbrydol hyn. Maentumiai fod gweddïau ffurfiol a phregethau di-fywyd fel "rhagfuriau i gauad allan y nerthoedd hyn yn Lloegr."⁽²⁴⁷⁾ Gresynai hefyd fod y nodweddion oeraidd Seisnig o addoli yn dechrau ymddangos ym mhlith y Cymry, "o dan liw bod yn drefnus." Dywed, "rhugnir canu pump neu chwech o bennillion cyn syched â Gilboa, yn lle pennill neu ddau, fel cân newydd a'i lloned o Dduw, o Grist, a gras a'r Ysbryd, nes hwylio y galon i addoli.....Trefn heb fywyd sydd yn hynod o ddiwerth."⁽²⁴⁸⁾ Ymosodai

Christmas Evans, yn ddigon caredig rhaid dweud, ar ddull sych y Saeson o addoli.

"Os edrychir arnoch mewn brawdlys, y dadleuwr mwyaf effeithiol, fel Erskine yn ei ddydd, a'ch boddlonia; ond chwi a foddlonwch ar bregethwr yn llafaru i chwi cyn farwed, a chyn iseled na ellwch braidd ddeall y drydedd a ddywedo; a chwi a elwch hyny yn 'weddeidd-dra yn y cyssegr.'....." (249)

Credai Christmas Evans ymhellach, ei bod yn ddisgwylliedig i Gristnogion ddangos eu teimladau wrth addoli, ac nid eu cuddio o dan gochl gweddeidd-dra.

"Os oes llawenydd a gorfoledd yn perthyn i ddyn, dylai llewyrch wyneb Duw yn y cyssegr ei ddwyn allan, nes yr ennyno tân, ac y llafaro a'i dafod, gan byngcio yn ei galon, a moliannu yn ei enau i'r Arglwydd." (250).....Nid oes un gymmeradwyaeth i neb gydag ysbryd cyfan, calon galed, ac agwedd ysgafn, ddiwylo, i gyffwrdd â'r gwaith hwn o foli yn y mwynhad; - nid yw yn cydweddu â neb ond yr hwn fyddo â'i galon yn toddi fel cwyr, gan redeg i ffurf-ddull yr efengyl." (251)

Ond beth oedd yn gynwysedig yn y "mwynhad crefyddol"? Rhydd y dyfyniad canlynol o'r amddiffyniad rhyw fras-olwg o'r hyn a ddigwyddai mewn addoliad o'r fath.

"Pan y byddo yr achos wedi myned yn isel a digynnydd, a phawb wedi myned i hepian, y mae y mwynhad, fel angel y golofn dân gynt, yn ymddangos pan byddo cyfyngder a phob peth ar y gwaethaf. Y mae ei neshad ef at y gynnulleidfa, fel gogoniant Duw yn dychwelyd i'r deml gynt, yn peri cynhwrf ar y brodyr, nes byddont wedi cael gweddi newydd, ac ysbryd newydd i addoli Duw. Ymafael hyny mewn un arall, ac ymddengys rhyw nerth a goleuni newydd yn y pulpud, fel y tybiai fod llais y pregethwr wedi newid, a'i ysbryd yn fwy efengylaidd, a'i fod yn pregethu gydag archwaeth rhagorach nac arferol. Disgyna tynerwch ar yr aelodau, a gwelir Meistrd. Llygaid Gwlybion ac Amen wedi cymmeryd eu lle yn eu mhysg. Yr awel nefol a gyrhaedd rhai o'r hen wrthgilwyr, a dygir hwy dan gerdded ac wylo i geisio eu lle. Erbyn hyn bydd sŵn Duw Hollalluog i'w glywed i'r cyntedd nesaf allan, ac yn dechreu cyffroi y gwrandawyr, fel gwynt nerthol yn ysgwyd gallt o goed.....Mae yr awel weithiau fel pe bai yn chwythu ar y cyntedd

allanol, y gwrandawyr, a'r bobl ieuaingc o ddeg, un ar ddeg, a phumtheg oed, pan na bydd dim llawer o wahaniaeth i'w weled yn y goleuni nac effaith y weinidogaeth o'r pulpud, nac ar yr eglwys. "«252»

Ar derfyn ei amddiffyniad amlygai Christmas Evans ei ddymuniad i Loegr gael ei bendithio gyda'r "mwynhad crefyddol" oherwydd yn ei dyb ef ni fyddai'r efengyl yn llenwi'r wlad heb raddau ohono.

Er fod y Saeson yn ddrwgdybus o'r dull Ymneilltuol Gymreig o addoli, fe ddengys amddiffyniad Christmas Evans fod ynddo nodweddion pur gynhyrfus a bywiog. Ar yr un pryd rhaid bod yn ymwybodol nad oedd pob oedfa yn gynhyrfus a bywiog, ac fe geid llawer o oedfaon cyffredin, tawel a di-eneiniad. Buom yn trafod yn gynt yn yr adran hon y ffaith fod rhai yn cysgu a dylyfu gŕn yn yr oedfaon, a hynny'n arwydd y gallai oedfaon fod yn drymaidd ar brydiau. Gan hynny, nid oedd pob oedfa'n ddiwygiad, ond eto 'roedd nodweddion diwygiadol i lawer o'r oedfaon, hyd yn oed mewn cyfnodau pan nad oedd diwygiad cydnabyddedig. Gellid galw rhai oedfaon yn ddiwygiadau un gynulleidfa, lle'r oedd yr Ysbryd Glân yn arwain y gynulleidfa i orfoleddu. Mae rhan fawr o'r cyfeiriadau sydd ar gael am addoliad a gorfoledd yn deillio o gyfnodau o ddiwygiad. O ganlyniad, nid peth hawdd yw gwybod beth oedd naws yr addoliad mewn oedfaon cyffredin. Go brin y byddai neb yn cofnodi yn fanwl oedfa sâl, ddigynnwrf, ar gof a chadw. Oblegid hyn cyfeiriadau at oedfaon bywiog a chynhyrfus sydd ar gael gan fwyaf. Gofynnwn yma, a oedd mwyafrif yr oedfaon yn rhai cynhyrfus? Oherwydd rhaid cofio fod diwygiadau'n digwydd yn fynych yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid oes rhaid ond cyfeirio at ddiwygiadau 1798-1802, 1806-9, 1811-14, Diwygiad Beddgelert ym 1817-22, 1828-30, 1839-42, 1849-50, 1858-60, diwygiad Cwm Rhondda 1879 a diwygiad Richard Owen ym 1883-5. «253»

Yn ychwanegol at rhain, 'roedd nifer o ddiwygiadau bychain lleol. 'Roedd y

cyfnodau o gynnwrf felly'n digwydd yn gyson yn ystod y ganrif, ac 'roedd eu dylanwad yn aros am flynyddoedd, ac yn gadael ei ôl ar yr addoliad. Ambell dro felly ceid cyfarfodydd cynhyrfus am gyfnodau o fisoedd, os nad blynyddoedd.

Pan fyddai'r amgylchiadau'n ffafriol a'r addoliad yn frwd, nodweddiad ymarweddiad yr addolwyr gan orfoledd arbennig. Yn awr fe edrychwn ar brif nodweddion yr addoliad, a'r dull yr oedd y Cristnogion yn mynegi eu mawl a'u clod i Dduw, gan ddangos eu teimladau.

Wylo.

Peth hynod gyffredin oedd i'r gynulleidfa yn ddynton, merched ac yn blant wylo mewn cyfarfodydd. Ar nos Sul, ym 1825, ⁽²⁵⁴⁾ yr oedd W. Roberts, Amlwch, yn pregethu mewn capel yn Llannerch-y-medd, Sir Fôn. ⁽²⁵⁵⁾ Nid oedd hi ar y pryd yn gyfnod o ddiwygiad, ond eto fe gafodd ei bregeth ddylanwad dwys ar y gwrandawyr. Wrth i W. Roberts rybuddio'r annuwiol o'u tynged 'roedd y gynulleidfa fel pe bai wedi ymddrysu, "yr oedd sŵn galar, a griddfan dystaw, yn rhedeg drwy yr holl addoldy, i fyny ac i lawr - aeth pawb yn foddfa o ddagrau ar unwaith." ⁽²⁵⁶⁾

Mewn atgofion am ei blentyndod ym mhentref Eglwys-bach, Dyffryn Conwy, cyfeiriai John Evans at gymeriad a adnabyddid fel H.H. Un o ddifyrion John Evans yn yr oedfaon, pan yn blentyn, oedd gwyllo ymateb H.H., i'r bregeth.

"Ei arfer cyffredin (h.y. H.H.) oedd, yn enwedig yn y moddion, gosod ei hun mewn ffurf mor galed a Stoic; ond nis gallai beidio teimlo, ac hyd eithaf ei allu cadwai y cwbl tu fewn, nes yn y man y lluchiai gylchau pob hunan feddiant, ac yr ymdorai i wylo dros y lle: rhyw un burst anferth felly. Yr oedd yr olwg ar ei wyneb yn yr ing hyn yn wledd." ⁽²⁵⁷⁾

Yn un o'i ysgrifau ar Ddiwygiad 1859 mae Robert Ellis, Ysgoldy, Arfon, yn cyfeirio at un o'r cyfarfodydd arbennig y bu ynddynt yn ystod yr adfywiad. Ar derfyn cyfarfod gweddi galwyd seiat, a gwelwyd fod rhai wedi aros ar ôl o'r newydd. Yna yn ddisymwth agorodd drws y capel a daeth oddeutu wyth o fechgyn ifanc i mewn yn y dychryn mwyaf gan eistedd ar fainc a wylo'n hidl.

"Wrth eu gweled hwy aeth pawb i wylo. A chyfarfod i wylo, gan mwyaf, fu hwn: tadau yn wylo, a mamau yn wylo, brodyr a chwiorydd yn wylo; wylo distaw, wylo o'r galon, ac addoli wrth wylo. Nid oedd gan neb flâs dros enyd yn y cyfarfod hwn ar ddim ond wylo! Ac O! gyda'r fath foddhâd yr wylai rhai mamau! yn lapio y cadach llogell âg un llaw ar y wyneb, a churo y glin â'r llaw arall, a wylo o fodd calon. A pha ryfedd? hawdd y gallai y mamau hyn ddywedyd. 'Am y bachgen hwn y gweddiâis.'....." (258)

Rhan o'r addoliad oedd y wylo, yn fynegiant o edifeirwch neu o ddiolch i Dduw am iachawdwriaeth. Byddai rhai'n wylo wrth wrando pregeth, wrth ystyried eu pechadurusrwydd, wrth feddwl am gariad Duw, neu yn wylo wrth weld pobl yn cael eu dychwel gan yr efengyl. 'Roedd wylo yn gwbl naturiol iddynt, nid oedd yn beth i gywilyddio wrtho nac ychwaith yn arwydd o wendid a diffyg rheolaeth. I'r gwrthwyneb 'roedd wylo dan ddylanwad yr efengyl yn arwydd o gyflwr calon unigolyn ac o'r ffaith fod efengyl Iesu Grist yn dylanwadu arnynt. (259)

Llewygu.

Digwyddiad lled gyson mewn cyfarfodydd cynhyrfus oedd fod rhai'n cael eu clwyfo gan y gwirioneddau a gyflwynid mewn pregeth, a bod hynny'n effeithio'n gorfforol arnynt. Ceir nifer o enghreifftiau o bobl yn mynd yn gorfforol sâl ar ôl gwranddo pregeth wrth iddynt fynd drwy fwch yr argyhoeddiad, ac yna yn gwella wedi iddynt edifarhau am eu pechodau a chredu yn yr Arglwydd Iesu. Cofiai Edward Davies, Trawsfynydd, am oedfa

arbennig fu yn Hen Gapel, Llanuwchllyn, tua 1808 pan oedd Cadwaladr Jones, Dolgellau, yn pregethu yno. 'Roedd yn ddiwrnod oer iawn, a Cadwaladr Jones yn traddodi ei bregeth yn bwyllog a digynnwrf. Ond rhywle tua chanol y bregeth dyma wraig yn syrthio i'r llawr mewn llewyg ac yn ymddangos fel pe bai'n cael trafferth i anadlu. Credai Edward Davies ei bod ar farw. Ond yna ymhen ychydig dyma eraill yn syrthio yn yr un modd. Wedi iddynt ddod atynt eu hunain dechreusant orfoleddu gymaint fel na allai Cadwaladr Jones barhau gyda'i bregeth. Yn y cyfnod hwnnw yn ardal Llanuwchllyn 'roedd yn rhaid i bob pregethwr bregethu'n araf a phwyllog gan ei bod mor rhwydd peri gorfoledd ymhlith y bobl. <260> Byddai George Lewis<261> yn cael dylanwad tebyg ar gynulleidfaoedd cylch Llanuwchllyn wrth bregethu. Wrth wrando arno, "syrthiai dynion yn gelaneddau meirwon heb un rhybudd, fel pe buasai angel marwolaeth âg asgell ei adenydd wedi cyffwrdd â hwy. Dygid y rhai a drywenid felly, a gosodid hwy o'r neilldu nes iddynt ddadebru; ac nid cynt y deuent atynt eu hunain nag y dechreuent ocheneidio am drugaredd, neu dori allan mewn gorfoledd." <262>

Bu digwyddiad cyffelyb yn eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Nhanygrisiau yn ystod Diwgyiad 1859. Mewn oedfa yn y capel 'roedd Robert Williams yn sefyll yn gwrando ar y pregethwr ac 'roedd hi'n amlwg i'r rhai oedd yn ei ymyl fod y gwirioneddau yn gafael ynddo yn dynn. Yna ar ganol y bregeth "fe'i clwyfwyd," ac fe syrthiodd i lawr i waelod ei sedd fel petai'n farw gan beri braw i'r gynulleidfa. Aethpwyd ag ef adref y noson honno ac wedi iddo ddod ato ei hun, rhoddodd ei hun i Dduw gan ddod yn aelod eglwysig. Nid gwaeledd corfforol na llewyg cyffredin oedd yn taro'r bobl hyn ond yn hytrach gwasgfa wrth iddynt ddod o dan argyhoeddiad ac yr oedd hynny'n effeithio'n gorfforol arnynt. <263>

Neidio.

Nodwedd arall yn y gorfoledd, yn enwedig mewn diwygiadau, oedd neidio wrth addoli Duw. Yn ystod y blynyddoedd 1828-29, bu diwygiad ym Morgannwg, a gwelwyd ei ddylanwad yn drwm ar Ebeneser, eglwys yr Annibynwyr, Aberdâr. Yn yr hen gapel byddai'r brodyr, Dafydd Shencyn, Shon Price a William Shencyn ynghyd ag eraill yn neidio wrth foli Duw. Byddai'r merched a'r gwragedd yn tynnu eu siolau a'u boneti er mwyn bod yn fwy rhydd i neidio. Yn y capel 'roedd bwrdd bychan, a than ddylanwad y gorfoledd byddai'r brodyr a enwyd uchod yn neidio i ben hwnnw gan weiddi "Hosanna a Bendigedig." Ofnai'r rhai oedd yn llai brwd eu teimladau y byddai'r bwrdd yn rhoi oddi tanynt, ond dal yn gadarn dan y neidio wnaeth y bwrdd.⁽²⁶⁴⁾ Parhau yr oedd yn neidio yn Ebeneser yn Niwygiad 1859, a'r hen bobl yn neidio i ben y seddau nes colli eu gwynt yn lân. Mae hanes am Shencyn Griffiths, a oedd yn ŵr oedranus ym 1859, yn neidio i ben y sedd fawr ac o'r fan honno yn annog y gynulleidfa yn yr oriel i neidio i fyny gan eu bod hwy yn nes i'r nefoedd na'r rhai oedd ar y llawr.⁽²⁶⁵⁾

Mewn cyfarfod gweddi yn Llanfechell, Môn, ym 1859 torrodd yn orfoledd, a neidodd un brawd ifanc yn ei lawenydd dros ddwy o'r seti i'r llawr lle 'roedd rhai yn gorfoleddu.⁽²⁶⁶⁾ Dywed Robert Edwards mai yr arfer yn yr hen gapel yn Llanfechell oedd i'r gorfoleddwyr hel at ei gilydd ar ganol y llawr. Digon hawdd oedd iddynt wneud hyn gan mai meinciau symudol oedd yno. 'Roedd Catrin Rondol, Lledrod, yn enwog am ei gorfoleddu, a byddai hithau a'r hen wragedd yn y capel yn "llamu fel ewigod."⁽²⁶⁷⁾

"John Jones y Neidiwr," y gelwid un cymeriad o Ben-y-ffordd-las, Trefaldwyn, a fu farw ym 1851. Ei hynodrwydd ef fel y gellid tybio oedd ei fod yn neidio ar bob gafael. Yn y capel, eisteddai John Jones yng nghornel

y sedd fawr, neu ar fainc ar lawr y capel. Ar ddechrau gwasanaeth ymddangosai'n gwbl dawel a digyffro. Yna yn fuan wedi i'r pregethwr ddechrau, clywid J.J., yn dweud "Amen" ddistaw, gynnes, ac ymhen ychydig funudau clywid "bendigedig" a "diolch iddo" yn fwy hygryw. Wrth i'r pregethwr gynhesu byddai J.J., yntau yn cynhesu nes yn y diwedd na fyddai'n gallu cadw'n llonydd. Dechreuai trwy gerdded ar hyd y sedd fawr yna ar hyd llawr y capel ac yn y diwedd byddai'n neidio a moliannu nes byddai ei draed yn aml yn uwch na thop y seti. <268>

Lluchiwyd gwraig un tro allan o oedfa mewn Eglwys Wladol ym Môn am ei bod yn gweiddi a neidio yn y gwasanaeth. Gwysiwyd hi o flaen esgob, a dywedodd ef wrthi, "Maent yn achwyn dy fod di yn gwaeddi ac yn neidio yn yr Eglwys santaidd, fel dynes allan o'i phwyll; rhaid i ti beidio gwneud hynny eto, onid é bydd raid i mi dy gosbi." <269> Atebodd hithau, "rhaid iddynt beidio son am Iesu Grist ynte." "Beth, a'i gwallgof wyt ti?", gofynnai'r esgob. Atebodd hithau,

"Maent yn dweud ar hyd y fro,
Mai meddw wyf, neu o fy ngho';
'Dwy'n ameu dim nad medd-dod yw
Ar felus win o seler Duw." <270>

Porthi a Bloeddio.

Gan fod y cyfarfodydd yn rhydd a chartrefol, 'roedd ochneidio, porthi a bloeddio yn bethau cwbl arferol. Cadarnheid yr hyn a ddywedid gan y pregethwr gydag "Amen", "Bendigedig," "Diolch iddo," neu ymadroddion cyffelyb. Peth dieithr at ei gilydd fyddai oedfa gyfan gwbl dawel lle na byddai na siw na miw o gyfeiriad y gynulleidfa. Yng nghofiant John Evans, Eglwys-bach, ceir disgrifiad rhagorol o ymddygiad y blaenoriaid mewn oedfa gyffredin ar y Sul.

"Ychydig o swm a gynhyrchent yn gyffredin, serch fod y gwrandawriad bob amser yn fywiog. Yr oedd ganddynt ddull o wyllo wynebau ei gilydd dan y bregeth, ac, os byddai achos, o deligraphio effaith y dylanwad o'r naill i'r llall; ond gwnaent hyn oll yn hynod ddirgelaidd, ac yn hollol foneddigaidd. Gollyngid allan ambell 'Amen!' a 'Diolch!' mewn llais cryf a pheraidd, gan wr Bryn-y-Frân, pan lenwid ei lygaid glâs mawr â deigrin; ymollyngai gwr y Berllan Bach, pan wrth ei fodd, i ryw chwerthiniad dirwasgol a nefolaidd, a dyhidlai gawod o ddagrau i'w gadach goch, gan ymgrymu â'i ben yn isel wrth ochr y pwlpud..... Ymsirioli fel adlewyrchiad haul ar fryn y byddai gwr Tan-yr-Ywen dan y bregeth, gan ysgafnhau ei fron addolgar âg ambell ochenaidd hygryw mewn llais tenor mwyn a chlochaidd. Pan welid arwyddion teimlad ar y pedwar hyn, toddai C. Foulkes yn ei sê, clywid 'Amen!' graslyd, ond hynod arwyddocaol, ar draws y llawr, o sê deuluol Tan-yr-Allt, o bendraw y capel, ac ymollyngai brodyr llai amlwg yma ac acw, yn enwedig brawdoliaeth y sê fawr, i borthi y gwasanaeth ac i gymysgu eu dagrau....." (271)

Ar ynys Môn yr oedd Morris Edwards yn gymeriad ar ei ben ei hun. Enillodd ef hynodrwydd mawr fel bloeddiwr mewn cyfarfodydd crefyddol. Os byddai rhywbeth mewn pregeth yn cyffwrdd â'i galon, cyn hir byddai'n rhoi bloedd nerthol nes cynhyrfu pawb. Nid bloeddiadau diystyr fyddai ganddo ond brawddeg fyddai'n mynegi ei feddwl ar ran o'r efengyl. 'Roedd rhai pregethwyr fel John Elias yn credu ei fod yn tarfu ar yr addoliad, ond yn gyffredinol rhoddid rhyddid iddo floeddio yn y cyfarfodydd. (272) Nid Morris Edwards oedd yr unig un a fyddai'n bloeddio mewn oedfaon, byddai Catrin Rondol, Lledrod, yn fynych yn torri ar draws y pregethwr. (273)

Gorfoledd.

Hyd yn hyn yn y bennod hon ar ymarweddiad wrth addoli, 'rydym wedi cyfeirio at nifer o elfennau unigol, wylo, llewygu, neidio, bloeddio a phorthi. Ond y gwir yw fod y rhain yn aml yn digwydd ar yr un pryd mewn oedfa. Creai hyn oedfaon hynod swmllyd, cyffrous a chynhyrfus a allai ymddangos yn anhrefn llwyr. Yng nghofiannau a chylchgronau'r cyfnod defnyddid y gair 'gorfoledd' i gyfleu'r holl elfennau hyn, ac mae toreth o

enghreiffitiau o oedfaon gorfoleddus. Priodol yw cyfeirio at rai ohonynt er mwyn cael darlun clir o naws oedfaon o'r fath.

Cynhaliwyd Cymdeithasfa'r Methodistiaid Calfinaidd ym Mangor ym 1838, ac oherwydd y tywydd gwlyb bu'n rhaid cynnal yr oedfaon yng nghapeli'r ddinas. Ar un o nosweithiau'r Gymdeithasfa 'roedd cyfarfod pregethu yn y Tabernacl a'r capel o dan ei sang. Y pregethwyr y noson honno oedd John Phillips⁽²⁷⁴⁾ a John Hughes, Pontrobert, ⁽²⁷⁵⁾ ac fel hyn y disgrifiai Henry Lewis yr oedfa,

"Pregethai (John Phillips) oddiar y geiriau, "Cymer addysg o Jerusalem," &c. Yr oedd ei weinidogaeth yn dra effeithiol, a'r gorfoledd mor gyffredinol ac mor uchel, fel, cyn y diwedd, nas gellid clywed yr un gair o'r bregeth yn yr oriel. Yr Hybarch John Hughes, Pontrobert, oedd i bregethu olaf. Dywedir ddarfod iddo roddi pennill allan i'w ganu cyn cymeryd ei destyn, ac i'r pennill gael ei ganu gan y rhai oedd yn y sêr fawr a'i chyffiniau, ond na wyddai y rhai oedd yn y gallery, gan fod y gorfoledd yn boddi y cwbl. Gwelid yr hen batriarch yn doddi ei law agored wrth ei wefusau er cynnorthwy i'w lais, ond ni chyrhaeddai yr un gair a ddywedai glustiau neb oedd yn yr oriel na rhannau o'r llawr. Rhoes y pregethwr i fyny'r cais, a therfynodd y gwasanaeth, ond parhaodd y gorfoledd uchel yn hir ar ol hynny." ⁽²⁷⁶⁾

Yr oedd nos Sul yr 21ain o Awst, 1859, yn noson fythgofiadwy i Robert Ellis, Ysgoldy, oherwydd y digwyddiadau yn yr oedfa hwyrol, yng nghapel Llanddeiniolen. 'Roedd y Sul wedi bod yn un digon cyffredin os nad yn fwy trymaidd nag arfer, ond yn oedfa'r nos cyneuodd y tân.

"Wrth ganu yr hen bennill - 'Gwnaed concwest ar Galfaria fryn,' &c. twymodd yr holl eglwys - aeth llawer iawn i wyllo, a rhai i lefain a gorfoleddu. Ond darfyddodd y gwasanaeth. Aeth llawer adref. Ond yr oedd llawer yn anfoddlawn i ymadael â'r capel. Dechreuwyd cyfarfod gweddi. Darllenodd un o'r brodyr ran o bennod oedd yn cynwys hanes croeshoeliad y Gwardwr. Yr oedd yr hanes mor newydd a dyaithriol a phe buasid heb ei glywed erioed o'r blaen, ac yr oedd ar unwaith yn cynyrchu teimladau dwysion iawn. Ond ar ganol y weddi, fel taran-folllt, dyma rywbeth annarluniadwy yn syrthio ar bawb oedd yn y capel, fel gwynt

nerthol yn rhuthro, nes llenwi yr holl dŷ, a pheri i bawb lefain am eu bywyd. Yr oedd y bechgyn afreolus, er eu bod yn rhyw lun o aelodau eglwysig, yn syrthio i waelod y seti, ac yn wylo, llefain, a gweddio. Yr oedd pawb yn y cyffro mwyaf. Beth a allai hyn fod? Wrth glywed y gwaeddi, daeth llaws o'r cymdogion yn nghyd, hen ac ieusinc, crefyddol a digrefydd, ac fel ar ddydd y Pentecost, felly y bu yma, hwy a drallodwyd. Yr oedd pawb yn llefaru megys â thafodau dyeithr. Ni welwyd y fath beth er's saith mlynedd ar hugain yn yr Ysgoldŷ." <277>

Yr un oedd hanes oedfa yng Ngharmel, Llanrwst, pan geisiodd John Evans, Eglwys-bach, bregethu yno yn ystod diwygiad 1859. Pan oedd John Evans mewn gweddi torrodd y gynulleidfa allan i weiddi. Codai'r bobl ar eu traed mewn cyffro mawr, rhai yn llefain fel pe baent mewn gwewyr. Bu'n rhaid i'r pregethwr dewi ac eistedd i lawr i wrando ar eraill. Ymhen ychydig tawelodd y gynulleidfa a rhoddodd John Evans ail-gynnig arni. Ond cyn pen deng munud ail gyneuodd y tân a dechreuodd rhai lefaru â thafodau, ac eraill a waeddent am drugaredd a gorfu i'r pregethwr eistedd eto. Gwnaeth John Evans drydydd a phedwerydd cynnig i barhau gyda'r gwasanaeth, ond bu rhaid iddo roi'r ffidil yn y to oherwydd y gorfoledd. <278>

Daw ein henghraifft olaf o orfoleddu o gofiant David Williams, Troedrhiwdalar. Ym 1840 bu diwygiad yn Nhroedrhiwdalar, ac am gyfnod o naw wythnos ni phregethodd D. Williams. Y rheswm am hynny oedd fod y gynulleidfa yn torri allan i orfoleddu bob tro y rhoddai gynnig arni. Dywedai J. Evans, Maendy, ei fod yn cofio diwrnod medi gwenith yn un o ffermdai'r ardal yn ystod y diwygiad. Yr oedd tyrfa luosog o weithwyr yn y cae yn hogi eu crymanau. Wrth iddynt wneud hynny tarawodd rhywun dôn, a chyn pen dim dechreusant foliannu. Bu rhaid i berchennog y cae gasglu'r crymanau ynghyd rhag i rhywun gael niwed, tra 'roedd yr addolwyr yn gorfoleddu am dros awr o amser. <279>

Yr oedd rhywbeth gorchfygol a heintus yn y gorfoledd. Ceir hanesion am bobl yn mynd i wasanaethau yn unswydd i wawdio'r addolwyr ond yn cael eu dal yn y gorfoledd ac yn y diwedd yn llefain am drugaredd Duw. (280)

Nodwedd arbennig i'r gorfoledd oedd nad oedd gan unrhyw un reolaeth arno; ni ellid ffrwyno cynulleidfa orfoleddus. Cyfeiriwn at un hanes o doreth o hanesion tebyg, fel enghraifft o hyn. Un noson yn ystod diwygiad 1859 "torrodd yr argae," a disgynnodd yr Ysbryd Glân ar gwrdd gweddi'r bobl ieuanc yn Nhanygrisiau. Wedi iddi droi deg o'r gloch aeth Rowland Edwards atynt gan ofyn iddynt ymdawelu a hel am adref. Ymadawodd pob un ohonynt ond am ddau a oedd yn parhau i eistedd yn y capel. Er mwyn arwain eu meddyliau oddi wrth y gorfoledd, gofynnodd Rowland Edwards iddynt adrodd pennill er mwyn iddo ei ddysgu. Ond cyn iddynt gyrraedd y llinell olaf neidiodd y ddau er eu traed gan weiddi, "O Diolch am y Gwaed, sydd yn glanhau oddiwrth bob pechod." Ymunodd Rowland Edwards gyda hwy gan weiddi a gorfoleddu. Clywodd eraill yn y gymdogaeth y dwndwr a daethant i ymuno â hwy, a bu yn ferw o orfoledd hyd hanner nos. (281)

Erbyn hyn fe welwn yn glir pa fodd yr oedd y gynulleidfa yn ymddwyn ac yn cymryd rhan weithredol yn yr addoliad. Nid oedd unrhyw ffurfioldeb yn perthyn i'r cyfarfodydd; i'r gwrthwyneb, 'roedd rhyddid i'r addolwyr fynegi eu teimladau'n fyrfyfyr a digymell. Canlyniad hyn oedd fod cyfle i bob un gymryd rhan. Nid oedd y siarad yn gyfyngedig i un dyn, ac nid un llais o'r pulpud yn unig a glywid, gallai unrhyw un ddyfynnu adnod, gweddïo neu ledïo emyn. Dyma yn wir oedd offeiriadaeth yr holl saint.

'Roedd cynnydd Pentecostaliaeth^{<282>} ymhlith pobl dloedion a gorthrymedig Cymru yn awgrymu fod gan y grefydd deimladol apêl neilltuol at y cyfryw rai. Wrth gwrs rhan o waith yr efengyl Gristnogol yw galluogi credinwyr i ddelio ag anawsterau bywyd, ac yn sicr yr oedd pobl yn troi'n rhannol at Gristnogaeth am gysur oherwydd caledi eu bywyd pob dydd. Ond mae rhai cymdeithasegwyr ac yn eu plith Werner Stark yn dueddol o fynd dros ben llestri gyda'u dehongliadau. Dywed Stark, "When all is said and done, the fact remains that the chief reason for men getting together in order to form sectarian groupings has been their unhappiness in, and revolt against, a social system within which their position - the position of their class - was, in Veblen's terminology, humilific, for instance because their livelihood was insecure or their wages low, or their status unsatisfactory."^{<283>} Rhaid cofio mai bwrddwn mawr Stark yw mai anfodlonrwydd cymdeithasol sy'n gyfrifol am fodolaeth y sect, meddai "sects are religious expressions of socio-economic dissatisfactions."^{<284>} Ni ddylid, wrth gwrs, diystyru'r amgylchiadau cymdeithasol, ond mae'r cwestiwn yn aros pam y dylai pobl ymateb yn ôl y patrwm teimladol yr ydym wedi ei ddadasoddi? I gael darlun cywir rhaid rhoi grym ffurfiannol i brofiad a rhagdybiau ysbrydol aelodau'r sectau, ac nid yw'r dadansoddiad seciwlaraidd yn gwenud hyn.^{<285>}

Ond erys y ffaith fod gwerin Cymru'n gweld atyniad yn y grefydd deimladol hon. Yr oedd cynnwrf emosiynol yn denu pobl anghrediniol i ymuno, ac yn foddion i'w hargyhoeddi. Yr oedd berw teimladol yn rhoi cyhoeddusrwydd dramatig i grefydd, ac 'roedd rhywbeth heintus yn y gorfoledd a'r emosiwn a oedd yn denu eraill. Yr oedd gweld sêl a thanbeidrwydd pobl a oedd yn mwynhau profiadau cynhyrfus yn creu dyhead ymhlith eraill am gael mwynhau'r un peth. Fel yr oedd addysg yn cynyddu, yr

oedd y duedd yn amlwg iawn i bobl ddisgyblu eu teimladau a'u mynegi mewn ffyrdd llai emosiynol.

Teimladau'n lleihau.

Er yr holl frwdfrydedd yn yr addoliad yn arbennig mewn cyfnodau o ddiwygiad, teimlai rhai fod amharodrwydd i ddangos teimladau'n dechrau codi ei ben a bod llai o ymateb i bregethu. Wedi iddo gyfeirio at gyfarfod gorfoleddus fu yn Llannerch-y-medd, ym 1825, ac ymateb y gynulleidfa o dan bregeth W. Roberts, Amlwch, ychwanega H. Jones, Bangor, y sylwadau hyn.

"Paham na welid teimladau cyffelyb yn awr, dan y gwrandawriad o'r un gwirioneddau? Ni ddywedwyd dim yn eglurach, nac yn fwy effeithiol, y pryd hwnw, o ran y traddodiad ym mhob modd, nag a leferir yn fynych yn y dyddiau hyn. Efallai nad oes yr un cyfrif athronyddol a ellir ei roddi, mewn unrhyw sicrwydd, am y gwrandawyr na'r pregethwr. Y mae ymarferiad yn newid ansawdd teimlad, er mai yr un yw'r gwirionedd." <286>

Ai rhamantu ynglŷn â'r gorffennol yr oedd H. Jones wrth ysgrifennu'r geiriau hyn ym 1869? Man gwyn man draw yw hi'n aml gyda'r gorffennol. Ynteu a oedd gwirionedd yn ei awgrym nad oedd gwrandawyr yn ymateb gyda'r un teimladau ag y byddent gynt i bregethau? Awgrymwyd yr un peth gan Robert Ellis, Ysgoldy, ym 1879, yn un o'i ysgrifau ar Ddiwygiad 1859. "O! yr hên wylo anwyl a welwyd mor gyffredin yn nghynulliadau crefyddol Cymru! A ydyw wedi myned allan o'r ffasiwn dros byth? Na ato Duw! Pwy a ŵyr na welir llawer eto yn dyfod "dan gerdded ac wylo i ofyn y ffordd i Sion, a Sion yn wylo gan lawenydd wrth eu gweled." <287> Yr awgrym yma gan Robert Ellis yw nad oedd pobl ym 1879 yn wylo mewn cyfarfodydd fel y byddent ym 1859. A oedd newid felly yn digwydd yn raddol yn ymddygiad y bobl wrth addoli? Pan yw'n sôn am gyfarfod cofiadwy fu yn Horeb, Bangor, ym 1861, lle 'roedd cynulleidfa ddwys yn ochneidio a wylo o dan arweiniad John

Evans, Eglwys-bach, y mae W.J. Parry, Bethesda, yn gofyn y cwestiynau canlynol,

"Mae y cwestiwn yma yn cynyg ei hyn yn gryf i'n meddwl: A geir pethau fel hyn yn yr oes hon? A yw y dwysder yma i'w deimlo y dyddiau hyn yn ein haddoldai cyn dechreu gwasanaeth? Ai tybed fod gweddiau fel hyn, a dagrau fel hyn, yn cysegru ein cysegroedd bob Sabboth yn awr? Ai ynte a yw hyn oll wedi eu hymlid o'n gwasanaeth gan rywbeth arall? Mae yn werth i'r eglwys edrych hyn yn ei wyneb, a chwilio i'r rheswm pam nad yw, os felly y mae." (288)

Anodd yw dyddio'r geiriau hyn gan W.J. Parry, ond mae'n debygol iddynt gael eu hysgrifennu tua diwedd y ganrif. Yr oedd ef fel H. Jones a Robert Ellis, yn teimlo fod newid wedi digwydd yn yr arddangosiad o deimladau mewn oedfaon. Os mai gwir hyn beth oedd y rheswm? Beth allai gyfranogi at wastrodi teimladrwydd cynulleidfaoedd Ymneilltuol Cymru?

Un rheswm a allai fod wedi cyfrannu'n rhannol at hyn oedd y ffaith nad oedd pawb yn hoff o deimladrwydd. Yn nauddegau'r ganrif 'roedd W. Williams o'r Wern yn pregethu mewn cymanfa yn Amlwch, Môn. Wrth iddo bregethu ar uffern, o ddameg y gŵr goludog, torrodd allan yn orfoledd ymhlith y gynulleidfa. Nid oedd William Williams yn credu fod hyn yn gydweddol â'i genadwri, felly rhoddodd gyngor caredig i'r gynulleidfa wrando ar ei bregeth gyda myfyrdod dwys. (289) Wrth gwrs ni ellir ar unrhyw gyfrif wneud gosodiad, ar sail yr hanesyn uchod, nad oedd William Williams o'r Wern o blaid gorfoleddu, ond yr hyn y gallwn ei ddweud yw fod gorfoledd yn creu anrhefn mewn cyfarfodydd a oedd ambell dro yn mynd yn groes i ddymuniad y pregethwr. Yn enwedig pan oedd y pregethwr wedi paratoi pregeth a dybiai a fyddai o werth i'r gwrandawyr. Ym 1854, cydbregethai James Jones, Abermaw, gyda John Thomas, Lerpwl, ym Mhwlheli. Yn yr oedfa honno pregethodd James Jones yn "erbyn i ddynion gael eu cario yn rhy bell gan eu

teimpladau gyda chrefydd nes ymollwng i neidio a gorfoleddu."²⁹⁰ Arweinydd y gân yng nghapel Tŵr-gwyn, Bangor, o'r dechrau hyd derfyn ei oes ym 1876, oedd Morris Davies. Ei arwyddair ef bob amser oedd, "gwneled pob peth yn weddaidd ac mewn trefn," ac 'roedd ei barch i dŷ Dduw yn ddiderfyn. Mewn cyfnodau o wres a chynyrfiadau blinid ei ysbryd yn fawr "gan bethau a ddygid i mewn i'r gwasanaeth....ac ni ddangosai ef ei hun unrhyw gyffro na theimpladau uchel un amser."²⁹¹ A dywedai William Ambrose (Emrys) yn ei atgofion y gwelodd lawer o "bobl a gyfrifid yn gall, yn gwatwar pob diwygiad mawr."²⁹²

Pa mor gyffredin oedd y safbwynt a fynegir uchod? A oedd mwy o bobl o'r un cyff â Morris Davies yn ymddangos erbyn diwedd y ganrif? Y gwir yw fod llawer o ffactorau yn rhoi pwysau ar yr addolwyr i newid eu hymddygiad. Gallwn nodi'r pwyntiau a ganlyn fel rhai o'r ffactorau hynny. Parch tuag at gapeli fel adeiladau "sanctaidd" yn cynyddu a phwyslais ar wedduster yn nhŷ Dduw. Yr awydd cynyddol i gael trefn ar bopeth gan gynnwys gwasanaethau; canlyniad gorfoledd oedd anhrefn. Nifer yr aelodau'n cynyddu a phobl yn analluog i ymlacio i'r un graddau yng nghwmni ei gilydd, gan nad oedd yr un agosatrwydd rhwng aelodau mewn cynulleidfaoedd mawr ag oedd mewn cynulleidfaoedd bychain. Yn ystod ail hanner y ganrif 'roedd llawer mwy o arweinwyr cymdeithasol yn aelodau o'r Cyrff, e.e. cyfreithwyr, ynadon. Nid gweddus oedd i bobl o statws golli arnynt eu hunain wrth addoli. Ac hefyd fel y nodwyd eisoes 'roedd dyfodiad addysg yn dysgu pobl i ddisgyblu eu hunain lawer mwy, ac i fynegi eu hunain mewn ffyrdd llawer llai emosiynol. Oherwydd y rhesymau hyn yr oedd teimpladrwydd yn lleihau a ffurfioldeb a threfnusrwydd yn prysur ennill y dydd.

Gellid crybwyll dwy ystyriaeth yn sgil y dadansoddiad hwn. Yn gyntaf, mae'n amlwg fod pentecostiaeth yn rhan o sectyddiaeth Cymru, er nad yw hi'n nodweddu sectau ym mhob oes nac ym mhob man. Gan mai un arall o nodweddion sectau yw rhoi pwyslais ar gytundeb athrawiaethol, y mae'n hawdd i'r ddisgyblaeth ddeallusol a'r teimladrwydd Pentecostaidd greu tyndra. Dyfynnwyd enghreifftiau o anniddigrwydd rhai arweinwyr yn wyneb teimladrwydd eithafol ac efallai fod yr argyhoeddiad wedi tyfu o dipyn i beth erbyn yr ugeinfed ganrif y dylai'r profiadau crefyddol fod bob amser yn rhai rhesymol.

Yn ail, fel y gwelwyd yr oedd tuedd amlwg i uniaethu pob cynnwrf teimladol a gwaith yr Ysbryd Glân. Hawdd iawn wedyn oedd i rai pobl ddod i gredu nad yw'r Ysbryd yn gweithio ond trwy deimladrwydd. A thuedd hynny drachefn oedd lleihau ymroddiad llawer at waith rhyddieithol, beunyddiol yr eglwysi mewn hyfforddi, addysgu a disgyblu.

Anhrefn.

Er ein bod wedi cyfeirio at y duedd gynyddol tuag at ffurfioldeb ymhlith aelodau'r Cyrff Ymneilltuol, un o sgil effeithiau pwysicaf y diwygiadau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd gwrth-weithio'r duedd hon. Yr oedd Robert Ellis, Ysgoldy, yn feddyliwr craff yn ei ddydd, ac yn ei ail ysgrif ar Ddiwygiad 1859, a ysgrifennodd ym 1879, mynega yr union bwynt hwn.

"Bu llawer o feio ar y pryd ar y brodyr anwyl oedd yn fwyaf selog gyda'r diwygiad, am eu hyfdra hwn o dori ar draws yr hên drefn sefydlog gyda phregethu. (Sef dod i lawr o'r pulpud i'r sedd fawr ar ôl y bregeth i gyfarch y gynulleidfa.) Eithr hyd y gwelson, peth naturiol i ddiwygiad cyffrous, fel yr un dan sylw, a fyddai taflu allan arferion dyeithr, a ymddangosai i sylwedydd oer yn bethau afreolus ac afresymol. Mor afreolus o beth a fyddai i'r hên Fethodistiaid, yn eu diwygiadau poethion, dori allan i

orfoleddu wrth y degau, a hyn ar ganol y gwasanaeth? Peth afreolus yn ol y drefn bresenol a fyddai canu yr un penill drosodd a throsodd nas gwyddom pa faint, ac eto yr oedd mor naturiol i galonau gwresog, ag a ydyw i galonau oerion ganu yr un penill ond unwaith. Hên chwaer yn Nghlynog mewn adeg o ddiwygiad brwd, fel y clywsom, oedd y gyntaf erioed a dorodd allan i neidio wrth orfoleddu. Nid oedd y chwaer hon wedi gweled na chlywed am neb erioed yn gwneyd peth mor afreolus; ond yn mhoethder ei hysbryd, gan nas gwyddai pa beth i wneyd â hi ei hun, dyna hi yn tori allan i neidio â'i holl egni, heb feddwl unwaith a oedd hyny yn weddus a'i peidio. A daeth neidio wrth orfoleddu yn beth mor gyffredin gyda'r hên bobl, fel y dewisodd y Sais oer eu galw yn *Jumpers*. Mewn adeg o dawelwch difraw, mae cadw o fewn cylchoedd ffurfiol yn beth hawdd; yn wir, mae tori ar eu traws yn beth anhawdd. Ond i yspryd wedi ei danio gan gariad Crist ac awydd angerddol am achubiaeth dynion, rhaid iddo gael tori allan yn ei ffordd ei hyn, ac eled ffurfiau i'r lle yr elont. Pa beth ond yr yspryd gwresog hwn yn tori ar draws hên ffurfiau gosodedig, a roes fôd i Brotestaniaeth, ac i Fethodistiaeth, ac phob aeth arall y bu y byd yn well ohonynt? A meiddiwn ddywedyd, pa bryd bynag y ceir diwygiad mawr eto yn ein gwlad, y bydd yn ormod tâsg i unrhyw allu daearol ei gadw o fewn ffurfiau gosodedig. Rhaid i ysbryd wedi ei roddi ar dân gan sêl dros Dduw, gael ei ffordd ei hun, costied a gostio." (293)

Cytunai William Ambrose (Emrys) gyda Robert Ellis pan ddywedai yn ei atgofion, "Cyfrifir annhrefn fel un o elfenau yr adfywiadau, a thrwyddedir arferion a ymddangosant yn hynod, mewn hanes, ond yn eithaf naturiol ar y pryd, i'r sawl a ymollyngant gyda'r llifeiriant mawr." (294)

Pan yw'n cyfeiro at gyfarfod yn Llanfechell, Môn, yn ystod Diwygiad 1859, dywed Robert Edwards y geiriau hyn, "anhrefn oedd y drefn y noson honno." (295) 'Roedd y diwygiadau felly'n atal cyfarfodydd y Cyrff rhag troi'n ffurfiol. Os oedd patrwm penodedig ddefodol yn datblygu yn yr oedfaon mewn cyfnodau tawel, yn y diwygiad canlynol fe chwelid y patrwm hwnnw'n llwyr. Trwy'r diwygiadau byddai arferion newydd yn datblygu gan ddisodli'r hen arferion. Yn y diwygiadau 'roedd pwysleisiadau amrywiol, rhai diwygiadau'n pwysleisio gweddi, diwygiadau eraill yn pwysleisio pregethu ac eraill drachefn gyda phwyslais uniongyrchol ar ddychwel eneidiau. Trwy ddiwygiadau hefyd byddai arweinyddion a phregethwyr newydd yn dod i amlygrwydd. (296)

Ym 1898 yr ysgrifennodd Edward Parry, Aberdulais, ei Lawlyfr ar Hanes y Diwygiadau Crefyddol yn Nghymru, ac ynddo mae'n mynegi'n glir fod agwedd aelodau tuag at addoli wedi newid yn ystod y ganrif. Wedi iddo adrodd yr hanes am "John Jones y Neidiwr," fe ychwanega Edward Parry y geiriau hyn.

"Beth pe buasai John Jones y neidiwr, neu ereill o'r un ysgol frwdfrydig ag ef, yn ymddangos am dro mewn oedfa yn yr oes oeraidd, stoicaidd, a ffurfiol hon o wrando ac addoli! Gwn fod rhai yn barod i feio ac ymosod yn ddiarbed ar John Jones a'i dylwyth am neidio; ond tybed nad yw y swrthi, y cysgadrwydd, a'r difrawder wrth wrando efengyl yn y dyddiau hyn i'w beio yn llawer mwy!.....yr oedd y neidio yn arwydd ei fod yn fyw, a bod y gwirionedd yn effeithio ar ei ysbryd, tra y mae yn ddigon anhawdd yn awr i allu dweyd pa un ai byw ai marw yw y gwranda-wyr, ac y mae'r cyrddau agos a bod mor ddystaw a'r bedd. Beth bynag am y neidio, gwyn fyd na cheid tipyn mwy o wres teimlad berwedig, ac ysbryd byw y dyddiau a fu, i'n cyrddau crefyddol yn y dyddiau hyn.....Cofiw'n yn dda am agwedd y brodyr yn addoli bymtheg mlynedd ar hugain yn ol yn y lle y dygwyd ni i fyny. Fel rheol, cyn y byddai y pregethwr yn terfynu, byddai y brodyr yn y sêr fawr i gyd ar eu traed, ac aml un ar lawr y capel; a'r hen chwiorydd fel yn cael eu hysgwyd yn ol a blaen gan awel nefol, gan guro eu clun âg un llaw, a chyda eu llogell-gadach â'r llall yn sychu eu dagrau; a'r "Amen" a'r "diolch iddo" yn llon'd y lle. Hen gyfarfodydd anwyl y dyddiau gynt! gwyn fyd na cheid hwy eto yn ôl." (297)

Mae'n arwyddocaol mai at y chwedegau - pymtheg mlynedd ar hugain yn ôl - yr oedd Edward Parry yn cyfeirio atynt fel y cyfnod y gwelodd addoli cyhyrfus y tro diwethaf. Oni welodd orfoleddu cynhyrfus rhwng diwedd diwygiad 1859-61 a 1898? Yr awgrym yw na welodd ef unrhyw beth tebyg ar ôl y diwygiad mawr hwnnw. Yn wir ym mhennod olaf ei lawlyfr fe ddywed ei bod ar ben "deugain mlynedd er pan gafwyd y diwygiad mawr cyffredinol yn ein gwlad; felly mae wedi bod yn gyfnod hirfaith o sychder ar grefydd, heblaw y cawodydd a ddisgynasant yn achlysurol yma a thraw mewn gwahanol gymydogathau." (298)

Gwelwn felly yn sicr fod newid wedi digwydd ym mhatrwm addoliad erbyn diwedd y ganrif. Erbyn hynny 'roedd aelodau'r Cyrff Ymneilltuol yn llawer mwy tawedog nac y buont yn gynt yn y ganrif, ac yn fwy amharod i fynegi eu teimladau. A yw hyn yn arwydd eu bod yn prysur droi'n enwadau? A yw diwygiadau ac yn enwedig gorfoledd ac ymgolli mewn mawl yn nodwedd sy'n gyfyngedig i sectau'n unig? A yw enwadau yn profi diwygiadau cyffredinol? Cyhyd ac yr oedd diwygiadau'n rhan o fywyd y Cyrff Ymneilltuol Cymreig fe gedwid nodweddion sectyddol. Oblegid 'roedd y diwygiadau'n atal ffurfioldeb gaeth a threfnusrwydd ddefodol. Hwyrach y gallwn ddweud pan ddarfu'r diwygiadau fod y Cyrff wedi mynd rhan bell o'r ffordd i fod yn enwadau. Hwyrach yn fuan ar ôl diwygiad 1904-05 y bu iddynt droi yn enwadau yng ngwir ystyr y gair.

Pennod 15. Pregethu.

Y mae dau bwnc yn weddill y mae'n rhaid eu trafod cyn ymadael ag addoliad sef pregethu a chaniadaeth y cysegr. Canolbwynt yr addoliad yn ddigwestiwn yn oedfaon y ganrif ddiwethaf oedd y bregeth ac ystyrid pregethu'r gair y rhan fwyaf allweddol o'r gwasanaethau. O fewn y Cyrff, trwy bregethu yr arweinid meddyliau mwyafrif yr aelodaeth yn athrawiaethol a moesol. Yr oedd dylanwad y pregethu yn ystod y ganrif yn aruthrol fawr ac ni ellir gorbwysleisio ei bwysigrwydd a'i effaith ar y boblogaeth yn gyffredinol a hyn wrth gwrs yn bell cyn dyfodiad y cyfryngau torfol. Pregethu oedd y cyfrwng mwyaf effeithiol a fu yn ystod y ganrif i gyrraedd trwch y boblogaeth gan liwio eu barn a'u meddyliau. Nid gormodedd yw dweud mai dylanwad pregethu oedd y dylanwad unigol mwyaf am gyfnod ar boblogaeth Cymru. Gan fod y rhan helaethaf o'r boblogaeth yn anllythrennog 'roeddent yn dibynnu'n llwyr ar y gair llafar, fel ffynhonnell gwybodaeth a syniadaeth. Trwy edrych ar y pregethu gwelwn beth oedd prif ogwyddiadau diwinyddol a chymdeithasol yr oes; gwelwn beth oedd eu hofnau a'u prif bwysleisiadau. Yn yr adran hon bydd ein diddordeb ni yn bennaf mewn pregethu fel rhan o'r addoliad, ac fel rhan o fywyd y Cyrff Ymneilltuol; fe gawn gyfle eto i drafod y weinidogaeth.

Dylanwad Pregethu.

I'r arweinwyr crefyddol, grym efengyl yr Arglwydd Iesu a weddnewidiodd Cymru i fod yn wlad Gristnogol, ond y cyfrwng i'w chyhoeddi oedd y bregeth. Fel hyn y dywedai Hiraethog wrth gyfeirio at rym y pulpud.

"Beth oedd cyflwr Cymru yn nyddiau ein tadau o ddau i dri chan mlynedd yn ol cyn pregethu yr efengyl iddi? Anialwch gwag erchyll - tir tywyllwch a chysgod angau, a heb drefn - yn llawn drain a mieri, anwybodaeth, anfoes a thrueni; ac i'r un cyflwr y dychwelai eto, pe collid y Pwlpud ohoni, ac y tawai gweinidogaeth yr efengyl wrthi....."Trwy broffwyd y dug yr Arglwydd Israel

o'r Aipht, a thrwy broffwyd y cadwyd ef," medd Hosea; felly yr un modd y gellir dweyd mai trwy bregethwr y dug yr Arglwydd Gymry o Aipht ei chaethiwed a'i thrueni ysbrydol, a thrwy bregethwr yn benaf y cadwyd hi fel y mae hyd yma." <299>

Yr hyn sy'n rhyfeddol yw nad gor-ddweud yr oedd Hiraethog yn y geiriau hyn, ond mynegi ffaith. 'Roedd hi'n ffaith i bregethu adael ei ôl yn drwm ar feddwl, ymddygiad a moes y Cymry, a hynny mewn ffordd gwbl anghyffredin. Dywedodd Owen Davies, Caernarfon, <300>

"Nid oes yr un wlad o dan haul wedi ei bendithio â phregethu mwy grymus na Chymru; ac er ei holl ddiffygion, nid oes yr un wlad â mwy o ôl gweinidogaeth yr efengyl arni na gwlad anwyl ein genedigaeith. O ddyddiau Vavasor Powell a Walter Caradock hyd yn awr, y mae y genedl wedi mwynhau rhai o'r doniau mwyaf hyawdl a dylanwadol. Nid yw y doniau hyn wedi bod yn gyfyngedig i un enwad." <301>

Yr un oedd barn Owen Thomas am bregethu Cymru,

"Er yr amrywiaeth diddiwedd o ran doniau, a geir mewn cysylltiad â'r weinidogaeth efengylaidd yn mhlith gwahanol genhedloedd, eto y mae yn sicr fod rhyw nodweddau neillduol ar bregethu pob cenedl, ag sydd, ar y cwbl, yn ei wahaniaethu, yn dra phendant, oddiwrth bregethu bob cenedl arall. Buasai yn dda genym pe buasai ein terfynau yn caniatau i ni ddangos hyny yn lled helaeth, gyda golwg ar Gymru, mewn cymhariaeth â Lloegr, Scotland, yr Iwerddon, a Ffrainc.....Yr ydym yn tybied y buasai cymhariaeth felly, yn ein galluogi i ddangos, nid yn unig fod nodweddau neillduol, ond fod rhagoriaethau neillduol ac arbenig yn perthyn i bregethu Cymru, sydd yn rhoddi cyfrif, o leiaf fel moddion, am safle uwch sydd i'r pulpud yn ein gwlad, a'r dylanwad cryfach sydd ganddo ar feddwl ein cenedl, nag a gafodd, hyd ag yr ydym ni yn deall, mewn unrhyw wlad arall, am gyhyd o amser, yn holl hanes yr Eglwys Gristionogol." <302>

Er mwyn cael rhyw syniad am ddylanwad pregethu edrychwn ar rai ystadegau perthnasol. Yn ôl cyfrifiad 1851 'roedd gan y pedwar prif Gorff Ymneilltuol rhyngddynt oddeutu 2,539 o addoldai, ac ar Sul y cyfrifiad yn oedfa'r bore fe aeth 131,827 i addoli ynddynt a 354,334 yn oedfa'r nos. Poblogaeth Cymru ar y pryd oedd oddeutu 1,180,938. <303> Mae'n bur debygol fod pregeth yn cael ei thraddodi yn y mwyafrif o'r capeli hyn. Yn ôl Ieuan

Gwynedd, 'roedd gan yr Ymneilltuwyr ym 1847, 1,973 o bregethwyr yn cyhoeddi'r efengyl. ⁽³⁰⁴⁾ Hynny yw, o ddeutu un pregethwr Ymneilltuol ar gyfer pob 598 o'r boblogaeth.

Mae'n anodd bellach amgyffred amllder pregethau. 'Roedd y nifer o oedfaon pregethu a gynhelid mewn blwyddyn yn aruthrol yn enwedig erbyn ail hanner y ganrif. Cymerwn Gymanfaoedd Annibynwyr, Lerpwl, fel enghraifft o hyn. Ym 1815 traddodwyd deg o bregethau, ⁽³⁰⁵⁾ ym 1827, 13⁽³⁰⁶⁾ a'r un nifer ym 1841. ⁽³⁰⁷⁾ Erbyn 1851, 'roedd y nifer o bregethau wedi cynyddu i 46, ⁽³⁰⁸⁾ ym 1874, 48, ⁽³⁰⁹⁾ ac ym 1883 traddodwyd 50 o bregethau a hynny mewn dim ond pedwar diwrnod. ⁽³¹⁰⁾ Yng Nghymanfa Annibynwyr Castell-nedd ym 1846 fe bregethodd 28 o bregethwyr yng nghapeli'r dref. ⁽³¹¹⁾ Yn ei adroddiad am foddion cyhoeddus Cymanfa Cendl ym 1859 dywed Moses Ellis, "yn yr hwyr, traddodwyd dros ddeugain o bregethau yn nghapelau y gwahanol enwadau o fewn dwy filltir o gwmpas." ⁽³¹²⁾ 'Roedd syched y bobl am bregethau yn ddiddarfod. Dechreuodd D. Jones, Treborth, bregethu ym 1826, erbyn y flwyddyn 1859 yr oedd wedi pregethu, 6,578 o weithiau, cyfartaledd o 199 o bregethau'r flwyddyn. ⁽³¹³⁾ Yn y flwyddyn 1854 pregethodd ei frawd John Jones, Tal-y-sarn, 324 o weithiau, a'r flwyddyn 1856 - y flwyddyn cyn ei farwolaeth - pregethodd 360 o weithiau, bron iawn unwaith pob dydd. ⁽³¹⁴⁾ Rhydd yr ystadegau hyn syniad pa mor aml yr oedd pregethau'n cael eu traddodi ac o'r nifer a oedd yn mynd i wrando arnynt.

Cynulleidfaoedd.

Yr oedd atyniad y pregethwyr, yn enwedig y pregethwyr mwyaf, yn gryf ac yr oedd cyrchu mawr i wrando arnynt. Yng nghofiant Edward Matthews, Ewenni, ⁽³¹⁵⁾ cyfeirir at Christmas Evans yn pregethu mewn cymanfa bregethu i dros ddeng mil o bobl. ⁽³¹⁶⁾ Tyrrai cynulleidfaoedd enfawr, yn ôl ein

safonau ni, i wrando arnynt, yn enwedig yn y cymanfaoedd awyr agored, a pheth cyffredin oedd capeli o dan eu sang, gyda rhan o'r gynulleidfa'n sefyll y tu allan oherwydd diffyg lle. Digwyddai hyn yn fynych i John Elias, oherwydd ei boblogrwydd, ac o ganlyniad 'roedd rhaid iddo bregethu wrth ymyl ffenestr fel y gallai'r rhai oedd y tu allan ei glywed. Ar brydiau eraill - os oedd y tywydd yn caniatáu, pregethai yn yr awyr agored oherwydd y niferoedd mawr fyddai'n awchu i'w glywed. (317)

Ffaith arall sy'n dangos poblogrwydd pregethwyr oedd fod gan rai ohonynt ddilynwyr a fyddai'n mynd i'w canlyn. Byddai edmygwyr Cadwaladr Owen, Dolwyddelan, yn ei ddilyn o gapel i gapel er mwyn gwranddo arno a hynny am bellter o ddeg i ddeuddeg milltir. (318) Yr oedd hi'n arferiad hefyd gan bobl y wlad i gyrchu yn finteoedd i'r trefi pan fyddai pregethwyr dieithr enwog yno. (319) Pan oedd R. A. Jones, Abertawe, ar ei ymweliad cyntaf â chymanfaoedd y Gogledd, yr oedd yn anarferol o boblogaidd. Yr oedd Sir Fôn, yn neilltuol, wedi ei swyno'n llwyr ganddo a dylifai'r torfeydd wrth y miloedd i bob man yr elai. (320) Yr oedd John Davies, Nercwys, (321) yn boblogaidd iawn ymhlith chwarelwyr Sir Gaernarfon, a phan fyddai ar daith drwy'r rhan honno o'r wlad byddai'r chwarelwyr yn gadael eu gwaith ganol dydd i fynd i wrando arno. (322) Pan fyddai John Evans, Eglwys-bach, yn pregethu 'roedd capeli yn llawer rhy fychan i gynnwys y cynulleidfaoedd oedd am wrando arno. Nodwedd y cynulleidfaoedd a fyddai'n cyrchu i'w weld ef oedd fod aelodau o'r pedwar Corff Ymneilltuol ynghyd â'r Eglwyswyr yn heidio i wrando arno. (323)

'Roedd dylanwad pregethu yn uniongyrchol ar y werin bobl. Dywedir fod pregeth a draddodwyd gan W. Roberts, Amlwch, yng Nghymdeithasfa Llanidloes ym 1818, wedi peri "sobrwydd rhyfedd ar y dref am

wythnosau."⁽³²⁴⁾ Wrth i'r ganrif gerdded yn ei blaen fe ymddengys fod parch cynyddol yn cael ei roi i bregethwyr a'u bod yn datblygu i fod yn arwyr y werin. Nid oedd E.Tegla Davies yn bell o'i le pan ddywedodd mai y pregethwyr oedd "sêr" y bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁽³²⁵⁾ Pan fu farw Griffith Roberts, Carneddi, ym 1896 bu rhuthr mawr "i brynu ei ddarlun ar ôl ei gladdu."⁽³²⁶⁾ Dengys y ffaith fod y werin yn prynu darluniau o'r pregethwyr fod edmygedd mawr tuag atynt yng Nghymru. Tua diwedd 1863 bu John Evans, Eglwys-bach, yn pregethu yng nghyfarfodydd pregethu Llan Ffestiniog. Ar yr un diwrnod daeth syrcais i'r gymdogaeth gan godi ei phabell nid nepell o'r "Assembly Room" lle cynhelid y cyfarfodydd. Clywid sŵn y band yn glir pan oedd y gwasanaeth yn dechrau. Ond methiant llwyr fu'r syrcais y diwrnod hwnnw gan fod yn well gan y mwyafrif o'r boblogaeth fynd i wrando ar y "Spurgeon bach," a bu rhaid i'r syrcais dynnu ei phabell i lawr erbyn naw oherwydd nad oedd cynulleidfa.⁽³²⁷⁾ Hanes arall a ddengys boblogrwydd pregethwyr fel John Evans yw hanes y frwydr fu rhwng cyfarfod pregethu ac eisteddfod mewn ardal yng Ngogledd Cymru. Ers blynyddoedd, yn yr ardal honno, 'roedd y Wesleyaid wedi cynnal cyfarfodydd pregethu ar y Llungwyn, ond penderfynodd eraill gychwyn eisteddfod ar yr un diwrnod. O ganlyniad edwinodd cynulleidfa'r cyfarfodydd pregethu gyda phobl yn tyrru i'r eisteddfod. Un flwyddyn daeth John Evans, Eglwys-bach, i bregethu yno ar y Llungwyn. Oherwydd fod y torfeydd mor lluosog yn oedfa'r bore bu rhaid symud i gapel mwy yn y nos, ac nid oedd hwnnw'n ddigonol gan fod llawer ar y buarth y tu allan. Daeth rhai ar drenau i'r ardal, gyda'r bwriad o fynd i'r eisteddfod, ond wrth weld y bobl yn heidio i'r capel aethant yn hytrach i'r fan honno. Canlyniad hyn oedd fod yr eisteddfod yn fethiant ariannol, er fod rhai o brif gantorion y genedl wedi eu llogi i ganu yno.⁽³²⁸⁾ Y gwir yw nad rhesymau ysbrydol yn unig a barai i'r torfeydd enfawr hyn fynd i wrando ar bregethwyr. Rhaid cofio nad oedd llawer o ddigwyddiadau

cymdeithasol adloniadol yn digwydd, gan fod chwaraeon, dawnsfeydd, nosweithiau llawen ac eisteddfodau wedi dod dan ordd yr Ymneilltuwyr ac wedi eu diddymu mewn llawer ardal. O ganlyniad byddai rhai'n mynd i wrando ar bregethwyr er mwyn difyrrwch ac adloniant a byddai eraill yno oherwydd chwilfrydedd. 'Roedd awyrgylch arbennig o gyffrous a disgwylgar mewn llawer o'r cyfarfodydd ac y mae torf bob amser yn denu eraill tuag ati.

Yr arfer gan rai oedd dilyn pregethwyr, gan obeithio y byddai'n pregethu pregeth arbennig. Dywed Robert Edwards, Llanfechell, Môn, iddo glywed pregeth gan Richard Owen wyth o weithiau, a dywedai,

"Y byddai nifer mawr yn myned gyda'u gilydd i rywle i'w wrandaw, a'r siarad fyddai, "Pa un a gawn ni heno, neu heddyw?" "Y mab afradlawn," meddai un. "Na, gwell gen i fuasai yr 'Ocsiwn ar y defaid.'" "Na," meddai un arall, "pregeth y 'deryn' i mi." Clywch y llall yn dywedyd, "Wir, un go dda oedd 'Pregeth y Paciau;' hono leiciwn i glywed." A neb yn disgwyl clywed un newydd." <329>

Y gwir yw fod llawer o'r pregethau yn cael eu traddodi drachefn a thrachefn. Mewn ardaloedd gwledig gyda phoblogaeth wagaredig gallai'r pregethwr ddefnyddio'r un bregeth droeon, a phan ar deithiau pregethu gellid traddodi'r un bregeth ddegau o weithiau. Dywedai Kilsby Jones nad oedd George Whitfield yn hapus gyda phregeth hyd nes iddi gael ei thraddodi ddeg ar hugain o weithiau. <330> Un o ganlyniadau defnydd cyson o'r un bregeth oedd ei bod yn grymuso a chyfoethogi gan ddatblygu i fod yn gampwaith caboledig. Arfer John Elias, yn ôl pob sôn, wrth fynd ar daith fyddai paratoi chwech o bregethau newydd a fyddai'n gwneud y tro o Gaergybi i Gaerdydd. <331> Byddai'r hen gymeriad Robert Tomos, Llidiardau, yn ddigon parod i draddodi pregeth neilltuol ar gais cyfeillion. Ambell dro, byddai rhai ohonynt yn ddigon hy i ofyn ar ddechrau oedfa am bregeth arbennig, ac fe fyddai R. Tomos yn fynych yn cytuno a'u cais. <332>

Pwrpas a Chynnwys Pregethau.

Ysgrifennodd Herber Evans lythyr i Seren Gomer ym 1890 yn mynegi ei bryder fod gweinidogion yn mynd yn unffurf. Credai mai'r rheswm am hyn oedd yr arfer gan weinidogion ieuanc o efelychu pregethwyr enwog. Crefai ar i bregethwyr fod yn naturiol, ac mai'r peth hanfodol i "sicrhau 'gwahanfodaeth'" oedd, "i bob un benderfynu darllen a siarad yn y pulpud fel y gwna cyn myned iddo." (439) Yr oedd Kilsby Jones o'r un farn ac 'roedd yn gas ganddo yntau unrhyw annaturioldeb yn y pulpud. Condemniai y rhai hynny a fabwysiadai lais dydd Sul y munud yr oeddent yn y capel. Yn ei dyb ef pechod oedd bod yn annaturiol drwy newid ystum y corff, gwedd yr wyneb, tŷn y llais, a'r dull o siarad. (440) Yr oedd yn gas hefyd gan Williams o'r Wern bregethwyr a oedd â dau lais ganddynt, un ar gyfer bywyd pob dydd ar llall ar gyfer y pulpud. (441)

Yr Hwyl.

Mae'n debygol fod yr hwyl Gymreig wedi bod yn effeithiol yn ei

dydd, ond y drwg oedd fod rhai pregethwyr yn gwneud ati i gyrraedd yr hwyl. Rhyw fath o lafarganu ydoedd rhywle rhwng adrodd a chanu, ac fe'i defnyddid gan amryw o bregethwyr yn y rhannau mwyaf teimladol o'u pregethau. ⁽⁴⁴²⁾ 'Roedd John Jones, Tal-y-sarn, Robert Tomos, Llidiardau, ⁽⁴⁴³⁾ Cadwaladr Owen, Dolwyddelan, ⁽⁴⁴⁴⁾ ac yn ddiweddarach A.J. Parry, Rhyl, ⁽⁴⁴⁵⁾ Moses Roberts, Llangollen, ⁽⁴⁴⁶⁾ yn mynd i hwyl wrth bregethu. Ond ni fyddai Thomas Aubrey byth yn ymollwng i'r hwyl. ⁽⁴⁴⁷⁾ Credai Owen Thomas mai hwn oedd un o brif ddiffygion y pregethu yng Nghymru. ⁽⁴⁴⁸⁾ Dywed, "Dichon...mai yn rhyw le yn nghyffiniau y neillduolrwydd hwn, yr oedd, ac y mae eto, un o ddiffygion mwyaf y pregethu Cymreig. Y mae siarad naturiol weithiau'n colli; a'r pregethwr yn syrthio i ryw oslef a thôn dra annaturiol a gwrthun; tôn mor arwyddol o ddiffyg teimlad dwfn yn y pregethwr, ac ydyw o annghyfaddas megis cyfrwng trosglwyddiad unrhyw addysg fuddiol i'r gwrandawrwr." ⁽⁴⁴⁹⁾ Gwendid A.J. Parry, Y Rhyl, am gyfnod oedd ei fod yn cario'r hwyl trwy gydol ei bregethau a rhoddwyd y cyngor hwn iddo. "Yr ydych chi yn canu pob peth yn ddiwahaniaeth - canu wrth ymresymu, a chanu cymariaethau. Siaradwch yn araf wrth ymresymu, a chenwch y casgliad yn effeithiol." ⁽⁴⁵⁰⁾

Pregethu Dychmygion.

Gwendid arall yng ngolwg rhai a ddatblygodd tua chanol y ganrif oedd yr hyn a elwid yn "bregethu dychmygion." Bu dadl ar hyn rhwng J. Davies, Glandŵr, ⁽⁴⁵¹⁾ a John Roberts (J.R.) yn Y Dysgedydd. Credai J. Davies fod arddull flodeuog ddisgrifiadol J.R., yn "wastraff ar amser ac yn gam â'r gwirionedd ac ag eneidiau." ⁽⁴⁵²⁾ Gwrthwynebai ddefnyddio brawddegau fel "Gosod Duw yn Bankrupt Corner Gazette Prydain," a "galw saint ac angyllion yn adar gwynion paradwys." ⁽⁴⁵³⁾ Ond dadleuai J.R., fod llawer o'r "cymariaethau barddonol" hyn yn deillio o'r ysgrythur. ⁽⁴⁵⁴⁾

Tystia'r ddadl hon yn fwy na dim at newid arall a fu yn y pregethu sef fod llawer mwy o eglurebau, straeon a darluniau'n cael eu defnyddio wrth bregethu, a hynny'n arwydd o'r pregethu poblogaidd. Drwy hyn 'roedd pregethu'n raddol droi at ddifyrru a diddanu'r gynulleidfa yn hytrach na chyflwyno gwirioneddau iddynt. 'Roedd y plisgyn yn dod yn bwysicach na'r cynnwys. Gynt gosodid gwirioneddau'n athrawiaethol a di-addurn, ond fe ddatblygodd yr arfer o wisgo'r gwirioneddau a darluniau cofiadwy. ⁽⁴⁵⁵⁾ Yr oedd ysmaldod a chellwair yn y pulpud yn gwbl wrthun i W.Griffiths, Caergybi, a byddai gweinidogaeth o'r pulpud yn delio mewn breuddwydion yn lle "iawn gyfranu gair y gwirionedd," yn gwbl annioddefol ganddo. ⁽⁴⁵⁶⁾

Beirdd Bregethwyr.

Datblygiad arall ymhlith y pregethwyr - yn enwedig ymhlith yr Annibynwyr - yn ystod y ganrif oedd ymddangosiad y beirdd bregethwyr. Dywedai David Griffith, Bethel, fod dau ddosbarth o bregethwyr yng Nghymru, "y bardd sy'n bregethwr a'r pregethwr sy'n fardd." ⁽⁴⁵⁷⁾ Gwir a ddywedodd, ond anghofiodd ychwanegu fod ymhlith y beirdd bregethwyr rai oedd yn gosod barddoniaeth yn flaenaf yn eu bywydau a phregethu'n eilbeth. Hwyrach y gellir gosod Hwfa Môn yn y categori hwn. ⁽⁴⁵⁸⁾ Llwyfan oedd y weinidogaeth iddynt nid i bregethu efengyl Iesu Grist ond i gyrraedd cyhoedd.

Mae'r datblygiadau a fu ymhlith pregethwyr a phregethu yn ddiddorol ac arwyddocaol i'r astudiaeth hon. Ac ni ellir hepgor pregethu wrth ymdrin ag unrhyw wedd o hanes Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, oherwydd fod ei ddylanwad mor drwm ar y werin bobl. Byddai astudiaeth fanwl o ddatblygiad pregethu a phregethau'n hynod ddefnyddiol a gwerthfawr. Gellir nodi nifer o bethau o bwys ar derfyn y bennod hon.

Trwy'r dull newydd o bregethu, sef y pregethu cymelliadol, fe lwyddwyd i achub llu o eneidiau ac ychwanegu niferoedd mawrion at aelodaeth yr eglwysi. 'Roedd effaith y cynnydd hwn yn allweddol yn natblygaid y Cyrff Ymneilltuol drwy gydol gweddill y ganrif ac i mewn i'r ganrif bresennol, fel y gwelwn ym mhennod olaf y traethawd hwn. Trwy ddoniau'r pregethwyr hyn gwnawd Cristnogaeth Ymneilltuol yn llawer mwy poblogaidd ei naws. Yn lle bod yn grefydd y lleiafrif, troes yn grefydd y mwyafrif. Gallwn nodi hefyd fod y dull newydd o bregethu yn rhan o'r symudiad graddol a fu yn ystod y ganrif tuag at lacio'r ddisgyblaeth, trwy ddisodli'r hen ddull pwylllog a phwysleisio'r angen i dderbyn Crist yn syth bin. Cwestiwn y gellir ei ofyn yma yw, a aethpwyd ati yn ormodol i bwysu ar i bobl - yng nghanol berw teimladol - i dderbyn yr Iesu fel Ceidwad, ac i roi eu bywydau iddo? Oherwydd gallai hyn - ond nid o reidrwydd - esgor ar aelodau anwybodus iawn ynglŷn â sylfeini'r ffydd. Aelodau a allent maes o law lasdwreiddio'r efengyl a cheidwadaeth y Cyrff.

Gwelwn hefyd, fel yr oedd diddordebau'r pregethwyr yn ehangu, gynt 'roedd eu gweithgareddau yn gyfyngedig i faterion Cristnogol yn unig. Ond erbyn diwedd y ganrif 'roeddent - yn gam neu'n gymwys - yn ymwneud ag amrediad mawr o bethau e.e. gwleidyddiaeth, barddoniaeth, eisteddfodau, darlithoedd, dirwest. Mae'n arwyddocaol hefyd fod y dull o bregethu'n datblygu i fod yn llawer mwy blodeuog, barddonol ac atyniadol. A bod y pregethwyr wrth wneud hyn yn ymateb i 'r angen i fod yn ddifyr a derbyniol gan eu cynulleidfaoedd.

Ac yn olaf, 'roedd llawer o'r pregethwyr yn cael eu dyrchafu i safle o edmygedd a phwysigrwydd, a danseiliai'r egwyddor o gydraddoldeb sy'n gynhenid i'r sect. Drwy i bregethwyr gael eu dyrchafu'n ormodol

collwyd yr ymdeimlad hwnnw mai un o'r werin bobl oeddent ac fe ddaeth y pregethwyr yn ddosbarth llawer mwy elitaidd, dosbarth oedd ar wahân i aelodau cyffredin y Cyrff.

Pennod 16. Caniadaeth y Cysegr.

Ni allwn ar unrhyw gyfrif adael maes eang addoliad heb fwrw golwg dros ddatblygiad canu cynulleidfaol a chaniadaeth y cysegr. Yn ystod y cyfnod dan sylw bu tyfiant aruthrol yn niddordeb y Cyrff Ymneilltuol mewn canu yn yr addoliad. Nodwn yn fras yma y prif gamau yn hanes canu cynulleidfaol Cymru.

Cyn y Diwygiad Methodistiaidd, yn y ddeunawfed ganrif, nid oedd gan y Cymry ond ychydig o emynau gan gynnwys Salmau Edmwnd Prys. ⁽⁴⁵⁹⁾ Yn sgil y Diwygiad aethpwyd ati i gyfansoddi emynau gydag emynwyr fel William Williams, Pantycelyn, ⁽⁴⁶⁰⁾ Dafydd Jones, Caer, ⁽⁴⁶¹⁾ Morgan Rhys, Llanfynydd, ⁽⁴⁶²⁾ Dafydd Williams, Llandeilo Fach, John Thomas, Rhaeadr Gwy, ⁽⁴⁶³⁾ Benjamin Francis, ⁽⁴⁶⁴⁾ Ann Griffiths, Dolwar Fach, ac eraill yn gwneud gwaith rhagorol. ⁽⁴⁶⁵⁾ Fe gafodd yr emynwyr hyn gymorth athrawon canu, i hyrwyddo eu gwaith, a byddent yn cynnal dosbarthiadau canu gan fynd ar siwrneiau ar hyd a lled Cymru i ddysgu eraill am hanfodion cerddoriaeth. Ymhlith yr athrawon hyn yr oedd Abram Morris, New Inn, Sir Fynwy, ⁽⁴⁶⁶⁾ Dafydd Siencyn Morgan, Llechryd, ⁽⁴⁶⁷⁾ Henry Mills, Llanidloes, ⁽⁴⁶⁸⁾ a John Ellis, Llanrwst. ⁽⁴⁶⁹⁾ Gwnaeth y rhain waith clodwiw yn hybu'r canu cynulleidfaol o Fôn i Fynwy.

Erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif gwelwyd yr angen cynyddol am werslyfrau addas Cymraeg yn ymwneud ag egwyddorion cerddoriath. Y cyntaf i sylweddoli hyn oedd John Williams (Siôn Singer), Llŷn, ⁽⁴⁷⁰⁾ a chyhoeddodd Cyfaill mewn llogell yn cynnwys agoriad byr ar y Glorian Peroriaeth, ym 1797, gyda'r bwriad o wella canu cynulleidfaol. ⁽⁴⁷¹⁾ Hwn oedd y llyfr cyntaf o'i fath yn y Gymraeg, ac yn ystod y ganrif ddilynol daeth toreth o rai eraill ynghyd â lli di-dor o lyfrau emynau. ⁽⁴⁷²⁾ Hefyd bu'r Ysgolion

Sul⁽⁴⁷³⁾ yn fodd i hyrwyddo'r canu ac o ddiwedd y tri degau ymlaen fe gafodd y canu cynulleidfaol hwb aruthrol gan y Diwygiad Dirwestol.⁽⁴⁷⁴⁾

Datblygiad pwysig ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd ymddangosiad yr ysgolion a'r cymdeithasau cerddorol.⁽⁴⁷⁵⁾ Pwrpas y rhain oedd dysgu tonau newydd a rhoi hyfforddiant cerddorol. Cychwynnodd Robert Williams ddosbarthiadau cerddorol bob nos Sadwrn yng nghapel Carneddi, Bethesda, Arfon, oddeutu 1829.⁽⁴⁷⁶⁾ Yn yr un flwyddyn cychwynnodd Cymdeithas Gerddorol Rhosllannerchrugog,⁽⁴⁷⁷⁾ ac ym 1830 sefydlwyd Undeb Cerddorol yn Aberystwyth o dan arweiniad Dafydd Phillip a Billy Collins.⁽⁴⁷⁸⁾ Rhwng 1830 a 1840 sefydlwyd cymdeithasau tebyg yn Llanidloes,⁽⁴⁷⁹⁾ Bangor,⁽⁴⁸⁰⁾ Môn,⁽⁴⁸¹⁾ Cerrigydrudion a Llanddarog.⁽⁴⁸²⁾ Diddorol iawn i'n hastudiaeth ni yw'r ffaith fod gan yr Undebau Cerddorol hyn, ar y dechrau, reolau arbennig ar gyfer eu haelodau. Er enghraifft yr oedd gan "Cymdeithas y Cantorion Crefyddol yn y Carneddi," a sefydlwyd ym 1828, dair ar ddeg o reolau. 'Roedd y pum rheol cyntaf yn ymwneud â'r Gymdeithas ei hun ond yn arwyddocaol 'roedd yr wyth dilynol yn ymwneud â moes a Christnogaeth. Disgwylid i'r aelodau feithrin ysbryd cariad rhyngddynt a'i gilydd, a diarddelid unrhyw aelod a fyddai'n euog o gyflawni "pechodau gwaharddedig yng ngair Duw." Derbynnid troseddwr yn ôl drachefn yn unig wedi iddynt edifarhau a dangos arwyddion amlwg o ddiwygiad. 'Roedd pob cyfarfod o'r Gymdeithas i gael ei gychwyn gyda darlleniad o'r Beibl a gweddi a therfynu hefyd trwy weddi. Gwaherddid yr aelodau rhag ymwneud ag "offerynau meirwon yn Addoliad Duw; megis y Delyn, a'r Organ, Pibelli a Chrythau a phob offeryn o'r fath."⁽⁴⁸³⁾ Yr oedd gan "Gymdeithas Gerddorol Rhosllannerchrugog"⁽⁴⁸⁴⁾ a Bangor,⁽⁴⁸⁵⁾ reolau cyffelyb. Arwyddocâd y rheolau hyn i ni yw fod y Cymdeithasau hyn yn gyntaf yn Gristnogol - nid cerddorol - ac fe ddisgwylid i'r aelodau fyw bywydau glân a dilychwin. Nid

oeddent yn agored i bawb beth bynnag oedd eu cred a'u hymddygiad. I'r gwrthwyneb, yn ôl y rheolau hyn, 'roeddent yn gyfyngedig i broffeswyr yn unig. Estyniad oedd y cyfarfodydd hyn ar y dechrau o gymdeithas y saint gan fod yr un rheolau yn llywodraethu yno ac yn yr eglwys.

Tua chanol y ganrif y daeth y "dadeni cerddorol" o ddifrif a hynny'n bennaf trwy ddylanwad Ieuan Gwyllt, ⁽⁴⁸⁶⁾ Tanymarian, ⁽⁴⁸⁷⁾ ac Ambrose Lloyd. ⁽⁴⁸⁸⁾ Dynion oedd y rhain a weithiodd yn ddiflino i godi safon canu cynulleidfaol trwy ddarlithio, dysgu, arwain corau a chyhoeddi llyfrau. Trwy eu gwaith hwy a'u tebyg newidiwyd agwedd y Cymry tuag at gerddoriaeth a daeth graen ar y canu cynulleidfaol. ⁽⁴⁸⁹⁾

Tonic Sol-Ffa.

Elfen arall a hwylusodd y gwaith o ddysgu canu oedd dyfodiad y Tonic Sol-ffa a oedd oherwydd y "modulator" yn llawer rhwyddach na'r hen nodiant. ⁽⁴⁹⁰⁾ Cyfieithodd Cynffig Davies werslyfrau John Curwen ⁽⁴⁹¹⁾ i'r Gymraeg ac yn chwedegau'r ganrif fe aeth Eleazer Roberts ⁽⁴⁹²⁾ ar ymweliad â phob sir yn y wlad yn egluro'r gyfundrefn. ⁽⁴⁹³⁾ Drwy'r gyfundrefn hon dysgodd llawer o'r werin ddarllen cerddoriaeth ac fe ddaeth gwir ddiwygiad yn y canu. Ers can mlynedd unsain fu canu cynulleidfaol Cymru, ond gyda dyfodiad y Sol-ffa fe ddaeth y canu pedwar llais. ⁽⁴⁹⁴⁾

Cymanfa Ganu.

O dipyn i beth fe ddatblygodd y cymanfaoedd canu a ddaeth maes o law yn hynod boblogaidd. ⁽⁴⁹⁵⁾ Mae'n debygol mai yn Aberystwyth y cynhaliwyd y gymanfa ganu gyntaf a hynny ym 1830, pryd y byddai aelodau'r gwahanol gapeli yn hel at ei gilydd bob dau fis i wella eu canu cynulleidfaol. ⁽⁴⁹⁶⁾ Ond ni ddatblygodd y gymanfa ganu yr ydym ni yn gyfarwydd â hi hyd 1860

pryd y cynhaliwyd cymanfa yn Aberdâr dan arweiniad John Roberts (Ieuan Gwyllt). ⁽⁴⁹⁷⁾

Cylchgronau.

'Roedd cylchgronau'r Cyrff hefyd yn gefnogol i'r gwaith o wella canu cynulleidfaol ac yn gyson fe geid erthyglau ar ganiadaeth y cysegr ac yn aml argreffid tonau i'w defnyddio yn yr addoliad. ⁽⁴⁹⁸⁾ Yn ail hanner y ganrif dechreuwyd argraffu cylchgronau penodol am gerddoriaeth. Cychwynnodd Ieuan Gwyllt Blodau Cerdd, ym 1852 ond ni ddaeth ond saith rhifyn o'r wasg. Ddwy flynedd yn ddiweddarach ymddangosodd Yr Athraw Cerddorol dan olygyddiaeth John Mills a Thomas Williams (Hafrenydd), ond byr fu ei hoedl gan nad ymddangosodd ond tri rhifyn. Ym 1861 ymddangosodd dau gylchgrawn sef Greal y Corau dan olygyddiaeth E. Stephens (Tanymarian), a'r Cerddor Cymreig, gan Ieuan Gwyllt. ⁽⁴⁹⁹⁾

Corau a Cherddorfeydd.

Mewn llawer o eglwysi fe ddatblygodd yr ysgol gân a gynhelid ar ôl oedfa ar y Sul, neu yn ystod yr wythnos. ⁽⁵⁰⁰⁾ O'r ysgolion hyn y tyfodd y corau a gymerent ran yn yr addoliad yn ogystal â chynnal cyngherddau. Dadleuai Tanymarian yn Y Cronicl (1849), y dylai pob capel gael côr i gynorthwyo gyda'r canu, ⁽⁵⁰¹⁾ a gadawodd ei ddadl ei hól ar gynllun y capeli a adeiladwyd ar ôl 1860, gan fod nifer ohonynt wedyn yn cael eu hadeiladu gyda seti arbennig i'r côr uwchben y pulpud. ⁽⁵⁰²⁾ Cynhaliwyd cyngherdd cyntaf côr eglwys yr Annibynwyr, Aberdâr, ym 1849 a gwnaethpwyd elw o 20p tuag at yr achos yno. ⁽⁵⁰³⁾ Ym 1852 cynhaliwyd eisteddfod yno a daeth tri chôr i gystadlu a'r beirniad oedd Tanymarian. ⁽⁵⁰⁴⁾ O hynny ymlaen bu côr y capel yn ddiwyd yn cynnal cyngherddau a chystadlu mewn eisteddfodau. Rhwng 1892 a 1897 bu iddynt berfformio Jerusalem, Meseia, Josuah, Jephtha, Acis a

Galatea a Samson. ⁽⁵⁰⁵⁾ Yr oedd gan eglwys y Tabernacl, Caerdydd, ddau gôr; y côr bach oedd yn gysylltiedig â'r Ysgol Sul, ⁽⁵⁰⁶⁾ a chôr o oedolion a leolid yn yr oriel uwchben y cloc yn ystod y gwasanaethau. ⁽⁵⁰⁷⁾ Nid yn unig 'roedd gan eglwysi gorau, ond 'roedd gan yr eglwysi mwyaf gerddorfeydd, datblygiad oedd hwn a gymerodd le yn nes at ddiwedd y ganrif. Yn yr wythdegau y ffurfiwyd cerddorfa linyddol Ebeneser, Aberdâr, ac mewn cyrddau mawr a chymanfaoedd canu 'roedd y gerddorfa'n cyfeillio'r canu. ⁽⁵⁰⁸⁾ Yr oedd band hefyd yng Nghapel Als, Llanelli, a gynorthwyai gyda'r canu yn yr oedfaon ar y Sul. ⁽⁵⁰⁹⁾

Gwelwn felly fod camau breision iawn wedi eu cymryd yn ystod y ganrif a weddnewidiodd y canu cynulleidfaol yng Nghymru. Un o ganlyniadau hyn oedd fod y canu yn well, ond gwelwn hefyd fod canlyniadau eraill a gyfrannai at y symudiad o'r sect i'r enwad.

Gwedd Werinol.

Er fod rhai unigolion wedi mynd ati yn ystod ail hanner y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i wella a hyrwyddo'r canu cynulleidfaol ymhlith y Cymry, fe ymddengys mai blêr ac amhersain oedd y canu yn y mwyafrif o'r capeli hyd y pumdegau os nad yn hwyrach na hynny. ⁽⁵¹⁰⁾ Gan mai anllythrennog oedd y mwyafrif o'r addolwyr ar ddechrau'r ganrif, a chan fod llyfrau emynau'n brin, yr hen arfer wrth ledio emyn oedd fod y pregethwr yn adrodd dwy linell ar y tro, yna cenid y geiriau gan y gynulleidfa, gwneid hyn bob yn gwplod hyd ddiwedd yr emyn. ⁽⁵¹¹⁾ 'Roedd hwn yn ddull hynod glogyrnaidd o ganu emynau ac ni ellid disgwyl canu gyda graen arno. Y geiriau gorau i ddisgrifio'r canu yn y cyfnod hwn yw gwerinol, di-addurn a di-drefn. Yn y mwyafrif o gapeli arweinid y canu gan godwr canu a'i waith ef oedd canfod tôn briodol i gyd-

fynd a'r emyn a ddewisid a'i tharo gorau ag y gallai. Nid gwaith hawdd oedd hyn, o bell ffordd, fel y tystia Robert Edwards, Llanfechell, Môn,

"Yn wir dylem ddiolch am gyfundrefn syml ac ardderchog y Tonic Sol-ffa, yr hon sydd wedi gwneyd mor fanteisiol er dwyn cerddoriaeth gyssegredig yn agos atom.....Dyna beth, fe allai, nad yw llawer o'n pobl ieuaingc ddim wedi ei ddeall yn iawn, sef y byddai yr hen gantorion yn arfer cyplysu tŷn â phennill neillduol. Dyna oedd yn peri un anhawster i'r "codwr canu." Yr oedd yn rhaid iddo gofio tŷn ddeuai ar y pennill hwnw." (512)

'Roedd y gwaith o godi canu rhywfaint yn rhwyddach, ond dim llawer, wedi dyfodiad yr amrywiol lyfrau emynau. Rhaid cofio nad oedd gan y Cyrff Ymneilltuol lyfrau emynau penodol iddynt eu hunain hyd ddiwedd y ganrif, felly 'roedd pob cynulleidfa unigol yn rhydd i ddewis y llyfr a fynnai. Ambell dro defnyddid mwy nag un llyfr. Dywed Llywelyn Jones,

"Y pryd hyn nid oedd y Tonau a'r Emynau yn un llyfr, a rhaid fyddai i'r dechreuwr canu arfogi ei hunan gyda Llyfr Tonau, Llyfr Emynau, a seinfforch; rhaid fyddai iddo chwilio am yr emyn, wedi hynny chwilio am dŷn ar yr hyd cyfaddas neu beidio (cael tŷn ar yr hyd fyddai y peth pwysig); wedi hynny "pitchio" y key, a hynny mewn amser byr iawn; a rhyfedd mor llwyddiannus a fyddent.....Nid hynny yn unig: rhoddid emynau allan o'r cof, yn enwedig yn y Cyfarfod Gweddi a'r Seiat, a'r rhai hynny heb fod yn y Llyfr Emynau, a byddai raid i'r brawd druan gael tŷn ar yr hyd a chofio'r emyn, a llawer tro yn anghofio, ac nid oedd dim i'w wneud ond cyfansoddi wrth fyned ymlaen." (513)

Llawer i dro fe welwyd y codwr canu yn methu â chanfod tŷn neu yn methu â "tharo'n" gywir i gychwyn emyn, yn enwedig pan oedd emyn anghyfarwydd yn cael ei ledio. Rhoddodd Owen Enos emyn allan un tro yn Hermon, Dowlais, a dyma oedd y canlyniad,

"Yr oedd yn anghyfarwydd, ac ofer i'r cantorion gyfrif hyd ei linellau wrth redeg blaenau eu bysedd dros eu gwefus. "I ddechreu," ebe Owen Enos; ond ni chodai sain o unlle. Yr oeddynt

yn methu ieuo tŷn wrth yr emyn, ac yr oedd y distawrwydd yn fath y gellid ei deimlo." (514)

Bu distawrwydd cyffelyb mewn llawer o gapeli yn y ganrif ddiwethaf wrth iddynt fethu â chychwyn ar y canu. (515) Ar ben hyn unsain oedd y canu, gan nad oedd canu mewn cynghanedd eto wedi datblygu ymhlith y cynulleidfaoedd; fe ddaeth hwnnw'n ddiweddarach gyda chyfundrefn y Solffa. (516) Nid oedd rheolau ychwaith wedi datblygu ynglŷn â chodi wrth ganu. (517) Yr oedd rhai yn sefyll wrth ganu ac eraill yn eistedd i lawr. Dywedai D. Richards, Caerffili, mai'r "agwedd fwyaf gweddus wrth ganu yw sefyll," gan fod hynny'n fanteisiol i'r llais. Arwydd o ddiogi yn ei dyb ef oedd fod rhai yn y gynulleidfa yn eistedd yn ystod yr emynau. (518) Yr un oedd cyngor "M." yn Y Geiniogwerth (1847), "Wrth ganu mawl, na fydded i neb eistedd yn swrth a dŷog ag sydd yn meddu nerth digonol i sefyll, yr hyn yn ddŷiau yw yr ystum fwyaf prydferth, esmwyth, a manteisiol, yn nghyflawniad y ddyledswydd hon." (519)

Un o effeithiau mwyaf y diwygiad cerddorol oedd dileu llawer o elfennau gwerinol, amhroffesiynol ac anhrefnus y canu, gan ddod â threfn a graen i ganiadaeth y cysegr. Gweithiodd yr arweinyddion cerddorol yn ddygn i ddisodli hen donau ac emynau a ystyrid yn amhriodol i'r addoliad gan roi yn eu lle emynau a thonau mwy addas. Dros y blynyddoedd 'roedd llawer o emynau a thonau gwerinol wedi datblygu a oedd yn nhyb yr arweinwyr cerddorol yn anaddas. Ymosododd Ieuan Gwylt a Thanymarian ar y "cymysg-bethau, diathrylith, dichwaeth a didrefn, y rhai nad oeddynt na Thonau, nac Anthemau, na Chydganau...." (520) Fe aeth Ieuan Gwylt ar daith ar hyd a lled Cymru i ddarlithio ar gerddoriaeth gan roi enghreifftiau o'r tonau a oedd yn annheilwng o gael eu canu yn yr addoliad. (521) Cofiai Robert Edwards, Llanfechell, Môn, gyfnod pryd yr oedd tonau a geiriau amhriodol yn

cael eu defnyddio yn yr addoliad. Bu un tro mewn gwylnos bachgen pum mlwydd oed, ac fe ganwyd y geiriau hyn.

"Dyma blentyn wedi marw,
A'i dad a'i fam yn crio'n arw;
Ond er nad yw ef fawr o oedran
Y mae wedi marw'n gelan." <522>

Dro arall aeth i angladd gwraig grefyddol ac wrth y bedd rhoddodd y gweinidog y pennill tra phriodol "Bydd myrdd o ryfeddodau," i'w ganu. Dewiswyd y dôn "Endsleigh," a chanwyd y geiriau'n siriol ac ysgafn o'r dechrau i'r diwedd. <523> Credai Robert Edwards pan ysgrifennodd yr atgofion hyn fod digwyddiadau tebyg i'r uchod wedi marw o'r tir. Trwy waith y genhedlaeth hon o gerddorion dilewyd yr elfennau byrfyfyr a oedd yng nghanu'r Cyrff gan fod yr emynau yn cael eu hymarfer a'u dysgu. Arfer gan lawer o gynulleidfaoedd Cymru, yn enwedig pan yn gorfoleddu, oedd ailadrodd brawddegau neu bennill mewn emyn drosodd a throsodd, a hynny weithiau ddegau o weithiau. <524> Fe ymddengys fod yr arfer hwn wedi darfydd i raddau helaeth gyda'r ddisgyblaeth gerddorol a ddaeth.

Gwrthwynebiadau.

Ond nid oedd y diwygiad cerddorol heb ei feirniaid a'i wrthwynebwyr. A siarad yn gyffredinol 'roedd y gwrthwynebiad yn driphlyg; sef, gwrthwynebiad i'r defnydd o offerynnau mewn addoliad, gwrthwynebiad i gorau ac ymarfer canu, ac yn olaf gwrthwynebiad i anghredinwyr ganu yn yr addoliad.

Wrth i'r awydd am ganu rhagorach amlhau, daeth galw cynyddol mewn llawer o eglwysi am offeryn i gynorthwyo'r cantorion, yn fwyaf arbennig yr organ. O ganlyniad i hyn fe glywid nifer o leisiau'n codi yn

ystod y ganrif yn erbyn defnyddio offerynnau yn yr addoliad. ⁽⁵²⁵⁾ Ni welai Rhisiart ab Ioan unrhyw beth o'i le mewn defnyddio offerynnau cerdd yn yr addoliad pan ysgrifennodd i'r Dysgedydd ym 1828, gan y defnyddid pob math o offerynnau yn y Deml. ⁽⁵²⁶⁾ Ond nid oedd pawb o bell ffordd yn unfryd unfarn ag ef. Bu gwrthwynebiad am flynyddoedd lawer yn eglwys y Methodistiaid Calfinaidd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestinog, i gael organ i gynorthwyo gyda'r canu. ⁽⁵²⁷⁾ Yn y Tabernacl, Caerdydd, bu'r gynulleidfa'n sefyll yn hir yn erbyn offer cerdd ac ni chafwyd organ yno hyd 1907. ⁽⁵²⁸⁾ Wrth ysgrifennu i'r Annibynwr ym 1860 fe ddywedai "Deacon dan ei Faich" mai arwydd pendant o ddirywiad mewn crefydd oedd fod offerynnau'n cael eu dwyn i mewn i'r capeli. Gwelai hyn fel symudiad tuag at ddefodaeth ac mai'r cam nesaf fyddai i'r gweinidogion wisgo gynau yn y gwasanaethau. ⁽⁵²⁹⁾ Anodd yw gwybod yn iawn pam fod y fath wrthwynebiad i ddefnyddio offerynnau cerdd yn yr addoliad, gan nad oes unrhyw ran o'r ysgrythur yn eu gwahardd. Hwyrach mai un rheswm oedd y cysylltai'r Cristnogion offerynnau gyda'r "byd" ac mai anghredinwyr a oedd yn eu defnyddio'n bennaf. Ond y gwir yw fod gwrthwynebiad i bopeth newydd; bu cyfnod pan ystyrid canu o lyfr, gan rai, yn arwydd o falchder a bydolrwydd. ⁽⁵³⁰⁾ Yn Seren Gomer, (1844), yr oedd D.Lloyd Isaac yn ateb nifer o gwestiynau a ofynnwyd gan D.Jones, Risca, mewn rhifyn blaenorol o'r cylchgrawn, ac wrth ateb dywed,

"Mae Satan wedi lladrata llawer tŷn dda; ac yn agos yr holl offerdd cerdd. Nid ydynt flewyn gwaeth fod Satan wedi eu harfer. Ffwrdd a'r rhagfarn, a'r dallineb, a'r ultra santeiddrwydd direol, dichwaeth, ac ystyfnig. Yn ôl i'r cyssegr a phob offeryn a thŷn ag sydd gyfaddas i *sacred music*." ⁽⁵³¹⁾

Erbyn diwedd y ganrif barn D.Lloyd Jones a'i debyg a orfu ac fe ddaeth offerynnau cerdd yn bethau cyffredin yn yr addoldai. Er hynny fe barhaodd y gwrthwynebiad i offerynnau drwy gydol y ganrif.

Dangoswyd gwrthwynebiad hefyd i'r gwaith o ddysgu canu. Yn nhyb rhai o'r tadau, nid rhywbeth y gellid ei ddysgu oedd canu mawl, ond rhodd gan Dduw trwy'r Ysbryd Glân. ⁽⁵³²⁾ Ceir llythyr gan "Addolwr y Gwir Dduw," yn y Dysgedydd (1842), sy'n dadlau'n gryf yn erbyn dysgu canu mewn ysgol gân. Mae ei ddadl yn erbyn cyfarfodydd canu yn driphlyg. Yn gyntaf fe bryderai fod cyfarfodydd i ddysgu canu yn rhoi argraff ar feddwl ieuenctid mai gwaith cyffredin oedd canu yn yr addoliad tebyg i unrhyw gelfyddyd arall. Drwy hyn fe gollid yr "eneiniad angenrheidiol i foliannu Duw tra yn ei addoli," h.y. fod canu emyn, trwy ei ddysgu'n drwyadl, yn troi'n fecanyddol ac arwynebol a bod canu yn yr addoliad o ganlyniad yn troi i fod yn fwy o gelfyddyd nac o fawl. Yn ail, teimlai bod ffurfio côr o gantorion, a fynychai'r ysgol gân, yn dieithrio'r addolwyr hynny nad oeddent yn alluog i fynd. Trwy hyn syrthiai'r canu yn yr oedfaon i'r côr yn unig gan amddifadu gweddill y gynulleidfa o'u cyfraniad. Yn drydydd, ofnai y byddai'r ffaith mai gwaith ychydig o gantorion oedd canu yn yr addoliad yn eu harwain i ddifyrru'r gweinidog a'r gynulleidfa yn hytrach nag addoli Duw. Dywed, "Os lle a gwaith er difyrwch yn unig ydyw, efallai y ceir mwy o ddifyrwch mewn chwareudy nag mewn addoldy." 'Roedd ofnau a phryderon "Addolwr y Gwir Dduw" yn ddigon rhesymol a naturiol, ac fe wireddwyd rhai o'i eiriau yn hwyrach yn y ganrif, drwy i ganu yn yr addoliad fynd yn bwysicach na'r addoli. Y mae "Addolwr y Gwir Dduw" yn terfynu ei erthygl gyda'r ergyd hon, "A oes angen ar yr eglwysi am gyfarfodydd dysgu canu yn fwy na rhai i ddysgu gweddio?". ⁽⁵³³⁾

Anhawster arall a wynebai'r Cyrff Ymneilltuol gyda'r twf aruthrol yn y diddordeb mewn canu, oedd fod anghredinwyr yn cael eu denu i'r capeli am y rhesymau anghywir. 'Roeddent yn mynd yno nid am unrhyw resymau ysbrydol ond oherwydd y ffaith syml eu bod yn mwynhau canu. Digwyddodd hyn

mewn llawer maes ym mywyd yr eglwysi Ymneilltuol fel y gwelwn maes o law. Ond gyda'r canu teimlai rhai'n gryf fod yn rhaid pwysleisio mai gwaith i Gristnogion yn unig oedd canu mawl i Dduw. Fe âi rhai mor bell â dweud na ddylid canu mawl mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac y dylid cyfyngu'r canu i'r cyfarfodydd eglwysig yn unig. Bu eglwys ym Morgannwg o fewn trwch y blewyn i ymrannu oherwydd dadl ar hyn. ⁽⁵³⁴⁾ Pan gychwynnwyd y Cymdeithasau cerddorol, fel y gwelwyd, 'roedd rheolau pendant y dylai'r cantorion fod yn Gristnogion, ond yn fuan fe ymddengys fod rheolau o'r fath wedi eu rhoi heibio.

Yn ardal Maentwrog byddai hen "ffidler" yn mynd o amgylch y tafarndai yn canu ei ffidil ac yr oedd wedi addo dysgu côr yr Eglwys i ganu. Parodd hyn anfodlonrwydd mawr ymhlith yr hen bobl, a dywedent mai peth cwbl anghyson oedd galw ar "was y cythraul" i ddysgu pobl i "folianu Duw." ⁽⁵³⁵⁾ Mynega Robert Roberts, Llangefni, y safbwynt hwn yn glir mewn erthygl o'i eiddo yn Seren Gomer (1827).

"Nid oes a fyno neb dynion â chlodfori Duw ar gân, hyd nes byddo iddynt gael eu dwyn yn breswylwyr tŷ yr Arglwydd.....Peth ag sydd mewn arferiad mawr y dyddiau hyn, yw dysgu canu; ac y mae yn ofidus meddwl fod cymmaint o drigolion y Dywysogaeth yn ymyraeth â gwaith ni pherthyna iddynt, canys y mae yn amlwg mai un o ddyledswyddau mwyaf ei phwys yw canu mawl i Dduw, yn nghynulleidfa y Saint....Mae yn ofynol, cyn y gellir canu mawl i Dduw, ein bod yn feddianol ar y pethau canlynol: (1) Ein bod yn meddu gras yn ein calonau. (2) Ein bod yn helaeth ym mhob doethineb. (3) Ein bod yn dysgu a rhybuddio ein gilydd. Pe byddai i ni ganu holl ddyddiau ein hoes, a hon cyhyd ag oes Methuselah, ac yn amddifad o'r pethau uchod, ni byddai ein canu, ar y gorau, ond moliant i ddiabol ac i ni ein hunain." ⁽⁵³⁶⁾

Mynegwyd yr un safbwynt yn union bron i ddeugain mlynedd yn ddiweddarach gan D. Richards, Caerffili, yn Y Beirniad (1866).

"Os na fydd yr addolwyr yn ddynion da, nis gall y mawl fod yn dda.....Dylai dyn fod yn gân wirioneddol ei hun. Dylai ei feddwl a'i galon, ei reswm a'i nwydau, ei fywyd mewnol ac allanol fod mewn cydgordiad a'u gilydd, a'r cwbl yn cydgordio a Duw...Y mae'n beth syn iawn fod dynion o feddyliau llygredig a bucheddau aflan mor bersaidd a digywilydd ag y beiddiant godi i ganu cyfuwch a neb yn y gynulleidfa santaidd, y penillion mwyaf difrifol a santaidd, heb yr un arwydd neillduol o deimlad...Rhaid i'r addolwyr fod yn ddynion da, onide nis gallant byth ganu yn dda." <537>

Gwaith anodd iawn oedd cadw disgyblaeth fanwl ar y rhai a oedd yn canu mawl, ac o dipyn i beth, yn y cyswllt hwn, gwelir mur arwahanrwydd, rhwng yr eglwys a'r byd yn cael ei erydu drwy i bobl ddod i'r capeli yn unig er mwyn y canu. Gwelodd "Chwibrenwr" y duedd hon yn amlwg pan ddywedodd, "edrychir ar gyfarfodydd canu fel *pastime* yn unig gan lawer - heb un dyben uwch mewn golwg na cheisio difyrwch ynddynt." <538> Fe gafodd John Thomas, Lerpwl, brofiad o'r bobl hyn pan oedd yn weinidog am dymor yng Nglyn-nedd; yn ei atgofion am y cyfnod hwnnw dywed, "daeth y canu a lluwys mawr o ddynion a merched ieuainc i'r eglwys, llawer o ba rai nad oedd gan ddim ond canu fawr swyn iddynt na dylanwad." <539>

Cyfraniad i'r Datblygiad.

Mae'r datblygiad a fu yn nghaniadaeth y cysegr yn bwysig i'r astudiaeth hon mewn amrywiol ffyrdd. Yn gyntaf, llwyddodd y diwygiad cerddorol i ddryllio nifer o ragfarnau oedd gan aelodau'r Cyrff Ymneilltuol tuag at bethau a sefydliadau arbennig. Daeth llawer o bethau a ystyrid yn fydol gynt yn barchus a derbyniol. Trwy'r datblygiadau cerddorol, i raddau, fe ddaeth eisteddfodau a chyngherddau'n bethau gweddus y gallid eu mynychu heb ofni diarddedliad na disgyblaeth eglwysig. Bellach, yn eu tyb hwy, nid eiddo'r "byd" oeddent ond eiddo'r Cristnogion, gan fod naws Gristnogol iddynt. Yn hyn o beth, am y tro cyntaf gwelwn fod y gwahaniaeth rhwng yr Eglwys a'r byd yn troi'n annelwig ac amhendant.

Yn ail, trwy'r ysgol gân a datblygiad y corau fe ddaeth nifer o gyfarfodydd atodol yn rhan o fywyd yr eglwysi. Mae'r datblygiad hwn yn allweddol yn y symudiad o'r sect i'r enwad. Gynt 'roedd yr holl gyfarfodydd yn gwbl Gristnogol a Beibl-ganolog, pynciau ysbrydol yn unig oedd yn cael eu trin a'u trafod ynddynt. Ond 'nawr, trwy'r diwygiad cerddorol, fe ddaeth cyfarfodydd o naws wahanol yn rhan o fywyd yr eglwysi. Gyda dyfodiad yr ysgol gân, y cymanfaoedd canu, yr eisteddfodau a'r cyngherddau, fe ddaeth cyfarfodydd nad oeddent yn eu hanfod yn ysbrydol eu naws i amserlen wythnosol y capeli. Cyfarodydd cymdeithasol, seciwlar oeddent wedi eu mabwysiadu gan y Cyrff a chydag arlliw Cristnogol iddynt. Yn yr ysgol gân nid Crist oedd y canolbwynt ond y canu, ac 'roedd hyn yn newid mawr oddi ar gyfarfodydd cyfan gwbl grefyddol dechrau'r ganrif. Byddwn yn ymhelaethu ar y pwynt hwn ar ddiwedd y traethawd.

Datblygiad arall diddorol a grybwyllir gan R.D.Griffiths yw fod y llyfrau emynau "enwadol" wedi bod yn rhannol gyfrifol am greu arwahanrwydd rhwng y Cyrff Ymneilltuol a'i gilydd. Bwriadai Joseph Parry⁽⁵⁴⁰⁾ gyhoeddi llyfr emynau cenedlaethol i Gymru gyfan, ond bu farw cyn cyflawni'r gwaith.⁽⁵⁴¹⁾ Yr un oedd bwriad Thomas Gee⁽⁵⁴²⁾ wrth gyhoeddi Canladau'r Cyssegr a'r Teulu, ond methodd y llyfr a chyrraedd safle llyfr cenedlaethol.⁽⁵⁴³⁾ Yn y cyfamser fe gyhoeddwyd llyfrau emynau gan y pedwar Corff Ymneilltuol; Y Llawlyfr Moliant, gan y Bedyddwyr ym 1890;⁽⁵⁴⁴⁾ Y Caniedydd Cynulleidfaol, gan yr Annibynwyr ym 1895;⁽⁵⁴⁵⁾ Llyfr Hymnau a Thonau y Methodistiaid Calfinaidd Ynghyd â Salmdonau ac Anthemau, gan y Methodistiaid Calfinaidd ym 1897⁽⁵⁴⁶⁾ a Llyfr Tonau ac Emynu y Methodistiaid Wesleyaidd, ym 1904.⁽⁵⁴⁷⁾ Oherwydd gosodiadau gwahanol i'r tonau a'r newid a fu ar eiriau rhai o'r emynau gan bwyllgorau'r llyfrau emynau nid oedd hi'n rhwydd i gynulleidfaedd y gwahanol Gyrff gyd-ganu.

Pwysleisiai'r llyfrau emynau arwahanrwydd y Cyrff Ymneilltuol mewn ffordd na welwyd o'r blaen.

Cyn gorffen hoffem grybwyll canlyniad arall i'r defnydd o lyfrau emynau mewn addoliad sef eu bod yn anochel yn creu rheol a threfn. Wrth i'r llyfrau emynau ennill eu plwyf daeth yn beth chwithig i ledio emynau nad oeddent yn y llyfrau, hwylusach o lawer oedd defnyddio'r emynau a oedd â thonau yn gysylltiedig â hwy. Drwy hyn gwastrodwyd rhywfaint ar elfennau annisgwyl a chynhyrfus yr addoliad gan fod y llyfrau emynau'n lyffetheiriau i fynegiant naturiol yr addolwyr. I raddau 'roedd y llyfrau'n creu caethiwed wrth foli oedd yn gallu troi yn ffurfioldeb ac yn y pen draw yn arfer. Un o nodweddion sylfaenol y sect yw addoliad rhydd dilyffethair, nodwedd yr enwad yw traddodiad, trefnusrwydd ac arferiad. Bu'r diwygiad cerddorol yn rhan bwysig o ddatblygiad y Cyrff Ymneilltuol tuag at enwadyddiaeth.

Heb os nac oni bai mae'r ffeithiau y cyfeiriwyd atynt yn yr adran hon yn allweddol er mwyn deall y newid fu yn natur y Cyrff Ymneilltuol. Y ddau newid pwysicaf oedd; yn gyntaf, symud Cristnogaeth o'r aelwyd i'r capel; ac yn ail, ffrwyno ymddygiad naturiol yr addolwyr gan eu dysgu i ymddwyn yn "weddus" mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Yn sgil hyn fe ddeuai ffurfioldeb a threfn a fyddai'n mygu y nodweddion sectyddol. Yn y ddwy adran sydd yn weddill fe nodir tystiolaeth pellach am y newid hwn.

Gwerin. (t. 148 - 153)

1. Gw., W.Hobley, Hanes Methodistiaeth Arfon, Dosbarth Bangor, (Cyhoeddiedig gan y Cyfarfod Misol, 1924), 472.
Am ofergoaliaeth gw., Enid P. Roberts, Detholion o Hunangofiant Gweirydd Ap Rhys, (Y Clwb Llyfrau Cymraeg, 1949), 26-30, 139-40, John Price Rowlands & Thomas Hughes, Cofiant y Parch. John Evans, Eglwysbach, (Bangor, 1903), 263, Evan Isaac, Coelion Cymru, (Aberystwyth, 1938), Y Dysgedydd, 1847, 'Swynyddiaeth,' 12, Ibid., 1867, 'Ofergoalio Cymru,' 185, Seren Gomer, 1825, 'Sêr ddewiniaeth,' 38, John Thomas, Cofiant y Parch. T. Rees, Abertawy, (Dolgellau, 1898), 25-6, Owen Jones, Hanes Ysgolion Sabbathol Dosbarth Ffestiniog, (Blaenau Ffestiniog, 1906), 1842, 180, D. Morgan Lewis, Cofiant y Diweddar Barchedig Evan Lewis, Brynberian, (Aberystwyth, 1903), 6, 18, "Clywed am droseddau mawr gan un ac arall o'r rhai sydd ar enw Crist yn ein plith, nid llai na myned at ddewines i 'mofyn hysbysrwydd." Llawysgrifau Dr. W. Morgan, Llyfrgell Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, casgliad cyffredinol, rhif 2335-9, Mai 3, 1842, 22, R.W. Jones, Bywyd Cymdeithasol Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif, (Llundain, 1931), 90-103, W. Lliedi Williams (gol.), Hunangofiant ac Ysgrifau Ap Fychan, (Caerdydd, 1948), 37, John William Jones (Andronicus), Adgofion Andronicus, (Caernarfon, 1894), 97, Yr Eurgrawn, 1821, 'Ar ofn ysbrydion,' 67, Ibid., 1823, 'Consurwr,' 253, 301, Ibid., 1824, 'Ysbrydion', 53, Ibid., 1835, 'Dyddiau y cwn', 243-4, Ibid., 1848, 'Llythyr ar gonsuriaeth', 177, 277, Ibid., 1848, 'Dewiniaeth', 143, Ibid., 1849, 'Ofergoeldd', 340, Y Diwygiwr, 1854, 'Dewiniaeth,' 49, Ibid., 1860, 'Ofergoaliaeth,' 69, 191, 133, Ibid., 1872, 'Dewiniaeth,' 209.
2. W.Hobley, Hanes Methodistiaeth, Arfon, Dosbarth Bangor, (Cyfarfod Misol Arfon, 1924), 475, Gw., Owen Thomas & J. Machreth Rees, Cofiant John Thomas D.D. Liverpool, (Llundain, 1898), 152-3.
3. T. Roberts & D. Roberts, Cofiant y Parch. W. Rees D.D., (Dolgellau, 1893), 125.
4. D.J. Roberts, Capel Mair Abertafli, (Llandysul, 1955), 101.
5. Robert Edwards, Adgofion neu Hanes Crefydd yn Llanfechell a'r Cylch, (Dinbych, 1910), 21.
6. Simon B. Jones, Hanes Peniel a Bwlchycorn, (Llandysul, 1938), 44-50.
7. John Jones, Cofiant a Phigion o Bregethau y Parch. Michael Roberts, Pwllheli, (Pwllheli, 1883), 142, Gw., Owen Jones, Hanes Ysgolion Sabbathol Dosbarth Ffestiniog, (Blaenau Ffestiniog, 1906), 43, Am hanes 'Rotch Cadle', gw., John Thomas, Hanes Eglwysi Annibynol Cymru, (Dolgellau, 1891), cyfrol 2, 12, John Hughes, Methodistiaeth Cymru, (Wrecsam, 1851), cyfrol 1, 'Troedigaethau Hynod yn Foddion Cynydd', 315-325.
8. John Price Rowlands & Thomas Hughes, Cofiant y Parch. John Evans, Eglwysbach, (Bangor, 1903), 250.
9. Ibid., 237.
10. John Jones, Cofiant a Phigion o Bregethau y Parch. Michael Roberts, Pwllheli, (Pwllheli, 1883), 109.
11. D.S. Jones, Chwilog, Cofiant Darluniadol y Parchedig William Williams o'r Wern, (Dolgellau, 1894), 326.

12. John Price Rowlands & Thomas Hughes, Cofiant y Parch. John Evans, Eglwysbach, (Bangor, 1903), 220-1.
13. Henry Hughes, Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru, (Caernarfon, 1906), 436-7.
14. Ibid., 402.
15. Owen Davies, Cofiant y Parch. R. Jones, Llanllyfni, (Llangollen, 1903), 105.
16. D.S. Jones, Cofiant Darluniadol Williams o'r Wern, (Dolgellau, 1894), 15.
17. Robert Jones, Cofiant John Elias, (Lerpwl, 1850), 3.
18. J. Thomas, Cofiant T. Rees, D.D., Abertawy, (Dolgellau, 1898), 15.
19. M.D. Jones & D.V. Thomas (gol.), Cofiant a Thraethodau Duwinyddol y Parch. R. Thomas (Ap Vychan) Bala, (Dolgellau, dim dyddiad), 11, 30.
20. Am Owen Thomas (1812-91) gw., Bywg., 901.
21. Iolo Caernarfon, Cofiant Owen Thomas, (Caernarfon, dim dyddiad), 17, 18-20, 41.
22. Enid P. Roberts, Detholion o Hunangofiant Gweirydd Ap Rhys, (Y Clwb Llyfrau Cymraeg, 1949), 44, 91-103.
23. John E. Davies, James Hughes saf Cyfrol Goffa, (Dinbych, 1911), 40, 64.
24. Owen Jones, Hanes Bywyd Robert Tomos, Lliidiardau, (Wrecsam, 1869), 25.
25. H. Jones, Cofiant y Parch. W. Roberts, Amlwch, (Llannerch-y-medd, 1869), 12-3.
26. D. Avan Griffith, Cofiant y Parch. D. Williams, Troedrhiwdalar, (Llandello, 1877), 17-18.
27. Owen Thomas, Cofiant John Jones, Talysarn, (Wrecsam, 1874), 78-79.
28. Ibid., ail gyfrol, 972.
29. Gw., R. Thomas, Cadwaladr Jones, Dolgellau, (Lerpwl, 1870), 162. J.E. Davies, James Hughes saf Cyfrol Goffa, (Dinbych, 1911), 161. H. Jones, Cofiant y Parch. W. Roberts, Amlwch, (Llannerch-y-medd), 43. Griffith Owen, Cofiant Cadwaladr Owen, (Wrecsam, 1896), 154-6. D. Morgan Lewis, Evan Lewis Brynbarian, (Aberystwyth, 1903), 219.

Ar yr Aelwyd. (t. 154 - 163)

30. E. Davies & A. D. Rees (gol.), Welsh Rural Communities, (Caerdydd, 1960), Trefor M. Owen, 'Chapel and Community in Glan-llyn, Meirioneth,' 206-11.
31. R. Thomas, Cofiant Cadwaladr Jones, Dolgellau, (Lerpwl, 1870), 10.
32. Am Griffith Jones, Tregarth, (1808 - 86), gw., Bywg., 436.
33. J. Mostyn Jones (gol.), Cofiant, Pregelthau a ffraethbion y Parch Griffith Jones, Tregarth, (Bala, 1887), 29.

34. R.Thomas, Cofiant Cadwaladr Jones, Dolgellau, (Lerpwl, 1870), 207.
35. H.Jones, Cofiant y Parch. W.Roberts, Amlwch, (Llannarch-y-medd, 1869), 40, Gw., Robert Edwards, Hanes Llanfechell, (Dinbych, 1910), 27.
36. Griffith Owen, Cofiant Cadwaladr Owen, (Wrecsam, 1896), 321.
37. Owen Thomas & J.Machreth Rees, Cofiant y Parchedig John Thomas, Lerpwl, (Llundain, 1898), 80.
38. Aa D. Williams, Troedrhiwdalar, (1779 -1874), gw., Bywg., 970.
39. David Avan Griffith, Cofiant y Parch. David Williams, Troedrhiwdalar, (Llandeilo, 1877), 100.
40. D.Avan Griffith, Cofiant David Williams, Troedrhiwdalar, (Llandeilo, 1877), 114, Gw., John Price Roberts a Thomas Hughes, Cofiant y Parch. John Evans, Eglwysbach, (Bangor, 1903), 77-78.
Aa ragor o enghraifftiau o bregethu mewn tai gw., R.Owen, Hanes Methodistiaeth Gerllewin Mairionnydd, (1888), 78, 81, 105, 121, 139, 306, Am ddisgrifiad o ddachrau Diwygiad Baddgelert, Awst 1817, pan bregethai Richard Williams, Brynangan, yn sefyll ar fainc wrth fwrdd mawr y gegin yn ffermdy Hafod-y-llan, Baddgelert, gw., Henry Hughes, Diwygiadau Crefyddol Cymru, (Caernarfon, 1906), 261-62, John Roberts, Ychydig o Hanes y Diweddwr Barchedig Lewis Rees, (Caerfyrddin, 1812), 7.
41. Jacob Treharne, Hanes Eglwys Annibynol, Ebenezer, Aberdar, (Aberdar, 1898), 40, gw., hafyd, 29.
42. Owen Thomas & J.Machreth Rees, Cofiant y Parchedig John Thomas, Lerpwl, (Llundain, 1898), 62.
43. Robert Edwards, Hanes Crefydd yn Llanfechell, (Dinbych, 1910), 71-2, gw., hafyd 39, 76, 105.
44. Aa Evan Herber Evans (1836-96), gw., Bywg., 218.
45. Y Dysgedydd, 1883, 123, Gw., hafyd H, Elvat Lewis, Cofiant y Parch. E.Herber Evans D.D., (Wrecsam, 1901), 11.
46. Y Dysgedydd, 1883, 124.
47. D.Avan Griffith, Cofiant David Williams, Troedrhiwdalar, (Llandeilo, 1877), 103.
48. Aa John Thomas ('Siôn Wyn o Eifion'; 1786-1859), gw., Bywg., 893-94.
49. T.Rees & J.Thomas, Hanes Eglwysi Annibynol Cymru, (Lerpwl, 1871), cyfrol 3, 195.
50. Owen Jones, Hanes Ysgolion Sabbothol Nosbarth Ffestiniog, (Blaenau Ffestiniog, 1906), 16, 23, 24, 34, 36, 44-5, 49, 51, 55, 57, 66, 67, 77 102, 106, 121, 125, 130, &c.
51. Thomas Gwynn Jones, Cofiant Thomas Gee, (Dinbych, 1913), cyfrol 1, 82, Gw., John Foulkes, Dachreud a Chynnydd yr Ysgolion Sabbothol yn Nosbarth Rhuthyn, (Dinbych, 1870).
52. Simon B.Jones, Hanes Peniel a Ewlchycorn, (Llandysul, 1938), 40.

53. J.T.Evans, Hanes Eglwys Annibynol Pantycrwys, Craigcefnparc o 1847-1947, (Treforus, 1947), 9.
54. Owen Jones, Hanes Ysgolion Sabbothol Dosbarth Ffestiniog, (Blaenau Ffestiniog, 1906), 36-7.
55. Am Michael Daniel Jones (1822-98), gw., Bywg., 466.
56. E. Pan Jones, Oas a Gwaith y Prif Athraw y Parch. Michael Daniel Jones, (Bala, 1903), 53. E. Davies & A. D. Rees (gol.), Welsh Rural Communities, (Caerdydd, 1960), Trefor M. Owen, 'Chapel and Community in Glan-llyn, Meirioneth,' 212.
57. R.T.Jenkins, Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn, (Bala, 1937), 136-37, 184, 189-91, 192.
58. Am Arthur Jones (1776-1860), gw., Bywg., 419.
59. D.Avan Griffith, Cofiant David Williams, Troedrhwdalar, (Llandailo, 1877), 103.
60. Owen Davies, Cofiant a Llythyrau y Parch. Robert Jones, Llanllyfni, (Llangollen, 1903), 48-9.
61. Jacob Treharne, Hanes Eglwys Annibynol Ebenezer, Aberdar, (Swyddfa'r Darian, Aberdar, 1898), 8-10.
Am ragor o enghreifftiau o achosion yn cychwyn mewn tai gw., John Price Roberts a Thomas Hughes, Cofiant y Parch. John Evans, Eglwysbach, (Bangor, 1903), 62, John Hughes, Hanes Methodistiaeth Cymru, (Wrecsam, 1854), yr ail gyfrol, 169, 173, 178, 181, 188, 203, 204, 209, 216, 217, 224, 225 &c. T.Rees, & J.Thomas, Hanes Eglwys Annibynol Cymru, (Lerpwl, 1871), y gyfrol gyntaf, 163, 176, 177, 181, 184, 189, 196, 197, 201, 205, 208, 215, &c.
62. Owen Jones, Hanes Ysgolion Sabbothol Dosbarth Ffestiniog, (Blaenau Ffestiniog, 1906), 77.
63. Owen Jones, Hanes Ysgolion Sabbothol Dosbarth Ffestiniog, (Blaenau Ffestiniog, 1906), 190.
64. J. Mostyn Jones, Cofiant, Pregarthau a Ffraethebion, y Parch. Griffith Jones, Tregarth, (Bala, 1887), 29.
65. Ibid.
66. E. Davies & A. D. Rees (gol.), Welsh Rural Communities, (Caerdydd, 1960), Trefor M.Owen, 'Chapel and Community in Glan-llyn, Meirioneth,' 213.

Y Ddyletswydd. (t. 164 - 176)

67. Gomer M. Roberts, Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 2, (Caernarfon, 1978), 230. Gw., hefyd J.I.Packer, Among God's Giants, (Eastbourne, 1991), 337.
68. Roger Edwards, Y Gofadail Fethodistaidd: sef. Pregarthau gan Ddeugain o Weinidogion Ymadawedig y Methodistiaid Galfinaidd, (Gyffin, 1892), 38-64. Gw., hefyd, J.T.Parry (gol.), Pulud Annibynol Ceredigion, (Pencader, 1903), T.J.Morris, 'Crefydd yn y Taulu', 39-44, Pregarthau.....y Parch. W. Morris, Cilgeran, (Dinbych, 1873), 'Crefydd Deuluaid', 71-79, Owen Thomas (gol.),

- Pregethau... Edward Morgan, Dyffryn, (Dolgellau, 1876), 'Addoliad Teuluaidd yn Fendith i'r Ty,' 401 - 18.
69. Ibid., 43-44, Gw., hefyd, Yr Eurgrawn, 1840, 'Dyledswydd rhieni', 183, Ibid., 1846, 'Gair at rieni', 202. Ibid., 1852, 'Dyledswydd gyntaf rhieni', 233, Y Diwygiwr, 1841, 'Dyledswyddau Rhieni,' 175, Ibid., 1855, 'Addysgiaeth Grefyddol Foraol,' 357, Ibid., 1868, 'Dyledswydd Rhieni a Phlant Tuag at eu Gilydd,' 139, Y Cronicl, 1845, 'Anerch at Rieni,' 17, Ibid., 1847, 'Magu Plant,' 114, Ibid., 1856, 'Dyledswydd Rhieni at eu Plant,' 217, J.Griffiths, Tŷ Ddewi, Pregath ar Dyledswyddau Rhieni Tuag at Eu Plant, (Treffynnon, 1847).
70. J.T.Parry (gol.), Pulud Annibynol Ceredigion, (Pencader, 1903), T.J.Morris, 'Crefydd yn y Teulu', 45.
71. Ibid., 53-4, Gw., D.Morgan Lewis, Cofiant y Diweddar Barchedig Evan Lewis Brynberian, (Aberystwyth, 1903), 'Crefydd Deuluaidd,' 290-97.
72. Y Dysgedydd, 1878, 311.
73. S.Robert, Drefnewydd, yw Samuel Roberts, Llanbryn-mair, ('S.R.,'; 1800-85), gw., Bywg., 825-26, Yr oedd yn fyfyrwr yn Academi Drefnewydd ar y pryd.
74. Y Dysgedydd, 1826, 62-3, Gw., Y Dysgedydd, 1827, 136, 310, Ibid., 1828, 9, 179, Ibid., 1857, 291, Ibid., 1863, 293, Ibid., 1867, 'Allor y Teulu,' 283, Ibid., 1869, 41, 78, 110, 368, Ibid., 1891, 14, 296, 317, Ibid., 1882, 11, 48, 83, 124, 152, 190, 230, 266, 335, Ibid., 1893, 122, Y Drysorfa, 1854, 396, Yr Eurgrawn, 1837, 'Darlun Teulu dedwydd', 79, Y Cronicl, 1848, 'Rheolau Dedwyddwch Teuluaidd,' 250, Y Diwygiwr, 1861, 'Dedwyddwch Deuluaidd, 193, Seren Gomer, 1865, 'Y Teulu Dedwydd,' 16-26.
75. Y Dysgedydd, 1853, 128-9.
76. Y Dysgedydd, 1857, 292.
77. Ibid.
78. W.Ambrose (Emrys), Adgofion fy Ngweinidogaeth, rhagymadrodd gan H. Elvet Lewis, (Dolgellau, dim dyddiad), 211.
79. Gw., Y Dysgedydd, 1828, 144, Ibid., 1848, 53, Ibid., 1853, 125, 150, 350, Ibid., 1857, 57, Ibid., 1878, 309, Ibid., 1893, 122, Y Gwiniogwerth, 1848, 215. Am Addoliad Teuluol gw., Y Diwygiwr 1835, 36, 322, Ibid., 1838, 'Rheolau Teuluaidd,' 268, Ibid., 1841, 'Gweddi Deuluaidd,' 7, 102, Ibid., 1846, 'Addoliad Teuluaidd,' 293, Ibid., 1853, 'Esgeulustod y Grefydd Deuluaidd,' 167, Ibid., 1856, 'Crefydd Deuluaidd,' 14, Ibid., 1858, 'Crefydd Deuluaidd,' 325, 'Addysg Deuluaidd,' 208, Ibid., 1862, 'Addysg yr Aelwyd,' 257, Ibid., 1864, 'Addoliad Teuluol,' 277, Y Drysorfa, 1857, 'Crefydd y Teulu,' 293, Ibid., 1864, 'Y Teulu,' 163., 208, Ibid., 1867, 'Addysg ac Addoliad Teuluaidd, 316, D.Morgan Lewis, Cofiant y Diweddar Barchedig Evan Lewis Brynberian, (Aberystwyth, 1903), 'Crefydd Deuluaidd,' 290 - 97, Roger Edwards, Y Gofadail Fethodistaidd: saf. Pregethau gan Ddeugain o Weinidogion Ymadawedig y Methodistaidd Calinaidd, (Gyffin, 1892), 38-64, Joshua Lewis, Yr Amserau Presenol, pennod 5, J.T.Parry (gol.), Pulud Annibynol Ceredigion, (Pencader, 1903), 'Crefydd yn y Teulu,' gan T.J.Morris, 39-44, Yr Eurgrawn, 1820, 'Pregath ar Genesis 18;19', 294-302, Ibid., 1822, 'Y perygl o esgeuluso gweddi deuluaidd', 259, Ibid., 1833, 'Crefydd deuluaidd', 111, Ibid., 1836, 'Yr hyfforddwr teuluaidd', 307-8, Ibid., 1839, 'Addysg deuluaidd', 278, Ibid., 1839, 'Dyledswydd deuluaidd', 184, Ibid., 1841,

- 'Crefydd dauluaidd', 111. Ibid., 1842, 'Effeithiau da o weddi dauluaidd', 179. Ibid., 1844, 'Allor dauluaidd', 351. Ibid., 1855, 'Y Drych Teuluaidd', 20. Ibid., 1864, 'Yr allor dauluaidd', 30. Y Cronicl, 1849, 'Athrofa yr Aelwyd,' 335. Ibid., 1851, 'Crefydd Dauluaidd,' 178. Ibid., 1854, 'Gweddi Dauluaidd,' 243. Ibid., 1857, 'Yr Adeiladydd Teuluaidd,' 101. Ibid., 1868, 'Cadw Dyledswydd,' 297. Ibid., 1873, 'Addysg Dauluaidd,' 267, 'Addysg yr Aelwyd,' 234. Seren Gomer, 1860, 'Crefydd Dauluaidd,' 289. Ibid., 1861, 'Addysg Dauluaidd,' 155, 214.
80. E. Davies & A. D. Rees (gol.), Welsh Rural Communities, (Caerdydd, 1960), Trefor M. Owen, 'Chapel and Community in Glan-llyn, Meirioneth,' 211-13.
81. Y Dysgedydd, 1873, 279.
82. Y Dysgedydd, 1855, 191. Ibid., 1863, 154. Ibid., 1865, 248. Ibid., 1875, 19. Ibid., 1878, 309. David Price, Yr Adeiladydd Teuluaidd, (Dinbych, 1857). J. Griffiths, Pregath ar Dyledswyddau Rhieni Tuag at eu Plant, (Treffynnon, 1847). D. Thomas, Y Teulu a'r Eglwys, (Abertawe, 1865), cyfieithiwyd i'r Gymraeg gan E. Griffiths, Abertawe, Yr Eurgrawn, 1860, 'Y ddyledswydd o hyfforddi plant', 292.
83. J. Roberts, Y Gyfrol Olaf o Bregethau: gan J.R., (Bala, 1876), 193.
84. D. Thomas, Highbury, Bryste, Y Teulu a'r Eglwys: neu Gyfrifoldeb Rhieni Cristnogol, (Abertawe, 1865), 2.
85. Yr Annibynwr, 1860, 269.
86. Ibid. Gw., Yr Annibynwr, 1860, 173-4.
87. D. Thomas, Highbury, Bryste, Y Teulu a'r Eglwys: neu Gyfrifoldeb Rhieni Cristnogol, (Abertawe, 1865), 27.
